# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 24/09/2014

Cynnwys Contents


[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Questions to the Minister for Natural Resources]

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty]

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gwasanaethau'r GIG
Welsh Conservatives Debate: NHS Services]

[Dadl Plaid Cymru: Y Berthynas Rhwng Cenhedloedd y DU
Plaid Cymru Debate: UK Relations]

[Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Cyfranogiad Pobl Ifanc mewn Gwleidyddiaeth
Welsh Liberal Democrats Debate: Participation of Young People in Politics]

[Cyfnod Pleidleisio
Voting Time]

[Dadl Fer: Ansawdd Mynediad—Pwysigrwydd Gofal Plant o ran Sicrhau bod Teuluoedd Incwm Isel neu Deuluoedd Un Rhiant yn Gallu Cael Mynediad i'r Gweithle
Short Debate: Quality of Access—the Importance of Childcare in Allowing Low Income or Lone Parent Families to Access the Workplace]


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr mewn sesiwn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

## Questions to the Minister for Natural Resources

### TB mewn Gwartheg

### Bovine TB

13:30

## Mick Antoniw

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru mewn perthynas â rheoli TB mewn gwartheg? OAQ(4)0189(NR)*

*1. Will the Minister provide an update on the progress being made in Wales to control bovine TB? OAQ(4)0189(NR)*

13:30

## Rebecca Evans

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

The latest figures, published on 10 September, show that we continue to make progress in tackling bovine TB in Wales. New herd incidents to July 2014 were down 18% on the previous year, and the number of cattle slaughtered as a result of TB was down 27% on the previous year.

Mae'r ffigurau diweddaraf, a gyhoeddwyd ar 10 Medi, yn dangos ein bod yn parhau i wneud cynnydd wrth fynd i'r afael â TB mewn gwartheg yng Nghymru. Roedd yr achosion newydd mewn buchesi hyd at fis Gorffennaf 2014 18% yn llai na'r flwyddyn flaenorol, ac mae nifer y gwartheg a laddwyd o ganlyniad i TB 27% yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

13:30 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. Earlier this year, the Department for Environment, Food and Rural Affairs' own independent assessment of its 2013 badger cull in England concluded that it had been neither effective nor humane, and a subsequent announcement that a further cull would not proceed was widely welcomed, before the Secretary of State changed his mind and postponed a cull to 2015. Would the Minister agree with me that, by bringing forward the date of the cull to before the general election, the new Secretary of State has demonstrated her enthusiasm for placating the farming lobby, rather than following the science, as is done here in Wales?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Yn gynharach eleni, casglodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yn sgîl ei hasesiad annibynnol ei hun o ymgyrch ddifa moch daear 2013 yn Lloegr na fu'r ymgyrch yn effeithiol nac yn ddi-boen, a rhoddwyd croeso brwd i'r cyhoeddiad dilynol na chynhelid ymgyrch ddifa bellach, cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol newid ei feddwl a gohirio difa pellach tan 2015. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno â mi y bu i'r Ysgrifennydd Gwladol, trwy osod dyddiad y cynllun difa cyn yr etholiad cyffredinol, fod yr Ysgrifennydd Gwladol newydd wedi dangos ei brwdfrydedd dros blesio'r lobi ffermio, yn hytrach na dilyn y wyddoniaeth, fel sy'n digwydd yma yng Nghymru?

13:31 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. I have to say that badger culling in England is a matter for DEFRA Ministers. However, my officials are in regular contact with DEFRA officials, and we naturally take great note of what is happening there. However, the world is watching what we are doing and, make no mistake about it, Wales is at the forefront of international efforts to fight bovine TB. The British Cattle Veterinary Association recently held a prestigious international conference in Cardiff, which was the opportunity to showcase our model. Attendees included the World Health Organisation, European Governments and the European Commission, and they were all here to see what we are doing. Indeed, members of the European Commission's food and veterinary office are here this very week, looking at what we are doing, and learning from us.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae'n rhaid i mi ddweud bod difa moch daear yn Lloegr yn fater i Weinidogion DEFRA. Fodd bynnag, mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â swyddogion DEFRA, ac rydym yn naturiol yn cymryd sylw mawr o'r hyn sy'n digwydd yno. Fodd bynnag, mae'r byd yn gwylio'r hyn rydym yn ei wneud, gallwch fod yn sicr o hynny ac mae Cymru ar flaen y gad yn yr ymdrechion rhyngwladol i ymladd TB mewn gwartheg. Yn ddiweddar cynhaliodd Cymdeithas Filfeddygol Gwartheg Prydain gynhadledd ryngwladol fawreddog yng Nghaerdydd, a oedd yn gyfle i arddangos ein model. Yn bresennol roedd Sefydliad Iechyd y Byd, Llywodraethau Ewropeaidd a'r Comisiwn Ewropeaidd, ac roeddynt i gyd yma i weld yr hyn rydym yn ei wneud. Yn wir, mae aelodau o swyddfa bwyd a milfeddygon y Comisiwn Ewropeaidd yma'r wythnos hon, yn edrych ar yr hyn rydym yn ei wneud, a dysgu oddi wrthym.

13:32 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Back to Welsh questions, Deputy Minister, you will be aware of the pending changes to our bovine TB rules, particularly around the testing regime, which will come into force on 1 October. The issue of summer grazing has been raised with me, specifically by those farmers who have cattle on rented summer grazing land, where there may be a lack of suitable and safe cattle handling facilities to carry out TB tests. One solution could be isolating the cattle when they return to the farm and conducting a post-movement test. Can you confirm whether Welsh Government will take this commonsense approach?

Yn ôl i'r cwestiynau Cymreig, Ddirprwy Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i'n rheolau TB mewn gwartheg, yn enwedig o gwmpas y drefn brofi, a fydd yn dod i rym ar 1 Hydref. Mae mater pori yn yr haf wedi cael ei godi gyda mi, yn arbennig gan y ffermwyr hynny sydd â gwartheg ar dir pori yn yr haf ar rent, lle y gall fod diffyg cyfleusterau trin gwartheg addas a diogel i gynnal profion TB. Un ateb o bosibl fyddai ynysu'r gwartheg wrth iddynt ddychwelyd i'r fferm a chynnal prawf ar ôl symud. A allwch chi gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio dull synnwyr cyffredin ar gyfer hyn?

13:32 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the question. He is right to say that, after the end of this month, there will be no pre-movement testing exemption for movements within sole occupancy authorities. However, there are very good reasons for this. Until now, it has been possible to have a main premises in the high-risk area of north Pembrokeshire and also an SOA on the low-risk island of Anglesey. Until now, you have been able to move cattle between those places, without testing. I think that that presents us with an unacceptable disease risk, and we are dealing with that through these changes.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Ar ôl diwedd y mis hwn, mae'n iawn dweud na fydd dim eithriad i'r profion cyn symud ar gyfer symudiadau o fewn awdurdodau meddiannaeth unigol. Fodd bynnag, mae rhesymau da iawn am hyn. Hyd yn hyn, mae wedi bod yn bosibl cael prif adeilad yn ardal risg uchel gogledd Sir Benfro a hefyd Awdurdod Meddiannaeth Unigol ar yr ynys risg-isel Môn. Hyd yn hyn, rydych wedi gallu symud gwartheg rhwng y lleoedd hynny, heb brofion. Credaf fod hynny'n enghraifft o risg annerbyniol o ledaenu'r clefyd, ac rydym yn datrys hynny gyda'r newidiadau hyn.

I am grateful to farmers for their co-operation with this. You will know that this new regime coincides with the introduction of interim land association management agreements, which will allow certain movements of this type to continue in the short term. We have written to all affected farmers, and they should contact the Animal Health and Veterinary Laboratories Agency for further information, if they have any concerns.

Rwy'n ddiolchgar i ffermwyr am eu cydweithrediad gyda hyn. Byddwch yn gwybod bod y drefn newydd yn cyd-daro â chyflwyno cytundeb Rheoli Cysylltiadau Tir Dros Dro (ILAM), a fydd yn caniatáu i fathau penodol o symud barhau yn y tymor byr. Rydym wedi ysgrifennu at bob ffermwr yr effeithir arnynt, a dylent gysylltu ag Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol am ragor o wybodaeth, os oes ganddynt unrhyw bryderon.

13:33

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gwnaeth Plaid Cymru arwain ymgyrch lwyddiannus yn yr ail Gynulliad yn erbyn system werthuso newydd ar gyfer iawndal TB. Erbyn hyn, mae ymgynghoriad diweddaraf y Llywodraeth yn amlinellu'r system o dalu iawndal yn ôl prisiau cyfartaledd. Ydy'r Dirprwy Weinidog yn gwerthfawrogi y byddai hynny'n arwain at dalu rhy ychydig o iawndal i berchnogion y gwartheg gorau, ac at dalu gormod o iawndal i berchnogion y gwartheg salaf, ac ydy hi am gytuno bod angen rhagor o hyblygrwydd mewn system o'r fath, er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaeth gwerth sydd yna ymhlith ein stoc yng Nghymru?

Plaid Cymru led a successful campaign in the second Assembly against a new valuation system in terms of TB compensation. The latest Government consultation outlines a system of paying compensation according to average prices. Does the Deputy Minister appreciate that that would lead to paying too little compensation to owners of the finest cattle, and paying too much to the owners of the poorest quality cattle, and would she agree that we need greater flexibility in such a system in order to reflect the difference in the value of the stock in Wales?

13:34

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member refers to the consultation document that was published earlier in the summer. On 18 July, I announced that I would ask my officials to consider all of those responses, some of which echo the arguments that you have made. It is my intention to make a statement on the next steps next month.

Mae'r Aelod yn cyfeirio at y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd yn gynharach yn yr haf. Ar 18 Gorffennaf, cyhoeddais y byddwn yn gofyn i'm swyddogion ystyried yr ymatebion hynny i gyd, mae rhai ohonynt yn adleisio'r dadleuon rydych wedi'u gwneud. Mae'n fwriad gennyf wneud datganiad ar y camau nesaf y mis nesaf.

13:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Before we move to question 2, I remind Members that this is question time and not questions with great introductions, so please ask concise questions.

Cyn inni symud i gwestiwn 2, carwn atgoffa'r Aelodau mai amser cwestiynau yw hwn nid cwestiynau gyda chyflwyniadau hir, felly cofiwch ofyn cwestiynau cryno.

### Lefelau Incwm Ffermydd

### Farm Income Levels

13:35

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau incwm ffermydd yng Nghymru? OAQ(4)0190(NR)*

*2. Will the Minister make a statement on farm income levels in Wales? OAQ(4)0190(NR)*

13:35

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Average farm incomes in Wales have increased by around one fifth over the period 2003-04 to 2012-13. Based on the most recent forecasts, average farm incomes in Wales are estimated to increase by around 32% in 2013-14 to £37,300. Actual farm income figures are due to be published in November.

Mae incwm ffermydd ar gyfartaledd yng Nghymru wedi cynyddu o tua un rhan o bump dros y cyfnod 2003-04 i 2012-13. Yn seiliedig ar y rhagolygon mwyaf diweddar, amcangyfrifir y bydd incwm ffermydd ar gyfartaledd yng Nghymru yn cynyddu tua 32% yn 2013-14 i £37,300. Mae ffigurau incwm ffermydd gwirioneddol i fod i gael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd.

13:35 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am very grateful to the Minister for that detailed response. Back in the Royal Welsh Show this year, together with my friend Roger Williams, the MP for Brecon and Radnorshire, I took part in a peaceful protest at the Tesco stand. We were protesting against the marginalisation that farmers have felt that they are suffering in relation to the prices that they receive for their quality food. At that time, Deputy Minister, you gave an undertaking, which was press-released, to organise an event that would take account of this and actually engage with the supermarkets and the farming sector. Could you update us please on the progress that has been made in that regard?

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am yr ateb manwl. Yn Sioe Frenhinol Cymru eleni, ynghyd â'm ffrind Roger Williams, yr Aelod Seneddol dros Frycheiniog a Sir Faesyfed, bu i mi gymryd rhan mewn protest heddychlon ar stondin Tesco. Roeddem yn protestio yn erbyn y ffordd y mae ffermwyr yn teimlo eu bod wedi'u gwthio i'r cyrion o ran y prisiau y maent yn ei dderbyn am eu bwyd rhagorol. Ar y pryd, Ddirprwy Weinidog, rhoesoch addewid, a'i ryddhau i'r wasg, y byddech yn trefnu digwyddiad a fyddai'n ystyried hyn ac mewn gwirionedd yn ymgysylltu â'r archfarchnadoedd a'r sector ffermio. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni os gwelwch yn dda ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn hynny o beth?

13:36 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Absolutely. We are making some very good progress towards holding that event. I will be holding it in conjunction with Hybu Cig Cymru when it publishes its report on the state of the red meat industry in Wales, and that will be in October.

Yn hollol. Rydym yn gwneud rhywfaint o gynnydd da iawn tuag at gynnal y digwyddiad hwnnw. Byddaf yn ei gynnal ar y cyd â Hybu Cig Cymru pan fydd yn cyhoeddi ei adroddiad ar gyflwr y diwydiant cig coch yng Nghymru, a bydd hynny ym mis Hydref.

13:36 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Minister, sadly, farmers across Wales are seeing substantial cuts in milk prices, which are obviously causing a huge amount of volatility in the dairy industry. Given this period of instability for milk prices, can the Minister tell us what specific action the Welsh Government is taking to protect the dairy industry in Wales and to alleviate some of these problems?

Ddirprwy Weinidog, yn anffodus, mae ffermwyr ledled Cymru yn gweld toriadau sylweddol mewn prisiau llaeth, sydd yn amlwg yn achosi llawer iawn o anwadalrwydd yn y diwydiant llaeth. O ystyried y cyfnod hwn o ansefydlogrwydd ar gyfer prisiau llaeth, a all y Gweinidog ddweud wrthym ba gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i amddiffyn y diwydiant llaeth yng Nghymru ac i liniaru rhai o'r problemau hyn?

13:37 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am very aware that a number of buyers have announced a reduction in milk prices that will hit this autumn, and I am very conscious of the concern that that is causing within the dairy industry in Wales. Projected incomes for dairy farms are up 88% on last year to £84,700, but I realise that that is no comfort when looking ahead to price decreases. However, at the moment, favourable grazing conditions, due to the good weather that we have had, and relatively low feed cost, is holding up the margins, and the good news is that it is unlikely to be a problem getting good-quality forage on farms this winter. However, that is not to say that I do not take the challenge very seriously and I have already asked the dairy task force to inform and advise me further.

Rwy'n ymwybodol iawn bod nifer o brynwyr wedi cyhoeddi gostyngiad mewn prisiau llaeth a fydd yn taro yr hydref hwn, ac rwy'n ymwybodol iawn o'r pryder y mae hynny'n ei achosi o fewn y diwydiant llaeth yng Nghymru. Mae'r rhagolygon incwm ar gyfer ffermydd llaeth wedi cynyddu 88% ers y llynedd i £84,700, ond rwy'n sylweddoli nad yw hynny'n gysur wrth edrych ymlaen at ostyngiad pris. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r amodau pori ffafriol oherwydd y tywydd da rydym wedi'i gael, a chost bwyd anifeiliaid yn gymharol isel, yn cynnal y sefyllfa, a'r newyddion da yw ei bod yn annhebygol o fod yn broblem cael porthiant o ansawdd da ar ffermydd y gaeaf hwn. Fodd bynnag, nid yw hynny'n dweud nad wyf yn cymryd yr her o ddifrif ac rwyf eisoes wedi gofyn i'r tasglu llaeth roi gwybodaeth a chyngor i mi ymhellach.

13:37 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Croeso i'r Dirprwy Weinidog i'w swydd. Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, fod gan y Llywodraeth bolisi o annog arallgyfeirio gan ffermwyr i hybu incwm fferm. Un o'r meysydd hynny yw ynni adnewyddadwy. Byddwch yn ymwybodol fel finnau, mae'n siŵr, o bolisi arfaethedig Powys o gyfyngu ynni adnewyddadwy ar y fferm, sydd yn bolisi anffodus yn fy nhyb i. Beth fyddwch yn ei wneud fel Dirprwy Weinidog, gyda'ch cyd-Weinidogion, i wneud yn siŵr y bydd polisi Powys yn annog arallgyfeirio a chynyddu incwm ffermwyr ac nid yn cyfyngu ar incwm ffermwyr?

Welcome to your post, Deputy Minister. You will of course be aware that the Government has a policy of encouraging diversification by farmers to promote farm incomes. One of those areas is renewable energy. You will be aware, as I am, I am sure, of the proposed policy in Powys of restricting on-farm renewable energy, which is an unfortunate policy in my mind. What will you do as Deputy Minister, along with your fellow Ministers, to ensure that the policies in Powys will be ones that promote diversification and increase farm incomes and do not limit farm incomes?

13:38 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am familiar with the Member's concerns. I cannot comment on the individual local development plan proposal at the moment because it is at the proposal stage and due process must be allowed to take place. However, I can say that the Welsh Government is of the view that farm-based renewable energy schemes do have the potential to make a valuable contribution to the energy mix in Wales. Many of the community-led renewable energy projects being supported by the Welsh Government's Ynni'r Fro are joint ventures between local communities and farmers, and small-scale on-farm energy production can help farmers to lower their energy costs, which can be substantial, and help them to maximise their income. So, I am actively exploring what role the next RDP can play in supporting and enabling this.

Rwy'n gyfarwydd â phryderon yr Aelod. Ni allaf roi sylwadau ar gynnig y cynllun datblygu lleol unigol hwn ar hyn o bryd oherwydd bod y cynnig yn y cyfnod cyntaf, ac mae'n rhaid i'r broses fynd drwy'r camau priodol. Fodd bynnag, gallaf ddweud bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod gan gynlluniau ynni adnewyddadwy ar ffermydd y potensial i wneud cyfraniad gwerthfawr at y gymysgedd ynni yng Nghymru. Mae llawer o'r prosiectau ynni adnewyddadwy dan arweiniad y gymuned sy'n cael eu cefnogi gan Ynni'r Fro Llywodraeth Cymru yn fentrau ar y cyd rhwng cymunedau lleol a ffermwyr, a gall cynhyrchu ar raddfa fach ar y fferm helpu ffermwyr i leihau eu costau ynni, sy'n gallu bod yn sylweddol, a'u helpu i wneud y mwyaf o'u hincwm. Felly, rwyf wrthi'n archwilio pa rôl y gall y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf ei chwarae wrth gefnogi a galluogi hyn.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First this afternoon is the Welsh Liberal Democrat spokesperson, William Powell.

Y cyntaf y prynhawn yma yw llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, William Powell.

13:39 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Deputy Minister please provide an update on the progress made by Professor Wynne Jones OBE in carrying out his independent review of the learning delivered by further education colleges in Wales, with regard to the provision of skills and knowledge to the farming industry?

A wnaiff y Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan yr Athro Wynne Jones OBE wrth gynnal ei adolygiad annibynnol o'r dysgu a ddarperir gan golegau addysg bellach yng Nghymru, o ran darparu sgiliau a gwybodaeth i'r diwydiant ffermio?

13:39 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As the Member knows, Professor Wynne Jones was asked back in February to undertake an independent review of the learning that is delivered by FE colleges in Wales and to look at the relevance of that learning in supporting and developing farming businesses in Wales. I expect that report in November of this year. It has turned out to be a larger piece of work than was originally envisaged and, also, Professor Wynne Jones has other commitments, but I look forward to the report in November.

Fel y gŵyr yr Aelod, gofynnais i'r Athro Wynne Jones yn ôl ym mis Chwefror i gynnal adolygiad annibynnol o'r dysgu sy'n cael ei ddarparu gan golegau AB yng Nghymru ac i edrych ar berthnasedd y dysgu wrth gefnogi a datblygu busnesau ffermio yng Nghymru. Rwy'n disgwyl yr adroddiad hwnnw ym mis Tachwedd eleni. Mae wedi troi allan i fod yn ddarn mwy o waith nag a ragwelwyd yn wreiddiol ac mae gan yr Athro Wynne Jones ymrwymiadau eraill hefyd, ond rwy'n edrych ymlaen at dderbyn yr adroddiad ym mis Tachwedd.

13:40 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Deputy Minister for that response. As you will be aware, further education colleges that deliver land-based training are vital to supporting our rural Welsh economy. That is exemplified particularly by the dairy development centre at Coleg Sir Gâr's Gelli Aur campus, to improve the dairy supply chain by assisting farmers to increase the proportion of turnover. Given this, is it not disappointing that other than this one excellent initiative, currently very little use is made of such colleges outside their core teaching remit? What proposals do you have to make greater use of this dairy development centre?

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am yr ymateb hwnnw. Fel y gwyddoch, mae colegau addysg bellach sy'n darparu hyfforddiant tir yn hanfodol er mwyn cefnogi ein heconomi wledig yng Nghymru. Mae hynny i'w weld yn arbennig gan y ganolfan datblygu llaeth ar gampws Gelli Aur, Coleg Sir Gâr, i wella'r gadwyn cyflenwi llaeth drwy gynorthwyo ffermwyr i gynyddu cyfran y trosiant. O ystyried hyn, onid yw hi'n siom ac eithrio'r un fenter ardderchog hon, mai ychydig iawn o ddefnydd a wneir ar hyn o bryd o golegau o'r fath y tu allan i'w cylch gwaith addysgu craidd? Pa gynigion sydd gennych i wneud mwy o ddefnydd o'r ganolfan datblygu llaeth hon?

13:40 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that those discussions would come about as a result of the report that we are awaiting from Professor Jones, but I would certainly be keen to explore that issue further with my colleague the Deputy Minister for Skills and Technology.

Credaf y byddai'r trafodaethau hynny'n digwydd o ganlyniad i'r adroddiad rydym yn ei ddisgwyl gan yr Athro Jones, ond byddwn yn sicr yn awyddus i ymchwilio i'r mater hwnnw ymhellach gyda fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.

13:41 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you once again. It is a fact that the total funding available for the delivery of apprenticeships has declined to a significant extent, so that some providers, as you will be aware, are unable to take on any new apprenticeships even in the 16-plus age range. With this drastic cut to funding, how do you ensure that the number of apprenticeships available for the agriculture sector, where the age profile of farmers is so alarmingly high, is safeguarded?

Diolch i chi unwaith eto. Mae'n ffaith fod cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer darparu prentisiaethau wedi gostwng i raddau sylweddol, ac mae rhai darparwyr, fel y gwyddoch, yn methu â chymryd unrhyw brentisiaethau newydd hyd yn oed yn yr ystod oedran 16+. Gyda'r toriadau ariannol difrifol hyn, sut ydych chi'n sicrhau bod nifer y prentisiaethau sydd ar gael ar gyfer y sector amaethyddol, lle mae proffil oedran ffermwyr mor frawychus o uchel, yn cael ei ddiogelu?

13:41 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that that will be a role for the agriculture sector panel, in advising me on this particular issue, when that panel is put into place. It will play an important role in looking at the skills progression of people who work in the agriculture industry and those will include apprentices, and I am keen to explore that further.

Credaf y bydd hynny'n rôl i'r panel sector amaethyddiaeth, i roi cyngor i mi ar y mater penodol hwn, pan gaiff y panel ei roi ar waith. Bydd ganddo gyfraniad pwysig o ran edrych ar ddilyniant sgiliau pobl sy'n gweithio yn y diwydiant amaethyddol, a byddant yn cynnwys prentisiaid, ac rwy'n awyddus i archwilio hynny ymhellach.

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Conservatives' spokesperson, the opposition spokesperson, Antoinette Sandbach.

Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, llefarydd yr wrthblaid, Antoinette Sandbach.

13:42 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I am sure that you are aware of the climate change conference that is happening in New York at the moment. The latest figures for greenhouse gas emissions in Wales went up by 5% between 2011 and 2012—a rise that outstripped all other areas of the UK. Your Government has targets to reduce emissions by 40% by 2020. Clearly, we are missing those. Can you say what you would be telling that conference on how you are going to achieve that target?

Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol o'r gynhadledd newid yn yr hinsawdd sy'n digwydd yn Efrog Newydd ar hyn o bryd. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru wedi codi 5% rhwng 2011 a 2012—cynnydd sy'n fwy na holl ardaloedd eraill y DU. Mae gan dargedau eich Llywodraeth dargedau i leihau allyriadau gan 40% erbyn 2020. Yn amlwg, rydym yn methu'r rheiny. Allwch chi ddweud beth fyddech chi'n ei ddweud wrth y gynhadledd honno ynghylch sut rydych yn mynd i gyrraedd y targed hwnnw?

13:42 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her question. As she will be aware, I am not at that conference; I am here answering questions from you. However, I will take the opportunity to indicate to you and to Members in the Chamber that we are committed as a Government to meeting those challenging figures in terms of climate change and delivery. I know that the Member has a view on the 2020 target, but it is still our intention to aim for and reach that target. I know that you have a view, along with others, that that will be challenging. I recognise that. As a Government, we recognise the importance of climate change as both a significant opportunity and a headline risk to us. Action on climate change is crucial to deliver the policies of our priorities and there is a programme of change that we adopt across Government in Wales.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Fel y bydd yn gwybod, nid wyf yn y gynhadledd honno; Rwyf yma yn ateb eich cwestiynau chi. Fodd bynnag, byddaf yn cymryd y cyfle i ddangos i chi ac i'r Aelodau yn y Siambr ein bod wedi ymrwymo fel Llywodraeth i gwrdd â'r ffigurau heriol hynny o ran newid yn yr hinsawdd a chyflawni. Gwn fod yr Aelod yn edrych ar y targed ar gyfer 2020, ond ein bwriad o hyd yw anelu am a chyrraedd y targed hwnnw. Gwn fod gennych farn, ynghyd ag eraill, y bydd hynny yn heriol. Rwy'n cydnabod hynny. Fel Llywodraeth, rydym yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn bwysig o ran bod yn gyfle arwyddocaol ac yn berygl o benawdau gwael i ni fel ei gilydd. Mae gweithredu ar newid hinsawdd yn hanfodol er mwyn cyflawni polisïau ein blaenoriaethau ac mae rhaglen o newid rydym yn ei mabwysiadu ar draws y Llywodraeth yng Nghymru.

13:43 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My question to you, Minister, was, 'How?'

Fy nghwestiwn i chi, Weinidog, oedd, 'Sut?'

13:43 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You will be aware of our climate policy refresh that we undertook. Unfortunately, I have only been in post for a week, so I have not undertaken it, but the previous Minister has actioned that. We are looking at the current climate change strategy and at how best to drive that action going forward.

Byddwch yn ymwybodol o'r diweddariad a wnaethom o'n polisi hinsawdd. Yn anffodus, dim ond wythnos sydd ers i mi fod yn y swydd, felly nid fi ymgymerodd â hynny, ond mae'r Gweinidog blaenorol wedi gweithredu hynny. Rydym yn edrych ar y strategaeth bresennol ar newid hinsawdd ac ar y ffordd orau o hyrwyddo'r camau yn eu blaenau.

I am surprised by the contributions from the opposition benches because when I made the decision to make amendments to our targets in the housing sector, opposition Members were very critical of that decision, but this was about a Government taking responsibility for growing the economy and balancing that in the shape of the climate agenda. So, I am sorry that the Member does not agree with me all of the time, but the public sector and the housing and building industry, now under the remit of Lesley Griffiths, certainly welcomed the decision made by this Welsh Government as a responsible Government for Wales.

Rwy'n synnu at y cyfraniadau o feinciau'r gwrthbleidiau oherwydd pan wyf yn gwneud y penderfyniad i wneud newidiadau i'n targedau yn y sector tai, roedd Aelodau'r gwrthbleidiau yn feirniadol iawn o'r penderfyniad hwnnw, ond roedd hyn yn ymwneud â Llywodraeth yn cymryd cyfrifoldeb am dwf yr economi a chydbwyso hynny yn unol â'r agenda hinsawdd. Felly, mae'n ddrwg gennyf nad yw'r Aelod yn cytuno â mi drwy'r amser, ond roedd y sector cyhoeddus a'r diwydiant tai ac adeiladu, yn awr o dan gylch gwaith Lesley Griffiths, yn sicr yn croesawu'r penderfyniad a wnaed gan y Llywodraeth bresennol fel Llywodraeth gyfrifol i Gymru.

13:44 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I am delighted that you came on to the housing sector because, in fact, most of our housing in Wales was built pre 1919 and energy-efficiency measures in relation to those properties are a large contributor to greenhouse gasses. Yesterday, you ruled out working with the fuel poverty action group, which not only addresses energy-efficiency measures, but also fuel poverty in low-income houses. Now, I appreciate that it has been critical of your Government's actions, but what are you going to be doing to address the issues in pre-1919 housing build stock?

Weinidog, rwy'n falch iawn eich bod wedi troi at y sector tai, oherwydd, mewn gwirionedd, mae'r rhan fwyaf o'n tai yng Nghymru wedi eu hadeiladu cyn 1919 ac mae mesurau effeithlonrwydd ynni mewn perthynas â'r eiddo hynny yn gwneud cyfraniad mawr at nwyon tŷ gwydr. Ddoe, bu i chi ddiystyru gweithio gyda'r grŵp gweithredu ar dlodi tanwydd, sydd nid yn unig yn mynd i'r afael â mesurau ynni-effeithlon, ond hefyd tlodi tanwydd mewn tai incwm isel. Nawr, rwy'n sylweddoli iddo fod yn feirniadol o weithredoedd eich Llywodraeth, ond beth ydych chi'n mynd i fod yn ei wneud i fynd i'r afael â phroblemau'r stoc tai a adeiladwyd cyn 1919?

13:45 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are already addressing these issues, and, again, the Member will be aware of the report that was issued yesterday, the annual report on the sustainable development programme, which is about ensuring and showing the outcomes and deliveries that we see on the ground on a daily basis. The Welsh housing quality standard is being delivered by my colleagues, and is bringing housing stock up to quality and environmental standards. We have increased our target on housing from 7,500 up to 10,000. We will take no lectures from the opposition benches on building properties in Wales. Actually, what you do not like is that we are delivering and you are clearly not.

Rydym eisoes yn mynd i'r afael â'r materion hyn, ac, unwaith eto, bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r adroddiad a gyhoeddwyd ddoe, yr adroddiad blynyddol ar y rhaglen datblygu cynaliadwy, sy'n ymwneud â sicrhau a dangos y canlyniadau a'r cyflawniadau a welwn ar lawr gwlad yn feunyddiol. Mae safon ansawdd tai Cymru yn cael ei chyflwyno gan fy nghydweithwyr, ac mae'n gwella ansawdd a safonau amgylcheddol y stoc dai. Rydym wedi cynyddu ein targed ar dai o 7,500 i 10,000. Nid oes gan feinciau'r gwrthbleidiau wersi i'w dysgu i ni am adeiladu tai yng Nghymru. A dweud y gwir, yr hyn sy'n eich poeni chi yw ein bod ni'n cyflawni ond yn amlwg nad ydych chi.

13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now move to the Plaid Cymru spokesperson, Llyr Gruffydd.

Symudaf yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Llŷr Gruffydd.

13:45 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Your predecessor as Minister for natural resources wrote in August this year that whether gas from unconventional hydrocarbons that may be present in Wales can be safely extracted and bring benefits to the people of Wales requires more research. Do you, as the current Minister, subscribe to the same view that the safety of extracting unconventional gas, including through fracking, is both unproven and uncertain?

Diolch, Lywydd. Ysgrifennodd eich rhagflaenydd y Gweinidog cyfoeth naturiol ym mis Awst eleni bod angen rhagor o ymchwil i ganfod a ellir tynnu nwy yn ddiogel o hydrocarbonau anghonfensiynol a all fod yn bresennol yng Nghymru ac a ddaw â manteision i bobl Cymru. A ydych chi, fel y Gweinidog presennol, yn cytuno â'r farn nad oes prawf na sicrwydd ynghylch diogelwch tynnu nwy anghonfensiynol, gan gynnwys drwy ffracio?

13:46 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What I do accept is that there are still unanswered questions on the opportunity for the fracking industry, and that is something that we are taking very seriously in Wales. My colleague and I—as well as the Minister for planning and the Minister who was in charge of this department before—have set about commissioning some additional work in terms of the economic value of that and the impact on Wales, and that is something on which I look forward to a response to me very shortly.

Yr hyn rwy'n ei dderbyn yw bod yna gwestiynau heb eu hateb ar gyfleoedd i'r diwydiant ffracio o hyd, ac mae hynny'n rhywbeth rydym yn eu cymryd o ddifrif yng Nghymru. Mae fy nghyd-aelod a minnau—yn ogystal â'r Gweinidog cynllunio a'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol am yr adran hon o'r blaen—wedi mynd ati i gomisiynu rhywfaint o waith ychwanegol yn nhermau gwerth economaidd hynny a'r effaith ar Gymru, ac mae hynny'n rhywbeth rwy'n edrych ymlaen at dderbyn ymateb amdano yn fuan iawn.

13:46 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. You mentioned the economic impact. Maybe you could clarify that it also looks at the environmental impact. Given that the UK Government is going gung-ho on fracking at the moment, and the clear implications for Wales, maybe you could appraise us a bit more thoroughly as to whether that research is going to be looking at all aspects of the potential impact of fracking.

Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Soniasoch am yr effaith economaidd. Efallai y gallech egluro ei fod hefyd yn edrych ar yr effaith ar yr amgylchedd. O gofio bod Llywodraeth y DU yn mynd ati'n ffyddiog ynghylch ffracio ar hyn o bryd, a'r goblygiadau clir i Gymru, efallai y gallech ein hysbysu ychydig yn fwy trylwyr ynghylch a yw'r ymchwil yn mynd i fod yn edrych ar yr holl agweddau ar yr effaith y gallai ffracio ei chael.

13:47 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it is a really important point that the Member raises. I am being very open on this issue. I think it is important that we have to measure the economic and social impacts, right across Wales, that it potentially has in terms of development. We recently published a report on potential gas reserves in Wales, and it is something that needs to go hand in hand in terms of impact—opportunity even—and how that affects communities right across Wales.

Rwy'n credu bod y pwynt y mae'r Aelod yn ei godi'n bwysig iawn. Rwy'n bod yn agored iawn ar y mater hwn. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod yn rhaid i ni fesur yr effeithiau economaidd a chymdeithasol, ledled Cymru, y gallem eu gweld o ran datblygiad. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd adroddiad ar gronfeydd nwy posibl yng Nghymru, ac mae'n rhywbeth a ddylai fynd law yn llaw o ran effaith—a chyfle hyd yn oed—a sut mae hynny'n effeithio ar gymunedau ledled Cymru.

13:47 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Your party leader, Ed Miliband, said yesterday in his speech that there is no more important issue than tackling global climate change. Now, the science tells us, of course, that we just cannot exploit a new carbon-intensive fossil fuel if we are serious about limiting climate change to 2 degrees centigrade. So, given the powers that the Welsh Government has over planning, with full powers, of course, over mineral workings, do you, Minister, now agree that it is time for a moratorium on unconventional gas and fracking in Wales until such time as the safety and climate change aspects are settled?

Dywedodd arweinydd eich plaid, Ed Miliband, ddoe yn ei araith nad oes unrhyw fater yn bwysicach na mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd fyd-eang. Nawr, mae'r wyddoniaeth yn dweud wrthym, wrth gwrs, na allwn fynd ati i fanteisio ar danwydd ffosil carbon-ddwys newydd os ydym o ddifrif am gyfyngu ar newid yn yr hinsawdd i 2 gradd canradd. Felly, o ystyried y pwerau sydd gan Lywodraeth Cymru dros gynllunio, gyda phwerau llawn, wrth gwrs, dros weithfeydd mwynau, a ydych chi, Weinidog, yn awr yn cytuno ei bod yn bryd cael moratoriwm ar nwy anghonfensiynol a ffracio yng Nghymru hyd nes y bydd yr agweddau diogelwch a newid yn yr hinsawdd yn cael eu datrys?

13:48 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, there are two points that I want to raise. My party leader is Carwyn Jones, and I am very proud to have a Welsh Labour leader delivering Welsh Labour policies in Wales. This is certainly important and we work very closely with our colleagues in Westminster, but not under the direction of them. The second point you raised was about a moratorium on fracking and unconventional gas exploration. As the Member is aware, most of the licensing conditions are approved by the Department of Energy and Climate Change in Westminster. There is an activity with Natural Resources Wales, the Health and Safety Commission and the Welsh Government, in terms of that. However, what we do prescribe is a very precautionary measure in delivering around the planning system in Wales. I cannot prejudge any application, but what we are doing is taking a balanced view on the distribution and opportunities that fracking may present in Wales.

Wel, mae dau bwynt yr hoffwn eu codi. Arweinydd fy mhlaid yw Carwyn Jones, ac rwy'n falch iawn o gael arweinydd Llafur Cymru yn cyflawni polisïau Llafur Cymru yng Nghymru. Mae hyn yn sicr yn bwysig ac rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'n cyd-aelodau yn San Steffan, ond nid o dan eu cyfarwyddyd. Yr ail bwynt a godwyd gennych oedd ynglŷn â moratoriwm ar ffracio ac archwilio am nwy anghonfensiynol. Fel y gŵyr yr Aelod, mae'r rhan fwyaf o'r amodau trwyddedu yn cael eu cymeradwyo gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn San Steffan. Mae yna weithgaredd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, y Comisiwn Iechyd a Diogelwch a Llywodraeth Cymru, o ran hynny. Fodd bynnag, mae'r hyn rydym yn ei ragnodi yn fesur rhagofalus iawn o ran cyflawni o amgylch y system gynllunio yng Nghymru. Ni allaf ragfarnu unrhyw gais, ond yr hyn rydym yn ei wneud yw cymryd golwg gytbwys ar ddosbarthiad a'r cyfleoedd y gall ffracio eu cyflwyno yng Nghymru.

## Echdynnu Adnoddau Naturiol

## The Extraction of Natural Resources

13:48 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar echdynnu adnoddau naturiol Cymru? OAQ(4)0195(NR)*

*3. Will the Minister make a statement on the extraction of Wales's natural resources? OAQ(4)0195(NR)*

13:49 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Carmarthen East and Dinefewr for his question. 'Minerals Planning Policy Wales', the minerals technical advice notes and associated minerals planning guidance notes confirm national planning policy in relation to the extraction of natural resources.

Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr am ei gwestiwn. Mae 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru', y nodiadau cyngor technegol ar fwynau a'r nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig ar gynllunio mwynau yn cadarnhau polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas ag echdynnu adnoddau naturiol.

13:49 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, a gaf i fynd yn ôl i'r ateb a roddoch yn gynharach i Llyr Huws Gruffydd, lle roeddech chi'n sôn am y ffaith eich bod yn awr yn edrych ar effaith economaidd echdynnu nwy anghonfensiynol? Yn y Pwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan yn gynharach eleni, gwnaeth Plaid Cymru osod gwelliant yn sôn bod adnoddau Cymru yn berchen i bobl Cymru, ac yn dweud y dylai'r holl refeniw o echdynnu nwy anghonfensiynol gael ei gasglu gan Lywodraeth Cymru. Fe wnaeth yr holl aelodau Seneddol Llafur o Gymru bleidleisio yn erbyn hynny. Ai dyna bolisi Llywodraeth Cymru yn y dyddiau pan mae Carwyn Jones yn sôn am fwy a fwy o bwerau i Lywodraeth Cymru?

Minister, may I return to the reply that you gave earlier to Llyr Huws Gruffydd, where you alluded to the fact that you are now looking at the economic impact of extracting unconventional gas? In the Welsh Affairs Committee at Westminster earlier this year, Plaid Cymru proposed an amendment talking about the fact that the resources of Wales belong to the people, and that all the revenue from the extraction of unconventional gas should be collected by Welsh Government. All the Labour MPs from Wales voted against that. Is that the policy of Welsh Government in the days when Carwyn Jones is talking about more and more powers for Welsh Government?

13:50 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful to the Member for his question this afternoon. I think that it raises some important issues. Silk part 2, as the Member will be aware, will be about the issues around the conditions regarding energy, which are still being considered by Welsh Government. The Member raises a very interesting point with regard to the revenue provided from such activity in Wales. I would give assurance to the Member that what we are doing is making sure that the review has both an economic and social impact in terms of what the consequences of fracking are in Wales, and how that may have an impact in the communities that he and many Members in the Assembly represent.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Aelod am ei gwestiwn y prynhawn yma. Credaf ei fod yn codi rhai materion pwysig. Bydd Silk rhan 2, fel y gŵyr yr Aelod, yn ymwneud â'r materion ynghylch yr amodau yn ymwneud ag ynni, sy'n dal i gael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Aelod yn codi pwynt diddorol iawn o ran y refeniw a ddarperir o weithgaredd o'r fath yng Nghymru. Byddwn yn rhoi sicrwydd i'r Aelod mai'r hyn rydym yn ei wneud yw gwneud yn siŵr bod yr adolygiad yn cael effaith economaidd a chymdeithasol fel ei gilydd o ran beth yw'r canlyniadau ffracio yng Nghymru, a sut y gall hynny gael effaith yn y cymunedau y mae ef a llawer o Aelodau yn y Cynulliad yn eu cynrychioli.

13:50 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Minister, I think that you left one word out of that, which was 'environmental': it is not only about the economic and social impact, but also about the environmental impact. How is your evaluation being carried out in the light of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill that is coming through this Assembly?

Wel, Weinidog, credaf i chi adael un gair allan o hynny, sef 'amgylcheddol': nid dim ond yr effaith economaidd a chymdeithasol, ond hefyd yr effaith amgylcheddol. Sut y mae eich gwerthusiad yn cael ei gynnal yng ngoleuni'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sydd ar ei ffordd drwy'r Cynulliad hwn?

13:51 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful that the Member gives me the opportunity to raise the Well-being of Future Generations (Wales) Bill in the Chamber today. Tomorrow morning we will be introducing first-stage scrutiny at committee on this very important Bill on cross-cutting themes right across Government. The Member is absolutely right that this Bill will be comprehensive, with economic, social and environmental impacts taken into consideration for sustainable development across Wales. What I think is really important is that sustainable development does not sit outside policy. Actually, it is fundamental to developing policy, which is what we will be looking for in the way that the Bill is drafted. I welcome the Member's contributions through the positive engagement that she shows, certainly through the committee stages as we move forward.

Rwy'n ddiolchgar iawn bod yr Aelod yn rhoi cyfle i mi godi Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn y Siambr heddiw. Bore yfory byddwn yn cyflwyno'r Bil pwysig iawn hwn i'r cyfnod craffu cyntaf yn y pwyllgor ar themâu trawsbynciol ar draws y Llywodraeth. Mae'r Aelod yn llygad ei le y bydd y Mesur hwn yn gynhwysfawr, gydag effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn cael eu hystyried ar gyfer datblygu cynaliadwy ledled Cymru. Yr hyn y credaf fi sy'n bwysig iawn yw na ddylai datblygu cynaliadwy sefyll y tu hwnt i'r polisi. A dweud y gwir, mae'n hanfodol wrth ddatblygu polisi, sef yr hyn y byddwn yn chwilio amdano yn y ffordd y mae'r Mesur wedi'i ddrafftio. Rwy'n croesawu cyfraniadau'r Aelodau drwy'r ymgysylltiad cadarnhaol a ddangosodd, yn sicr yn ystod camau'r pwyllgor wrth inni symud ymlaen.

13:52 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I attended a public meeting in Llantrisant about fracking earlier this month, where a councillor from your own party said that local authorities simply do not have the tools that they need to resist planning applications for fracking and test drilling, and that, in fact, no rejected applications had been successfully defended at appeal. When are you going to issue a technical advice note on fracking to set down those environmental and safety standards to protect local communities through the planning system?

Bûm mewn cyfarfod cyhoeddus yn ymwneud â ffracio yn Llantrisant yn gynharach y mis hwn, lle mae cynghorydd o'ch plaid eich hun yn dweud yn syml nad oes gan awdurdodau lleol yr arfau y mae arnynt eu hangen i wrthsefyll ceisiadau cynllunio ar gyfer ffracio a phrofion drilio, ac mewn gwirionedd nad oedd unrhyw geisiadau a wrthodwyd wedi cael eu hamddiffyn yn llwyddiannus mewn apêl. Pryd ydych chi'n mynd i gyhoeddi nodyn cyngor technegol ar ffracio i osod safonau amgylcheddol a diogelwch priodol i ddiogelu'r cymunedau lleol drwy'r system gynllunio?

13:52 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think that what we have seen, certainly in planning across Wales, whether that would be for fracking or any other development, is about leadership. What I am surprised by in the Member's contribution is that, sometimes, development is all right as long as it is somewhere else. What I am doing in Wales, in showing leadership through my department, is ensuring that we provide the proper guidance and proper planning regulation in order to make people feel confident with the system. The planning Bill will be introduced later this year in terms of giving people the complete tools and confidence for the industry, both customer and investor, to ensure that the planning system works appropriately. Let me just give confidence to the Member in terms of unconventional gas developments in Wales. Consideration around 'Minerals Planning Policy Wales' identifies many planning issues that have to be considered during the planning stages, including access and traffic generation, noise, control of dust, smoke and fumes, disposal of mineral waste, blasting controls, land drainage, and a whole host of other things that need to be considered. So, I do not accept that we do not issue enough guidance. It is about showing openness and transparency in the decision-making process around any application that includes fracking or any other application that comes through the planning system.

Wel, credaf mai'r hyn rydym wedi'i weld, yn sicr wrth gynllunio ar draws Cymru, os yw hynny ar gyfer ffracio neu unrhyw ddatblygiad arall, yw arweinyddiaeth. Yr hyn sy'n fy synnu ynghylch cyfraniad yr Aelod yw bod datblygiad, weithiau, yn iawn cyn belled â'i fod yn rhywle arall. Yr hyn rwy'n ei wneud yng Nghymru, wrth ddangos arweiniad drwy fy adran, yw sicrhau ein bod yn darparu'r cyfarwyddyd priodol a rheoliadau cynllunio priodol er mwyn gwneud i bobl gael hyder yn y system. Bydd y Bil cynllunio yn cael ei gyflwyno yn ddiweddarach eleni o ran rhoi i bobl yr offer cyflawn a hyder i'r diwydiant, i'r cwsmer a'r buddsoddwr fel ei gilydd, er mwyn sicrhau bod y system gynllunio yn gweithio'n briodol. Gadewch i mi roi hyder i'r Aelod o ran datblygiadau nwy anghonfensiynol yng Nghymru. Mae ystyriaeth ynghylch 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' yn nodi llawer o faterion cynllunio y mae'n rhaid eu hystyried yn ystod y camau cynllunio, gan gynnwys mynediad a chreu traffig, sŵn, rheoli llwch, mwg a mygdarthau, gwaredu gwastraff mwynau, rheolaethau ffrwydro, draenio tir, a llu o bethau eraill y mae angen eu hystyried. Felly, nid wyf yn derbyn nad ydym yn rhoi digon o arweiniad. Mae'n ymwneud â dangos didwylledd a thryloywder yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch unrhyw gais sy'n cynnwys ffracio neu unrhyw gais arall sy'n dod drwy'r system gynllunio.

### Ffynonellau Nwy Anghonfensiynol

### Unconventional Gas Sources

13:53 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar ynni o ffynonellau nwy anghonfensiynol? OAQ(4)0194(NR)*

*4. Will the Minister outline the Welsh Government's policy in relation to energy from unconventional gas sources? OAQ(4)0194(NR)*

13:53 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Aberavon for his important question. 'Energy Wales: A Low Carbon Transition' identifies the role of gas in supporting our transition to a low-carbon energy system. There is a need to evaluate the potential unconventional hydrocarbon resource in Wales, alongside full consideration of all evidence relating to its extraction.

Diolch i'r Aelod dros Aberafan am ei gwestiwn pwysig. Mae 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel' yn nodi rôl y nwy o ran cefnogi ein newid i system ynni carbon isel. Mae angen gwerthuso'r adnoddau hydrocarbon anghonfensiynol posibl yng Nghymru, ochr yn ochr â rhoi ystyriaeth lawn i'r holl dystiolaeth yn ymwneud ag echdynnu.

13:54 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. I am pleased that so many Members are keen on asking questions on this particular issue this afternoon, because it is a very controversial issue. I concur with your predecessor, who indicated that there needs to be greater analysis as regards the evidence that needs to be provided for fracking. However, you have already identified this afternoon that licences are actually from the UK Government. What discussions have you, or your predecessors at the Welsh Government, had with the UK Government in relation to transferring the ability to issue licences to the Welsh Government so that it can be decided here in Wales? You have also talked about the minerals technical advice notes, and you believe that there is enough cover, but, in the meantime, while we await that transfer—and I hope that it will come—will you be looking at the guidance in relation to buffer zones, because it refers to buffer zones for minerals, aggregates and coal, but it does not to refer to anything for extraction?

Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwy'n falch bod cynifer o Aelodau yn awyddus i ofyn cwestiynau ar y mater penodol hwn y prynhawn yma, gan ei fod yn fater dadleuol iawn. Cytunaf â'ch rhagflaenydd, a nododd bod angen mwy o ddadansoddi o ran y dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer ffracio. Fodd bynnag, rydych eisoes wedi nodi'r prynhawn yma mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am drwyddedau. Pa drafodaethau ydych chi, neu eich rhagflaenwyr yn Llywodraeth Cymru, wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â throsglwyddo i Lywodraeth Cymru y gallu i roi trwyddedau fel y gellir gwneud penderfyniadau yma yng Nghymru? Rydych hefyd wedi sôn am y nodiadau cyngor technegol ar fwynau, a'ch bod yn credu bod y cwmpas yn ddigonol, ond, yn y cyfamser, wrth i ni aros am y trosglwyddiad—ac rwy'n gobeithio y daw—a fyddwch yn edrych ar yr arweiniad mewn perthynas â chlustogfeydd, gan ei fod yn cyfeirio at barthau clustogi mwynau, agregau a glo, ond nid yw'n cyfeirio at unrhyw beth ar gyfer echdynnu?

13:55 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I know that the Member has a keen interest in this and has raised this with me and previous Ministers on several occasions, representing his constituents very well. We have not discussed licence transfer with UK Ministers, although this, I believe, is under consideration by the UK. Wales's robust regulatory and local planning processes are designed to protect people and the environment, and I listed a few of those issues before in terms of the protection that is given through the planning system and the guidance that we give for consideration.

Gwn fod gan yr Aelod ddiddordeb brwd yn y pwnc ac mae wedi codi hyn gyda mi a Gweinidogion blaenorol ar sawl achlysur, gan gynrychioli ei etholwyr yn dda iawn. Nid ydym wedi trafod trosglwyddo trwydded gyda Gweinidogion y DU, er bod hyn, mi gredaf, yn cael ei ystyried gan y DU. Mae prosesau cynllunio rheoleiddiol a lleol cadarn Cymru wedi'u cynllunio i ddiogelu pobl a'r amgylchedd, ac rwyf eisoes wedi rhestru rhai o'r materion hynny o ran y warchodaeth a roddir drwy'r system gynllunio a'r cyfarwyddyd a roddwn i'w hystyried.

What is really important for me is ensuring that people feel that they are being listened to and ensuring that they can see a transparent process during decision making. People may not like the outcome, but, if they can be assured that their considerations have been given a full opportunity to be scrutinised, that is something that is really important going forward.

Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i mi yw sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael gwrandawiad a sicrhau y gallant weld proses dryloyw wrth wneud penderfyniadau. Efallai na fydd pobl yn hoffi'r canlyniad, ond, os gallant fod yn sicr y bu cyfle teg i'w hystyriaethau gael eu craffu, mae hynny'n rhywbeth sydd yn bwysig iawn wrth symud ymlaen.

We do not require any amendments to the mineral TANs at this stage. A clarification letter was sent to every local planning authority in July and I expect it to be adhered to.

Nid ydym yn gofyn am unrhyw newidiadau i'r nodiadau cyngor technegol ar fwynau ar hyn o bryd. Anfonwyd llythyr eglurhaol at bob awdurdod cynllunio lleol ym mis Gorffennaf ac rwy'n disgwyl iddynt gael eu dilyn.

13:56 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, for the first time since this Government was established in 2011, planning and natural resources sit with one Minister and I think that is a welcome development, because, on this particular issue, there has always been that divide. From my understanding, from the discussions that I have had with Natural Resources Wales, there has been no ministerial direction given to it to undertake the research work that is required on this new technology and so it is really relying on quite outdated practices and research papers. Will you be instructing Natural Resources Wales to undertake the necessary work to inform and update the policy papers, so that planning authorities, when they consult them, do have the most up-to-date advice that is available to protect communities that see a real threat?

Weinidog, am y tro cyntaf ers sefydlu'r Llywodraeth hon yn 2011, mae cynllunio ac adnoddau naturiol yng ngofal un Gweinidog a chredaf ei fod yn ddatblygiad i'w groesawu, oherwydd, ar y mater penodol hwn, mae rhaniad bob amser wedi bod. O'm dealltwriaeth i o'r trafodaethau yr wyf wedi'u cael gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, ni roddwyd unrhyw gyfeiriad gweinidogol iddo wneud y gwaith ymchwil sydd ei angen ar y dechnoleg newydd ac felly mewn gwirionedd mae'n dibynnu ar arferion eithaf hen ffasiwn a phapurau ymchwil . A fyddwch yn cyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol i lywio a diweddaru'r papurau polisi, fel bod awdurdodau cynllunio, pan fyddant yn troi atynt, yn cael y cyngor mwyaf cyfredol sydd ar gael i amddiffyn cymunedau sy'n ei weld yn fygythiad o'r iawn ryw?

13:57 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the Member's question this afternoon. As I am sure he is aware, oil and gas licensing is a reserved matter. This is something that DECC is dealing with in terms of the issue of petroleum exploration and development licences. There is a role for Natural Resources Wales in terms of the activity of exploration boreholes, which we believe is covered quite clearly in the technical advice notes and guidance that we have issued already. As I said, I updated planning members in July, with a further letter to them, to ensure that that is clear. We have commissioned additional work, as I mentioned in answer to the previous question, around the economic, social and environmental impact with regard to what fracking will mean in terms of the Wales gas fields. When I receive that, I will give the Chamber a further update on that detail.

Rwy'n ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod y prynhawn yma. Fel y gŵyr, rwy'n siŵr, mae trwyddedu nwy ac olew yn fater a gadwyd yn ôl. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn delio ag ef o ran mater archwilio petrolewm a datblygu trwyddedau. Mae rôl ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru o ran gweithgarwch archwilio tyllau turio, a chredwn fod hyn wedi'i gynnwys yn eithaf clir yn y nodiadau cyngor technegol a'r cyfarwyddyd rydym eisoes wedi eu cyhoeddi. Fel y dywedais, bu i mi ddiweddaru aelodau cynllunio ym mis Gorffennaf, gyda llythyr pellach iddynt, er mwyn sicrhau bod hynny'n glir. Rydym wedi comisiynu gwaith ychwanegol, fel y soniais wrth ateb y cwestiwn blaenorol, ynghylch yr effaith economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol o ran yr hyn y bydd ffracio'n ei olygu o ran y meysydd nwy yng Nghymru. Pan ddaw i law, rhof ddiweddariad pellach ar y manylion hynny i'r Siambr.

13:58 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, byddwch yn gwybod bod rhai mathau o nwyon anghonfensiynol, megis methan gwely glo, yn yr ardaloedd a oedd wedi cael eu cloddio'n drwm a bod bellach gannoedd, efallai miloedd, o filltiroedd o ffyrdd tanddaearol. Rwyf wedi gofyn y cwestiwn hwn o'r blaen, ond a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw fath o waith ymchwil, neu a yw'n ymwybodol o unrhyw ymchwil, sy'n ystyried sefydlogrwydd y gweithfeydd hyn, sy'n aml iawn wedi'u gorlifo?

Minister, you will be aware that some kinds of unconventional gases, such as coal-bed methane, are in the areas that were heavily mined and that there are now hundreds, if not thousands, of miles of underground routes. I have asked this question in the past, but has the Welsh Government done any sort of research, or is the Government aware of any research, that considers the stability of these works, which are very often flooded?

13:58 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will have to write to the Member with the detail on the specific question regarding the workings and any work that has been previously done on this. However, what we have to recognise in Wales is that the mix of energy opportunities that we have, be they wind, solar, gas or other opportunities in terms of developing energy to give energy security for the people of Wales, is something that we have to consider very carefully, with a careful eye on how this may impact on our communities across Wales.

Bydd yn rhaid imi ysgrifennu at yr Aelod gyda'r manylion am y cwestiwn penodol ynghylch y gwaith ac unrhyw waith sydd wedi ei wneud yn flaenorol ar hyn. Fodd bynnag, yr hyn sydd gennym i'w gydnabod yng Nghymru yw bod y gymysgedd o gyfleoedd ynni sydd gennym, boed wynt, solar, nwy neu gyfleoedd eraill o ran datblygu ynni i roi diogelwch ynni ar gyfer pobl Cymru, yn rhywbeth rydym wedi ei ystyried yn ofalus iawn, gyda llygad barcud ar sut y gallai hyn effeithio ar ein cymunedau ledled Cymru.

13:59 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will know that there have been no applications for fracking in Wales, but, of course, there have been a number of applications for test drilling. Whereas fracking can be very disruptive, test drilling can, of course, be confined to a particular area, and, although it is disruptive, it is not as disruptive as the fracking process. Local planning authorities are not able to take the subsequent fracking application into account when considering a test drilling application. Is there any way, in terms of the guidance that you issue, that local authorities would be able to link those two together, so that they understand that, if they give permission to a test drilling application, a fracking application may follow thereafter?

Weinidog, byddwch yn gwybod na fu unrhyw geisiadau am ffracio yng Nghymru, ond, wrth gwrs, bu nifer o geisiadau am y prawf drilio. Gall ffracio fod yn drafferthus iawn, ond gellir cyfyngu prawf drilio, wrth gwrs, i ardal benodol, ac, er y gall achosi trafferth nid yw mor drafferthus â'r broses ffracio. Nid yw awdurdodau cynllunio lleol yn gallu ystyried y cais ffracio dilynol wrth ystyried y cais am brawf drilio. A oes unrhyw ffordd, o ran y canllawiau rydych yn eu cyhoeddi, y byddai awdurdodau lleol yn gallu cysylltu'r ddau beth hynny at ei gilydd, fel eu bod yn deall, wrth iddyn nhw ganiatáu'r cais am brawf drilio, y gall cais ffracio ddilyn wedi hynny?

13:59 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not actually think it is rocket science that that is the potential, actually. Investors will not come along to do test boreholes on the basis that they are not expecting to find some shale gas. I will have to give that further consideration in terms of how to link an application. I am reluctant, at this stage, to do that because I think that planning applications should be taken on their own merits, and linking the two would certainly compromise that process. As you are aware, what complicates the issue is the fact that part of it is devolved and part is not. That does not help the licensing regime and people's understanding of actually who has responsibility for what. Local authorities have responsibility for exploration, and quite rightly so, as do Natural Resources Wales, but, ultimately, the issue of hydraulic fracking will be licensed and the conditions issued by DECC, the Department of Energy and Climate Change.

Dydw i ddim yn credu bod y posibilrwydd hwnnw'n rhywbeth sydd mor anodd ei ddeall, mewn gwirionedd. Nid yw buddsoddwyr yn mynd i wneud tyllau turio prawf ar y sail nad ydynt yn disgwyl dod o hyd i rywfaint o nwy siâl. Rhaid i mi ystyried hyn ymhellach o ran sut i gysylltu cais. Rwy'n gyndyn, ar hyn o bryd, i wneud hynny, oherwydd credaf y dylid ystyried ceisiadau cynllunio yn eu rhinweddau eu hunain, a byddai cysylltu'r ddau yn sicr yn cyfaddawdu'r broses honno. Fel y gwyddoch, yr hyn sy'n cymhlethu'r broblem yw'r ffaith nad yw'r cyfan wedi ei ddatganoli, dim ond yn rhannol. Nid yw hynny'n helpu'r gyfundrefn drwyddedu nac yn helpu pobl i ddeall pwy sy'n gyfrifol am beth. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am archwilio, ac mae hynny'n gwbl briodol, fel y gwna Cyfoeth Naturiol Cymru, ond, yn y pen draw, bydd y ffracio hydrolig yn cael ei drwyddedu gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd a'r amodau a gyhoeddwyd ganddynt.

14:00 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, will you be considering issuing a statement that will set out the Government's position on the way in which extraction of shale gas is compatible with the Government's renewable energy targets?

Weinidog, a fyddwch yn ystyried cyhoeddi datganiad a fydd yn nodi safbwynt y Llywodraeth ar y ffordd y mae echdynnu nwy siâl yn gydnaws â thargedau ynni adnewyddadwy'r Llywodraeth?

14:01 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I mentioned in response to one of my first questions, which was about climate change and what that means, we are doing a refresh of climate change policy in terms of where we are and where we need to be. I will give further consideration to issuing guidance to local authorities and to colleagues across Government in terms of the collective agenda in tackling these issues around climate change. The Member is right to raise this important issue. Alongside the future generations Bill, which I know the Member has a strong interest in, we will be introducing an environment Bill later on in the Assembly term, which will address some of the issues that the Member has raised today, and which he has raised in other opportunities with other Ministers, on the climate change agenda.

Fel y soniais wrth ymateb i un o'm cwestiynau cyntaf, ynghylch newid hinsawdd a'r hyn y mae hynny'n ei olygu, rydym yn diweddaru polisi newid hinsawdd o ran ein sefyllfa bresennol a lle mae angen inni fod. Byddaf yn ystyried ymhellach cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ac i gydweithwyr ar draws y Llywodraeth o ran yr agenda ar y cyd wrth fynd i'r afael â'r materion hyn yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Aelod yn iawn i godi'r mater pwysig hwn. Ochr yn ochr â Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, a gwn fod gan yr Aelod ddiddordeb mawr ynddo, byddwn yn cyflwyno Bil amgylchedd yn nes ymlaen yn nhymor y Cynulliad, a fydd yn mynd i'r afael â rhai o'r materion y mae'r Aelod wedi eu codi heddiw, ac a gododd ar adegau eraill gyda Gweinidogion eraill, ynghylch agenda newid yn yr hinsawdd.

## Treulio Anaerobig

## Anaerobic Digestion

14:01 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu prosesau treulio anaerobig yng Nghymru? OAQ(4)0191(NR)*

*5. Will the Minister make a statement on the development of anaerobic digestion in Wales? OAQ(4)0191(NR)*

14:01 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Mid and West Wales for his question. The Welsh Government is supporting a programme of seven local authority anaerobic digestion projects, working in regional partnerships, to help to address the affordability of sustainable food waste treatment infrastructure. Four of the partnerships have been awarded contracts, with a fifth due to be awarded early in 2015.

Diolch i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru am ei gwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhaglen o saith prosiect treulio anaerobig awdurdodau lleol, gan weithio mewn partneriaethau rhanbarthol, er mwyn helpu i fynd i'r afael â fforddiadwyedd seilwaith trin gwastraff bwyd cynaliadwy. Mae pedwar o'r partneriaethau wedi ennill contractau, gyda'r pumed i'w ddyfarnu yn gynnar yn 2015.

14:02 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for that answer, Minister, but, at a community meeting within my region earlier this week, which was held specifically to address concerns about the impact on residents and businesses of a nearby, recently commissioned AD plant, NRW officials repeatedly referred to the severe constraints that they face in terms of staff resource in dealing with monitoring and enforcing the conditions around that particular digestion. In this context, Minister, and given the importance of developing anaerobic digestion successfully across Wales, will you undertake to investigate these concerns so that they can be addressed and the concerns of the community alleviated?

Rwy'n ddiolchgar am yr ateb hwnnw, Weinidog, ond, mewn cyfarfod cymunedol yn fy rhanbarth yn gynharach yr wythnos hon, a gynhaliwyd yn benodol i fynd i'r afael â phryderon am effaith gwaith treulio anaerobig newydd ei gomisiynu ar drigolion a busnesau, roedd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfeirio dro ar ôl tro at y cyfyngiadau difrifol sy'n eu hwynebu o ran adnoddau staff wrth ymdrin â monitro a gorfodi'r amodau o amgylch y treuliad penodol hwnnw. Yn y cyd-destun hwn, Weinidog, ac o ystyried pwysigrwydd datblygu treuliad anaerobig yn llwyddiannus ledled Cymru, a wnewch chi ymrwymo i ymchwilio i'r pryderon hyn fel y gellir mynd i'r afael â nhw a thawelu pryderon y gymuned?

14:03 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Anaerobic digestion plays an important part in the process, both of the recycling agenda and of the waste stream agenda. I met with NRW on Monday. I was less than a week into post, and I met with the very important arm's-length organisation, and it did not raise at all any staffing issue with me or concerns about that. If the Member wishes to write with details of what was raised with him, I will certainly take that up with the chief executive the next time I meet with him.

Mae treulio anaerobig yn chwarae rhan bwysig ym mhroses yr agenda ailgylchu a'r agenda llif gwastraff fel ei gilydd. Cyfarfûm â Chyfoeth Naturiol Cymru ddydd Llun. Dim ond ers llai nag wythnos y bu i mi gychwyn yn y swydd, a chyfarfûm â'r sefydliad hyd braich hynod bwysig hwn, ac ni chlywais sôn o gwbl am unrhyw fater staffio na phryderon am hynny. Os yw'r Aelod yn dymuno ysgrifennu gyda manylion am yr hyn a godwyd gydag ef, byddaf yn sicr yn codi hynny gyda'r prif weithredwr y tro nesaf y byddaf yn cwrdd ag ef.

14:03 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I know that in the Environment and Sustainability Committee's report on energy, one of the recommendations was that Welsh Government set up a central team that has expertise on energy in order to assist bodies that do not have that in-house expertise. I know that we have a very successful project in the North Wales region, Biogen, which is one of those anaerobic food digesters, but there is also a lot of scope for on-farm digestion, particularly in relation to dairy farms where the waste from the cows can be turned into energy. I wonder what you are doing to make the planning and consenting regime easier so that advantage can be taken of this technology.

Weinidog, rwy'n gwybod bod adroddiad y Pwyllgor Amgylched a Chynaliadwyedd wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu tîm canolog sydd ag arbenigedd ar ynni er mwyn cynorthwyo cyrff nad oes ganddynt yr arbenigedd mewnol. Gwn fod gennym brosiect llwyddiannus iawn yn rhanbarth Gogledd Cymru, sef Biogen, sy'n brosiect treulio bwyd anaerobig, ond mae yna hefyd lawer o gyfle i dreulio gwastraff ar y fferm, yn enwedig mewn perthynas â ffermydd llaeth lle gellir troi gwastraff gwartheg i mewn i ynni. Tybed beth ydych chi'n ei wneud i wneud y gyfundrefn gynllunio a chydsynio yn haws fel y gellir manteisio ar y dechnoleg hon.

14:04 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that we have got to look across the whole sector for opportunities to create energy from waste, and look at the impact of that and how we can support it across Government, to aid the development of a different approach. I am not keen on giving preferential treatment to any particular planning application, as I think that it should be dealt with fairly across whatever sector, and that includes anaerobic digestion, as it plays a part in that. I will give it further consideration, but it is early days yet. I met with the energy team prior to questions today, actually, to discuss a whole host of new opportunities.

Credaf fod angen i ni edrych ar draws y sector cyfan am gyfleoedd i greu ynni o wastraff, ac edrych ar effaith hynny a sut y gallwn ei gefnogi ar draws y Llywodraeth, er mwyn helpu i ddatblygu agweddau gwahanol. Nid wyf yn awyddus i roi triniaeth ffafriol i unrhyw gais cynllunio penodol, gan fy mod yn credu y dylid ei drin yn deg ar draws pa sector bynnag, ac mae hynny'n cynnwys treulio anerobig, gan ei fod yn chwarae rhan yn hynny. Byddaf yn ei ystyried ymhellach, ond mae'n ddyddiau cynnar eto. Cyfarfûm â'r tîm ynni cyn y sesiwn gwestiynau heddiw, mewn gwirionedd, i drafod llu o gyfleoedd newydd.

Anaerobic digestion has been around for a while, and we have commissioned a couple of plants. However, according to one Member, there are some concerns locally from his constituents. We have to address some of these issues that are still, possibly, of concern to people. I hope to be visiting the anaerobic digester in North Wales shortly to see how it operates. Again, I will be asking my team to see what we can do to promote new opportunities in this field.

Mae treulio anerobig wedi bod o gwmpas am dipyn, ac rydym wedi comisiynu un neu ddau o weithfeydd. Fodd bynnag, mae un Aelod wedi clywed am rai pryderon yn lleol oddi wrth ei etholwyr. Mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn sy'n parhau, o bosibl, i beri pryder i bobl. Rwy'n gobeithio ymweld â gwaith treulio anaerobig yng Ngogledd Cymru yn fuan i weld sut mae'n gweithio. Unwaith eto, byddaf yn gofyn i fy nhîm i weld beth y gallwn ei wneud i hyrwyddo cyfleoedd newydd yn y maes hwn.

14:05

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, support from the Government for anaerobic digestion is, of course, to be welcomed. Only in April, the Prosiect GwyriAD facility was opened in Gwynedd, showing us what can be achieved. To what extent are you looking to develop more facilities for generating energy from food waste across Wales, and is it the view of the Government that we need to get to a position where all, or as much as possible, of our biodegradable waste can be converted for generating electricity or other purposes?

Weinidog, dylem wrth gwrs groesawu cefnogaeth gan y Llywodraeth ar gyfer treulio anaerobig. Dim ond ym mis Ebrill yr agorwyd cyfleuster Prosiect GwyriAD yng Ngwynedd, gan ddangos i ni yr hyn y gellir ei gyflawni. I ba raddau ydych chi'n awyddus i ddatblygu mwy o gyfleusterau ar gyfer cynhyrchu ynni o wastraff bwyd ledled Cymru, ac ai barn y Llywodraeth yw bod angen i ni fynd i sefyllfa lle mae'r cyfan, neu gymaint ag y bo modd, o'n gwastraff bioddiraddadwy yn troi i gynhyrchu trydan neu ddibenion eraill?

14:06

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the Member's question. Again, I recognise the recent achievement of the facility at Penygroes, with regard to the accreditation of the quality of the product as well. What is really important to me is that, if we look at the whole waste-stream profile and at areas of pressure, we see that we are doing extremely well in terms of recycling in Wales compared with many parts of Europe. I think that we should be incredibly proud. That is not just delivered by local authorities and personnel, as this is about the education of individuals in the home, where people are actively engaging in recycling and in making a commitment to a sustainable future.

Rwy'n ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod. Unwaith eto, rwy'n cydnabod llwyddiant diweddar y cyfleuster ym Mhenygroes, o ran achredu ansawdd y cynnyrch yn ogystal. Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i mi yw hynny, os edrychwn ar broffil y ffrwd wastraff gyfan ac mewn ardaloedd lle mae pwysau, rydym yn gweld ein bod yn gwneud yn dda iawn o ran ailgylchu yng Nghymru o'i gymharu â sawl rhan o Ewrop. Credaf y dylem fod yn hynod falch ohono. Nid yw hynny'n cael ei ddarparu yn unig gan yr awdurdodau lleol a phersonél, gan fod hyn yn ymwneud ag addysgu unigolion yn y cartref, lle mae pobl yn mynd ati i gymryd rhan mewn ailgylchu ac yn gwneud ymrwymiad i ddyfodol cynaliadwy.

So, there are many things that we need to do, including the activity that the Member raises. Are there things that we can do more of? Indeed, there are, but, again, this is all based on the very difficult financial pressures under which we find ourselves. However, we will continue to do what we can.

Felly, mae llawer o bethau y mae angen inni ei wneud, gan gynnwys y gweithgaredd y mae'r Aelod yn ei grybwyll. A oes pethau y gallwn eu gwneud mwyfwy? Oes yn wir, ond, unwaith eto, mae hyn i gyd yn seiliedig ar y pwysau ariannol anodd iawn sydd arnom. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i wneud yr hyn a allwn.

### Jac y Neidiwr

### Himalayan Balsam

14:06

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran mynd i'r afael â Jac y Neidiwr? OAQ(4)0183(NR)*

*6. Will the Minister outline what progress is being made in dealing with Himalayan balsam? OAQ(4)0183(NR)*

14:07

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Swansea East for his question. We are supporting strategic catchment-scale control work on Himalayan balsam through action groups, and we are discussing the potential release of a new pathogenic fungus at five sites across Wales from 2015 with the Centre for Agriculture and Biosciences International to tackle this pest.

Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain Abertawe am ei gwestiwn. Rydym yn cefnogi gwaith rheoli ar raddfa dalgylch strategol ar Jac y Neidiwr trwy grwpiau gweithredu, ac rydym wrthi'n trafod rhyddhau potensial ffwng pathogenig newydd mewn pum safle ar draws Cymru o 2015 gyda'r Ganolfan Amaethyddiaeth a Biowyddorau Rhyngwladol i fynd i'r afael â'r pla hwn.

14:07

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his response. I have a major problem in my constituency at the Fendrod lake, which is slowly being taken over by Himalayan balsam. My constituents have contacted Natural Resources Wales and the council. Who is actually responsible for removing it?

Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Mae gen i broblem fawr yn fy etholaeth yn Llyn y Fendrod, oherwydd pla o Jac y Neidiwr. Mae fy etholwyr wedi cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru a'r cyngor. Pwy mewn gwirionedd sy'n gyfrifol am ei symud?

14:07

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his supplementary question. I am quite sure that Members will agree with me that Mike Hedges will go down in history as the champion of tackling Himalayan balsam and Japanese knotweed at first hand. The responsibility for the control of non-native species, such as Himalayan balsam, currently rests with the landowner or tenant of the land affected. However, while the landlord or tenant is subject to controls on the spread and disposal of the plant, they are under no current legal obligation to remove the plant from their land.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn atodol. Rwy'n eithaf siŵr y bydd yr Aelodau'n cytuno â mi y bydd enw Mike Hedges ar lyfrau hanes fel pencampwr lladd Jac y Neidiwr a Chlymog Japan. Mae'r cyfrifoldeb am reoli rhywogaethau anfrodorol, fel Jac y Neidiwr, ar hyn o bryd ar ysgwyddau'r tirfeddiannwr neu denant y tir yr effeithir arno. Fodd bynnag, tra bod y landlord neu'r tenant yn ddarostyngedig i reolaethau ar ledaenu a chael gwared ar y planhigyn, nid oes arnynt unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ar hyn o bryd i gael gwared â'r planhigyn oddi ar eu tir.

14:08

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Members will recall that this is a very attractive-looking plant with a pink flower. Unfortunately, many of us will have probably touched that plant, because it pops rather well and then, of course, distributes the seeds almost everywhere; hence, it has grown enormously along the rivers and streams of Wales. The Minister is right to suggest that this Indian fungus might be used. It has been used successfully in Cornwall. Will the Minister undertake to report back on the success of the use of this rust fungus?

Bydd yr Aelodau'n cofio bod hyn yn blanhigyn deniadol ei olwg gyda blodau pinc. Yn anffodus, bydd llawer ohonom, mae'n debyg wedi cyffwrdd â'r planhigyn, gan ei fod yn ffrwydro'n dda, ac yna, wrth gwrs, yn dosbarthu hadau ar hyd y lle; felly, mae wedi tyfu'n aruthrol ar hyd afonydd a nentydd Cymru. Mae'r Gweinidog yn iawn i awgrymu y gallai'r ffwng Indiaidd gael ei ddefnyddio. Mae wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus yng Nghernyw. A wnaiff y Gweinidog ymrwymo i adrodd yn ôl ar lwyddiant y defnydd o'r ffwng rhwd?

14:08

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Indeed. As the Member relates his knowledge of this problem, may I also add that we understand that this is becoming one of the United Kingdom's most invasive weed species, particularly along riverbanks, waste grounds and damp woodlands, as referred to by the Member? This is something that we are taking very seriously, and, working with partners, we are seeking to tackle this issue, which you and Mike Hedges raise on a regular basis.

Yn wir. Yn ogystal â'r wybodaeth a gawsom gan yr Aelod am y broblem hon, a gaf fi hefyd ychwanegu ein bod yn deall bod hyn bellach yn un o'r rhywogaethau chwyn ymledol mwyaf yn y Deyrnas Unedig, yn enwedig ar hyd glannau afonydd, tir gwastraff a choetiroedd llaith, fel y dywedodd yr Aelod? Mae hyn yn rhywbeth rydym yn ei gymryd o ddifrif, a, chan gydweithio â phartneriaid, rydym yn ceisio mynd i'r afael â hyn, sy'n fater a gaiff ei godi gennych chi a Mike Hedges yn rheolaidd.

14:09

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I do not know whether you are aware of the incredible work being done by volunteers to clear the balsam. At St Dogmaels, I have seen this weed being cleared by the work of a dedicated team of people who have painstakingly pulled it up. Their efforts should be recognised, and I hope that you will join with me to congratulate them. Perhaps, if you find yourself on a sunny day in the vicinity of Poppit Sands, you will take the opportunity to visit me in my caravan and see how the landowners and volunteers have worked very hard to rid the village of this scourge.

Weinidog, wn i ddim a ydych yn ymwybodol o'r gwaith anhygoel sy'n cael ei wneud gan wirfoddolwyr i glirio Jac y Neidiwr. Yn Llandudoch, gwelais dimau ymroddedig o bobl yn mynd ati'n ofalus i dynnu'r chwynnyn hwn. Dylid cydnabod eu hymdrechion, a gobeithio y byddwch yn ymuno â mi i'w llongyfarch. Efallai, os cewch eich hun ar ddiwrnod heulog yng nghyffiniau Traeth Poppit, yr ewch ati i ymweld â mi yn fy ngharafán a gweld sut y mae tirfeddianwyr a gwirfoddolwyr wedi gweithio'n galed iawn i gael gwared â'r pla hwn o'r pentref.

14:10

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

How can I refuse that kind offer? We worked very closely on the Housing (Wales) Bill, and I am sure that I would like to come and view the non-existence of this weed, particularly with a cup of tea, at Jocelyn Davies's caravan. [Laughter.]

Sut gallaf i wrthod y cynnig caredig? Bu i ni weithio'n agos iawn ar Fesur Tai (Cymru), ac rwy'n siŵr y carwn ddod i weld diffyg presenoldeb y chwynnyn hwn, yn enwedig gyda phaned o de, yng ngharafán Jocelyn Davies. [Chwerthin.]

## Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy

## Renewable Energy Generation

14:10 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*7. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(4)0184(NR)*

*7. What action is the Welsh Government taking to support renewable energy generation in Wales? OAQ(4)0184(NR)*

14:10 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I thank the Member for his question. 'Energy Wales: A Low Carbon Transition' sets out what we are doing to encourage renewable energy projects and to maximise their economic and environmental benefits in Wales. The delivery plan published in March sets out progress made and delivery actions being taken in support of renewable energy.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel' yn nodi'r hyn rydym yn ei wneud i annog prosiectau ynni adnewyddadwy ac i wneud y mwyaf o'u manteision economaidd ac amgylcheddol yng Nghymru. Mae'r cynllun cyflwyno a gyhoeddwyd ym mis Mawrth yn nodi'r cynnydd a wnaed a'r camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi ynni adnewyddadwy.

14:10 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you very much for that, Minister. Can the Minister advise what proportion of community schemes approaching the construction phase under the Ynni'r Fro programme are wind energy projects? Does he agree that more emphasis should be placed on the generation of energy from water? I mean, small hydroelectric projects should be considered seriously in Wales. What does he think about that?

Diolch yn fawr iawn am hynny, Weinidog. A all y Gweinidog roi gwybod pa gyfran o gynlluniau cymunedol sy'n brosiectau ynni gwynt sy'n nesáu at y cyfnod adeiladu o dan raglen Ynni'r Fro? A yw'n cytuno y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gynhyrchu ynni o ddŵr? Hynny yw, dylid ystyried prosiectau hydrodrydanol bach yn ddifrifol yng Nghymru. Beth mae ef yn ei feddwl am hynny?

14:11 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I thank the Member for his detailed question. The Member will welcome the fact that Ynni'r Fro has completed one project that is a hydro scheme, with two other schemes in construction, and another two projects are due to be completed by March of 2015. These are driven by the community and for the community. There are currently 51 other pipeline projects being supported by the programme, which are due to be completed beyond the March 2015 deadline. The next phase of support for this programme to ensure continuity of provision is currently being developed by my team. By March 2015, it is anticipated that there will be around 5 MW of installed capacity through this very innovative programme.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn manwl. Bydd yr Aelod yn croesawu'r ffaith bod Ynni'r Fro wedi cwblhau un prosiect sydd yn gynllun hydro, gyda dau gynllun arall yn y diwydiant adeiladu, a dau brosiect arall i fod i gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2015. Mae'r rhain yn cael eu llywio gan y gymuned ac ar gyfer y gymuned. Mae 51 o brosiectau piblinellau eraill sy'n cael eu cefnogi gan y rhaglen, sydd i fod i gael eu cwblhau y tu hwnt i'r terfyn amser Mawrth 2015 ar hyn o bryd. Mae'r cam nesaf o gefnogaeth ar gyfer y rhaglen hon er mwyn sicrhau parhad y ddarpariaeth yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan fy nhîm. Erbyn mis Mawrth 2015, rhagwelir y bydd tua 5 MW o gapasiti gosodedig drwy'r rhaglen hynod arloesol hon.

14:12 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Mae Llywodraeth Cymru wedi methu â chyrraedd ei tharged o ran cynhyrchu ynni adnewyddol. Yn wir, roedd wedi methu ei tharged o dros 60%. A yw'r Gweinidog yn gwybod pam mae'r Llywodraeth wedi methu mor eithafol, a beth yw'r targedau newydd sydd wedi'u gosod?

The Welsh Government has failed to reach its target for renewable energy generation. In fact, it missed its target by more than 60%. Does the Minister know why the Government has failed so spectacularly, and what are the new targets that have been set?

14:12 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I do not recognise that we have failed spectacularly. That is another political statement obviously used by the opposition. Actually, I am very proud of the work that goes on in communities and by this Government in terms of energy generation and opportunity. That is something that we will strive to continue to do. Again, the Member and Members across this Chamber often come to the Chamber complaining about development in their area. Actually, you want to show some leadership in the development of energy programmes across Wales and show that it is the right way to go to develop a sustainable future for Wales.

Nid wyf yn cydnabod ein bod wedi methu'n eithafol. Mae hynny'n ddatganiad gwleidyddol arall yn amlwg a ddefnyddir gan y gwrthbleidiau. A dweud y gwir, rwy'n falch iawn o'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn cymunedau a chan y Llywodraeth hon o ran cyfle a chynhyrchu ynni. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ymdrechu i barhau i wneud. Unwaith eto, mae'r Aelod ac Aelodau ar draws y Siambr hon yn aml yn dod i'r Siambr yn cwyno am ddatblygiadau yn eu hardal. A dweud y gwir, mae angen i chi ddangos rhywfaint o arweiniad wrth ddatblygu rhaglenni ynni ar draws Cymru a dangos mai dyma'r ffordd iawn i fynd ar gyfer datblygu dyfodol cynaliadwy i Gymru.

Senedd.tv Fideo Video

### Dyfodol y Parciau Cenedlaethol

### The Future of National Parks

14:13 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y parciau cenedlaethol? OAQ(4)0185(NR)*

*8. Will the Minister make a statement on the future of national parks? OAQ(4)0185(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for Preseli Pembrokeshire for his question. I am committed to undertaking a governance review of Wales's national parks. I would like to see our designated landscapes become international exemplars of sustainability, living landscapes with vibrant, resilient communities, extensive outdoor recreation opportunities, and of course rich in biodiversity.

Diolch i'r Aelod dros Breseli Sir Benfro am ei gwestiwn. Rwyf wedi ymrwymo i gynnal adolygiad llywodraethu o barciau cenedlaethol Cymru. Hoffwn weld ein tirweddau dynodedig yn dod yn esiamplau rhyngwladol o gynaliadwyedd, tirweddau byw gyda chymunedau bywiog, cadarn, cyfleoedd hamdden awyr agored helaeth, ac wrth gwrs yn gyfoethog o ran bioamrywiaeth.

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

This review, as I understand it, is looking at the accountability and responsibility of national parks. Given this announcement, surely the future of national parks needs to be discussed alongside the backdrop of local authority reform. So, could he tell us what discussions he is having with his colleague, the Minister for Public Services? Is it his view that national park authorities should retain their current planning functions?

Mae'r adolygiad, yn ôl a ddeallaf, yn edrych ar atebolrwydd a chyfrifoldeb parciau cenedlaethol. O ystyried y cyhoeddiad hwn, yn sicr mae angen trafod dyfodol parciau cenedlaethol ochr yn ochr â'r cefndir o ddiwygio awdurdodau lleol. Felly, a yw'r Gweinidog yn gallu dweud wrthym ba drafodaethau sydd rhyngddo ef a'i gydweithiwr, sef y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus? A yw o'r farn y dylai awdurdodau parciau cenedlaethol gadw eu swyddogaethau cynllunio cyfredol?

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I have not had any conversations with the new Minister for Public Services yet. We are a week in, in terms of the conversation with the national parks, but I have had previous discussions with Ministers in my other role on the responsibility for the planning function of national parks. The Member will be very aware of the discussions that I have had, and that is probably the reason why he is posing the question today. I still have not made a determination on the effect of the planning system for national parks.

Ni chefais unrhyw sgyrsiau gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus newydd eto. Wythnos yn ôl y bu i ni gael sgwrs gyda'r parciau cenedlaethol, ond yr wyf wedi cael trafodaethau blaenorol gyda Gweinidogion yn fy rôl arall ar y cyfrifoldeb am swyddogaeth cynllunio'r parciau cenedlaethol. Bydd yr Aelod yn ymwybodol iawn o'r trafodaethau a gefais, a hynny, mae'n debyg yw'r rheswm pam ei fod yn gofyn y cwestiwn heddiw. Nid wyf eto wedi gwneud penderfyniad ar effaith y system gynllunio ar gyfer parciau cenedlaethol.

Senedd.tv Fideo Video

There is a discussion to be had, I think, about the role and function of what national parks and the larger public sector organisations, such as local authorities, have and deliver in communities, but I have a family of 25 planning authorities across Wales, which I believe is too many. I have not decided yet on what that structure may look like in future, but it is something that I am seriously considering looking at with regard to a resilient planning service for Wales. It is really important that we link the economy and planning together. They go hand in hand, and if one breaks down, we will see failure in our communities. I know that the Member, despite our political differences, would agree with me that the economy is an important thing and we need to drive forward in Wales.

Mae trafodaeth i'w chael, mi gredaf, am rôl a'r swyddogaeth sydd gan y parciau cenedlaethol a'r sefydliadau sector cyhoeddus helaethach megis awdurdodau lleol i'w hysgwyddo a'i chyflawni mewn cymunedau, ond mae gennyf deulu o 25 o awdurdodau cynllunio ledled Cymru, sydd, yn fy marn i yn ormod o lawer. Nid wyf wedi penderfynu eto sut bydd y strwythur yn y dyfodol, ond mae'n rhywbeth yr wyf o ddifrif yn ystyried ei archwilio o ran gwasanaeth cynllunio cadarn i Gymru. Mae'n wirioneddol bwysig ein bod yn cysylltu'r economi a chynllunio gyda'i gilydd. Maent yn mynd law yn llaw, ac os bydd un yn torri i lawr, byddwn yn gweld methiant yn ein cymunedau. Gwn fod yr Aelod, er gwaethaf ein gwahaniaethau gwleidyddol, yn cytuno â mi bod yr economi yn bwysig a bod angen i ni fwrw ymlaen yng Nghymru.

14:15

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I take this opportunity to congratulate the Minister on his appointment, and the Deputy Minister, and wish them well with their responsibilities? In terms of the planning function of national parks, I think that there is consensus among Members from different parts of the Chamber that the time has come to review the planning status of the national parks. The Minister will be aware that, in the previous Assembly, I represented all three—or parts of all three—national parks, and I came to the conclusion that it was time for all planning functions to rest with local authorities, in place of the current system. I hope that the Minister—and perhaps he will confirm this—during the process of the planning Bill and during the process of responding to the Williams review, will take this opportunity to reform the way in which we do planning in Wales and ensure that we have a more coherent and consistent planning system than the one we have at present.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i longyfarch y Gweinidog ar ei benodiad, a'r Dirprwy Weinidog, a dymuno'n dda iddynt gyda'u cyfrifoldebau. O ran swyddogaeth gynllunio'r parciau cenedlaethol, credaf fod consenswS ymysg Aelodau o wahanol rannau o'r Siambr fod yr amser wedi dod i adolygu statws cynllunio'r parciau cenedlaethol. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol, yn y Cynulliad blaenorol, y bu i mi gynrychioli pob un o'r tri—neu rannau o'r tri—pharc cenedlaethol, a deuthum i'r casgliad ei bod yn amser i'r holl swyddogaethau cynllunio orffwys ar ysgwyddau awdurdodau lleol, yn hytrach na'r system bresennol. Gobeithio y bydd y Gweinidog—ac efallai y bydd yn cadarnhau hyn—yn ystod proses y Bil cynllunio ac yn ystod y broses o ymateb i adolygiad Williams, yn cymryd y cyfle hwn i ddiwygio'r ffordd rydym yn cynllunio yng Nghymru ac yn sicrhau ein bod yn cael system gynllunio fwy cydlynol a chyson na'r un sydd gennym ar hyn o bryd.

14:16

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful for the Member's thoughts. Once again, I pay tribute to him for the work that he did within Government in terms of driving this agenda forward in his previous role. There were two points in his contribution. First, with regard to the Williams commission review, which is a cross-Government view about transition in local government and what should be happening there, that is a discussion that the Minister for Public Services will be leading. Aside from that, I believe that the Member is absolutely right to raise the issue of planning and whether that is led by the national parks or local authorities. I have not made a decision on who is best placed to make those decisions, but I do know that duplication or having far too many decision makers is having an impact on the way in which we can make positive interventions in relation to the growth of Wales. The planning Bill is about enablement and fairness, and that is something that I do not believe, with the current structure and approach, with 25 planning authorities operating very differently, is delivering the best for Wales, and certainly not in terms of sustainability moving forward. I thank the Member for his considered representation.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Aelod am ei syniadau. Unwaith eto, rwy'n rhoi teyrnged iddo am y gwaith a gyflawnodd yn y Llywodraeth o ran hyrwyddo'r agenda hon yn ei rôl flaenorol. Yr oedd dau bwynt yn ei gyfraniad. Yn gyntaf, o ran adolygiad comisiwn Williams, sef golwg ar draws y Llywodraeth ynghylch pontio mewn llywodraeth leol a'r hyn a ddylai fod yn digwydd yno, mae hynny'n drafodaeth y bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei harwain. Ar wahân i hynny, rwy'n credu bod yr Aelod yn llygad ei le yn codi materion cynllunio ac a yw hynny'n cael ei arwain gan y parciau cenedlaethol neu awdurdodau lleol. Nid wyf wedi gwneud penderfyniad ynghylch pwy sydd yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniadau hynny, ond rwy'n gwybod bod dyblygu neu gael llawer gormod o bobl yn gwneud penderfyniadau yn cael effaith ar y ffordd y gallwn wneud ymyriadau cadarnhaol mewn perthynas â thwf Cymru . Mae'r Bil cynllunio yn ymwneud â galluogi a thegwch, a chyda'r strwythur a'r dull presennol, gyda 25 o awdurdodau cynllunio yn gweithredu yn wahanol iawn, mae hynny'n rhywbeth nad wyf yn credu sy'n darparu'r gorau i Gymru, ac yn sicr nid o ran cynaliadwyedd wrth symud ymlaen . Diolch i'r Aelod am ei sylwadau ystyrlon.

14:17 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Minister, if you are considering moving to a single national park for Wales, surely that is incompatible with development control functions remaining with the national parks. Many of my constituents and those of us who live in the park already feel that the current structure is not accountable to local people. That accountability will be completely lost if we move to a single park structure. Will you take that into consideration when making decisions in this regard?

Weinidog, os ydych yn ystyried symud tuag at gael un parc cenedlaethol i Gymru, onid yw hynny yn sicr yn anghydnaws â'r swyddogaethau rheoli datblygu sy'n parhau gyda'r parciau cenedlaethol. Mae llawer o'm hetholwyr a'r rheini ohonom sy'n byw yn y parc eisoes yn teimlo nad yw'r strwythur presennol yn atebol i bobl leol. Bydd yr atebolrwydd hwnnw'n cael ei golli yn llwyr os byddwn yn newid i strwythur parc sengl. A wnewch chi ystyried hynny wrth wneud penderfyniadau yn hyn o beth?

14:17 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course. Once again, the complexities of the Williams commission and whatever happens in terms of national parks is an important point that the Member raises. More importantly, it is important for the people the Member represents. Once again, that feeling of closeness and representation for those particular areas are very important to me, too. I have come to the conclusion that a single national park would not be the right place to have a single planning division. There is certainly a disconnect there with public perception and public engagement. Therefore, I am probably in that space. However, there is still work to be done in terms of the planning authority provision for a national park and for local authorities, and those discussions will continue, including during discussions as the planning Bill progresses through the Assembly.

Gwnaf, wrth gwrs. Unwaith eto, mae cymhlethdodau'r comisiwn Williams a beth bynnag a ddigwydd o ran y parciau cenedlaethol yn bwynt pwysig a godwyd gan yr Aelod. Yn bwysicach, mae'n bwysig i'r sawl y mae'r Aelod yn eu cynrychioli. Unwaith eto, mae'r ymdeimlad hwnnw o agosatrwydd a chynrychiolaeth o ran yr ardaloedd penodol hynny yn bwysig iawn i mi, hefyd. Rwyf wedi dod i'r casgliad nad parc cenedlaethol unigol fyddai'r lle iawn i gael adran gynllunio unigol. Yn sicr mae diffyg cysylltiad yno â chanfyddiad y cyhoedd ac ymgysylltiad y cyhoedd. Felly, yn ôl pob tebyg, dyna lle'r ydwyf. Fodd bynnag, mae yna waith i'w wneud o hyd o ran darpariaeth yr awdurdod cynllunio ar gyfer parc cenedlaethol ac ar gyfer awdurdodau lleol, a bydd y trafodaethau hynny'n parhau, gan gynnwys yn ystod y trafodaethau wrth i'r Bil cynllunio fynd yn ei flaen drwy'r Cynulliad.

14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

## Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

### Gofal Plant (Gogledd Cymru)

### Childcare (North Wales)

14:18 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau Llywodraeth Cymru ar ofal plant yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0226(CTP)*

*1. Will the Minister provide an update on the Welsh Government's policies on childcare in North Wales? OAQ(4)0226(CTP)*

14:18 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Senedd.tv Fideo Video

Ensuring access to affordable, high-quality childcare for our most disadvantaged children and families across Wales remains a top priority. We recently published a progress report on the early years and childcare plan. In taking forward actions under the plan, consideration is given to the needs of different areas.

Mae sicrhau gofal plant o ansawdd uchel sy'n fforddiadwy ar gyfer ein plant a'n teuluoedd mwyaf difreintiedig ar draws Cymru yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd adroddiad cynnydd ar y blynyddoedd cynnar a'r cynllun gofal plant. Wrth fwrw ymlaen â chamau gweithredu o dan y cynllun, rhoddir ystyriaeth i anghenion gwahanol ardaloedd.

14:19 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. The annual Family and Childcare Trust survey for 2014 found that only 11% of Welsh local authorities had sufficient childcare for children aged between five and 11. With the childcare costs for two children in full-time childcare having risen by over 27% over the last five years, the financial strain on household income is becoming quite severe. Will you outline what discussions you have had with fellow Cabinet colleagues to help to ensure that there is sufficient childcare provision in Wales's local authority areas?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Canfu arolwg blynyddol yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant ar gyfer 2014 mai dim ond 11% o awdurdodau lleol Cymru sydd â digon o ofal plant ar gyfer plant rhwng pump ac 11 oed. Gyda chostau gofal plant i ddau o blant mewn gofal plant llawn amser wedi cynyddu dros 27% dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r straen ariannol ar incwm y cartref yn dod yn eithaf difrifol. A wnewch chi amlinellu pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'ch cyd-aelodau yn y Cabinet er mwyn helpu i sicrhau bod darpariaeth gofal plant ddigonol yn ardaloedd yr awdurdodau lleol yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:19 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Similar to Carl Sargeant, I am in week 2 of the job, and I have not had specific discussions as yet. I know that discussions have gone on before, and in my previous portfolio I certainly had discussions with the relevant Minister around this issue. Obviously, local authorities have a duty to provide childcare, and, as a Government, we help and support them in doing this. The childcare sufficiency assessment, which local authorities submitted earlier this year—I think that it was in April—showed that there are significant gaps in their out-of-school childcare, so they know that this is the case because they did the work. I will be having those discussions with my ministerial colleagues going forward.

Yn debyg i Carl Sargeant, dyma fy ail wythnos yn y swydd, ac nid wyf wedi cael trafodaethau penodol eto. Gwn fod trafodaethau wedi mynd ymlaen o'r blaen, ac yn fy mhortffolio blaenorol yn sicr cefais drafodaethau gyda'r Gweinidog perthnasol ynghylch y mater hwn. Yn amlwg, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu gofal plant, ac, fel Llywodraeth, rydym yn eu helpu a'u cefnogi i wneud hyn. Mae'r asesiad o ddigonolrwydd gofal plant a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol yn gynharach eleni—ym mis Ebrill mi gredaf—yn dangos bod yna fylchau sylweddol yn eu gofal plant y tu allan i'r ysgol, felly maen nhw'n gwybod mai dyma yw'r sefyllfa am mai nhw gyflawnodd y gwaith. Byddaf yn cael y trafodaethau hynny gyda'm cyd-aelodau gweinidogol wrth symud ymlaen.

Senedd.tv Fideo Video

14:20 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Mae meithrinfa yng Nglyn Ceiriog wedi cysylltu â mi yr wythnos hon, meithrinfa sydd wedi cael arolwg ardderchog gan Estyn yn ddiweddar, ond meithrinfa sydd yn gorfod wynebu problem o gynnal gwasanaeth mewn ardal wledig, gyda niferoedd yn amrywio nid yn unig o ddydd i ddydd ond o flwyddyn i flwyddyn. Pan fo'r niferoedd yn fach, mae cynnal staff ac adeilad yn her sylweddol o safbwynt cyllido, ac mae'n bryder mawr y bydd yn rhaid i'r gwasanaeth pwysig hwn gau. Pa gymorth allwch chi ei roi i feithrinfeydd mewn ardaloedd gwledig sydd yn wynebu heriau o'r math hwn?

A nursery in Glyn Ceiriog has contacted me this week, a nursery that has had an excellent review from Estyn recently, as it is facing the problem of maintaining a service in a rural area, with numbers varying not only from day to day, but from year to year. When numbers are small, of course, maintaining buildings and staff is a significant challenge in terms of funding, and therefore there is grave concern that this important service will have to close. What support can you give to nurseries in rural areas that are facing challenges such as this?

Senedd.tv Fideo Video

14:21 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Diolch. I am not sure whether the nursery to which you refer is private sector or public sector, as, obviously, that will make a difference as to what help and support we can give. However, it is very important that we work with local authorities. I mentioned the childcare sufficiency assessment that has been done by local authorities, and I assume that that would be Denbighshire—

Diolch. Wn i ddim a yw'r feithrinfa y cyfeiriwch ati yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus, gan y byddai hynny'n amlwg yn gwneud gwahaniaeth o ran y cymorth a'r gefnogaeth y gallwn eu rhoi. Er hynny, mae'n bwysig iawn ein bod yn cydweithio ag awdurdodau lleol. Bu i mi sôn am yr asesiad digonolrwydd gofal plant a gyflawnwyd gan awdurdodau lleol, a thybiaf mai Sir Ddinbych fyddai hynny-

Senedd.tv Fideo Video

14:21 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

It is Wrexham.

Wrecsam yw'r awdurdod.

Senedd.tv Fideo Video

14:21 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Sorry, Wrexham County Borough Council. I assume that it would have brought forward its assessment. So, I would be very happy to have a discussion with Wrexham if that is the case.

Mae'n ddrwg gennyf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Rwy'n cymryd y byddai wedi cyflawni ei asesiad. Felly, byddwn yn barod iawn i gael trafodaeth gyda Wrecsam os yw hynny'n wir.

Senedd.tv Fideo Video

14:21 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, fe wnaethoch chi gyhoeddi cynllun 10 mlynedd drafft ddydd Llun ar ofal plant. Rydych wedi dweud bod yr asesiadau wedi cael eu derbyn yn gynharach yn y flwyddyn. Fodd bynnag, mewn ardaloedd fel Wrecsam, lle mae diffyg lleoedd mewn ysgolion, mae meithrinfeydd yn cael gwybod nad yw'n bosibl iddynt barhau i gynnal cyfarfodydd yn yr ysgolion hynny. Felly, a fyddwch chi'n cael trafodaethau â'ch Gweinidog addysg i drafod y sefyllfa?

Minister, you announced on Monday a draft 10-year plan on childcare, and you have said that the assessments were received earlier in the year. Yet, in areas such as Wrexham, where there is a lack of space within schools, nurseries are now being told that it is not possible for them to continue to hold meetings within those schools. So, will you have discussions with your Minister for education to discuss this situation?

14:22 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The two portfolios have worked very closely together in bringing forward this plan, and I will have a further discussion with the Minister for Education and Skills.

Mae'r ddau bortffolio wedi gweithio'n agos iawn gyda'i gilydd wrth gyflwyno'r cynllun hwn, a byddaf yn cael trafodaeth bellach gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau.

### Sipsiwn a Theithwyr

### Gypsies and Travellers

14:22 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gefnogi anghenion Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru? OAQ(4)0221(CTP)*

*2. What plans does the Minister have to support the needs of Gypsies and Travellers in Wales? OAQ(4)221(CTP)*

14:22 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government published an update on progress towards meeting the objectives in the 'Travelling to a Better Future' framework for action in November 2013. Good progress has been made and we will continue to work to achieve fairness and equality for these communities.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran cyflawni amcanion fframwaith gweithredu 'Teithio at Ddyfodol Gwell' ym mis Tachwedd 2013. Cafwyd cynnydd da a byddwn yn parhau i weithio i sicrhau tegwch a chydraddoldeb ar gyfer y cymunedau hyn.

14:22 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for that response. Bearing in mind that the Welsh Government has put a duty on local authorities to provide sites for Gypsies and Travellers, which is a huge step forward and I congratulate the Government on doing that, what does the Minister plan to do to support the establishment of those sites, in view of the support that Gypsies and Travellers often need when sites are set up because there is often hostility from local residents? Certainly in Cardiff, there is a problem that the Cardiff Gypsy and Traveller Project is struggling to survive.

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. O gofio bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, sy'n gam mawr ymlaen ac rwy'n llongyfarch y Llywodraeth am wneud hynny, beth mae'r Gweinidog yn bwriadu ei wneud i gefnogi'r gwaith o sefydlu rhai safleoedd, yn wyneb y gefnogaeth sydd ei angen yn aml ar Sipsiwn a Theithwyr pan fydd safleoedd yn cael eu sefydlu gan fod gelyniaeth gan drigolion lleol yn aml? Yn sicr yng Nghaerdydd, mae problem bod Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd yn cael trafferth i oroesi.

14:23 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I accept that there is still a lot of work ahead to address the shortfall that we have in pitches, for instance, across Wales. I think that the new duties upon local authorities are important, however I firmly believe that legislation will not solve all the problems on its own.

Rwy'n derbyn bod llawer o waith o'n blaenau o hyd o ran mynd i'r afael â'r diffyg sydd gennym mewn lleiniau, er enghraifft, ar draws Cymru. Credaf fod y dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol yn bwysig, fodd bynnag, credaf yn gryf na fydd y ddeddfwriaeth ar ei phen ei hun yn datrys yr holl broblemau.

You will be aware that each local authority is required to undertake a new Gypsy and Traveller accommodation assessment, and that has to be done by February 2016. Following the assessment, the local authorities themselves will have a much clearer idea of the need for the sites.

Byddwch yn ymwybodol bod angen i bob awdurdod lleol gynnal asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr newydd, ac y mae'n rhaid ei wneud erbyn Chwefror 2016. Yn dilyn yr asesiad, bydd gan yr awdurdodau lleol eu hunain syniad llawer cliriach o'r angen am y safleoedd.

As a Government, we fund eight regional community cohesion co-ordinators across Wales, and they have a specific role in ensuring that these communities are engaged within local housing and planning processes. It is very important that their voices are heard and that they have somebody who will be their advocate and help them to ensure that their voices are heard.

Fel Llywodraeth, rydym yn ariannu wyth o gydlynwyr cydlyniant cymunedol rhanbarthol ledled Cymru, ac mae ganddynt rôl benodol o ran sicrhau bod y cymunedau hyn yn cael eu cynnwys o fewn prosesau tai a chynllunio lleol. Mae'n bwysig iawn bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u bod yn cael rhywun a fydd yn eiriol ar eu rhan ac yn eu helpu i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Local authorities also have a duty through the Equality Act 2010 to tackle discrimination and to promote good relations. That should include providing support to local organisations, as is the case with the Cardiff Gypsy and Traveller Project.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd drwy'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac i hyrwyddo cysylltiadau da. Dylai hynny gynnwys darparu cymorth i sefydliadau lleol, fel sy'n digwydd gyda Phrosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd.

14:24

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, a report published earlier this year by Her Majesty's Inspectorate of Prisons revealed that around 5% of our prisoners in England and Wales considered themselves to be Gypsy, Romani or Travellers. Among the reasons stated for this over-representation were the illiteracy and innumeracy of members of these communities. What discussion have you had with ministerial colleagues to address the problem of educational underachievement among our Gypsy and Traveller community in Wales?

Weinidog, mae adroddiad a gyhoeddwyd yn gynharach eleni gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn dangos bod tua 5% o garcharorion yng Nghymru a Lloegr yn ystyried eu hunain yn Sipsiwn, Romani neu'n Deithwyr. Ymhlith y rhesymau a roddwyd am yr or-gynrychiolaeth hon oedd anllythrennedd ac anrhifogrwydd aelodau'r cymunedau hyn. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â chyd-Weinidogion i fynd i'r afael â phroblem tangyflawni addysgol ymhlith ein cymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru?

14:25

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, I have not had any discussions this early in the portfolio in relation to the specific group of people you refer to. However, in my previous portfolio, I was the link Minister regarding prisons and I had discussions with ministerial colleagues regarding literacy and numeracy skills for Welsh prisoners. I will undertake to have a discussion if you think it is an issue, and I will write to the Member following that discussion.

Unwaith eto, nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau mor gynnar â hyn yn y portffolio mewn perthynas â'r grŵp penodol o bobl y cyfeirioch atynt. Fodd bynnag, yn fy mhortffolio blaenorol, fi oedd y Gweinidog cyswllt ynghylch carchardai a chefais drafodaethau â chydweithwyr gweinidogol o ran llythrennedd a rhifedd ar gyfer carcharorion o Gymru. Fe af ati i gael trafodaeth os ydych yn credu fod hyn yn broblem, ac ysgrifennaf at yr Aelod yn dilyn y drafodaeth honno.

14:25

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, obviously, all local authorities must make a local assessment of the need for sites, but you are the only one with a national overview. So, how many new sites do you think Wales needs?

Weinidog, yn amlwg, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol wneud asesiad lleol o'r angen am safleoedd, ond dim ond chi sydd â throsolwg cenedlaethol. Felly, faint o safleoedd newydd yn eich barn chi sydd eu hangen ar Gymru?

14:25

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not have a figure in my head at the moment. I had a briefing with officials this morning prior to questions and was told that my predecessor opened a site in Powys earlier this year and that that was the first one for a decade. I actually have a Gypsy and Traveller site in the ward I live in and I did not think that it had been there for that long a period of time. So, clearly, we have not had many new sites in Wales. So, that is a piece of work that I will have to undertake. There is clearly a shortfall in the number of pitches we have. Presumably then, there is a shortfall in the number of sites we have.

Nid oes gennyf ffigur yn fy mhen ar hyn o bryd. Cefais fy mriffio gan swyddogion y bore yma cyn y sesiwn gwestiynau a chefais wybod bod fy rhagflaenydd wedi agor safle ym Mhowys yn gynharach eleni ac mai dyna oedd y cyntaf ers degawd. Mae gennyf fi safle Sipsiwn a Theithwyr yn y ward lle rwy'n byw ac nid oeddwn yn meddwl ei fod wedi bod yno ers cyfnod hir. Felly, yn amlwg, nid ydym wedi cael llawer o safleoedd newydd yng Nghymru. Felly, mae hynny'n ddarn o waith y bydd yn rhaid i mi ymgymryd ag ef. Mae'n amlwg bod diffyg yn nifer y lleiniau sydd gennym. Yn ôl pob tebyg, felly, mae gennym brinder safleoedd.

### Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

### Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from party spokespeople. The first is from the Welsh Conservatives' spokesperson, Mark Isherwood.

Rydym bellach yn symud i gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau. Y cyntaf yw gan lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig', Mark Isherwood.

14:26 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch and welcome to my first question of you in this role. It is a decade since the housing sector in Wales warned of a forthcoming housing supply crisis. In 2008, the Sue Essex report on affordable housing referred to the 'current crisis'. The Homes for All Cymru report six years ago stated that there was a crisis in Wales. The 2012 Communities, Equality and Local Government Committee report quoted a housing association sector saying

'The housing crisis is with us now.'

Last year, the Country, Land and Business Association report 'Tackling the Housing Crisis in Wales' said,

'We need more homes for rural economy workers to keep communities in the countryside viable.'

Do you agree that we have a housing supply crisis in Wales?

Diolch a chroeso i'm cwestiwn cyntaf i chi yn y rôl hon. Mae'n ddeng mlynedd ers i'r sector tai yng Nghymru rybuddio bod argyfwng ar y gorwel o ran y cyflenwad tai. Yn 2008, roedd adroddiad Sue Essex ar dai fforddiadwy yn cyfeirio at yr 'argyfwng presennol'. Nododd adroddiad Homes for All Cymru chwe blynedd yn ôl fod argyfwng yng Nghymru. Dyfynnodd adroddiad Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol 2012, un o'r sectorau cymdeithasau tai gan ddweud

'Mae'r argyfwng tai ar ein gwarthaf.'

Y llynedd, yn ôl adroddiad Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad sef 'Mynd i'r afael â'r Argyfwng Tai yng Nghymru':

'Mae angen mwy o gartrefi i weithwyr yr economi wledig i gadw cymunedau hyfyw yng nghefn gwlad.'

A ydych yn cytuno bod gennym argyfwng yn y cyflenwad tai yng Nghymru?

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is not my take on it this early in the portfolio. I have had several discussions around different aspects of housing. I also spoke at a housing conference last week. Clearly, one of our programme for government commitments is to build 10,000 affordable homes by the end of this term. I am due an update on the number of homes within the next month, I think. However, I believe that we are on target to deliver that figure of 10,000.

Nid dyna fy safbwynt i mor gynnar â hyn yn y portffolio. Rwyf wedi cael nifer o drafodaethau ynghylch gwahanol agweddau ar dai. Bûm hefyd yn siarad mewn cynhadledd dai yr wythnos diwethaf. Yn amlwg, un o'n rhaglenni ar gyfer ymrwymiadau'r llywodraeth yw adeiladu 10,000 o dai fforddiadwy erbyn diwedd y tymor hwn. Rwy'n disgwyl y ffigurau diweddaraf ar gyfer y cartrefi o fewn y mis nesaf, rwy'n credu. Fodd bynnag, credaf ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni'r ffigur o 10,000.

14:27 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In fact, during the first three Assembly terms under Labour, the number of social homes in Wales fell by nearly 30,000. Given that, in the year to July, only 1,123 new homes were registered in Wales against an estimated need of 14,200 new homes in Wales annually, what dialogue will you be personally having with the construction sector in Wales, noting the comment by Construction4 Growth Wales that the cost of Wales-specific regulation in the sector means that companies, and particularly small and medium-sized enterprises, are increasingly unable to compete.

Yn wir, yn ystod tri thymor cyntaf y Cynulliad o dan Lafur, cafwyd gostyngiad o bron i 30,000 yn nifer y cartrefi cymdeithasol yng Nghymru. O ystyried hynny, dim ond 1,123 o gartrefi newydd a gofrestrwyd yn y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf yng Nghymru yn erbyn amcangyfrif o angen o 14,200 o gartrefi newydd yng Nghymru bob blwyddyn; pa ddeialog a fyddwch chi'n bersonol yn ei chynnal gyda'r sector adeiladu yng Nghymru, gan nodi'r sylw gan Construction4 Growth Wales fod y gost o reoleiddio sy'n benodol i Gymru yn y sector yn golygu bod cwmnïau, yn enwedig busnesau bach a chanolig, ei chael hi'n gynyddol anos cystadlu.

14:28 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will be having several discussions with stakeholders. I think that they are incredibly important in making sure that we have the supply of homes in Wales we want to see. Clearly, you have the house builders and registered social landlords. Just on Monday, I attended the celebration of the Housing (Wales) Act 2014. Three previous Ministers for housing and I were all there to celebrate the housing Act. Clearly, the work that was undertaken by my predecessor, Carl Sargeant, will assist in that. They are a very important part of ensuring that the housing supply is what we want to see.

Byddaf yn cael nifer o drafodaethau gyda rhanddeiliaid. Credaf eu bod yn hynod o bwysig wrth sicrhau bod gennym y cyflenwad o gartrefi yng Nghymru rydym am ei weld. Yn amlwg, mae gennych yr adeiladwyr tai a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Dim ond ddydd Llun diwethaf, roeddwn yn bresennol i ddathlu Deddf Tai (Cymru) 2014. Roedd tri Gweinidog Tai blaenorol a minnau yno i ddathlu'r Ddeddf tai. Yn amlwg, bydd y gwaith a wnaed gan fy rhagflaenydd, Carl Sargeant, yn cynorthwyo yn hynny. Maent yn rhan bwysig iawn o sicrhau bod y cyflenwad tai yn cyfateb i'r hyn rydym am ei weld.

14:29 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. You refer to the housing Act, much of which focused on the way that the private rented sector can help to provide housing to people who are homeless and in desperate need. The 2011 Communities and Culture Committee report on making the most of the private rented sector quoted the National Landlords Association as saying that there should be Wales-wide private rented sector access agencies for vulnerable people based on the Agorfa Cefni Lettings model, a partnership of trust between the private sector and local authorities, with the National Landlords Association and the third sector implementing and delivering more for less rather than replicating for higher cost. Why, therefore, are we instead seeing a plethora, a sudden upsurge, of new housing companies being announced by local authorities, which seem to be replicating for higher cost, with the risk that it will deliver less for more than would be the case if it followed the good practice, and worked across the three sectors to meet this desperate need.

Diolch. Rydych yn cyfeirio at y Ddeddf tai, ac mae llawer ohoni'n canolbwyntio ar y ffordd y gall y sector rhentu preifat helpu i ddarparu tai i bobl sy'n ddigartref ac mewn angen dybryd. Yn adroddiad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant 2011 ar wneud y gorau o'r sector rhentu preifat, cafwyd dyfyniad gan Gymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid yn dweud y dylid cael asiantaethau mynediad i'r sector rhentu preifat ledled Cymru ar gyfer pobl fregus yn seiliedig ar y model Agorfa Cefni Lettings, sef partneriaeth o ymddiriedaeth rhwng y sector preifat ac awdurdodau lleol, gyda Chymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid a'r trydydd sector yn gweithredu a darparu mwy am lai yn hytrach na dyblygu am gost uwch. Pam, felly, ydym ni'n hytrach yn gweld llu, yn wir ymchwydd sydyn, o gwmnïau tai newydd sy'n cael eu cyhoeddi gan yr awdurdodau lleol ac sy'n ymddangos eu bod yn dyblygu am gost uwch, gyda'r risg y bydd yn cyflawni llai am fwy yn hytrach na'r sefyllfa fyddai gennym trwy ddilyn arfer da, a gweithio ar draws y tri sector i ddiwallu'r angen dybryd hwn.

14:30 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not recognise that, but certainly I would not want to see duplication of any of our public services. I know that you were at the Housing (Wales) Act 2014 celebration too on Monday, and, from the discussions that I had with people there, I do not recognise your comments.

Nid wyf yn cydnabod hynny, ond yn sicr ni fyddwn am weld dyblygu unrhyw un o'n gwasanaethau cyhoeddus. Gwn i chi fod yn bresennol yn nathliad Deddf Tai (Cymru) 2014 hefyd ddydd Llun, ac, o'r trafodaethau a gefais gyda phobl yno, nid wyf yn cydnabod eich sylwadau.

14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Leanne Wood.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

14:30 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Llongyfarchiadau—congratulations on your new post, Minister.

Llongyfarchiadau—llongyfarchiadau ar eich swydd newydd, Weinidog.

Last week's Sheffield Hallam University report on the impact of welfare reform on the Valleys makes for difficult reading. The report found that the current welfare reforms, when they come into full fruition, will take more than £1 billion every year out of the Welsh economy. That is equivalent to £550 for every working adult. We cannot afford to take this hit, Minister. So, will you join me in condemning the devastating effects that welfare reform has had, and will have—cuts that have been orchestrated by a Westminster coalition with no mandate in this country?

Mae adroddiad Prifysgol Sheffield Hallam ar effaith diwygio lles ar y Cymoedd a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn waith darllen annifyr. Canfu'r adroddiad y bydd y diwygiadau lles ar hyn o bryd, pan ddônt i'w llawn effaith, yn cymryd dros £1 biliwn bob blwyddyn allan o economi Cymru. Mae hynny'n cyfateb i £550 i bob oedolyn sy'n gweithio. Ni allwn fforddio'r ergyd hon, Weinidog. Felly, a fyddech chi'n barod i gytuno â mi trwy gondemnio effeithiau dinistriol y diwygiadau lles hyn yn awr ac yn y dyfodol—toriadau sydd wedi eu llunio gan glymblaid San Steffan, sydd heb yr un mandad yn y wlad hon?

14:31 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, certainly; the findings of the research that came out of Sheffield Hallam University show the devastating impact that welfare reform is having on many of our most vulnerable citizens here in Wales. Certainly, the findings, I think, that came from the university research were broadly in line with our own research, which estimated that Wales would lose around £900 million a year—so it was very similar.

Byddwn, yn sicr; mae canfyddiadau'r ymchwil a gyflwynwyd gan Brifysgol Sheffield Hallam yn dangos yr effaith ddinistriol y mae’r diwygiadau lles yn ei chael ar lawer o'n dinasyddion mwyaf bregus yma yng Nghymru. Yn sicr, mae'r canfyddiadau, mi gredaf, a ddaeth o ymchwil y brifysgol yn fras yn unol â'n hymchwil ni ein hunain, a oedd yn amcangyfrif y byddai Cymru yn colli tua £900 miliwn y flwyddyn—felly roedd yn debyg iawn.

14:31 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, it was good to hear you joining the Party of Wales in highlighting the unfairness with which these welfare reforms will punish some of the most vulnerable people in our society. Given that these reforms will impact Wales, and the fact that they will impact Wales disproportionately, I would like to know what impact assessment you have carried out to look at the effect of these cuts. Can you also tell us what measures you intend to implement to mitigate the worst effects of these welfare cuts?

Weinidog, pleser oedd eich clywed yn ategu Plaid Cymru wrth dynnu sylw at annhegwch y diwygiadau lles hyn a fydd yn cosbi rhai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas. O gofio y bydd y diwygiadau hyn yn effeithio ar Gymru, a'r ffaith y byddant yn effeithio’n anghymesur ar Gymru, hoffwn wybod pa asesiad o effaith yr ydych wedi ei gynnal i edrych ar effaith y toriadau hyn. A allwch ddweud wrthym hefyd pa fesurau rydych yn bwriadu eu rhoi ar waith i liniaru effeithiau gwaethaf y toriadau lles hyn?

14:32 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, we have been doing a great deal of work. Before I came into post, my predecessor was doing the work. We have the ministerial task and finish group on welfare reform, which I attended in my previous portfolio. I think that six Ministers attended that, because we wanted to show the importance with which we viewed this work that we were doing, to mitigate the impact of the welfare reform changes coming from the UK Government. Just yesterday, we had an oral statement about the extra £2 million funding that I announced last week to support advice services, because what I would like to see is people going for advice before they get into difficulties. So, we are doing a great deal of work to mitigate the impact of welfare reform.

Yn amlwg, rydym wedi bod yn gwneud llawer iawn o waith. Cyn i mi ddod i’r swydd, fy rhagflaenydd oedd yn gwneud y gwaith. Mae gennym grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol ar ddiwygio lles, ac roeddwn yn bresennol yn sgîl fy mhortffolio blaenorol. Credaf fod chwe Gweinidog yn ei fynychu, am ein bod yn awyddus i ddangos pa mor bwysig roeddem ni’n ystyried y gwaith hwn roeddem ni’n ei wneud i liniaru effaith y diwygiadau lles sy’n dod i rym gan Lywodraeth y DU. Dim ond ddoe, cawsom ddatganiad llafar am y cyllid ychwanegol o £2 filiwn a gyhoeddais yr wythnos diwethaf i gefnogi gwasanaethau cynghori, oherwydd yr hyn yr hoffwn ei weld yw pobl yn mynd i gael cyngor cyn iddynt fynd i drafferthion. Felly, rydym yn gwneud llawer iawn o waith i liniaru effaith diwygio lles.

14:33 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one aspect of the Sheffield Hallam report, which I am sure would not have escaped your attention, was the impact of welfare reform with regard to child benefit. It has been estimated that, in the Valleys alone, £45 million in child benefit will be lost as a result of this change. Will you therefore join me in condemning the Labour Party’s plan to put a cap on child benefit, which is a real-terms cut? A child benefit cap will affect those who need the income the most, and it will hit women particularly hard, given that they tend to be the principal carers of children. So, will you this afternoon, Minister, join me in condemning this cruel policy?

Weinidog, un agwedd ar adroddiad Sheffield Hallam na fyddech wedi methu â’i weld rwy’n siŵr oedd effaith diwygiadau lles ar fudd-dal plant. Yn y Cymoedd yn unig, amcangyfrifir colled o £45 miliwn mewn budd-dal plant yn o ganlyniad i'r newid hwn. A wnewch chi, felly, ymuno â mi i gondemnio cynllun y Blaid Lafur i roi cap ar fudd-dal plant, sy'n doriad mewn termau real? Bydd cap ar fudd-dal plant yn effeithio ar y rhai sydd angen yr incwm fwyaf, a bydd yn taro merched yn arbennig o galed, o gofio mai nhw fel rheol yw’r prif ofalwyr plant. Felly, a wnewch chi'r prynhawn yma, Weinidog, ymuno â mi i gondemnio'r polisi creulon hwn?

14:33 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was waiting for that to come along. What I would rather do is concentrate on the levers that we have in Welsh Government to help the people of Wales. I do hope that we have a Labour Government following the election next year, and one thing that the Labour Government will be doing is getting rid of the bedroom tax.

Roeddwn i’n aros am yr ergyd honno. Yr hyn fyddai’n well gennyf fi ei wneud yw canolbwyntio ar y camau sydd gennym ni yn Llywodraeth Cymru i helpu pobl Cymru. Rwy’n gobeithio'n fawr y bydd gennym Lywodraeth Lafur yn dilyn yr etholiad y flwyddyn nesaf, ac un peth y bydd Llywodraeth Lafur yn ei wneud yw cael gwared ar y dreth ystafell wely.

14:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

14:34 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, in his letter to me, dated 19 August, your predecessor told me that he had investigated whether the public sector broadband aggregation programme could be accessed by credit unions, so as to enable satellite working and closer co-operation between them, as well as enabling them to reduce risk in terms of securing their data in the cloud. He told me that he was considering this further, and that his officials would be discussing the matter with the relevant departments within Welsh Government. May I ask what conclusions have been reached on this issue?

Weinidog, yn ei llythyr ataf, dyddiedig 19 Awst, dywedodd eich rhagflaenydd wrthyf ei fod wedi ymchwilio i'r posibilrwydd o alluogi undebau credyd i gael mynediad at raglen gydgasglu band eang, er mwyn galluogi gwaith lloeren a chydweithredu agosach rhyngddynt, yn ogystal â'u galluogi i leihau risg trwy ddiogelu eu data yn y cwmwl. Dywedodd wrthyf ei fod yn ystyried hyn ymhellach, ac y byddai ei swyddogion yn trafod y mater gyda'r adrannau perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru. A gaf fi ofyn pa gasgliadau a gafwyd ar y mater hwn?

14:34 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

As far as I know, no conclusion has been reached at the moment. My officials are currently discussing this issue with the relevant departments within Welsh Government, which obviously manage the PSBA scheme. I do recognise that credit unions having access to that scheme would be very beneficial to them.

Hyd y gwn i, nid oes casgliad wedi ei wneud ar hyn o bryd. Mae fy swyddogion wrthi'n trafod y mater hwn gyda'r adrannau perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru, sy'n amlwg yn rheoli'r cynllun PSBA. Rwy'n cydnabod y byddai'n fuddiol iawn i undebau credyd gael mynediad at y cynllun.

14:35 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. As you know, the Welsh Government has spent £649,000 of taxpayers' money on an advertising campaign to promote credit unions. Your predecessor told me on 11 June that a major objective of that expenditure was a 25% increase in the predicted growth acceleration of credit union membership. In his letter to the Communities, Equality and Local Government Committee, dated 11 July, your predecessor said that membership fees for credit unions for the quarter April to June would be available to the Welsh Government by the end of that month. Can you tell me whether the stated objective of a 25% increase in membership was achieved and what the actual figures are?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi gwario £649,000 o arian y trethdalwyr ar ymgyrch hysbysebu i hyrwyddo undebau credyd. Dywedodd eich rhagflaenydd ar 11 Mehefin mai un o brif amcanion y gwariant oedd sicrhau cynnydd o 25% yn nhwf disgwyliedig aelodaeth undebau credyd. Yn ei lythyr at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, dyddiedig 11 Gorffennaf, dywedodd eich rhagflaenydd y byddai ffioedd aelodaeth ar gyfer undebau credyd ar gyfer y chwarter Ebrill i Fehefin ar gael i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd y mis hwnnw. A allwch ddweud yn awr a yw'r amcan a nodwyd o sicrhau cynnydd o 25% yn yr aelodaeth wedi ei wireddu a beth yw'r ffigurau gwirioneddol?

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The only figure that I have in front of me is that, at the end of June 2014, adult membership for all credit unions in Wales is estimated to be 65,960. I will have to check with officials if we have a more up-to-date figure, and I will let the Member know if that is the case.

Yr unig ffigur sydd gennyf ger fy mron yw bod amcangyfrif aelodaeth oedolion ar gyfer pob undeb credyd yng Nghymru ar ddiwedd mis Mehefin 2014 yn 65,960. Bydd yn rhaid imi holi swyddogion a oes gennym ffigur mwy diweddar, a byddaf yn rhoi gwybod i'r Aelod os yw ar gael.

14:35 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. That was the figure that was quoted by the Minister for March of this year as well, so clearly the figures for the end of June have not been available. I would be grateful if you could pass those on to us. Your predecessor told us back in May this year that he and his Cabinet colleagues would market credit unions to the public service workforce and facilitate payroll deductions. This would support credit unions to become sustainable by attracting higher earning members. To what extent have the Government's marketing activities been directed towards attracting more tier 1 and 2 members to credit unions and persuading them to borrow?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Dyna oedd y ffigur a ddyfynnwyd gan y Gweinidog ar ddiwedd mis Mawrth eleni hefyd, felly mae'n amlwg nad yw'r ffigurau ar gyfer diwedd mis Mehefin wedi bod ar gael. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon rhai ymlaen ataf i. Dywedodd eich rhagflaenydd wrthym yn ôl ym mis Mai eleni y byddai ef a'i gydweithwyr yn y Cabinet yn marchnata undebau credyd i'r gweithlu gwasanaeth cyhoeddus a hwyluso didyniadau cyflogres. Byddai hyn yn cynorthwyo undebau credyd i ddod yn gynaliadwy drwy ddenu aelodau sy'n ennill cyflog uwch. I ba raddau y mae gweithgareddau marchnata'r Llywodraeth wedi'u cyfeirio tuag at ddenu mwy o aelodau haen 1 a 2 i undebau credyd a'u perswadio i fenthyg?

14:36 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that that is a very important point. Certainly, I know that North Wales Credit Union Ltd is doing some really good work in promoting credit unions to the public sector workforce and having that payroll deduction, which will encourage more people to sign up to it. I want to do all that I can to support credit unions to be sustainable. I know that there are some that have been a bit more fragile. I mentioned north Wales, and I think, certainly looking at it this early in the portfolio, that it is an example of good practice. I would like to visit it quite soon to see what it is doing and what can be rolled out. I absolutely believe that good practice should be rolled out.

Credaf fod hynny'n bwynt pwysig iawn. Yn sicr, rwy'n gwybod bod Undeb Credyd Gogledd Cymru Cyf yn gwneud rhywfaint o waith da iawn wrth hyrwyddo undebau credyd i weithlu'r sector cyhoeddus gan ddidynnu o'r gyflogres, sy'n annog rhagor o bobl i lofnodi. Rwyf am wneud popeth y gallaf i gefnogi undebau credyd i fod yn gynaliadwy. Gwn fod yna rai sydd wedi bod ychydig yn fwy bregus. Soniais am y gogledd, a chredaf, yn sicr wrth ei ystyried yn gynnar yn y portffolio, ei fod yn enghraifft o arfer da. Hoffwn ymweld â hi yn weddol fuan i weld beth mae'n ei wneud a beth y gellir ei gyflwyno. Rwy'n credu'n gryf y dylai arfer da gael ei ledaenu.

The marketing campaign did encourage people to join the credit union. People are now talking about the importance of credit unions and the way that people who are more financially stable can help some of the most vulnerable in our communities.

Gwnaeth yr ymgyrch farchnata annog pobl i ymuno â'r undeb credyd. Mae pobl yn awr yn sôn am bwysigrwydd undebau credyd a'r ffordd y gall pobl sy'n fwy sefydlog yn ariannol helpu rhai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau.

### Mynediad at Gyfrifon Banc

### Access to Bank Accounts

14:37 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y bobl yng Nghymru nad oes ganddynt fynediad at gyfrif banc sylfaenol? OAQ(4)0224(CTP)*

*3. Will the Minister make a statement on the number of people in Wales who do not have access to a basic bank account? OAQ(4)0224(CTP)*

14:37 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Gwenda Thomas for that question. Living entirely within a cash economy can be expensive. Recent research estimates that 6% of people in Wales do not have a current account with a bank, building society or credit union. The Welsh Government supports credit unions to provide affordable and accessible financial services to those who are financially excluded.

Hoffwn ddiolch i Gwenda Thomas am y cwestiwn hwnnw. Gall byw yn gyfan gwbl trwy gyfrwng arian parod fod yn ddrud. Mae ymchwil diweddar yn amcangyfrif nad oes gan 6% o bobl yng Nghymru gyfrif cyfredol gyda banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi undebau credyd i ddarparu gwasanaethau ariannol fforddiadwy a hygyrch i'r rhai sydd wedi'u hallgau'n ariannol.

14:37 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. While the number of households without access to any bank account has declined in recent years, there is still a significant minority of individuals who remain unbanked—to use that word. For a great many of them, being trapped in a cash- only economy exacerbates the profound problems of life on a low or unstable income. Given that a lack of banking services is frequently associated with social isolation, I am glad to hear you refer to the credit union and would support that. Perhaps you would like to say if there are any other ways that we can seek to widen the financial inclusion of these vulnerable people.

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Er bod nifer y cartrefi sydd heb fynediad at unrhyw gyfrif banc wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, mae lleiafrif sylweddol o unigolion sy'n parhau heb wasanaethau bancio. I lawer iawn ohonynt, mae cael eu dal mewn amgylchiadau arian parod yn gwaethygu'r problemau difrifol a ddaw yn sgîl incwm isel neu ansefydlog. O ystyried y diffyg gwasanaethau bancio sy'n aml yn gysylltiedig ag ynysu cymdeithasol, rwy'n falch eich clywed yn cyfeirio at yr undeb credyd ac yn cefnogi hynny. Efallai yr hoffech ddweud a oes unrhyw ffyrdd eraill y gallwn geisio ehangu cynhwysiant ariannol i'r bobl fregus hyn.

14:38

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As a Government, we have several initiatives to assist these people. We had the oral statement yesterday on advice services, and the extra £2 million that we are providing will help people who are financially excluded. I also want them to go along to get advice before they get into debt, to get those preventative measures in place. You will be aware that, from that funding, we fund a Communities First and Citizens Advice joint project, which delivers outreach advice on a range of issues in Communities First areas, which, of course, are some of our most deprived areas.

Fel Llywodraeth, mae gennym nifer o fentrau i helpu'r bobl hyn. Cawsom ddatganiad llafar ddoe ar wasanaethau cynghori, a bydd y £2 filiwn ychwanegol rydym yn eu darparu yn helpu pobl sydd wedi'u hallgau'n ariannol. Rwyf hefyd am iddynt fynd i gael cyngor cyn iddynt fynd i ddyled, er mwyn cael mesurau ataliol yn eu lle. Byddwch yn ymwybodol, o'r cyllid hwnnw, rydym yn ariannu prosiect ar y cyd gyda Chymunedau yn Gyntaf a Cyngor ar Bopeth, sy'n darparu cyngor allgymorth ar ystod o faterion yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, sy'n rhai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig wrth gwrs.

I think that everybody needs access to live in a modern society, and banking is clearly one area, so we have to do everything that we can to help people who find themselves financially excluded.

Credaf fod angen i bawb fedru byw bywyd mewn cymdeithas fodern bawb, ac mae bancio yn amlwg yn un maes, felly mae'n rhaid i ni wneud popeth y gallwn i helpu pobl sy'n eu cael eu hunain wedi'u hallgau'n ariannol.

14:39

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I too am a great fan of North Wales Credit Union Ltd and, in fact, met its representatives only last week. I know that it is trying to develop its online service provision in order to enable the sort of inclusion that has just been referred to by Gwenda Thomas. One thing that it has suggested is that a way of helping it would be to include it within the Welsh public sector broadband aggregation scheme. Can you tell us today, Minister, whether that is something that you will be able to extend directly to North Wales Credit Union, as indeed to others trying to develop the suite of online services that are, of course, essential for daily living these days?

Rwyf innau hefyd yn hoff iawn o Undeb Credyd Gogledd Cymru Cyf. A dweud y gwir, bûm yn cwrdd â'i gynrychiolwyr wythnos diwethaf. Gwn ei fod yn ceisio datblygu ei ddarpariaeth gwasanaeth ar-lein er mwyn galluogi'r math o gynnwys y cyfeiriwyd ato gan Gwenda Thomas ychydig yn ôl. Un awgrym a gafwyd gan yr undeb a fyddai'n gymorth iddynt fyddai eu cynnwys yng nghynllun cydgasglu band eang y sector cyhoeddus yng Nghymru. A allwch ddweud wrthym heddiw, Weinidog, a yw hynny'n rhywbeth y byddwch yn gallu ymestyn yn uniongyrchol i Undeb Credyd Gogledd Cymru, fel yn wir i eraill sy'n ceisio datblygu'r gyfres o wasanaethau ar-lein sydd, wrth gwrs, yn hanfodol ar gyfer bywyd bob dydd y dyddiau hyn?

14:40

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am not sure whether the Member was in the Chamber when I answered Peter Black's question on PSBA, but certainly my officials are having discussions with the relevant Government department responsible for that scheme. I can see that it would be beneficial for credit unions to have access to that service, so the discussions are ongoing.

Nid wyf yn siŵr a oedd yr Aelod yn y Siambr pan atebais gwestiwn Peter Black ar Brosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus, ond yn sicr mae fy swyddogion yn cynnal trafodaethau gydag adran berthnasol y Llywodraeth sy'n gyfrifol am y cynllun hwnnw. Gallaf weld y byddai o fudd i undebau credyd gael mynediad at y gwasanaeth hwnnw, felly mae'r trafodaethau'n parhau.

14:40

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Gan fod banciau bellach yn diflannu o'n pentrefi a'n trefi, gan ei gwneud yn llai tebygol y bydd pobl yn ymuno gyda banc, pa drafodaethau y mae'r Llywodraeth wedi'u cynnal gyda chyrff allanol i geisio creu banc y bobl—banc a fyddai yn gwasanaethu pobl ym mhob rhan o Gymru?

Given that banks are now disappearing from our villages and towns, making it less likely that people will open a bank account, what discussions has the Government had with external organisations to try to create a people's bank—a bank that would serve people in all parts of Wales?

14:41

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have not had any such discussions. I am not aware if ministerial colleagues have done so, but I think that it is important. As you say, we are seeing banks disappearing from our villages and towns and not everybody has access to online banking, for instance. We know that many people are, unfortunately, digitally excluded. So, I am sure that those discussions are ongoing, but I have not had any personally.

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau o'r fath. Nid wyf yn ymwybodol a fydd cydweithwyr gweinidogol wedi gwneud hynny, ond credaf ei fod yn bwysig. Fel y dywedwch, rydym yn gweld banciau'n diflannu o'n pentrefi a'n trefi ac nid oes gan bawb fynediad at fancio ar-lein, er enghraifft. Gwyddom fod llawer o bobl yn cael eu hallgau'n ddigidol, yn anffodus. Felly, rwy'n siŵr bod y trafodaethau hynny'n mynd rhagddynt, ond nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau personol.

## Undebau Credyd

## Credit Unions

14:41 **William Powell** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am waith Llywodraeth Cymru i hyrwyddo undebau credyd? OAQ(4)0225(CTP)*

*4. Will the Minister provide an update on the Welsh Government’s work to promote credit unions? OAQ(4)0225(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

14:41 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

As part of Welsh Government funding awarded to credit unions in January this year, a national marketing campaign was undertaken with the aim of increasing membership by 2,000 above predicted growth rates for 2014. During this campaign, more than 2,500 new members joined credit unions, in line with the target.

Fel rhan o gyllid Llywodraeth Cymru a ddyfarnwyd i undebau credyd ym mis Ionawr eleni, cynhaliwyd ymgyrch farchnata genedlaethol gyda'r nod o gynyddu aelodaeth gan 2,000 yn uwch na chyfraddau twf a ragwelir ar gyfer 2014. Yn ystod yr ymgyrch hon, ymunodd mwy na 2,500 o aelodau newydd ag undebau credyd, yn unol â'r targed.

Senedd.tv Fideo Video

14:41 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister, for that response. Endorsing the comments made by the Member for Arfon, it is obvious that the major high street banks are accelerating the pace of their branch closure programme across our country. In that context, if the banks are committed to reducing their services to principally an online service, backed up by regional hubs, is it not important and, in fact, imperative that the Welsh Government steps up a gear in developing alternative models—perhaps community banking or, indeed, further emphasis on the development of credit unions—to offer people across this country genuine inclusion, particularly those in our rural heartlands?

Diolch i chi, Weinidog, am yr ymateb hwnnw. Gan gefnogi'r sylwadau a wnaed gan yr Aelod dros Arfon, mae'n amlwg bod prif fanciau’r stryd fawr yn cyflymu eu camau wrth gau canghennau ledled ein gwlad. Yn y cyd-destun hwnnw, os yw’r banciau wedi ymrwymo i gyfyngu ar eu gwasanaethau gan ddarparu gwasanaeth ar-lein yn bennaf, sy’n cael ei gefnogi gan ganolfannau rhanbarthol, onid yw'n bwysig ac, mewn gwirionedd, yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn newid gêr o ran datblygu modelau amgen—bancio cymunedol o bosibl neu, yn wir, mwy o bwyslais ar ddatblygu undebau credyd—er mwyn cynnig i bobl ledled y wlad hon gynhwysiant gwirioneddol, yn enwedig y rhai yn ein cadarnleoedd gwledig?

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I do not think that it is just Welsh Government’s responsibility. I think that there are other organisations that have far more responsibility than us, but I do think that we have a responsibility to support and promote the credit union project. Clearly, we have announced additional funding of £1.2 million in January of this year and then £1.9 million in April over three years. I mentioned the work that I want to do to support credit unions to become more sustainable for the very reasons that you suggest.

Nid wyf yn meddwl mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yn unig ydyw. Credaf fod yna sefydliadau eraill sydd â llawer mwy o gyfrifoldeb na ni, ond rwy’n credu bod gennym gyfrifoldeb i gefnogi a hyrwyddo prosiect undebau credyd. Yn amlwg, rydym wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol o £1.2 miliwn ym mis Ionawr eleni, ac yna £1.9 miliwn ym mis Ebrill dros dair blynedd. Soniais am y gwaith yr wyf am ei wneud i gefnogi undebau credyd i ddod yn fwy cynaliadwy am yr union resymau rydych yn eu hawgrymu.

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Minister, there are two credit unions operating in my constituency: Smart Money, based in the town of Caerphilly, and the Bargoed, Aberbargoed and Gilfach Credit Union Ltd. Both do a lot of good work in the community, providing advice and support, particularly for disadvantaged people. However, would you agree with me that we need to support the credit union movement in Wales, but also challenge it in terms of providing advice on financial inclusion, offering loans to better-off customers and providing other facilities for saving, such as payroll deduction, which has been pioneered very well indeed by North Wales Credit Union?

Weinidog, mae dau undeb credyd yn gweithredu yn fy etholaeth: Money Smart, a leolir yn nhref Caerffili, a'r Bargoed, Aberbargod ac Undeb Credyd Gilfach Cyf Mae'r ddau yn gwneud llawer o waith da yn y gymuned, gan ddarparu cyngor a chefnogaeth, yn enwedig ar gyfer pobl dan anfantais. Fodd bynnag, a fyddech yn cytuno â mi fod angen inni gefnogi'r mudiad undebau credyd yng Nghymru, ond ei herio hefyd o ran darparu cyngor ar gynhwysiant ariannol, cynnig benthyciadau i gwsmeriaid da eu byd a darparu cyfleusterau eraill ar gyfer cynilo, fel didyniad cyflogres, sydd wedi'i roi ar waith yn dda iawn yn wir gan Undeb Credyd Gogledd Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Yes, absolutely; I mentioned the good work done by North Wales Credit Union in relation to encouraging people to have payroll deduction of sums for credit unions. I think that the sustainability of credit unions is absolutely vital and I will do all that I can to continue the work that you undertook in this portfolio. I also want to promote their work to the public sector workforce. I think that I can also do that across Government, particularly with the education, health and local government portfolios. However, you are right: we do have to challenge them, to make sure that they are making provision for people who are both financially and digitally excluded.

Byddwn, yn hollol; soniais am y gwaith da a wneir gan Undeb Credyd Gogledd Cymru o ran annog pobl i alluogi didynnu symiau o'r gyflogres ar gyfer undebau credyd. Credaf fod cynaliadwyedd undebau credyd yn gwbl hanfodol a byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i barhau â'r gwaith a wnaethoch yn y portffolio hwn. Rwyf hefyd yn awyddus i hyrwyddo eu gwaith i'r gweithlu sector cyhoeddus. Credaf y gallaf hefyd wneud hynny ar draws y Llywodraeth, yn enwedig gyda phortffolio addysg, iechyd a llywodraeth leol. Fodd bynnag, rydych yn iawn: mae angen i ni eu herio, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud darpariaeth ar gyfer pobl sydd fel ei gilydd wedi'u hallgau'n ariannol ac yn ddigidol.

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Regarding the £700,000 of funding for the national campaign that you talked about for promoting credit unions, what assessment have you made of whether this campaign has had a positive impact? How many referrals and enquiries were received as a result of the project?

O ran y £700,000 o gyllid ar gyfer yr ymgyrch genedlaethol y soniasoch amdano ar gyfer hyrwyddo undebau credyd, pa asesiad ydych chi wedi'i wneud i ganfod a gafodd yr ymgyrch hon effaith bositif? Faint o atgyfeiriadau ac ymholiadau a dderbyniwyd o ganlyniad i'r prosiect?

Senedd.tv Fideo Video

14:45 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I have not personally undertaken that piece of work, but that will be done by my officials. I mentioned in my initial answer to Bill Powell that, during the campaign, more than 2,500 new members joined credit unions in line with the target, so that is very encouraging. We want more people who are financially sustainable to join credit unions to enable them to support the more vulnerable people in our society.

Nid wyf wedi gwneud y darn hwnnw o waith yn bersonol, ond fe'i cyflawnir gan fy swyddogion. Yn fy ateb i gwestiwn gwreiddiol Bill Powell, yn ystod yr ymgyrch, dywedais fod mwy na 2,500 o aelodau newydd wedi ymuno ag undebau credyd yn unol â'r targed, felly mae hyn yn galonogol iawn. Rydym am i ragor o bobl sy'n ariannol gynaliadwy ymuno ag undebau credyd er mwyn eu galluogi i gefnogi'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas.

Senedd.tv Fideo Video

14:45 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Minister, Swansea's credit union, LASA, is already working with young people, but at the moment it is looking to set up a credit union for young people, so that we have a sort of trickle-up approach. Those young people are already going home to their parents and helping them with their financial education. I wonder whether the Welsh Government has done any work or research, or has any data, into the potential benefits of setting up credit unions for young people, so that they can go through life with those skills, being empowered with those skills.

Weinidog, mae undeb credyd Abertawe, LASA, eisoes yn gweithio gyda phobl ifanc, ond ar hyn o bryd mae'n bwriadu sefydlu undeb credyd ar gyfer pobl ifanc, fel bod gennym ryw fath o ddull sy'n diferu i fyny. Mae'r bobl ifanc hynny eisoes yn mynd adref at eu rhieni ac yn eu helpu gyda'u haddysg ariannol. Tybed a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw waith neu ymchwil, neu a oes ganddyn nhw unrhyw ddata, ar y manteision posibl o sefydlu undebau credyd ar gyfer pobl ifanc, er mwyn iddynt allu mynd trwy fywyd gyda'r sgiliau hynny, a chael eu grymuso gan y sgiliau hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:46 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I think that you raise a very important point. I know that we have over 13,000 young savers within our credit unions in Wales, which is very encouraging. We need to do more work, because—you are absolutely right—if they learn those skills at a young age and take them through life, it is very good. Also, they are going back and educating their parents, where there is a need for that, unfortunately, in some cases.

Credaf eich bod yn codi pwynt pwysig iawn. Gwn fod gennym dros 13,000 o gynilwyr ifanc o fewn ein hundebau credyd yng Nghymru, sy'n galonogol iawn. Mae angen inni wneud mwy o waith, oherwydd—rydych yn llygad eich lle—os byddant yn dysgu'r sgiliau hynny yn ifanc a'u defnyddio trwy gydol eu bywyd, mae hynny'n beth da iawn. Hefyd, maent yn mynd yn ôl ac yn addysgu eu rhieni, ac mae angen hynny, yn anffodus, mewn rhai achosion.

Senedd.tv Fideo Video

### Dechrau'n Deg

### Flying Start

14:46 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*5. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ehangu'r cynllun Dechrau'n Deg? OAQ(4)0211(CTP)*

*5. Will the Minister provide an update on the expansion of Flying Start? OAQ(4)0211(CTP)*

14:46 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am pleased to say that excellent progress is being made. The recently published statistical release showed that, at the end of 2013-14, a total of 31,322 children and their families were being supported by the Flying Start programme across Wales. This shows that we are on track to meet our commitments.

Rwy'n falch o ddweud bod cynnydd rhagorol yn cael ei wneud. Dangosodd y datganiad ystadegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ar ddiwedd 2013-14, fod cyfanswm o 31,322 o blant a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi gan y rhaglen Dechrau'n Deg ledled Cymru. Mae hyn yn dangos ein bod ar y trywydd iawn i gwrdd â'n hymrwymiadau.

14:46 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister for that response. Flying Start is a very successful programme that stops some children starting school at a substantial disadvantage with a developmental age that is well below their actual age. Will the Minister, however, review areas that are not included due to the relative affluence of the overall lower super output area, such as Trallwn in my constituency?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen lwyddiannus iawn sy'n atal rhai plant rhag dechrau yn yr ysgol o dan anfantais sylweddol gydag oedran datblygiadol sy'n llawer is na'u hoed gwirioneddol. A wnaiff y Gweinidog, fodd bynnag, adolygu'r ardaloedd nad ydynt wedi'u cynnwys oherwydd cyfoeth cymharol yr ardal cynnyrch ehangach haen is yn gyffredinol, megis Trallwn yn fy etholaeth?

14:47 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I will not be reviewing those areas that are currently not included. Obviously, Flying Start is a geographically targeted programme. However, I know that you have concerns about this issue; I have heard you mention them before. Local authorities do have some flexibility; it is not set in stone. Obviously, they have to gather evidence of need to support that. They do have some flexibility, but I will not be reviewing it.

Ni fyddaf yn adolygu'r meysydd hynny sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd. Yn amlwg, mae Dechrau'n Deg yn rhaglen sy'n cael ei thargedu'n ddaearyddol. Fodd bynnag, gwn eich bod yn pryderu am y mater hwn; rwyf wedi'ch clywed yn sôn amdano o'r blaen. Mae gan awdurdodau lleol rywfaint o hyblygrwydd; nid yw'n drefn haearnaidd. Yn amlwg, mae'n rhaid casglu tystiolaeth o angen i gefnogi hynny. Mae rhywfaint o hyblygrwydd, ond ni fyddaf yn ei adolygu.

14:47 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The Welsh Conservatives have supported this programme since its inception, although the Minister will well know that, sometimes, measuring the outcome is more difficult as it occurs during a child's development. I notice that there has been a fall in the childcare take-up on an all-Wales basis from 90% last year to 86% in the current year. What are you doing now, Minister, to address this unwelcome decline?

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cefnogi'r rhaglen hon ers ei sefydlu, er y bydd y Gweinidog yn gwybod yn dda bod mesur y canlyniad weithiau'n fwy anodd gan ei fod yn digwydd yn ystod datblygiad plentyn. Sylwaf y bu gostyngiad yn y gofal plant sy'n manteisio ar sail Cymru gyfan o 90% y llynedd i 86% yn y flwyddyn gyfredol. Beth ydych chi'n ei wneud yn awr, Weinidog, i fynd i'r afael â'r dirywiad digroeso hwn?

14:48 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I was not aware of that figure, but I will certainly have a discussion with my officials regarding that, if it has indeed declined from 90% to 86%, because clearly it is a very successful programme. It delivers services to some of our most disadvantaged families, right across Wales, and you will be aware of our commitment to double the number of children who benefit from the programme from 18,000 to 36,000 by the end of this term.

Nid oeddwn yn ymwybodol o'r ffigwr hwnnw, ond byddaf yn sicr yn cael trafodaeth â'm swyddogion ynghylch hynny, os yw wedi gostwng o 90% i 86% mewn gwirionedd, gan ei bod yn amlwg yn rhaglen lwyddiannus iawn. Mae'n darparu gwasanaethau i rai o'n teuluoedd mwyaf difreintiedig, ar hyd a lled Cymru, a byddwch yn ymwybodol o'n hymrwymiad i ddyblu nifer y plant sy'n cael budd o'r rhaglen o 18,000 i 36,000 erbyn diwedd y tymor hwn.

14:48 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, a gaf ofyn ichi beth yn union yw'r hyblygrwydd sydd gan awdurdodau lleol ynglŷn â natur ddaearyddol Dechrau'n Deg? Os edrychwch ar dref megis Llanelli, sy'n un gymuned lle mae sawl ardal Cymunedau'n Gyntaf, mae cynghorwyr y dref honno'n cwyno wrthyf fod y natur ddaearyddol hon yn rhwystro cydweithio ar draws y dref gyfan. A oes modd o gwbl i'r awdurdodau fod yn fwy hyblyg? Er eich bod yn dweud nad ydych yn ailystyried hwn, a oes modd i chithau fod yn hyblyg hefyd?

Minister, may I ask you exactly what flexibility local authorities have in terms of the geographical nature of Flying Start? If you look at a town such as Llanelli, which is a single community where there are many Communities First areas, councillors in that town complain to me that this geographical nature prevents co-operation across the town as a whole. Is there any way in which authorities could be more flexible? Although you say that you are not reconsidering this, could you also be flexible in this regard?

14:49 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We give the guidance to local authorities. The way that they can be flexible is by operating an outreach service that enables them to use the Flying Start programme to support a family with a child under the age of four that is living outside of the Flying Start area, where a clear need has been identified. So, it is up to the local authority to go out there and get the evidence to support that, if it wants to help benefit a family that is outside the Flying Start area.

Rydym yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol. Gallant fod yn hyblyg trwy weithredu gwasanaeth allgymorth sy'n eu galluogi i ddefnyddio'r rhaglen Dechrau'n Deg i gefnogi teulu sydd â phlentyn o dan bedair oed sy'n byw y tu allan i ardal Dechrau'n Deg, lle bo angen clir wedi cael ei nodi. Felly, mater i'r awdurdod lleol yw mynd allan i'r maes a chael y dystiolaeth i gefnogi hynny, os yw am helpu i gynorthwyo teulu sydd y tu allan i'r ardal Dechrau'n Deg.

## Gofal Plant (Gorllewin Cymru)

## Childcare (West Wales)

14:49 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wella gofal plant yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0212(CTP)*

*6. Will the Minister make a statement on improving childcare across west Wales? OAQ(4)0212(CTP)*

14:49 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Improving the quality of and access to childcare across Wales is central to our early years and childcare plan. We recently published a progress report on the plan. In taking forward actions under the plan, consideration is being given to the needs of different areas across Wales.

Mae gwella ansawdd a mynediad at ofal plant ledled Cymru yn ganolog i'n cynllun blynyddoedd cynnar a gofal plant. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd adroddiad cynnydd ar y cynllun. Wrth fwrw ymlaen â chamau gweithredu o dan y cynllun, ystyrir yr anghenion gwahanol sydd gan ardaloedd ar draws Cymru.

14:49 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I recently had the opportunity of visiting Jig-So, which is a charity that offers a range of outreach session workshops to local families, such as first aid courses and fire safety courses in north Pembrokeshire and, indeed, in west Wales. What support is the Welsh Government offering to organisations such as Jig-So, which offer crucial skills and services to families and to parents, particularly those living in rural west Wales?

Weinidog, yn ddiweddar, cefais y cyfle i ymweld â Jig-So, sef elusen sy'n cynnig ystod o weithdai sesiynau allgymorth i deuluoedd lleol, megis cyrsiau cymorth cyntaf a chyrsiau diogelwch tân yng ngogledd Sir Benfro ac, yn wir, yng ngorllewin Cymru. Pa gymorth a gynigir gan gan Lywodraeth Cymru i sefydliadau fel Jig-So, sy'n cynnig sgiliau a gwasanaethau hanfodol i deuluoedd ac i rieni, yn enwedig y rhai sy'n byw yng nghefn gwlad gorllewin Cymru?

14:50 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not aware of the specific organisation to which the Member refers. However, we have several grant schemes that different organisations can bid for. I am not quite sure which one that would fall under, but, for instance, we have our children and families delivery grant and our out-of-school childcare grant. If you would like to invite me to visit that scheme, certainly, I would be very happy to do so.

Nid wyf yn ymwybodol o'r sefydliad penodol y cyfeiria'r Aelod ato. Fodd bynnag, mae gennym nifer o gynlluniau grant y gall gwahanol sefydliadau wneud cais amdanynt. Nid wyf yn hollol siŵr pa un a fyddai'n berthnasol, ond, er enghraifft, mae gennym grant gofal plant y tu allan i'r ysgol a grantiau cyflawni plant a theuluoedd. Os hoffech fy ngwahodd i ymweld â'r cynllun hwnnw, yn sicr, byddwn yn barod iawn i wneud hynny.

## Gwirfoddoli yng Nghymoedd y De

## Volunteering in the South Wales Valleys

14:50 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

*7. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog gwirfoddoli yng nghymoedd y de? OAQ(4)0215(CTP)*

*7. What action is the Welsh Government taking to encourage volunteering in the south Wales valleys? OAQ(4)0215(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

14:50 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The Welsh Government has committed £7.192 million in 2014-15 to support an integrated infrastructure for voluntary organisations and volunteers. This includes £567,729 to the Gwent Association for Voluntary Organisations, covering Blaenau Gwent, Caerphilly, Monmouthshire and Newport. We fund the Volunteering Wales website for those offering or seeking volunteering opportunities.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £7.192 miliwn yn 2014-15 i gefnogi seilwaith integredig ar gyfer mudiadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr. Mae hyn yn cynnwys £567,729 i Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent, sy'n cwmpasu Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Chasnewydd. Rydym yn ariannu gwefan Gwirfoddoli Cymru ar gyfer y rhai sy'n cynnig neu'n chwilio am gyfleoedd i wirfoddoli.

Senedd.tv Fideo Video

14:51 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer. During recess, I met with many community organisations in Islwyn, for example, Disability Can Do in Pontllanffraith, which has supported the teams of volunteers providing essential support to adults with disabilities and their carers. What more can be done to encourage volunteering in helping the most vulnerable people in our society?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Yn ystod y toriad, cyfarfûm â llawer o sefydliadau cymunedol yn Islwyn, er enghraifft Disability Can Do ym Mhontllanfraith, sydd wedi cefnogi'r timau o wirfoddolwyr sy'n darparu cymorth hanfodol i oedolion ag anableddau a'u gofalwyr. Beth arall y gellir ei wneud i annog gwirfoddoli i helpu'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas?

Senedd.tv Fideo Video

14:51 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you, Gwyn Price, for that question. It is always really good to hear about volunteering that is targeted at helping other people, particularly where it is directed at some of the most vulnerable people in our communities. We are now working with the third sector partnership council to develop a new volunteering policy for Wales and to stimulate volunteering, to find fresh ideas and ways of doing so. We all value the role of volunteers greatly and, I think that, in Wales, we are very lucky to have so many dedicated and passionate volunteers. I think that a passion for something is a good way of encouraging people to volunteer. Certainly you see in sport—how people come forward when they have a passion for a particular sport. That is something that I would like to look at. We also need to look at training needs and how we can support people to be confident and comfortable in any volunteering role that they have.

Diolch yn fawr, Gwyn Price, am y cwestiwn hwnnw. Mae bob amser yn dda iawn clywed am wirfoddoli sy'n cael ei dargedu at helpu pobl eraill, yn enwedig lle mae'n cael ei gyfeirio at rai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau. Rydym bellach yn gweithio gyda chyngor partneriaeth y trydydd sector i ddatblygu polisi gwirfoddoli newydd i Gymru ac i ysgogi gwirfoddoli, i ddod o hyd i syniadau newydd a ffyrdd o wneud hynny. Mae pob un ohonom yn gwerthfawrogi rôl gwirfoddolwyr yn fawr a chredaf ein bod, yng Nghymru, yn ffodus iawn i gael cymaint o wirfoddolwyr ymroddedig a brwdfrydig. Credaf fod ymroddiad dros rywbeth yn ffordd dda o annog pobl i wirfoddoli. Yn sicr, byddwch yn gweld mewn chwaraeon—fel mae pobl yn dod yn eu blaenau pan fyddant yn ymroi i ddilyn camp benodol. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn hoffi rhoi sylw iddo. Mae angen hefyd inni edrych ar anghenion hyfforddi a sut y gallwn gefnogi pobl i fod yn hyderus ac yn gyfforddus mewn unrhyw swyddogaeth wirfoddoli sydd ganddynt.

Senedd.tv Fideo Video

14:52 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Minister, many retired people have a lifetime of experience and skills that could be of great benefit to voluntary organisations in Wales. What plans does the Welsh Government have to encourage retired people to get involved in voluntary organisations, so that their experience and skills can be used to benefit their local communities?

Weinidog, mae gan lawer o bobl sydd wedi ymddeol oes o brofiad a sgiliau a allai fod o fudd mawr i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i annog pobl sydd wedi ymddeol i gymryd rhan mewn sefydliadau gwirfoddol, fel bod modd defnyddio’u profiad a'u sgiliau er budd eu cymunedau lleol?

Senedd.tv Fideo Video

14:53 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you, I go back to my previous answer to Gwyn Price. I think that one thing that we can do, when a volunteer comes forward and they have had that lifetime, as you say, of experience and skills in a certain area, and they have probably retained that passion, is encourage that to come along. I also want to do more to encourage young people to volunteer, because I do not just want to rely on retired people. You will be aware of the new third sector scheme and code of practice for funding the third sector that we have brought forward, and that is an area that I want to work with to develop that new volunteering policy that I mentioned in my answer to Gwyn Price.

Diolch i chi, rwy’n mynd yn ôl at fy ateb blaenorol i Gwyn Price. Credaf mai un peth y gallwn ei wneud, pan ddaw gwirfoddolwr ymlaen sydd, fel y dywedwch, â’r profiad a’r sgiliau hynny mewn maes penodol, a’u bod, mwy na thebyg wedi cadw’r ymroddiad hwnnw, yw ei annog i ddod ymlaen. Rwyf hefyd yn awyddus i wneud mwy i annog pobl ifanc i wirfoddoli, oherwydd nid wyf am ddibynnu’n unig ar bobl sydd wedi ymddeol. Byddwch yn gwybod am gynllun newydd y trydydd sector a’r cod ymarfer ar gyfer ariannu'r trydydd sector rydym wedi eu cyflwyno, ac mae hwnnw'n faes yr wyf am ymroi iddo i ddatblygu'r polisi gwirfoddoli newydd a grybwyllais yn fy ateb i Gwyn Price.

Senedd.tv Fideo Video

14:53 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Minister, with a large number of public facilities closing and the enormous interest in many communities in taking them over so that they can be community-led, it is important that those groups are well prepared to take over the administrative functions of the facilities, as well as the other services that they provide. You mention that adequate training is important: how will you ensure that enough finances are made available to local authorities to ensure that when the local authority closes a facility, the volunteers are genuinely adequately trained and that there is no financial comeback on those volunteers?

Weinidog, gyda nifer fawr o gyfleusterau cyhoeddus yn cau a'r diddordeb helaeth sydd mewn llawer o gymunedau ar gyfer eu trefnu a’u rhoi dan arweiniad y gymuned, mae'n bwysig bod y grwpiau hynny wedi eu paratoi'n dda i gymryd drosodd swyddogaethau gweinyddol y cyfleusterau, yn ogystal â'r gwasanaethau eraill y maent yn eu darparu. Rydych yn sôn bod hyfforddiant digonol yn bwysig: sut y byddwch yn sicrhau bod digon o arian ar gael i awdurdodau lleol allu sicrhau, pan fydd yr awdurdod lleol yn cau cyfleuster, fod gwirfoddolwyr yn wir wedi’u hyfforddi’n ddigonol ac nad oes unrhyw atebolrwydd ariannol ar y gwirfoddolwyr hynny?

Senedd.tv Fideo Video

14:54 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I think that you raise a very important point and that was certainly something that I was looking at in my previous portfolio. I mentioned the new volunteering policy for Wales, and that is somewhere where we can look at the training needs and also the management needs, because people will also need to be managed if they are taking on roles such as you describe.

Credaf eich bod yn codi pwynt pwysig iawn ac roedd hyn yn sicr yn rhywbeth a ystyriais yn fy mhortffolio blaenorol. Soniais am y polisi gwirfoddoli newydd ar gyfer Cymru, a dyma lle y gallwn edrych ar anghenion hyfforddi a hefyd anghenion rheoli, oherwydd bydd angen rheoli pobl hefyd os ydynt yn cyflawni rolau tebyg i’r rhai a ddisgrifiwyd gennych.

Senedd.tv Fideo Video

## Tlodi

## Poverty

14:54 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog amlinellu’r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu pobl hŷn sy’n byw mewn tlodi yng Nghymru? OAQ(4)0217(CTP)*

*8. Will the Minister outline measures that the Welsh Government is taking to aid older people living in poverty in Wales? OAQ(4)0217(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

14:54 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you. Our tackling poverty action plan details commitments to reduce poverty for all, including older people. Relevant commitments include continued free bus travel for people over 60, funding for crucial advice services specifically targeted at older people and funding to support digital inclusion amongst the over 50s.

Diolch. Mae ein cynllun gweithredu i drechu tlodi’n rhoi ymrwymiad i wneud hynny i bawb, gan gynnwys pobl hŷn. Mae’r ymrwymiadau perthnasol yn cynnwys parhau â’r teithiau bws am ddim i bobl dros 60, cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori hanfodol wedi’u targedu'n benodol at bobl hŷn a chyllid i gefnogi cynhwysiant digidol ymhlith pobl dros 50 oed.

Senedd.tv Fideo Video

14:55 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Age Alliance Wales recently published its 2014 update on its 2012 report, 'Wales: A Good Place to Grow Old?' In this, among other things, it called on the Welsh Government to involve older people and the third sector in the design, planning and delivery of services for older people, and to not simply consult them after decisions had been reached. How do you respond to that call, and will you be delivering upon it?

Yn ddiweddar, cafwyd diweddariad gan Gynghrair Henoed Cymru yn 2014 ar adroddiad 2012, 'Cymru: Lle Da i Heneiddio?' Ynddo, ymhlith pethau eraill, mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys pobl hŷn a'r trydydd sector wrth ddylunio, cynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, ac i beidio â dim ond ymgynghori â nhw ar wneud penderfyniadau. Sut ydych chi'n ymateb i'r alwad honno, ac a fyddwch chi'n gweithredu'n gadarnhaol?

14:55 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it is really important that as many people as possible are involved in the provision of services. I think local authorities have stepped up to the plate in their budget negotiations; I know Wrexham council is just about to start a very wide-ranging budget consultation. I know other local authorities— Monmouthshire, for instance—did a very good budget consultation. I think it is really important that everybody is involved, not just older people. Clearly, I am sure that we are all being spoken to by older people about their bus passes and about other schemes and strategies that the Welsh Government is coming forward with. We obviously have 'The Strategy for Older People in Wales 2013-2023', we now have phase three, and I think that is another area that older people have been very involved in—in bringing forward that strategy.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod cymaint â phosibl yn cymryd rhan i ddarparu gwasanaethau. Rwy'n credu bod awdurdodau lleol wedi wynebu'r her wrth drafod eu cyllidebau; gwn fod cyngor Wrecsam ar fin dechrau ymgynghori ynghylch cyllideb eang iawn. Gwn fod awdurdodau addysg lleol eraill—Sir Fynwy er enghraifft—wedi ymgynghori ar y gyllideb yn dda iawn. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod pawb yn cymryd rhan, nid dim ond pobl hŷn. Yn amlwg, rwy'n siŵr bod pawb ohonom wedi clywed gan bobl hŷn am eu tocynnau bws ac am gynlluniau a strategaethau eraill y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno. Fel y gŵyr pawb mae gennym ein 'Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023', sydd bellach yng ngham tri, a chredaf fod hyn yn faes arall y mae pobl hŷn wedi bod yn ymwneud llawer ag ef—wrth gyflwyno'r strategaeth honno.

14:56 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae copi o gylchgrawn gen i fan hyn gan Age Cymru Gwynedd a Môn, sy'n dweud y canlynol:

'Yn anffodus, mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi cyfredol ond yn cyfeirio'n fras at bobl hŷn ac nid yw'n cynnwys llawer o gamau gweithredu penodol i helpu pobl hŷn sy'n byw ar incwm isel iawn.'

A ydych chi'n cytuno, Weinidog, a sut ddylech chi ymateb?

I have a copy of a magazine here by Age Cymru Gwynedd and Anglesey, stating the following:

'Unfortunately the current Tackling Poverty Action Plan makes only passing reference to older people and lacks many targeted actions to help older people living on very low incomes.'

Do you agree, Minister, and how should you respond?

14:56 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I have not seen a copy of that. I am very interested to see Ynys Môn and Gwynedd putting out a joint newsletter—I would be very interested to see that. I have looked at the tackling poverty action plan coming into portfolio. It is obviously cross-cutting; the programmes and policies contained within it are aimed at all people in society affected by poverty, and that does include older people.

Wel, nid wyf wedi gweld y cylchgrawn hwnnw. Hoffwn yn fawr weld Ynys Môn a Gwynedd yn cyhoeddi cylchlythyr ar y cyd—byddai gennyf gryn ddiddordeb o weld hynny. Rwyf wedi edrych ar y cynllun gweithredu ar drechu tlodi wrth gychwyn fy mhortffolio. Mae'n amlwg yn drawsbynciol; mae'r rhaglenni a'r polisïau sydd ynddo yn targedu'r holl bobl yn y gymdeithas a effeithir gan dlodi, ac y mae'n cynnwys pobl hŷn.

### Rhwydwaith Swyddfa'r Post

### The Post Office Network

14:57 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. Beth yw cynlluniau'r Gweinidog ar gyfer cefnogi rhwydwaith Swyddfa'r Post? OAQ(4)0220(CTP)*

*9. What plans does the Minister have to support the Post Office network? OAQ(4)0220(CTP)*

14:57 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The Welsh Government has an excellent record of supporting Welsh post offices. We have provided capital improvement grants worth £10.7 million to Welsh post offices since 2002. The final post office diversification fund awards were announced in May 2014.

Mae gan Lywodraeth Cymru hanes rhagorol o gefnogi swyddfeydd post yng Nghymru. Rydym wedi darparu grantiau gwella cyfalaf gwerth £10.7 miliwn i swyddfeydd post Cymru ers 2002. Cyhoeddwyd dyfarniadau terfynol cronfa arallgyfeirio swyddfeydd post ym mis Mai 2014.

Senedd.tv Fideo Video

14:57 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for that response. As the Post Office's policy now is to encourage supermarkets and other stores to take post offices into their existing businesses, and this can sometimes cause problems when postmistresses or postmasters give up and there is no suitable place in the area for them to go—this is actually happening on Whitchurch high street in my constituency at the moment—can the Minister suggest any ways that there could perhaps be a more flexible approach by the Post Office?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Gan mai polisi Swyddfa'r Post yn awr yw annog archfarchnadoedd a siopau eraill i gymryd swyddfeydd post i mewn i'w busnesau cyfredol, ac y gall hyn weithiau achosi problemau pan fo postfeistresi neu bostfeistri'n rhoi'r gorau iddi ac nad oes unrhyw le addas yn yr ardal i leoli'r post—mae hyn yn digwydd mewn gwirionedd yn stryd fawr yr Eglwys Newydd yn fy etholaeth ar hyn o bryd—a all y Gweinidog awgrymu unrhyw ffyrdd posibl a allai fod yn fwy hyblyg i Swyddfa'r Post?

Senedd.tv Fideo Video

14:58 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Obviously, post office matters are not devolved to Welsh Ministers, it is an issue for the UK Government, but we have long recognised the importance of local post offices to the communities they serve. I mentioned the post office diversification fund, and I think the figure now is that we have given awards— grant funding—to almost half of the post offices in Wales, which I think is an incredible achievement, particularly when it is not a devolved matter. I have had issues in my own constituency where post offices have wanted to go into shops and supermarkets, and it is very difficult. Any post office matters that are discussed by the UK Government are obviously monitored by my officials, and perhaps that is somewhere where we can perhaps feed into any consultations that come forward from there.

Yn amlwg, nid yw materion swyddfa'r post wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru, mae'n fater i Lywodraeth y DU, ond rydym wedi hen gydnabod pwysigrwydd swyddfeydd post lleol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Soniais am gronfa arallgyfeirio'r swyddfeydd post, a chredaf mai'r ffigur yn awr yw ein bod wedi rhoi dyfarniadau—cyllid grant—i bron hanner y swyddfeydd post yng Nghymru, a chredaf fod hyn yn gamp anhygoel, yn enwedig pan nad yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli. Rwyf wedi cael problemau yn fy etholaeth i lle mae swyddfeydd post wedi bod yn awyddus i fynd i mewn i siopau ac archfarchnadoedd, ac mae'n anodd iawn. Mae unrhyw faterion swyddfeydd post sy'n cael eu trafod gan Lywodraeth y DU yn amlwg yn cael eu monitro gan fy swyddogion, a dyma o bosibl yw'r lle i ni allu cyfrannu at unrhyw ymgynghoriadau a ddaw i'r fei oddi yno.

Senedd.tv Fideo Video

14:59 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, leading on from your response to Julie Morgan, you may well be aware of the work that local authorities in England, such as Sheffield City Council, undertook to make post offices the front office for government and public sector services in Sheffield, making better use of post offices across the city, and enabling local people and businesses to access a range of public services in the community, for example, being able to pay council tax and rent through one of the 78 post offices. I know that, in 2009, the Welsh Government sponsored a trial of the Post Office validate service with two local authorities in Wales—Cardiff and Conwy. I was wondering what other trials and opportunities you are exploring to integrate public services into our post office network here in Wales, so as to keep them alive in our communities.

Weinidog, yn dilyn eich ymateb i Julie Morgan, hwyrach y gwyddoch yn dda am waith awdurdodau lleol yn Lloegr, megis Cyngor Dinas Sheffield, a benderfynodd gwneud swyddfeydd post y swyddfa flaen ar gyfer gwasanaethau'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn Sheffield, gan wneud gwell defnydd o swyddfeydd post ar draws y ddinas, a galluogi pobl a busnesau lleol i gael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus yn y gymuned, er enghraifft, y gallu i dalu'r dreth gyngor a rhent drwy un o'r 78 o swyddfeydd post. Gwn i Lywodraeth Cymru yn 2009 noddi cynllun peilot o wasanaeth dilysu'r Swyddfa Bost gyda dau awdurdod lleol yng Nghymru— Caerdydd a Chonwy. Tybed, pa dreialon a chyfleoedd eraill rydych chi'n eu harchwilio o ran integreiddio gwasanaethau cyhoeddus i mewn i'n rhwydwaith swyddfeydd post yma yng Nghymru, er mwyn eu cadw'n fyw yn ein cymunedau.

Senedd.tv Fideo Video

14:59 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I was not aware of the work being undertaken by Sheffield City Council. As I said, any matters to do with the Post Office are not devolved to Welsh Ministers, but certainly officials can monitor any developments that may affect Wales.

Nid oeddwn yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gyngor Dinas Sheffield. Fel y dywedais, nid yw unrhyw faterion sy'n ymwneud â Swyddfa'r Post wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru, ond yn sicr gall swyddogion fonitro unrhyw ddatblygiadau a allai effeithio ar Gymru.

Senedd.tv Fideo Video

15:00 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n derbyn, Weinidog, nad yw materion yn ymwneud â'r Swyddfa Post wedi eu datganoli, ond, er gwaethaf y gefnogaeth ariannol yr ydych wedi ei rhoi i'r swyddfeydd post, onid y gwir yw bod swyddfeydd post yn dal i gau led led Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig?

I accept, Minister, that matters appertaining to the Post Office are not devolved, but, despite the financial support that you have given to the post offices, is it not the case that post offices are still closing throughout Wales, particularly in rural areas?

15:00 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that post offices are closing in all areas of Wales, unfortunately. I mentioned that I think we have an excellent record in supporting them through the post office development and post office diversification funds. We have supported over half of post offices in Wales with a capital improvement grant, which I think is an incredible achievement.

Credaf fod swyddfeydd post yn cau ym mhob rhan o Gymru, yn anffodus. Soniais fy mod yn meddwl fod gennym record ardderchog o'u cefnogi drwy gronfeydd datblygu ac arallgyfeirio'r swyddfeydd post. Rydym wedi cefnogi dros hanner y swyddfeydd post yng Nghymru trwy grant gwella cyfalaf, sydd mi gredaf yn gamp anhygoel.

15:00 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was pleased to meet local campaigners in Llandaff North last week who are hoping to bring a new post office to their community. However, obviously, to make sure that new post offices are economically viable for the postmasters in the long term, it is important to consider ways in which they can diversify. I wonder whether you have had direct discussions with the Post Office yet to discuss ways in which the Welsh Government's own services or information on things such as organ donation or financial literacy could potentially be delivered through our post office network, which is already active in our community.

Roedd yn bleser gennyf gyfarfod ymgyrchwyr lleol yn Ystum Taf yr wythnos diwethaf sy'n gobeithio dod â swyddfa bost newydd i'w cymuned. Fodd bynnag, yn amlwg, er mwyn sicrhau bod swyddfeydd post newydd yn economaidd hyfyw ar gyfer postfeistri yn y tymor hir, mae'n bwysig ystyried sut y maent yn gallu arallgyfeirio. Tybed a ydych wedi cael trafodaethau uniongyrchol â Swyddfa'r Post eto i drafod ffyrdd y gallai gwasanaethau Llywodraeth Cymru ei hun neu wybodaeth am bethau fel rhoi organau neu lythrennedd ariannol gael eu darparu drwy ein rhwydwaith swyddfeydd post, sydd eisoes yn weithgar yn ein cymuned.

15:01 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I have not, as yet, in week 2, had conversations with the Post Office Ltd, but I am sure that it will want to meet me. I am actually meeting with Royal Mail; I know that it is a separate company, but I am actually meeting with it next month. I am certainly very happy to meet with the Post Office.

Na, nid wyf hyd yma yn fy ail wythnos wedi cael sgyrsiau â Swyddfa'r Post Cyf, ond rwy'n siŵr y bydd yn awyddus i gwrdd â mi. Mewn gwirionedd, mae gennyf gyfarfod â'r Post Brenhinol; sydd, mi wn yn gwmni ar wahân, ond byddaf yn cyfarfod â hwy y mis nesaf. Rwy'n sicr yn hapus iawn i gyfarfod â Swyddfa'r Post.

15:01 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, of course, in 2015, as the result of the Tory-Lib Dem legislation, there will be a reconsideration of the maintenance of the universal service. Of course, Ofgem will be consulting over this with regard to Wales. Will you be making efforts to consult with Ofgem Wales in order to discuss how this consultation is going to take place, and to ensure that we actually do all that we can to protect the universal service?

Weinidog, wrth gwrs, yn 2015, o ganlyniad i ddeddfwriaeth y Torïaid-Democratiaid Rhyddfrydol, bydd y gwaith o gynnal y gwasanaeth cyffredinol yn cael ei ailystyried. Wrth gwrs, bydd Ofgem yn ymgynghori am hyn mewn perthynas â Chymru. A fyddwch chi'n gwneud ymdrech i gysylltu ag Ofgem Cymru er mwyn trafod sut bydd yr ymgynghoriad hwn yn digwydd, ac i sicrhau ein bod mewn gwirionedd yn gwneud popeth yn ein gallu i amddiffyn y gwasanaeth cyffredinol?

15:02 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, certainly. My officials—if they have not already had a discussion—will be having a discussion on this issue.

Byddaf, yn sicr. Bydd fy swyddogion—os nad ydynt eisoes wedi cael trafodaeth—yn cael trafodaeth ar y mater hwn.

## Dyled

## Debt

15:02 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y raddfa o broblemau dyled y mae teuluoedd yng Nghymru yn ei hwynebu? OAQ(4)0222(CTP)*

*10. Will the Minister make a statement on the scale of problem debt faced by families in Wales? OAQ(4)0222(CTP)*

15:02 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In June 2014, the Welsh Government commissioned a report that showed that one in six families in Wales is burdened by debt. This is too many. We will continue to play our part in helping people who are affected by problem debt.

Ym mis Mehefin 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad a oedd yn dangos bod un o bob chwech o deuluoedd yng Nghymru yn cael ei llethu gan ddyled. Mae hyn yn ormod. Byddwn yn parhau i chwarae ein rhan i helpu pobl sy'n cael eu heffeithio gan broblem dyled.

15:02 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I was very concerned to read that, according to the latest research from the Children's Society, more than 150,000 children in Wales are living in families facing debt problems. In my own constituency of Delyn, 34% of families are in problem debt, with the debt owed totalling almost £6 million. Despite claims by the UK Government that its economic policies and welfare reforms are protecting families, it clearly is not working. Many families are still struggling to make ends meet. Minister, what action is the Welsh Government able to take to protect children from the effects of problem debt and to support financially vulnerable families?

Diolch. Rhoes gryn bryderus imi ddarllen hynny, yn ôl yr ymchwil diweddaraf gan Gymdeithas y Plant, fod mwy na 150,000 o blant yng Nghymru yn byw mewn teuluoedd sy'n wynebu problemau dyledion. Yn fy etholaeth i, sef Delyn, mae gan 34% o deuluoedd broblemau dyled, gyda'r hyn sy'n ddyledus gymaint â bron i £6 miliwn. Er gwaethaf honiadau Llywodraeth y DU bod ei pholisïau economaidd a'i diwygiadau lles yn diogelu teuluoedd, mae'n amlwg nad ydynt yn gweithio. Mae llawer o deuluoedd yn dal i gael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd. Weinidog, pa gamau all Llywodraeth Cymru eu cymryd i amddiffyn plant rhag effeithiau problemau dyled a chefnogi teuluoedd sy'n ariannol fregus?

15:03 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Tackling debt in Wales is a key part of the Welsh Government financial inclusion strategy and tackling poverty action plan. You will have been in the Chamber yesterday when we had the oral statement on advice services and the extra £2 million funding that we have put into that. I go back to what I was saying before: I want people to access these services before they get into debt, and use them as a preventative method. Clearly, we cannot fill all of the gaps that the UK Government has left us with, particularly around the welfare reform proposals, but we will continue to do everything that we can to mitigate the worst impacts, as far as we are able.

Mae trechu dyled yng Nghymru yn rhan allweddol o strategaeth cynhwysiant ariannol a chynllun gweithredu i drechu tlodi Llywodraeth Cymru. Byddwch wedi bod yn y Siambr ddoe pan gawsom ddatganiad llafar ar wasanaethau cynghori a'r cyllid ychwanegol o £2 filiwn a gyfrannwyd gennym at hynny. Af yn ôl at hyn a ddywedais o'r blaen: Rwyf am i bobl gael mynediad at y gwasanaethau hyn cyn iddynt fynd i ddyled, a'u defnyddio fel dull ataliol. Yn amlwg, ni allwn lenwi pob un o'r bylchau y mae Llywodraeth y DU wedi eu gadael i ni, yn enwedig o ran cynigion y diwygiadau lles, ond byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i liniaru'r effeithiau gwaethaf, cyn belled ag y gallwn.

15:03 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Perhaps I can just advise the Member that, as a result of the UK Government's welfare reforms, universal credit will see £22 million put back into our families in Wales over the next 12 months. However, according to StepChange Wales, the scale of problem debt facing families is increasing, as the Member rightly pointed out. Rent arrears and council tax arrears have gone up from 19% to 29%, and energy arrears, and an average pay-day loan for a family in Wales is £1,335. Too often, though, there is an assumption that this is largely due to a lack of income, yet many of the debt arrears are for services attracting funding provision. Sadly, not enough is done in terms of education, budget planning, financial management and learning to save for a rainy day. Forthcoming Bills include a Bill on financial literacy brought forward by Bethan Jenkins AM, and I believe that this is a positive move for your Government to embed these principles of prudence for these families. Will you support this Bill?

Efallai y caf hysbysu'r Aelod yn sgil diwygiadau lles Llywodraeth y DU, y bydd credyd cynhwysol yn gweld £22 miliwn yn cael ei roi yn ôl i mewn i'n teuluoedd yng Nghymru dros y 12 mis nesaf. Fodd bynnag, yn ôl StepChange Wales, mae graddfa'r broblem y mae teuluoedd sy'n wynebu dyledion yn cynyddu, fel y nododd yr Aelod yn hollol gywir. Mae ôl-ddyledion rhent a'r dreth gyngor wedi codi o 19% i 29%, ynghyd â dyledion ynni, ac mae cyfartaledd benthyciadau diwrnod cyflog ar gyfer teulu yng Nghymru yn £1,335. Yn rhy aml, fodd bynnag, mae tybiaeth bod hyn yn bennaf oherwydd diffyg incwm, ac eto mae llawer o'r ôl-ddyledion am wasanaethau sydd â darpariaeth gyllido. Yn anffodus, nid oes digon yn cael ei wneud o ran addysg, cynllunio cyllideb, rheolaeth ariannol a dysgu i gynilo ar gyfer diwrnod glawog. Mae mesurau sydd ar ddod yn cynnwys Bil ar lythrennedd ariannol a gyflwynwyd gan Bethan Jenkins AC, a chredaf fod hyn yn gam cadarnhaol i'ch Llywodraeth i ymgorffori'r egwyddorion darbodus hyn ar gyfer y teuluoedd hyn. A wnewch chi gefnogi'r Bil hwn?

15:05

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I had a meeting just this morning with Bethan Jenkins, who is not in the Chamber, who is very passionate about this Bill. We are working our way through it. Perhaps you will not be aware of the way that the Government works, but this thing has to be worked through in stages. I have had two meetings—it is only week 2 in post for me, but I have had two meetings with Bethan Jenkins about this Bill.

Cefais gyfarfod y bore yma gyda Bethan Jenkins, nad yw yn y Siambr, sy'n frwd iawn o blaid y Bil hwn. Rydym yn gweithio ein ffordd drwyddo. Efallai nad ydych yn ymwybodol o'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn gweithio, ond mae'n rhaid gweithio drwy hyn fesul camau. Rwyf wedi cael dau gyfarfod—hon yw'r ail wythnos yn unig i mi fod yn y swydd hon, ond rwyf wedi cael dau gyfarfod gyda Bethan Jenkins am y Bil hwn.

Senedd.tv Fideo Video

### Tlodi Plant

### Child Poverty

15:05

**David Rees** Bywgraffiad Biography

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd tuag at strategaeth Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant? OAQ(4)0219(CTP)*

*11. Will the Minister make a statement on progress towards the Welsh Government's strategy to eradicate child poverty? OAQ(4)0219(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

15:05

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

We remain committed to our ambition of eradicating child poverty, even though it is extremely challenging. UK Government welfare reforms and reducing budgets are having a significant impact, so current levels remain unacceptably high. The Welsh Government is investing in early years and prevention to have a long-term impact on child poverty rates.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i'n huchelgais o ddileu tlodi plant, er ei fod yn heriol dros ben. Mae diwygiadau lles Llywodraeth y DU a chyllidebau'n crebachu yn cael effaith sylweddol, felly mae'r lefelau cyfredol yn parhau'n annerbyniol o uchel. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar a chamau ataliol i gael effaith tymor hir ar gyfraddau tlodi plant.

Senedd.tv Fideo Video

15:05

**David Rees** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. I welcome the recent publication of the Welsh Government's tackling poverty action plan, as I believe this makes an important contribution to the progress on the Government's strategy to eradicate child poverty, even though we are in a difficult place and times in facing the welfare reforms from the Tory-led UK Government. I am further pleased to see the progress made through schemes such as Families First, which has supported more than 3,000 families across Wales, and Flying Start, which has supported more than 500 children in the Neath Port Talbot area, including areas in my constituency. In the light of these successful schemes, how do you see the action plan working with a broader strategy in order to take this agenda forward and improve the lives of our children?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwy'n croesawu cyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru ar ei chynllun gweithredu i drechu tlodi, gan fy mod yn credu bod hyn yn gwneud cyfraniad pwysig at y cynnydd ar strategaeth y Llywodraeth i ddileu tlodi plant, hyd yn oed er ein bod mewn lle ac amserau anodd yn wynebu diwygiadau lles Llywodraeth y DU dan arweiniad y Torïaid. Rwyf eto'n falch o weld y cynnydd a wnaed drwy gynlluniau megis Teuluoedd yn Gyntaf, sydd wedi cefnogi dros 3,000 o deuluoedd ar draws Cymru, a Dechrau'n Deg, sydd wedi cefnogi mwy na 500 o blant yn ardal Castell-nedd Port Talbot, gan gynnwys ardaloedd yn fy etholaeth i. Yng ngoleuni'r cynlluniau llwyddiannus hyn, sut rydych yn gweld y cynllun gweithredu'n gweithio gyda strategaeth ehangach er mwyn symud yr agenda hon yn ei blaen a gwella bywydau ein plant?

Senedd.tv Fideo Video

15:06

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I am currently looking at the child poverty strategy, which obviously works alongside the tackling poverty action plan. They both have common outcomes. Both of the strategies set out key objectives and what we want to see is a reduction in the number of children living in workless households. You will be aware of several schemes and programmes. You mentioned Families First, which I think is an excellent scheme, and there is Communities First, obviously, and the Lift programme. I am asking other Ministers to show how their portfolios are contributing to achieving the numbers we want to see.

Ar hyn o bryd, rwy'n edrych ar y strategaeth tlodi plant, sydd yn amlwg yn gweithio ochr yn ochr â'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael â thlodi. Mae canlyniadau cyffredin gan y ddau. Mae'r ddwy strategaeth yn nodi amcanion allweddol a'r hyn rydym am ei weld yw gostyngiad yn nifer y plant sy'n byw ar aelwydydd di-waith. Byddwch yn ymwybodol o nifer o gynlluniau a rhaglenni. Soniasoch am Deuluoedd yn Gyntaf, sydd mi gredaf yn gynllun ardderchog, ac mae'r rhaglen Esgyn ac yn amlwg mae Cymunedau yn Gyntaf. Rwy'n gofyn i Weinidogion eraill ddangos sut mae eu portffolios yn cyfrannu at gyflawni'r niferoedd yr hoffem eu gweld.

Senedd.tv Fideo Video

One thing I would say is that the child poverty strategy does not sit in isolation. It has a cross-cutting nature, and I think it is important that we use other strategies and legislation if needs be to improve outcomes for people from low-income households.

Un peth rwyf am ei ddweud yw nad yw'r strategaeth tlodi plant yn sefyll ar ei phen ei hun. Mae ei natur yn drawsbynciol, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn defnyddio strategaethau a deddfwriaeth arall os oes angen er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer pobl ar aelwydydd incwm isel.

15:07

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, teenage conception rates have fallen in recent years, which I welcome as progress towards eradicating child poverty. Could the Minister advise when the Welsh Government will be in a position to report on the outcomes of its Empower to Choose project, which is designed to reduce these rates even further?

Weinidog, mae cyfraddau beichiogi yn yr arddegau wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, a chroesawaf hynny fel cynnydd tuag at ddileu tlodi plant. A allai'r Gweinidog roi gwybod pryd y bydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i adrodd ar ganlyniadau ei phrosiect Grymuso i Ddewis, sydd wedi'i gynllunio i leihau'r cyfraddau hyn hyd yn oed ymhellach?

15:07

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not aware of the specific rate, but I will write to the Member on that point.

Nid wyf yn ymwybodol o'r gyfradd benodol, ond byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod am y pwynt hwnnw.

15:07

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 12, OAQ(4)0214(CTP), has been withdrawn.

Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ (4) 0214 (CTP), yn ôl.

### Anghydraddoldeb Cyflog rhwn y Rhywiau

### Gender Pay Inequality

15:07

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith anghydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau ar dlodi yng Nghymru? OAQ(4)0213(CTP)*

*13. Will the Minister make a statement on the impact of gender pay inequality on poverty in Wales? OAQ(4)0213(CTP)*

15:08

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Pay inequality has a clear impact on poverty in Wales. When women get equal pay, their family income rises, and their whole family benefits. The Welsh Government is firmly committed to gender equality in the workplace and to tackling the underlying issues that create pay inequality.

Mae anghydraddoldeb cyflog yn cael effaith glir ar dlodi yng Nghymru. Pan fydd merched yn cael cyflog cyfartal, bydd eu hincwm teuluol yn codi, ac mae hyn o fudd i'r teulu cyfan. Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle ac i fynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n creu anghydraddoldeb cyflog.

15:08

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Forty-three per cent of part-time workers are paid below the living wage compared with 12% of full-time employees. Given that three quarters of part-time workers in Wales are women, it is no surprise that the gender pay gap widened at the end of 2013, for the first time in five years. Does the Minister agree with me that, as a nation, while we should aspire to pay the living wage, pay inequality also remains a significant root cause of poverty in Wales?

Diolch i chi, Weinidog. Mae pedwar deg tri y cant o weithwyr rhan-amser yn cael cyflog llai na'r cyflog byw o gymharu â 12% o weithwyr llawn-amser. O gofio mai menywod yw tri chwarter y gweithwyr rhan-amser yng Nghymru, nid yw'n syndod bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi lledu ar ddiwedd 2013, am y tro cyntaf mewn pum mlynedd. A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi, tra dylem fel cenedl anelu at dalu'r cyflog byw, fod cyflog anghyfartal hefyd yn parhau i fod yn rheswm arwyddocaol am dlodi yng Nghymru?

15:08

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely. I am wholly committed to gender equality in the workplace and to enabling women to overcome the many barriers that they may face in accessing work, as well as encouraging and supporting them to progress in the workplace.

Yn hollol. Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle ac i alluogi menywod i oresgyn y rhwystrau niferus y gallent eu hwynebu wrth gael gafael ar waith, yn ogystal â'u hannog a'u cynorthwyo i wneud cynnydd yn y gweithle.

As you say, the majority of part-time workers are women and we know that many traditionally female career paths are lower paid than traditionally male career paths, because women are obviously more likely to work part-time. As the new Minister for equalities, I was really pleased to participate in a conference on Monday held in Cardiff, organised by Welsh Government. It was called Girls Make a Difference, and there we had 100 year 12 girls who listened to talks and engaged with women who are inspirational and role models. We probably realise it, but, out there, people will not realise that our chief veterinary officer is a woman, our chief medical officer is a woman, and my director general, who organised it, is a woman. We had speaking there Professor Laura McAllister, chair of Sport Wales and professor of governance. Sarah Thomas was there, ex-GB hockey player, with her bronze medal that she won. You could see that these young girls were very impressed by what they heard. In fact, after my speech, one said that she had wanted to be a nurse, but now she wanted to be a politician.

Fel y dywedwch, menywod yw mwyafrif y gweithwyr rhan-amser a gwyddom fod llawer o lwybrau gyrfa benywaidd traddodiadol yn talu llai na llwybrau gyrfa traddodiadol dynion, oherwydd bod menywod yn amlwg yn fwy tebygol o weithio'n rhan-amser. Fel y Gweinidog newydd dros gydraddoldeb, yr oeddwn yn falch iawn o gymryd rhan mewn cynhadledd a gynhaliwyd ddydd Llun yng Nghaerdydd, ac a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru, sef Mae Merched yn Gwneud Gwahaniaeth. Yn bresennol roedd 100 o ferched blwyddyn 12 a ddaeth i wrando ar sgyrsiau gan ymgysylltu â menywod sy'n fodelau rôl ysbrydoledig. Rydym ni, yn ôl pob tebyg, yn gwybod hyn, ond, allan yn y maes bydd llawer heb sylweddoli bod ein prif swyddog milfeddygol yn fenyw, mae ein prif swyddog meddygol yn fenyw, a menyw yw fy nghyfarwyddwr cyffredinol, a drefnodd y gynhadledd. Ymhlith y siaradwyr roedd yr Athro Laura McAllister, cadeirydd Chwaraeon Cymru ac athro llywodraethiant. Roedd Sarah Thomas yno, aelod o dîm hoci GB, gyda'i medal efydd. Creodd pawb gryn argraff ar y merched. Yn wir, ar ôl fy araith i, dywedodd un a oedd yn wreiddiol am fod yn nyrs ei bod nawr wedi newid ei meddwl ac am fod yn wleidydd.

15:10

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We are out of time now. Thank you very much, Minister.

Daeth yr amser i ben. Diolch yn fawr, Weinidog.

# Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gwasanaethau'r GIG

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Elin Jones, a gwelliant 3 yn enw Aled Roberts.*

# Welsh Conservatives Debate: NHS Services

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Elin Jones, and amendment 3 in the name of Aled Roberts.*

15:10

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Darren Millar to move the motion.

Cynnig NDM5570 Paul Davies

Motion NDM5570 Paul Davies

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi galwadau gan Gymdeithas Feddygol Prydain am ymchwiliad annibynnol llawn i wasanaethau'r GIG yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu ymchwiliad o'r fath cyn gynted â phosibl.

Notes calls from the British Medical Association for a full-scale independent investigation into Welsh NHS services and calls upon the Welsh Government to commission such an investigation as soon as possible.

15:10

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much indeed, Presiding Officer. I move the motion in the name of Paul Davies, which

'Notes calls from the British Medical Association for a full-scale independent investigation into Welsh NHS services and calls upon the Welsh Government to commission such an investigation as soon as possible.'

I will just deal with the amendments before I go into the rest of what I want to say. We will be supporting amendment 1, noting

'the BMA's concerns over the Welsh Government's inability to recruit'.

Diolch yn fawr iawn yn wir, Lywydd. Cynigiaf y cynnig yn enw Paul Davies, a oedd yn

'Nodi galwadau gan Gymdeithas Feddygol Prydain am ymchwiliad annibynnol ar raddfa lawn i wasanaethau'r GIG yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu ymchwiliad o'r fath cyn gynted â phosibl.'

Rwyf am ymdrin â'r gwelliannau cyn i mi fynd ymlaen â gweddill yr hyn yr wyf am ei ddweud. Byddwn yn cefnogi gwelliant 1, gan nodi

'pryderon y BMA dros analluogi Llywodraeth Cymru i recriwtio'.

I think there is, very clearly, a recruitment crisis in some parts of the national health service, particularly in terms of primary care and, indeed, certain disciplines within secondary care. So, we will be supporting that.

Credaf fod argyfwng recriwtio yn amlwg mewn rhai rhannau o'r gwasanaeth iechyd gwladol, yn enwedig o ran gofal sylfaenol ac, yn wir, rai disgyblaethau o fewn gofal eilaidd. Felly, byddwn yn cefnogi hynny.

I am afraid we cannot support amendment 2 regarding UK Government funding. Plaid Cymru will, of course, be aware that national health service spending in England has increased over and above inflation, and that, if such increases had been applied in Wales, then we would be hundreds of millions of pounds better off in terms of spending on our national health service here than is currently the case.

Rwy’n ofni na allwn gefnogi gwelliant 2 ynghylch cyllid Llywodraeth y DU. Bydd Plaid Cymru, wrth gwrs, yn ymwybodol fod gwariant ar y gwasanaeth iechyd gwladol yn Lloegr wedi cynyddu dros ac uwchlaw chwyddiant, a phe bai cynnydd o'r fath wedi cael ei wneud yng Nghymru, byddem gannoedd o filiynau o bunnoedd yn well ein byd o ran gwariant ar ein gwasanaeth iechyd gwladol yma nag sy'n wir ar hyn o bryd.

We will also be supporting amendment 3 in the name of Aled Roberts on behalf of the Liberal Democrats, calling for the

Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 3 yn enw Aled Roberts ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol, sy’n galw am

‘consideration of safe and minimum staffing levels’.

'ystyried lefelau staffio diogel a gofynnol'.

Members, it pains me to say it, but, despite the hard work and dedication of its staff, the national health service in Wales is in a state of crisis and you do not need to look very far for the evidence. [Interruption.] The Government may find this a comical matter, but I certainly do not.

Aelodau, mae'n ofid imi ddweud hynny, ond, er gwaethaf y gwaith caled ac ymroddiad ei staff, mae’r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru mewn argyfwng ac nid oes angen i chi edrych ymhell iawn i gael tystiolaeth. [Torri ar draws.] Efallai y bydd y Llywodraeth yn gweld hyn yn fater doniol, ond yn sicr nid wyf fi.

All but three Welsh hospitals have a death rate that is higher than the England and Wales average; emergency care is struggling to cope with A&E four-hour target waiting times not being met once since 2009; more people than ever are waiting more than nine months for their first hospital appointment; waiting lists have bloomed, with almost 200,000 more patients on a Welsh national health service waiting list than when Carwyn Jones became First Minister, and waiting times for diagnostic tests appear to be completely out of control, leading to further delays in treatment for patients. On top of that, hospital-acquired C. difficle infection rates are on the rise and staffing levels in some areas and parts of the Welsh NHS are at dangerous lows. Some of these problems have delivered devastating consequences for families, some of whom have lost loved ones while they were waiting for treatment or while stuck in the back of queuing ambulances outside hospital front doors.

Mae cyfradd marwolaeth pob ysbyty ond tri yng Nghymru yn uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr; mae gofal brys yn cael trafferth ymdopi â thargedau amseroedd aros pedair awr yr adrannau Damweiniau ac Achosion Brys sydd heb eu cyrraedd unwaith ers 2009; mwy o bobl nag erioed yn aros mwy na naw mis am eu hapwyntiad ysbyty cyntaf; rhestrau aros wedi cynyddu, gyda bron 200,000 yn fwy o gleifion ar restrau aros gwasanaeth iechyd gwladol Cymru na phan ddaeth Carwyn Jones yn Brif Weinidog, ac ymddengys y collwyd rheolaeth yn llwyr ar amseroedd aros am brofion diagnostig, gan arwain at oedi pellach wrth drin cleifion. Ar ben hynny, mae cyfraddau heintiau C difficile a geir mewn ysbytai ar gynnydd ac mae lefelau staffio mewn rhai meysydd a rhannau o'r GIG yng Nghymru yn beryglus o isel. Mae rhai o'r problemau hyn wedi arwain at ganlyniadau trallodus i deuluoedd, rhai ohonynt wedi colli anwyliaid wrth aros am driniaeth neu wrth aros yng nghefn ambiwlans y tu allan i ddrysau ffrynt yr ysbyty.

Just today, we have seen more evidence of this crisis with the ambulance response time targets. Despite promises of improvement from this Labour Minister, they have now been missed for every single month bar one in the past two years. It is no wonder that, last week, the chair of the British Medical Association in Wales warned of ‘imminent meltdown’ unless urgent action is taken.

Dim ond heddiw, gwelsom ragor o dystiolaeth o'r argyfwng hwn gyda thargedau amser ymateb y gwasanaeth ambiwlans. Er gwaethaf addewidion y Gweinidog Llafur hwn am welliant, maent yn awr wedi methu’r targed ym mhob mis ond un yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Nid yw'n syndod i gadeirydd Cymru o Gymdeithas Feddygol Prydain yr wythnos diwethaf bod pethau ar fin mynd i’r wal oni bai bod camau brys yn cael eu cymryd.

I listened very carefully to the First Minister during questions yesterday when he was rubbishing the inconsistency of the British Medical Association, but let me say this in this Chamber this afternoon: the British Medical Association and its members, like all good clinicians, change their prescription when the existing treatment regime is not working. You have made it clear, Minister, in your time in office, that we must listen to clinical advice in shaping the future of the Welsh NHS. Yet, when that advice does not suit you, you choose to ignore it. Well, you cannot ignore clinicians who are working at the coalface of the national health service who warn of imminent meltdown and say that 'work intensity has increased to frankly dangerous levels' and that 'if we became whistleblowers, we could make every hospital look like a Mid Staffs'. Other people complain of 'avalanching workloads' and the dire state of recruitment, which is actively denied by Mark Drakeford.

Gwrandewais yn astud iawn ar y Prif Weinidog yn ystod y cwestiynau ddoe pan oedd yn lladd ar anghysondeb Cymdeithas Feddygol Prydain, ond gadewch i mi ddweud hyn yn y Siambr y prynhawn yma: mae Cymdeithas Feddygol Prydain a'i haelodau, fel pob clinigwr da, yn newid eu presgripsiwn pan nad yw'r driniaeth bresennol yn gweithio. Rydych wedi dweud yn glir, Weinidog, yn eich amser chi yn y swydd, fod yn rhaid i ni wrando ar gyngor clinigol wrth lunio dyfodol y GIG yng Nghymru. Eto, pan nad yw'r cyngor yn addas i chi, rydych yn dewis ei anwybyddu. Wel, ni allwch anwybyddu clinigwyr sy'n gweithio yn rheng flaen y gwasanaeth iechyd gwladol pan gewch rybudd fod pethau wedi mynd i'r pen gan ddweud bod 'dwysedd gwaith wedi cynyddu i lefelau gwirioneddol beryglus' a 'phe baem ni'n mynd ati i chwythu'r chwiban, gallem wneud pob ysbyty i edrych fel ysbyty Canol Swydd Stafford.' Mae eraill yn cwyno am 'lwythi gwaith yn gorlifo' a chyflwr enbyd o ran recriwtio, gyda Mark Drakeford yn parhau i wadu.

It is not good enough. Things have got so bad that even Ed Miliband has finally joined in the chorus of voices raising concerns about the national health service in Wales. Even Red Ed has admitted that he now has some concerns, and, of course, he is not the only one in the Labour Party. Ann Clwyd, who was tasked with conducting a review into NHS complaints procedures, broke rank last July, stating that the catastrophic failings in the Welsh NHS were equivalent to the scandal in Mid Staffordshire.

Nid yw'n ddigon da. Mae pethau wedi mynd mor ddrwg bod hyd yn oed Ed Miliband wedi ymuno o'r diwedd yn y corws o leisiau gan godi pryderon am y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Mae hyd yn oed Red Ed wedi cyfaddef fod ganddo erbyn hyn rai pryderon, ac, wrth gwrs, nid ef yw'r unig un yn y Blaid Lafur. Clywsom Ann Clwyd hefyd, a oedd yn gyfrifol am gynnal adolygiad i weithdrefnau cwynion y GIG, yn torri'n rhydd fis Gorffennaf diwethaf, yn datgan bod y methiannau trychinebus yn y GIG yng Nghymru yn cyfateb i'r sgandal yng Nghanol Swydd Stafford.

To be fair, Minister, you have commissioned a number of reviews of individual patient cases and of different parts of the NHS during your tenure in the Cabinet. However, while these are to be welcomed, there appear to be some inconsistencies as to why some cases result in reviews where others do not. It is this ad hoc approach to the way that you are dealing with the NHS that we feel is not appropriate.

A bod yn deg, Weinidog, rydych wedi comisiynu nifer o adolygiadau o achosion cleifion unigol ac o wahanol rannau o'r GIG yn ystod eich cyfnod yn y Cabinet. Fodd bynnag, er bod y rhain i'w croesawu, ymddengys fod rhai anghysonderau o ran pam y mae rhai achosion yn arwain at adolygiadau lle nad yw eraill. Mae'r dull ad hoc hwn o ymdrin â'r GIG yn ein barn ni'n amhriodol.

As the British Medical Association has acknowledged in its report, 'Creating a Healthier NHS for Wales', which was launched last week, we now need this wide-ranging independent review into all parts of the national health service if we are to get to the root of the problems and solve them once and for all. Instead, Welsh Labour attempts to neutralise criticism of poor performance by blaming the figures, rather than accepting responsibility for its stewardship of the health service.

Fel y cydnabu Cymdeithas Feddygol Prydain yn ei hadroddiad, ''Creating a Healthier NHS for Wales', a lansiwyd yr wythnos diwethaf, bellach mae angen i ni ddefnyddio'r adolygiad annibynnol hwn ym mhob rhan o'r gwasanaeth iechyd gwladol os ydym am gyrraedd at wraidd y problemau a'u datrys nhw unwaith ac am byth. Yn lle hynny, mae Llafur Cymru yn ceisio niwtraleiddio beirniadaeth am berfformiad gwael drwy roi'r bai ar y ffigurau, yn hytrach na derbyn cyfrifoldeb am ei stiwardiaeth o'r gwasanaeth iechyd.

Concerns about the Welsh NHS have been raised by clinicians before, including Professor Sir Bruce Keogh and the Royal College of Surgeons. However, to date, we have seen insufficient action to understand and address the root causes of the problems faced by our NHS. Frankly, I think that the people of Wales are a little bit fed up of Ministers making excuses and denying that problems exist in the face of very clear and growing evidence to the contrary. We want to see some action taken to identify the causes of the problems so that they can be put right once and for all.

Codwyd pryderon am y GIG yng Nghymru gan glinigwyr o'r blaen, gan gynnwys yr Athro Syr Bruce Keogh a Choleg Brenhinol y Llawfeddygon. Fodd bynnag, hyd yn hyn, camau annigonol a gafwyd i ddeall a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol y problemau a wynebir gan ein GIG. A dweud y gwir, credaf fod pobl Cymru wedi cael mwy na digon o Weinidogion yn gwneud esgusodion ac yn gwadu bod problemau yn bodoli yn wyneb tystiolaeth i'r gwrthwyneb sy'n ddiamwys ac ar gynnydd. Rydym am weld camau yn cael eu gweithredu i ganfod beth sy'n achosi'r problemau er mwyn iddynt gael eu cywiro unwaith ac am byth.

Every poor statistic and every unnecessary death is a fire alarm that all is not well in the Welsh NHS. We ignore fire alarms, Minister, at our peril. These fire alarms have now been ringing for months, yet there are no clear signs of action to assure patients that you are taking the appropriate steps to attend to them. Instead of getting to grips with the issues and investing in our national health service, your First Minister and you, unfortunately, in Government, have signalled an intention to scrap the very targets and measures that paint you in a bad light.

Mae pob ystadegyn gwael a phob marwolaeth ddiangen yn rhybudd amlwg nad yw popeth yn iawn yn y GIG yng Nghymru. Gwae ni wrth i ni anwybyddu'r rhybuddion hyn, Weinidog. Mae'r larymau bellach wedi canu am fisoedd, ac eto nid oes unrhyw arwydd clir o gamau gweithredu er mwyn tawelu ofnau cleifion eich bod yn cymryd y camau priodol. Yn hytrach na mynd i'r afael â'r problemau a buddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd gwladol, yn anffodus rydych chi a'ch Prif Weinidog wedi nodi bwriad i gael gwared ar yr union dargedau a'r mesurau sy'n adlewyrchu'n wael ar eich gwaith.

The answer, of course, is not to blame the data or to rubbish their quality, or to say that it is the way that the data are collected that is the problem. The answer is to look at the causes of the poor performance in the first place, so that you can take action to put them right. Instead, Minister, you have been burying your head in the sand, blaming health boards, ambulance services, general practitioners and other professionals when things go wrong, and then trying to pat yourself on the back when things go right. I have to say that there is more than a whiff of Mid Staffs about it.

Yr ateb, wrth gwrs, yw peidio â rhoi'r bai ar y data neu ladd ar eu hansawdd, na dweud mai'r ffordd y mae'r data yn cael eu casglu yw'r broblem. Yr ateb yw canfod beth yw achos y perfformiad gwael yn y lle cyntaf, er mwyn i chi gymryd camau i'w cywiro. Yn lle hynny, Weinidog, rydych wedi bod yn claddu eich pen yn y tywod, beio byrddau iechyd, y gwasanaethau ambiwlans, meddygon teulu a gweithwyr proffesiynol eraill pan fydd pethau'n mynd o chwith, ac yna ceisio rhoi clod i chi'ch hun pan fydd pethau'n mynd yn iawn. Rhaid i mi ddweud bod hyn yn ymdebygu fwyfwy i Ganol Swydd Stafford.

Let us remind ourselves of what Professor Sir Brian Jarman, who developed the hospital standardised mortality rates, said about the reaction of the UK Labour Government when he tried to warn about NHS failings in Mid Staffordshire. He said that he faced a 'denial machine'. He believed that:

Gadewch i ni ein hatgoffa'n hunain o'r hyn a ddywedodd yr Athro Syr Brian Jarman, a ddatblygodd gyfraddau marwolaethau safonedig ysbytai, am ymateb Llywodraeth Lafur y DU pan geisiodd ei rhybuddio am fethiannau'r GIG yng Nghanol Swydd Stafford. Dywedodd ei fod yn wynebu 'peiriant gwadu'. Roedd yn credu bod:

'there was political pressure for the information to be ignored'.

'pwysau gwleidyddol ar i'r wybodaeth gael ei hanwybyddu'.

Well, Minister, I can see very clearly that you have been using that denial machine here in Wales. It is not right for you to continue to resist an inquiry to identify the potential shortcomings in the NHS on cost grounds, especially when you have managed to spend millions on refurbishing lavish offices here in Cardiff bay.

Wel, Weinidog, gallaf weld yn glir iawn eich bod wedi bod yn defnyddio'r peiriant gwadu yma yng Nghymru. Nid yw'n iawn i chi barhau i wrthsefyll ymchwiliad i ganfod y diffygion posibl yn y GIG ar sail costau, yn enwedig pan fyddwch wedi llwyddo i wario miliynau ar adnewyddu swyddfeydd moethus yma ym mae Caerdydd.

It is becoming increasingly clear that the record-breaking national health service budget cuts being imposed by your Government are placing unprecedented pressure on front-line services and hard-working national health service staff. Under Labour, the NHS in Wales has become the sick man of Britain. That is why we need an urgent independent investigation to turn this situation around and give patients the confidence that they need.

Mae'n dod yn fwyfwy amlwg bod y toriadau mwyaf erioed yng nghyllideb y gwasanaeth iechyd gwladol a bennwyd gan eich Llywodraeth yn rhoi pwysau digyffelyb ar wasanaethau rheng flaen a staff gweithgar y gwasanaeth iechyd gwladol. O dan Lafur, daeth y GIG yng Nghymru yn un o gleifion Gwledydd Prydain. Dyna pam y mae arnom angen ymchwiliad annibynnol brys i wella'r sefyllfa hon a rhoi i gleifion yr hyder sydd arnynt ei angen.

I ask you these questions, Minister. How many more unnecessary deaths? How long do waiting lists need to be? How many more reports about poor care? How many more complaints? How many more months of underperformance, whether it be in the ambulance service or against waiting-time targets? How many more of these do you need to see to persuade you of the need for an urgent inquiry into the national health service so that we can put this situation right once and for all? You need to act, and you need to act now and take the advice of the British Medical Association. I urge Members to support the motion.

Rwyf am ofyn y cwestiynau hyn i chi, Weinidog. Faint mwy o farwolaethau diangen? Pa mor hir mae angen i restrau aros fod? Faint mwy o adroddiadau am ofal gwael? Faint mwy o gwynion? Faint mwy o fisoedd o danberfformio, boed hynny yn y gwasanaeth ambiwlans neu yn erbyn y targedau amseroedd aros? Faint mwy o'r rhain y mae angen i chi eu gweld i'ch perswadio chi bod angen ymchwiliad brys i'r gwasanaeth iechyd gwladol fel y gallwn gywiro'r sefyllfa unwaith ac am byth? Mae angen i chi weithredu, ac mae angen i chi weithredu nawr a chymryd cyngor Cymdeithas Feddygol Prydain. Anogaf yr Aelodau i gefnogi'r cynnig.

15:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have selected the three amendments to the motion. I call on Elin Jones to move amendments 1 and 2, which are tabled in her name.

Yr wyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliannau 1 a 2, sy'n cael eu cyflwyno yn ei henw.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi pryderon y BMA ynghylch anallu Llywodraeth Cymru i recriwtio a chadw gweithlu meddygol digonol yn y GIG.*

*Notes the BMA's concerns over the Welsh Government's inability to recruit and retain an adequate NHS medical workforce.*

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at doriadau parhaus Llywodraeth y DU i wariant cyhoeddus a'r effaith ar fuddsoddi yn ein GIG.*

*Regrets the UK Government's continuing cuts to public spending and the impact on investment in our NHS.*

15:20 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Cynigiaf welliannau 1 a 2 yn enw Plaid Cymru.

I move amendments 1 and 2 in the name of Plaid Cymru.

Bydd Plaid Cymru yn cefnogi gwelliant 3 heddiw a hefyd yn cefnogi'r cynnig, oherwydd nid oes gennyf, mewn egwyddor, ddim gwrthwynebiad i adolygiad annibynnol o'r NHS. Yr hyn sy'n aneglur o'r cynnig ac o'r cyflwyniad, os caf ddweud, yw beth yn gwmws fyddai'r dehongliad o adolygiad o'r math hwnnw. Ai rhywbeth cyflym, tymor byr sy'n craffu ar rai o broblemau dydd i ddydd y gwasanaeth iechyd, o ran rhestrau aros a chwrdd â thargedau amser aros ambiwlans neu ai o ran y cyfraddau marwolaeth yn rhai o'n hysbytai fyddai'r adolygiad? Ai dyna sydd mewn golwg neu ai adolygiad mwy tymor hir a chynhwysfawr o'r strwythurau sy'n rhedeg ein gwasanaeth iechyd, ar gynllunio'r gweithlu ac ar y targedau sy'n addas ar gyfer ein gwasanaeth iechyd ni yn yr hirdymor?

Plaid Cymru will support amendment 3 today and will also be supporting the motion, because, in principle, I have no opposition to an independent review of the NHS. What is not clear from the motion and the opening comments, if I may say so, is what exactly the interpretation of such a review would be. Would it be a swift, short-term investigation to scrutinise the day-to-day problems of the NHS, in terms of waiting lists and meeting ambulance waiting time targets, or would it be in terms of the mortality rates in some of our hospitals? Is that what you have in mind, or would it be a longer-term, more comprehensive review of the structures underpinning our health service, of workforce planning and of which targets would be appropriate for our health service in the longer term?

Rydym yn gwybod bod yr adroddiad Nuffield diweddar wedi dangos maint y diffyg arian dros y 10 mlynedd nesaf i'r NHS yng Nghymru. Mae'n ffigur sydd yn ein sobri ni i gyd, sef £2.5 biliwn o wacter neu ddiffyg ariannol dros y 10 mlynedd nesaf. Felly, gallai fod o ddefnydd cael arolwg annibynnol ar ba fath o NHS y gallwn ni ei fforddio dros y cyfnod o ddegawd yna, a beth yw'r heriau y bydd yn gwneud hynny'n anodd dros y cyfnod hwnnw. Y perygl gydag unrhyw adolygiad annibynnol o'r fath yw ei fod yn dweud wrthym yr hyn yr ydym, yn wirioneddol, eisoes yn gwybod, wrth gwrs. Mae hynny'n berygl, wastad, gydag adolygiadau o'r math yma.

We know that the recent Nuffield report demonstrated the scale of the funding shortfall for the NHS in Wales over the next 10 years. It is a sobering figure for us all, that financial vacuum or shortfall of £2.5 billion over the next 10 years. Therefore, it might be useful to have an independent review into what sort of NHS we can afford over a 10-year period, and what are the challenges that will make that difficult over that period of time. The danger with any independent investigation of that sort is that it will tell us only what we, truly, already knew, of course. That is always a danger with reviews of this kind.

Y rheswm y mae galw am adolygiadau annibynnol, a bod honno'n alwad sy'n cynyddu, yw nad yw sefydliadau, fel y BMA yn ystod yr wythnos diwethaf, yn teimlo bod y Llywodraeth yn cymryd eu pryderon nhw o ddifrif nac yn gwrando arnynt. Mae gyda nhw bryderon a dylid gwrando arnynt. Fel Darren Millar, rwy'n cytuno yr oedd ymateb y Prif Weinidog ddoe i adroddiad y BMA yn gwbl wleidyddol bleidiol, yn hytrach na'n ymateb prif weinidogol. Roedd yn ddirmygus o ganfyddiadau adroddiad y BMA ac o'r sefydliad ei hun. Mae hynny mor wahanol i'r adegau pan ydym wedi'i glywed ef ac eraill yn canmol y BMA—os yw'n canmol gwaith y Llywodraeth. Felly, mae angen y cysondeb hwnnw oddi wrth y Prif Weinidog, y cysondeb y bu iddo ef ei hun alw amdano gan y BMA. Mae angen y cysondeb hwnnw oddi wrth y Prif Weinidog hefyd.

The reason why there is demand for independent reviews, and why those calls are increasing, is that organisations feel, as did the BMA last week, that the Government is not taking their concerns seriously or is not listening to them. It They do have concerns and they should be listened to. Like Darren Millar, I agree that the First Minister's response yesterday to the BMA report was entirely party-political, rather than first ministerial. He was contemptuous of the BMA report's conclusions and of the institution itself. That was so different from the times we have heard him and others laud the BMA—provided it was praising the work of the Government. Therefore, we need that consistency from the First Minister, the consistency that he himself called for from the BMA. We need that consistency from the First Minister also.

Dylai Prif Weinidog Cymru gymryd o ddifrif bryderon y BMA dros yr NHS. Nid yw gwadu problemau yn dderbyniol, yn enwedig pan fo'r problemau hynny'n ymwneud â morâl, parch ac amodau gwaith ein gweithlu meddygol ni, sydd mor bwysig i ddarparu'r gwasanaethau NHS yr ydym i gyd yn dyheu amdanynt. Dyna'r rheswm, felly, y mae Plaid Cymru yn credu bod angen cynllunio ar gyfer y pwysau cynyddol fydd ar y gweithlu meddygol sydd yno yn awr ac a fydd yno yn y dyfodol. Rydym yn gwybod bod niferoedd y doctoriaid sydd gyda ni fesul pen o'r boblogaeth yn is yng Nghymru nag ydyw yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, a bod y nifer yn sicr yn is nag ydyw yng ngwledydd y Deyrnas Gyfunol. Mae gyda ni ein cynlluniau fel plaid ar sut y gellid cynyddu'r boblogaeth o ddoctoriaid o 1,000 dros gyfnod o ddegawd, ac rydym wedi amlinellu sut mae hynny'n ymarferol bosibl i'w gyflawni. Nid wyf yn hyderus fod y Llywodraeth yn cymryd rhai o'r heriau hyn o ddifrif hyd yn hyn, nac, yn sicr, ei bod yn cyflwyno cynlluniau realistig ynghylch sut mae cynyddu'r boblogaeth o feddygon sydd gyda ni yn gweithio yn yr NHS yng Nghymru. Felly, mae'n hollbwysig cymryd o ddifrif yr hyn sy'n cael ei gyflwyno fel diffyg morâl a diffyg hyder gan y BMA a doctoriaid, bellach, yn y gwasanaeth iechyd.

The First Minister should take seriously the BMA's concerns about the NHS. Denying the existence of problems is not acceptable, particularly when they relate to morale, respect and the working conditions of our medical workforce, who are so important to providing the NHS services that we all aspire towards. That is why Plaid Cymru believes that we need to plan for the increased pressures that will be placed on our medical workforce, both those who are there now and those who will be there in the future. We know that the number of doctors that we have per capita is lower in Wales than it is in most European nations, and it is certainly lower than in the countries of the United Kingdom. We have our own plans as a party for how we could increase the population of doctors by 1,000 over a decade, and we have outlined how that can be achieved in practice. I am not confident that the Government is taking some of these challenges seriously todate, and it certainly is not bringing forward realistic schemes for increasing the number of doctors that we have working in the NHS in Wales. Therefore, it is essential that we take seriously what is being presented as a lack of morale among staff and a lack of confidence by the BMA and now by doctors in the health service.

Wrth gloi, cyfeiriaf at welliant 2 yn enw Plaid Cymru. Tra bo Llywodraeth San Steffan yn parhau i dorri ar wariant cyhoeddus a thra bo'r Cynulliad hwn yn cael ei danariannu o'r Trysorlys, bydd yr NHS yn parhau i fod dan bwysau. Mae angen inni fod yn onest am y sefyllfa ariannol sy'n rhoi'r NHS o dan bwysau annerbyniol. Os nad oes arian digonol o fewn y system gyhoeddus, ni allwn ddisgwyl o ddifrif i'r NHS gyflawni'r hyn yr ydym ni oll yn dymuno o'n NHS ni.

In conclusion, I refer to amendment 2 in the name of Plaid Cymru. While the Westminster Government continues to cut public spending and while this Assembly is being under-funded by the Treasury, the NHS will continue to be under pressure. We need to be honest about the financial situation that puts the NHS under unacceptable pressure. If there is not adequate funding within the public funding system, we cannot seriously expect the NHS to achieve what we all want from our NHS.

15:25

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Kirsty Williams to move amendment 3, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi galwadau gan y BMA y dylid rhoi ystyriaeth i lefelau staffio diogel a gofynnol ar draws gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol.*

*Notes the BMA's call for consideration of safe and minimum staffing levels across primary, secondary and community care.*

15:25

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 3.

Cynigiaf welliant 3.

If we are being honest, we have to acknowledge that there is not an NHS system in any part of the United Kingdom that is not struggling at the moment. Over the summer, there were horror stories about the situation in accident and emergency departments in Northern Ireland. Let us not forget why the Keogh review was set up in the first place: there were significant problems within the NHS in England. Therefore, I want to be absolutely clear that Wales is not the only part of the United Kingdom that is grappling with the question of how we sustain a publicly funded NHS with shrinking resources, whether money or personnel, against an ageing population and advances in medical care. So, these are not problems that we are facing alone.

Os ydym yn bod yn onest, mae'n rhaid i ni gydnabod nad oes unrhyw system o'r GIG mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig nad yw mewn trafferthion ar hyn o bryd yn. Dros yr haf, roedd straeon arswyd am y sefyllfa mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yng Ngogledd Iwerddon. Gadewch inni beidio ag anghofio pam y sefydlwyd adolygiad Keogh yn y lle cyntaf: roedd problemau sylweddol o fewn y GIG yn Lloegr. Felly, rwyf am fod yn gwbl glir nad Cymru yw'r unig ran o'r Deyrnas Unedig sy'n ymrafael â sut y gallwn gynnal Gwasanaeth Iechyd sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus gan lai a llai o adnoddau, boed arian neu bersonél, yn wyneb poblogaeth sy'n heneiddio a datblygiadau mewn gofal meddygol. Felly, nid dim ond ni sy'n wynebu'r problemau hyn.

Nobody wants to do the staff of the NHS down. Let us face it: if politicians had the approval ratings of the NHS, we would be living in a much better democracy. Nor am I comfortable—and I had to endure it again this morning—hearing about the Welsh NHS in negative terms in the national media. I do not want the rest of the UK to think that, as a nation, regardless of who runs the Government, we cannot take care of our sick, our needy and our vulnerable. It makes me feel ill. I do not want people to hear that about our Welsh NHS. I know that there is excellence every day in our NHS. There was yesterday, there is today, there will be tomorrow, and there will be next week and next month. I have seen it and I have received it, and my constituents benefit from it every day. However, if we are being honest about what is good about the system, we have to also be honest about what is going wrong and what could be better, because I have also seen care that is not what we would want it to be. We have seen constituents who have had to wait too long, and we have seen front-line staff who have been put under pressure and in a position that none of us would want to see. Therefore, we have to be honest about what is going wrong, too.

Does neb eisiau lladd ar staff y GIG. Gadewch inni wynebu'r peth: pe bai gwleidyddion yn cael graddau cymeradwyaeth y GIG, byddem yn byw mewn democratiaeth lawer gwell. Ac nid wyf yn gyffyrddus—ac roedd rhaid i mi ei ddioddef eto'r bore yma—yn clywed am y GIG yng Nghymru mewn termau negyddol yn y cyfryngau cenedlaethol. Nid wyf am i weddill y DU feddwl ein bod, fel cenedl, waeth pwy sy'n rhedeg y Llywodraeth, yn methu â gofalu am ein pobl sâl, anghenus a bregus. Mae'n gwneud i mi deimlo'n sâl. Dydw i ddim am i bobl glywed hyn am ein GIG yng Nghymru. Gwn fod yna ragoriaeth bob dydd yn ein GIG. Mae ddoe wedi bod, dyma heddiw, bydd yfory, a bydd yr wythnos nesaf a'r mis nesaf. Rwyf wedi ei weld a'i dderbyn, ac mae fy etholwyr yn cael budd ohono bob dydd. Fodd bynnag, os ydym yn bod yn onest am yr hyn sy'n dda am y system, mae'n rhaid i ni hefyd fod yn onest am yr hyn sy'n mynd o'i le a beth allai fod yn well, oherwydd rwyf fi hefyd wedi gweld gofal nad yw'r hyn a ddylai fod. Rydym wedi gweld etholwyr sydd wedi gorfod aros yn rhy hir, ac rydym wedi gweld staff rheng flaen sydd wedi cael eu rhoi o dan bwysau ac mewn sefyllfa y byddai neb ohonom am ei gweld. Felly, mae'n rhaid i ni fod yn onest am yr hyn sy'n mynd o'i le, hefyd.

The Government has set its face against an independent inquiry, and it has done so in such a way as to give the Minister no room for manoeuvre now, and no way out. The reality is that, while the BMA is calling for a Keogh-style review, actually many of the elements of a Keogh-style review have already been carried out in Wales. With regard to mortality, we have had debate after debate, and movements and an examination of mortality and risk-adjusted mortality index figures. We have had debates and reviews over patient experiences and whistleblowing. However, there have been parts of Keogh that we have not looked at, and I am particularly concerned about issues relating to the recruitment and retention of staff, staff morale, and what the BMA report had to say about whistleblowing and how staff can bring concerns to people's attention. To go back to what Keogh said, he said that there were lessons for all of the NHS from the investigations that he carried out: limited understanding of how simple it can be to listen to staff and patients and engage them in improving services; the capability of boards and managers to use data appropriately; and the difficulties for some in operating in geographical and professional isolation. Those are things that are happening here now in Wales, and I think that there would be some benefit in looking at them.

Mae'r Llywodraeth wedi barnu yn erbyn ymchwiliad annibynnol, ac mae wedi gwneud hynny yn y fath fodd fel nad oes lle i'r Gweinidog symud yn awr, ac nid oes dihangfa. Y gwir yw, er bod y BMA yn galw am adolygiad tebyg i Keogh, mewn gwirionedd mae llawer o elfennau o adolygiad arddull Keogh eisoes wedi'u cynnal yng Nghymru. O ran marwolaethau, rydym wedi cael dadl ar ôl dadl, a symudiadau ac archwiliad o farwolaethau a ffigurau mynegai marwolaethau yn ôl risg. Rydym wedi cael dadleuon ac adolygiadau ynghylch profiadau cleifion a chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, mae rhannau o Keogh nad ydym wedi eu hystyried, ac rwy'n arbennig o bryderus ynghylch materion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff, morâl y staff, a'r hyn yr oedd adroddiad y BMA yn ei ddweud am ddatgelu camarfer a sut y gall staff ddod â phryderon i sylw pobl. I fynd yn ôl at yr hyn a ddywedodd Keogh, dywedodd fod gwersi ar gyfer pob un o'r GIG o'r ymchwiliadau a gyflawnodd: dealltwriaeth gyfyngedig o symlrwydd y broses o wrando ar staff a chleifion a'u cynnwys wrth wella gwasanaethau; gallu byrddau a rheolwyr i ddefnyddio data yn briodol; a'r anawsterau i rai o ran gweithredu mewn lleoedd sydd wedi'u hynysu'n ddaearyddol a phroffesiynol. Dyna'r pethau sy'n digwydd yma yn awr yng Nghymru, a chredaf y deuai rhywfaint o fudd o edrych arnynt.

However, I think that we need to go beyond an instant inquiry into what is happening now. I believe that it is time now for the Government to establish a cross-party, and no party, and civic commission into the future of the NHS in Wales, to map out where we want to be in 25 years' time, the challenges of achieving that, and the steps that we need to take. It is beyond a review; we need something more serious. If it is good enough for tuition fees and if it is good enough for higher education, why will the Government not commit to such a review, and a commission, for our NHS, so that all that is good can be preserved, and so that that which needs improving can be planned for and acted upon?

Fodd bynnag, credaf fod angen i ni fynd y tu hwnt i ymchwiliad sydyn i'r hyn sy'n digwydd yn awr. Credaf ei bod yn bryd yn awr i'r Llywodraeth sefydlu comisiwn trawsbleidiol, di-barti a dinesig i ddyfodol y GIG yng Nghymru, i fapio ble rydym am fod ymhen 25 mlynedd, yr heriau ar gyfer cyflawni hynny, a'r camau sydd angen inni eu cymryd. Mae hyn y tu hwnt i adolygiad; mae angen rhywbeth mwy difrifol. Os yw'n ddigon da i dalu ffioedd dysgu ac, os yw'n ddigon da ar gyfer addysg uwch, pam na wnaiff y Llywodraeth ymrwymo i gynnal adolygiad o'r fath, a chomisiwn, ar gyfer ein GIG, fel y gellir cadw popeth sy'n dda, ac fel y gellir cynllunio a gweithredu ar yr hyn sydd angen ei wella?

15:30

## Byron Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for the opportunity to take part in this debate, noting the calls from the BMA for a full-scale independent investigation into Welsh NHS services and calling upon the Welsh Government to commission an investigation as soon as possible. As a Member who represents South Wales West, from Gower to Bridgend, I know only too well of the numerous reviews over the past year that have shown that serious failings exist within the health boards in Wales. However, I do take the point that many positive things do take place in the NHS also, on a day-to-day basis, because of the very dedicated staff that we have.

Diolch i chi am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon, sy'n nodi'r galwadau gan y BMA am ymchwiliad annibynnol ar raddfa lawn i wasanaethau'r GIG yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu ymchwiliad cyn gynted â phosibl. Fel Aelod sy'n cynrychioli Gorllewin De Cymru, o'r Gŵyr i Ben-y-bont ar Ogwr, gwn yn iawn am yr adolygiadau niferus dros y flwyddyn ddiwethaf sydd wedi dangos bod diffygion difrifol yn bodoli o fewn y byrddau iechyd yng Nghymru. Fodd bynnag, rwy'n derbyn y pwynt bod llawer o bethau cadarnhaol yn digwydd yn y GIG hefyd, o ddydd i ddydd, oherwydd y staff ymroddedig iawn sydd gennym.

Members, there has been no shortage of warning signs about the Welsh NHS over the past year. Several organisations, such as the Royal College of Surgeons and the Wales Audit Office, have produced reports that highlight failings in several health boards in Wales. These failings include cancelled or delayed operations and unsustainable methods employed to achieve financial savings.

Aelodau, ni fu prinder yn y rhybuddion a gafwyd am y GIG yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae nifer o sefydliadau, megis Coleg Brenhinol y Llawfeddygon a Swyddfa Archwilio Cymru, wedi cynhyrchu adroddiadau sy'n tynnu sylw at ddiffygion mewn nifer o fyrddau iechyd yng Nghymru. Mae'r diffygion hyn yn cynnwys llawdriniaethau wedi'u canslo neu eu gohirio a dulliau anghynaliadwy o sicrhau arbedion ariannol.

We have today seen the Welsh ambulance times, yet again, not meeting targets, and, of course, this followed the very sad death of Mrs Powell, who died last week while waiting in an ambulance outside Morriston Hospital. Much has been said already in this Chamber about that, so I will not go into any detail on it, other than to offer my condolences as well. The death in an ambulance in Swansea should be seen in the following context, I believe: that, according to the latest official figures, the Welsh ambulance service failed to hit response time targets for the most urgent calls for the ninth consecutive month. Statistics also show that 87.7% of people arriving at Welsh accident and emergency departments were seen within four hours of arrival, with the Welsh Government target, of course, being 95%. The worst-performing health board was Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, with nearly 17% of patients waiting more than four hours.

Heddiw, gwelsom eto amseroedd ambiwlans Cymru, yn methu'r targedau, ac, wrth gwrs, roedd hyn yn dilyn marwolaeth drist iawn Mrs Powell, a fu farw'r wythnos diwethaf wrth aros mewn ambiwlans y tu allan i Ysbyty Treforys. Mae llawer wedi cael ei ddweud eisoes yn y Siambr hon am hynny, felly nid wyf am fanylu ar hynny, ac eithrio i gynnig fy nghydymdeimlad hefyd. Dylid ystyried y farwolaeth mewn ambiwlans yn Abertawe yn y cyd-destun canlynol, rwy'n credu: yn ôl y ffigurau swyddogol diweddaraf, methodd gwasanaeth ambiwlans Cymru â chyrraedd targedau amseroedd ymateb ar gyfer galwadau mwyaf brys am y nawfed mis yn olynol. Dengys yr ystadegau hefyd mai 87.7% o bobl sy'n cyrraedd adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru sy'n cael eu gweld o fewn pedair awr i gyrraedd, tra bod targed Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yn 95%. Y bwrdd iechyd a berfformiodd waethaf oedd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, gyda bron 17% o gleifion yn aros mwy na phedair awr.

I do believe that we need a full-scale inquiry, and we need it now. No longer can you hide the scale of this gross mismanagement within the NHS in Wales, and, in particular, I have to say, in ABMU. The Royal College of Surgeons published a report in July 2013, following findings that 152 patients had died in the last five years while waiting for cardiac surgery in Cardiff or Swansea. The Royal College of Surgeons said that conditions had reached dangerous levels at the University Hospital of Wales in Cardiff, with patients dying regularly while waiting for heart operations.

Credaf fod angen ymchwiliad ar raddfa lawn, ac mae angen hynny nawr. Ni allwch bellach guddio camreoli ar raddfa fel hyn yn y GIG yng Nghymru, ac, yn benodol, rhaid i mi ddweud, yn PABM. Cyhoeddodd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon adroddiad ym mis Gorffennaf 2013, yn dilyn canfyddiadau fod 152 o gleifion wedi marw yn y pum mlynedd diwethaf wrth aros am lawdriniaeth ar y galon yng Nghaerdydd neu Abertawe. Dywedodd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon fod amodau wedi cyrraedd lefelau peryglus yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd, gyda chleifion yn rheolaidd yn marw wrth aros am lawdriniaethau ar y galon.

Over the past year, several organisations, such as the Royal College of Surgeons and, as I have said, the Wales Audit Office, have produced reports that highlight failings at several health boards in Wales. These failings include cancelled or delayed operations and unsustainable methods employed to achieve financial savings targets, which have both seriously compromised patient care.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer o sefydliadau, megis Coleg Brenhinol y Llawfeddygon ac, fel y dywedais, Swyddfa Archwilio Cymru, wedi cynhyrchu adroddiadau sy'n tynnu sylw at fethiannau mewn nifer o fyrddau iechyd yng Nghymru. Mae'r diffygion hyn yn cynnwys llawdriniaethau wedi'u canslo neu eu gohirio a dulliau anghynaliadwy o sicrhau targedau arbedion ariannol, sydd fel ei gilydd wedi peryglu gofal cleifion.

ABMU victim support group, co-ordinated by Gareth Williams, who lost his mother Lilian at the Princess of Wales Hospital after she suffered appalling standards of care, is compiling a document of over 100 victims, who all allege serious abuses and neglect resulting in injury, disability and death. The evidence, Minister, grows and grows.

Mae grŵp cymorth i ddioddefwyr PABM, a gydlynwyd gan Gareth Williams, a gollodd ei fam Lilian yn Ysbyty Tywysoges Cymru ar ôl iddi ddioddef safonau ofnadwy o ofal, yn llunio dogfen gyda thros 100 o ddioddefwyr, sydd i gyd yn honni camdriniaeth ac esgeulustod difrifol a arweiniodd at anafiadau, anabledd a marwolaeth. Mae'r dystiolaeth, Weinidog, yn tyfu a thyfu.

I would like to conclude by focusing on a huge concern in my area of Wales, namely the recommendations following the Andrews report. That independent review into aspects of care at two hospitals in south Wales was published on 13 May 2014, and it revealed shocking examples—shocking examples—of poor care and unacceptable practice in the care of older patients. The report is entitled 'Trusted to Care', detailing the findings of the independent review into practice at the Princess of Wales Hospital Bridgend and Neath Port Talbot Hospital. It primarily focuses on the care of older patients, including nursing standards. The report identified horrific examples of poor care, including leaving patients without their medication, food or water for days, and one patient left in his own excrement.

Hoffwn gloi drwy ganolbwyntio ar bryder enfawr yn fy ardal i o Gymru, sef yr argymhellion yn dilyn adroddiad Andrews. Cyhoeddwyd yr adolygiad annibynnol i agweddau ar ofal mewn dau ysbyty yn ne Cymru ar 13 Mai 2014, ac mae'n datgelu enghreifftiau—rhai yn frawychus—o ofal gwael ac arferion annerbyniol wrth ofalu am gleifion hŷn. Mae'r adroddiad yn dwyn y teitl 'Ymddiried mewn Gofal', ac yn manylu ar ganfyddiadau'r adolygiad annibynnol ar waith yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ofalu am gleifion hŷn, gan gynnwys safonau nyrsio. Roedd yr adroddiad yn nodi enghreifftiau erchyll o ofal gwael, gan gynnwys gadael cleifion heb eu meddyginiaeth, heb fwyd neu ddŵr am ddyddiau, ac un claf yn gorwedd yn ei garthion ei hun.

The First Minister, along with ABMU health board, has apologised and committed to the implementation of every one of the 18 recommendations, but stopped short of committing to a full-scale inquiry into standards of care. So, Minister, please accept from me that I am not jumping on a bandwagon here, but that I am merely responding to the real concerns that people come to me with in South Wales West and that I have to bring to you in this Chamber. A full-scale inquiry is now needed across the NHS and across Wales. I very much hope that you will seize the opportunity that is presented in this motion today and that you will start an independent, full-scale inquiry, as called for by the British Medical Association. I believe that the people of Wales really do deserve this.

Mae Prif Weinidog Cymru, ynghyd â bwrdd iechyd PABM, wedi ymddiheuro ac wedi ymrwymo i weithredu pob un o'r 18 o argymhellion, ond ni chytunwyd i ymrwymo i ymchwiliad ar raddfa lawn i safonau gofal. Felly, Weinidog, os gwelwch yn dda, peidiwch â chredu mai ymuno â phawb yn y cytgan ydwyf yn hyn o beth, y cyfan rwyf yn ei wneud mewn gwirionedd yw ymateb i'r pryderon gwirioneddol a leisiwyd wrthyf fi gan bobl Gorllewin De Cymru, a'u cyflwyno i chi yn y Siambr hon. Mae angen ymchwiliad ar raddfa lawn yn awr ar draws y GIG ac ar draws Cymru. Gobeithiaf yn fawr iawn y byddwch yn achub ar y cyfle sy'n cael ei gyflwyno yn y cynnig hwn heddiw ac y byddwch yn dechrau ymchwiliad annibynnol ar raddfa lawn, fel y mae'r Gymdeithas Feddygol Brydeinig wedi galw amdano. Credaf fod pobl Cymru wir yn haeddu hyn.

15:35 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I fundamentally disagree with the Tory motion before us today and reject its wider call for a full-scale public inquiry into the NHS. However, in some ways, I still welcome this debate because, if nothing else, it once again exposes the completely false dichotomy the Tories are trying to present when it comes to health, as if anyone who does not heed their calls for a politically motivated inquiry of this kind is burying their head in the sand or somehow pretending that problems do not exist within the health service. Indeed—[Interruption.]

Rwy’n anghytuno'n sylfaenol â chynnig y Torïaid sydd ger ein bron heddiw ac yn gwrthod yr alwad ehangach am ymchwiliad cyhoeddus ar raddfa lawn i'r GIG. Fodd bynnag, mewn rhai ffyrdd, rwy’n dal i groesawu'r ddadl hon oherwydd, yn anad dim arall, unwaith eto mae’n amlygu’r ddeuoliaeth gwbl ffug a gyflwynir gan y Torïaid wrth sôn am iechyd, fel pe bai unrhyw un nad yw’n gwrando ar eu galwadau am ymchwiliad o gymhelliant gwleidyddol o'r math hwn yn claddu eu pennau yn y tywod neu rywsut yn esgus nad oes problemau yn bodoli o fewn y gwasanaeth iechyd. Yn wir— [Torri ar draws.]

15:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Can Mambers listen to what other speakers are saying please?

Trefn. A wnaiff Aelodau wrando ar yr hyn sydd gan siaradwyr eraill i’w ddweud os gwelwch yn dda?

15:35 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is transparently a line of attack that is far more abut them playing their part in David Cameron’s war on Wales than it is about improving our NHS. Having read the BMA’s report, while of course there are serious issues that need to be addressed in relation to complaints handling and whistleblowing, to me, it offers no new evidence whatsoever that a full-scale public inquiry would be either timely, helpful or necessary at this point. It is really disappointing that the BMA has allowed itself to be dragged into this Tory political game playing, particularly at a time when I am sure many of its members here in Wales will be horrified at what is happening to the NHS in England under a Conservative Government.

Mae hyn yn amlwg yn ymosodiad sy'n ymwneud llawer mwy â’u dymuniad i chwarae eu rhan yn rhyfel David Cameron ar Gymru nag yw’n ymwneud â gwella ein GIG. Ar ôl darllen adroddiad y BMA, wrth gwrs mae ynddo faterion difrifol y mae angen rhoi sylw iddynt o ran trin cwynion a chwythu'r chwiban, i mi, nid yw’n cynnig unrhyw dystiolaeth newydd o gwbl y byddai ymchwiliad cyhoeddus ar raddfa lawn naill ai yn amserol, yn ddefnyddiol neu'n angenrheidiol ar hyn o bryd. Mae'n wirioneddol siomedig bod y BMA wedi cytuno i gael ei lusgo i mewn i gêm wleidyddol y Torïaid, yn enwedig ar adeg pan rwy’n siŵr y mae llawer o'i haelodau yma yng Nghymru yn cael eu dychryn gan yr hyn sy'n digwydd i'r GIG yn Lloegr o dan Lywodraeth Geidwadol.

Of course the health service in Wales is facing massive pressures. On the one hand, we are dealing with huge challenges facing health services across the globe—seismic issues like diabetes, dementia and a rapidly ageing population, and, at the same time, we are having to cope with massive cuts to the amount of money we have to spend here in Wales. These cuts, let us not forget, are a direct result of Tory-Lib Dem imposed austerity that has seen nearly £2 billion slashed from our block grant since 2010. However, there has been no attempt by Labour to shy away from the perfect storm facing the Welsh NHS. It has been our Minister for health who has led the political charge when it has come to laying out the stark financial challenges facing the health service as we saw in his brutally honest response to the Nuffield report on the NHS funding gap in Wales. Similarly, when specific problems were exposed in relation to the inspection regime at Welsh hospitals, we have seen him prepared to tackle those problems head on.

Wrth gwrs, mae'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn wynebu pwysau enfawr. Ar y naill law, rydym yn delio â heriau enfawr sy'n wynebu gwasanaethau iechyd ar draws y byd—materion anferthol fel diabetes, dementia a phoblogaeth sy'n heneiddio’n gyflym, ac, ar yr un pryd, rydym yn gorfod ymdopi â thoriadau enfawr yn y cyllid sydd ar gael i ni ei wario yma yng Nghymru. Mae'r toriadau hyn, gadewch i ni beidio ag anghofio, yn ganlyniad uniongyrchol i’r cynni a bennwyd ar ein cyfer gan y Torïaid a’r Democratiaid Rhyddfrydol sydd wedi gweld toriad o bron i £2 biliwn yn ein grant bloc ers 2010. Fodd bynnag, ni fu unrhyw ymgais gan Lafur i guddio oddi wrth y storm berffaith sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru. Ein Gweinidog Iechyd sydd wedi ysgwyddo’r cyfrifoldeb gwleidyddol wrth osod allan yr heriau ariannol llwm sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd fel y gwelsom yn ei ymateb cwbl onest i adroddiad Nuffield ar fwlch cyllido’r GIG yng Nghymru. Yn yr un modd, pan ddatgelwyd problemau penodol o ran y drefn arolygu mewn ysbytai yng Nghymru, gwelsom iddo fynd i'r afael â'r problemau hynny’n uniongyrchol.

I was part of the health committee's inquiry that looked into the role of Health Inspectorate Wales, so I do not duck away from the seriousness of the gaps that were highlighted within our report. However, by appointing Ruth Marks to lead a comprehensive review into the role and functions of HIW, the Minister demonstrated not only that he is willing to listen, but that he is prepared to step in and take tough action when it is clear that there are specific problems that urgently need addressing. We saw that too in his response to the 'Trusted to Care' report into problems at Neath Port Talbot and the Princess of Wales hospitals. I will give way to Nick Ramsay.

Roeddwn yn rhan o ymchwiliad y pwyllgor iechyd a oedd yn archwilio rôl Arolygiaeth Iechyd Cymru, felly nid wyf yn dianc rhag difrifoldeb y bylchau a gafodd eu hamlygu yn ein hadroddiad. Fodd bynnag, drwy benodi Ruth Marks i arwain adolygiad cynhwysfawr i rôl a swyddogaethau AGIC, dangosodd y Gweinidog, nid yn unig ei fod yn barod i wrando, ond ei fod yn barod i gamu i mewn a chymryd camau llym pan mae'n amlwg bod problemau penodol y mae angen eu datrys ar frys. Gwelsom hynny hefyd yn ei ymateb i'r adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal' i'r problemau yn ysbytai Castell-nedd Port Talbot a Thywysoges Cymru. Ildiaf i Nick Ramsay.

15:38

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Lynne, for giving way. If, as you say, the Minister is willing to listen, which I am sure he is, then would it not be far better at this point for him to listen to the concerns of the BMA rather than having your side of the Chamber slinging mud at it and trying to slur what it is saying? It has very genuine concerns, so, for goodness' sake, get on with dealing with these issues and not mud-slinging.

Diolch i chi, Lynne, am ildio. Fel y dywedwch, os yw'r Gweinidog yn barod i wrando, ac rwy'n siŵr ei fod, yna oni byddai'n llawer gwell ar hyn o bryd iddo wrando ar bryderon y BMA yn hytrach na chael eich ochr chi o'r Siambr yn taflu baw ato a cheisio sarhau'r hyn mae'n ei ddweud? Mae ganddo bryderon gwirioneddol iawn, felly, er mwyn popeth, rhowch eich sylw i'r problemau a rhoi'r gorau i luchio baw.

15:38

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that you are the only ones over there who are mud-slinging—mud-slinging at our NHS and mud-slinging at the people who work in it. Let us be crystal clear: when it comes to directly addressing these calls for a full-scale public inquiry in Wales—because it was specifically the terrible events that took place at Mid Staffs hospital that led to the establishment of the Keogh inquiry in England, and although it is a matter of public record that I called for lessons to be learned here in Wales from that situation—no matter how many times the opponents of the NHS in Wales have tried to paint one situation or another as some kind of Welsh Mid Staffs, they have failed utterly to present any evidence that we have a situation in a Welsh hospital that parallels those terrible events. If the Welsh Conservatives have evidence of that, then they should produce it, but until then, let us see these calls for what they are: ideologically driven attacks from a party whose colleagues in Westminster have presided over a disastrous top-down reorganisation they promised would not happen, who have carved up huge chunks of the NHS and handed them out to profiteering private contractors, who have cut nursing numbers by 4,500, and closed hospitals and missed key cancer waiting times targets. Perhaps they should have spent more time getting their own house in order before embarking on this Tory war on Wales.

Credaf mai chi yw'r unig rai sy'n lluchio baw—lluchio baw at ein GIG a lluchio baw at weithwyr y GIG. Gadewch inni fod yn gwbl glir: pan ddaw'n fater o fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r galwadau hyn am ymchwiliad cyhoeddus ar raddfa lawn yng Nghymru—am mai'r digwyddiadau ofnadwy yn benodol a ddigwyddodd yn ysbyty Canol Swydd Stafford a arweiniodd at sefydlu ymchwiliad Keogh yn Lloegr, ac er iddo fod yn fater o gofnod cyhoeddus i mi alw am i ni yma yng Nghymru ddysgu gwersi oddi wrth y sefyllfa honno—ni waeth sawl gwaith y mae gwrthwynebwyr y GIG yng Nghymru wedi ceisio peintio un sefyllfa neu'r llall fel rhyw fath o Ganolbarth Cymru Stafford, maent wedi llwyr fethu â chyflwyno unrhyw dystiolaeth bod gennym sefyllfa mewn ysbyty yng Nghymru sy'n cyfateb i'r digwyddiadau ofnadwy hynny. Os oes gan y Ceidwadwyr Cymreig dystiolaeth o hynny, yna dylent ei ddangos, ond tan hynny, gadewch inni sylweddoli beth yw ystyr y galwadau hyn mewn gwirionedd: ymosodiadau sy'n seiliedig ar ideoleg gan blaid y mae ei chydweithwyr yn San Steffan wedi llywyddu dros ad-drefnu trychinebus o'r brig i lawr y bu iddyn nhw addo na fyddai'n digwydd, sydd wedi naddu darnau helaeth o'r GIG a'u trosglwyddo i gontractwyr preifat trachwantus, sydd wedi torri 4,500 o staff nyrsio a chau ysbytai, ac sydd wedi methu targedau amseroedd aros canser allweddol. Efallai y dylent fod wedi treulio mwy o amser yn rhoi eu tŷ eu hunain mewn trefn cyn dechrau'r rhyfel Torïaidd hwn ar Gymru.

15:40

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I remind my colleague that it was in fact the Labour Government that gave us the massive deficit facing the United Kingdom, the same deficit that your leader forgot to mention in his speech, and this is a man who wants to lead our country—I think not.

A gaf fi atgoffa fy nghyd-Aelod mai'r Llywodraeth Lafur mewn gwirionedd a roddodd i ni'r diffyg enfawr sy'n wynebu'r Deyrnas Unedig, yr un diffyg y bu i'ch arweinydd anghofio sôn amdano yn ei araith, a dyma'r gŵr sydd am arwain ein gwlad—go brin.

In putting together my contribution today, even I was shocked just how easy it is to find reference to the problems facing our health service here in Wales. Type 'health service in Wales' into Google and the third entry reads,

Wrth lunio fy nghyfraniad heddiw, roedd yn syndod hyd yn oed i mi pa mor hawdd yw hi i ddod o hyd i gyfeiriadau at y problemau sy'n wynebu ein gwasanaeth iechyd yma yng Nghymru. Teipiwch 'gwasanaeth iechyd yng Nghymru' i mewn i Google ac yn y trydydd cofnod fe welwch,

'Doctors warn: Welsh NHS faces "imminent meltdown" amid call for inquiry into nation's health service'.

'Mae meddygon yn rhybuddio: mae GIG Cymru ar ymyl y dibyn ac mae galwad am ymchwiliad i wasanaeth iechyd y genedl'.

Yes, that is from the British Medical Council. Another entry, dated only last December reads,

Ie, cofnod gan Gyngor Meddygol Prydain. Mae cofnod arall a ymddangosodd fis Rhagfyr diwethaf yn dweud,

'Wales health: Challenging year for the NHS',

'Iechyd Cymru: Blwyddyn heriol ar gyfer y GIG',

stating that,

yn dweud bod y gwasanaeth,

'It is under intense pressure, with services being reorganised, financial constraints acute and many targets being missed throughout the year.'

'Dan bwysau mawr, gyda gwasanaethau yn cael eu had-drefnu, cyfyngiadau ariannol llym ac mae llawer o dargedau yn cael eu methu trwy gydol y flwyddyn.'

It goes on to describe the demand, stating that this year the Welsh NHS has 'struggled to cope' with 'hospitals overwhelmed', ambulances queued up and 'hundreds of planned operations' cancelled. It states that the Minister at that time took over a service 'lurching from crisis to crisis'.

Mae'n mynd ymlaen i ddisgrifio'r galw, gan nodi bod y GIG yng Nghymru wedi 'cael trafferth ymdopi' y flwyddyn hon ac 'ysbytai wedi'u llethu' gan giwiau hir o ambiwlansys a 'channoedd o lawdriniaethau a gynlluniwyd' wedi'u canslo. Mae'n dweud y bu i'r Gweinidog ar y pryd gamu i'r adwy wrth i'r gwasanaeth 'wegian o'r naill argyfwng i'r llall'.

15:41 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for taking the intervention. So, when, a couple of months ago, you made the same allegations and the BMA described them as a 'wicked slander', do you agree with that?

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Felly, ychydig o fisoedd yn ôl, pan fu i chi wneud yr un honiadau a bu i'r BMA eu disgrifio nhw fel 'athrod drwg', a ydych yn cytuno â hynny?

15:41 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

With respect to my colleague, the BMA said

Gyda pharch i'm cyd-Aelod, dywedodd y BMA

'The Welsh Assembly Government shows that they have got no respect for clinicians working in sub-standard conditions and managing avalanching workloads'.

'Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dangos nad oes ganddyn nhw'r un parch at glinigwyr sy'n gweithio dan amodau is na'r safon ac sy'n rheoli llwythi gwaith toreithiog'.

Another quote is:

Dyfyniad arall yw:

'I feel very saddened and deeply frustrated by the current quality or lack of healthcare services in Wales and lack of recognition by the Welsh Government of any of the issues.'

'Rwy'n teimlo'n drist iawn ac yn hynod rwystredig gan ansawdd presennol neu ddiffyg gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru amharodrwydd Llywodraeth Cymru i gydnabod unrhyw un o'r materion.'

That is directly from the coalface.

Daeth hyn yn uniongyrchol o'r rheng flaen.

Type in 'health service inquiry Wales' or even 'health service scandal Wales' and, as my colleague Byron Davies has said, you will find the name, Lilian Williams, bless her, who was 82 years old and died at the Princess of Wales Hospital in Bridgend. In May 2014, there were high mortality rates at six sites and an e-mail written by Bruce Keogh and concerns about officials and their attempts to suppress that e-mail.

Teipiwch 'ymchwiliad gwasanaeth iechyd Cymru' neu hyd yn oed 'sgandal gwasanaeth iechyd Cymru' ac, fel y dywed fy nghyd-aelod Byron Davies, fe welwch yr enw, Lilian Williams, bendith arni, a oedd yn 82 mlwydd oed a bu farw yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ym mis Mai 2014, roedd cyfraddau marwolaeth uchel mewn chwe safle ac e-bost a ysgrifennwyd gan Bruce Keogh a phryderon am swyddogion a'u hymdrechion i atal yr e-bost.

Eric Ward, described by his wife as being offered only half the food that he needed. She had to release a photo of his skeletal frame after he sadly passed away. Labour MP, Ann Clwyd, had to complain after her husband died 'like a battery hen' at the University of Wales Hospital in Cardiff. Furthermore, the Assembly Member for Aberconwy felt very desperate during a recent bank holiday, desperately seeking help from you, Minister, because a very sick constituent of mine was desperate for a bladder cancer removal. Facing delay after delay, promise after promise and let-down after let-down, that constituent gradually became so weak that by the time that the operation took place, he was further diagnosed with secondary tumours and, a matter of weeks later, he died. As his family said, 'He had simply had enough'.

Yn ôl disgrifiad ei wraig, dim ond hanner y bwyd yr oedd ei angen arno a gynigwyd i Eric Ward. Bu'n rhaid iddi ryddhau llun ohono a oedd fel ysgerbwd ar ôl iddo farw. Bu'n rhaid i'r AS Llafur, Ann Clwyd, gwyno ar ôl i'w gŵr farw 'fel iâr batri' yn Ysbyty Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd. Ar ben hynny, teimlai'r Aelod Cynulliad dros Aberconwy yn anobeithiol iawn yn ystod gwyliau banc diweddar, wrth daer chwilio am gymorth gennych, Weinidog, am fod un o'm hetholwyr yn sâl iawn ac yn daer am gael triniaeth i gael gwared canser y bledren. Yn sgil oedi ac oedi, addewid ar ôl addewid a siom ar ôl siom, bu i'r etholwr raddol wanhau ac erbyn adeg y llawdriniaeth, cafodd ddiagnosis o diwmorau eilaidd a bu farw ymhen ychydig wythnosau. Fel y dywedodd ei deulu, 'Roedd wedi cael mwy na digon'.

Another gentleman wrote to me, describing how the love of his life, his dear wife, who, although allergic to Penicillin and having mentioned this on five separate occasions to nursing staff, was administered this drug and sadly experienced severe organ failure. Not only had he to cope with the grief and the loss, but, as the coroner became involved, it was a matter of many weeks before he could even arrange for her funeral. These cases are terribly tragic, but they are real-life circumstances. This is not scaremongering.

Ysgrifennodd gŵr arall ataf, gan ddisgrifio sut y rhoddwyd Penisilin i'w wraig annwyl, cannwyll ei lygad, er bod ganddi alergedd i'r cyffur ac er iddi ddweud hyn ar bum achlysur gwahanol wrth y staff nyrsio. Yn anffodus yn sgil hynny, dioddefodd fethiant difrifol o'i horganau. Nid yn unig roedd yn gorfod ymdopi â galar y golled, ond, gan i'r mater ddod i sylw'r crwner, aeth wythnosau lawer heibio cyn iddo hyd yn oed drefnu ar gyfer ei hangladd. Mae'r achosion hyn yn ofnadwy o drist, ond maent yn amgylchiadau bywyd go iawn. Nid hel bwganod yw hyn.

We have had mortality data, horrific evidence, protests and Labour Government apologies. The BMA cannot be wrong; Ann Clwyd cannot be wrong; the north Wales patient watchdog and Professor Keogh himself, and the Royal College of Surgeons and the College of Emergency Medicine cannot all be wrong. Certainly the BMA cannot be wrong.

Rydym wedi cael data marwolaethau, tystiolaeth erchyll, protestiadau ac ymddiheuriadau'r Llywodraeth Lafur. Ni all y BMA fod yn anghywir; ni all Ann Clwyd fod yn anghywir; ni all corff gwarchod cleifion y gogledd a'r Athro Keogh ei hun, a Choleg Brenhinol y Llawfeddygon a'r Coleg Meddygaeth Frys i gyd fod yn anghywir. Yn sicr ni all y BMA fod yn anghywir.

Your monthly cancer waiting-time target has not been met in any single month for over 70 months, and there is no prospect that you are actually doing anything to succeed in reducing these targets. In our recent patient round-table discussion with cancer patients, it became clear that they had gone to doctors and GPs numerous times before they were sent for diagnosis. Our A&E departments are stretched beyond belief. No patient should be forced to wait for more than four or 12 hours to be treated in an emergency department, but that is the reality for many vulnerable people. It should be a matter of shame for Carwyn Jones and your Government that these targets have not been met once during the last five years. Your Welsh Labour Government simply must get to grips with the crisis in Welsh emergency care and throughout our health service. You must reverse the record-breaking NHS budget cuts. You must halt the current dangerous hospital closure and centralisation programme, and you should take the honourable step of admitting defeat and allow an inquiry to take place.

Nid yw eich targed amseroedd aros misol ar gyfer canser wedi cael ei gyrraedd mewn unrhyw fis unigol am dros 70 mis, ac nid oes unrhyw bosibilrwydd eich bod mewn gwirionedd yn gwneud unrhyw beth i lwyddo o ran gostwng y targedau hyn. Yn ein trafodaeth bord gron ddiweddar â chleifion canser, daeth yn amlwg eu bod wedi mynd at feddygon a meddygon teulu nifer o weithiau cyn iddynt gael eu hanfon am ddiagnosis. Mae straen anhygoel ar ein hadrannau damweiniau ac achosion brys. Ni ddylai unrhyw glaf orfod aros mwy na phedair na 12 awr i gael ei drin mewn adran achosion brys, ond dyna'r realiti i lawer o bobl fregus. Dylai'r ffaith na chafodd y targedau hyn eu cyrraedd o gwbl yn ystod y pum mlynedd diwethaf fod yn fater o gywilydd i Carwyn Jones a'ch Llywodraeth. Rhaid i Lywodraeth Lafur Cymru fynd i'r afael â'r argyfwng mewn gofal brys yng Nghymru a phob rhan o'n gwasanaeth iechyd. Mae'n rhaid i'r toriadau mwyaf erioed yng nghyllideb y GIG gael eu hunioni. Mae'n rhaid i chi atal y rhaglen beryglus bresennol o gau ysbytai a chanoli gwasanaethau, a dylech gymryd y cam anrhydeddus o gyfaddef eich trechu a chaniatáu i ymchwiliad gael ei gynnal.

15:45 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is a very disappointing debate based on a very weak report. I have read this BMA report, and there is very little in it. We all agree that we need an NHS in Wales that is open and transparent about patient safety, which enjoys a culture of professional and patient engagement and empowers all staff to raise concerns without fear of reprisal. Those words I obviously agree with. What I do not agree with is that we do not have that here.

Mae hon yn ddadl siomedig iawn ac mae'n seiliedig ar adroddiad gwan iawn. Yr wyf wedi darllen y cyfryw adroddiad gan Gymdeithas Feddygol Prydain, ac nid oes llawer iawn ynddo. Rydym i gyd yn cytuno bod angen inni gael GIG yng Nghymru sy'n agored ac yn dryloyw ynghylch diogelwch cleifion, sy'n mwynhau diwylliant o ymgysylltiad proffesiynol â chleifion ac sy'n grymuso'r holl staff i fynegi pryderon heb ofni dial. Mae'n amlwg fy mod yn cytuno â'r geiriau hyn. Ond ni allaf gytuno nad yw hynny gennym eisoes.

The picture that the pamphlet paints simply does not fit with my experience of talking to patients and professionals in my constituency, and during my visits to doctors' surgeries and hospital wards. Do I ever raise concerns on behalf of constituents? Yes, of course I do, but I almost always get coherent answers to the concerns about what might have gone wrong. Even when the answer does not satisfy the constituent's concerns, the dialogue remains open and ongoing. This is a health board that is open to constant improvement and acknowledging where things have not gone right.

Nid yw'r darlun y mae'r daflen yn ei bortreadu yn cyd-fynd â'm profiad o siarad â chleifion a gweithwyr proffesiynol yn fy etholaeth, ac yn ystod fy ymweliadau â meddygfeydd a wardiau ysbytai. A ydw i'n codi pryderon ar ran etholwyr o gwbl? Ydw, wrth gwrs fy mod i, ond rwyf bron bob amser yn cael atebion deallus i'r pryderon am yr hyn a allai fod wedi mynd o'i le. Hyd yn oed pan nad yw'r ateb yn bodloni pryderon yr etholwr, mae'r ddeialog yn parhau i fod yn agored a pharhaus. Dyma fwrdd iechyd sy'n agored i welliant cyson ac sy'n cydnabod pan fo pethau wedi mynd o le.

Later on today, I will be attending the annual general meeting of the Cardiff and Vale University Local Health Board, where I am confident that I will hear yet again of examples of improving practice from front-line practitioners. That is the same health board that has produced a credible three-year financial plan by investing to save and getting the best out of our NHS resources.

Yn ddiweddarach heddiw, byddaf yn bresennol yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, lle rwy'n hyderus y byddaf yn clywed unwaith eto am enghreifftiau o ymarfer yn gwella gan ymarferwyr rheng flaen. Dyna'r un bwrdd iechyd sydd wedi llunio cynllun ariannol tair blynedd credadwy drwy fuddsoddi i arbed a chael y gorau allan o adnoddau'r GIG.

So, I find that the comments from the opposition, particularly from Darren Millar, do not tally with the facts.

Felly, rwy'n gweld nad oedd y sylwadau gan yr wrthblaid, yn enwedig gan Darren Millar, yn cyfateb i'r ffeithiau.

15:47 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:47 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Not at the moment; I might do later.

Nid ar hyn o bryd; efallai y gwnaf yn nes ymlaen.

Let us have a look at the Keogh list. No. 1 on Keogh's list is reducing avoidable deaths. Only last week, we had Mark Drakeford telling us that the evidence from mortality case reviews clearly demonstrates that deaths in Welsh hospitals are in very large measure expected and unavoidable. In almost every case, those deaths are not attributable to the quality of care received, yet the Tories continue to bang on the drum—

Gadewch inni gael golwg ar restr Keogh. Rhif 1 ar restr Keogh yw lleihau marwolaethau y gellir eu hosgoi. Dim ond yr wythnos diwethaf, cawsom Mark Drakeford yn dweud wrthym fod y dystiolaeth o adolygiadau achos marwolaethau yn glir yn dangos bod marwolaethau mewn ysbytai yng Nghymru i raddau helaeth iawn yn ddisgwyliedig ac yn anochel. Bron ym mhob achos, nid yw'r marwolaethau hynny i'w priodoli i ansawdd y gofal a dderbyniwyd, ac eto mae'r Torïaid yn dal i rygnu ymlaen—

15:47 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:47 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Not at the moment, no. You can talk about your constituency; I will talk about mine and the experience of my patients.

Nid ar hyn o bryd, na wnaf. Gallwch chi siarad am eich etholaeth; fe siaradaf i am fy un i a phrofiad fy nghleifion.

Looking further down the Keogh list, it says that patients, carers and the public should be more involved and should be able to get real time feedback. Absolutely. Some 90% of patients complete the '2 minutes of your time' survey to give feedback to the health board. Most informal concerns are resolved within two days. I find that this is a health board that is listening and learning from issues that do not go as well as they should. How do we work with hospitals in remote areas so that they are not left isolated, and so that staff in better-performing hospitals or specialties are used to train and inspect others? Absolutely; that is one of the fundamentals of the south Wales programme—that we share good practice and rotate the expertise around south Wales. I absolutely agree with that.

Wrth edrych ymhellach i lawr rhestr Keogh, mae'n dweud y dylai cleifion, gofalwyr a'r cyhoedd gymryd mwy o ran a dylent allu cael adborth amser real. Yn hollol. Mae tua 90% o gleifion yn cwblhau'r arolwg '2 munud o'ch amser' i roi adborth i'r bwrdd iechyd. Caiff y pryderon mwyaf anffurfiol eu datrys o fewn dau ddiwrnod. Teimlaf fod y bwrdd iechyd hwn yn gwrando ac yn dysgu oddi wrth faterion nad ydynt yn mynd cystal ag y dylent. Sut rydym yn gweithio gydag ysbytai mewn ardaloedd anghysbell fel nad ydynt yn cael eu gadael yn ynysig, ac fel bod staff mewn ysbytai neu arbenigeddau sy'n perfformio'n well yn cael eu defnyddio i hyfforddi ac arolygu eraill? Yn hollol; dyna un o hanfodion y rhaglen—rydym yn rhannu arfer da yn ne Cymru ac yn cylchdroi arbenigeddau o amgylch de Cymru. Cytunaf yn llwyr â hynny.

I will go back to the figures around what Cardiff and Vale health board is doing. It has the lowest emergency hospitalisation rates in Wales, despite having the fastest-growing population. It has the biggest improvement in medical in-patient performance, moving from the lower quartile UK benchmark to the upper quartile for length of stay in less than 12 months; that is across the UK. Some 95% of patients say that they are happy with their GP. Cancelled admissions due to unavailability of ward beds are down from 258 in July 2012 to 53 in July this year, which is an 80% improvement. Cardiac surgery weekend operating started in February this year and is ongoing, in order to reduce waiting lists. On e-discharge, primary care community directors, who are lead GPs, conduct pathway reviews of common medical conditions, and it shows that there has been an increase in the discharge and a decrease in the length of stay.

Af yn ôl at y ffigurau ynghylch yr hyn y mae bwrdd iechyd Caerdydd a'r Fro yn ei wneud. Mae ganddo'r cyfraddau ysbyty brys isaf yng Nghymru, er mai dyma'r boblogaeth sy'n tyfu gyflymaf. Mae'r gwelliant mwyaf mewn perfformiad meddygol ar gyfer cleifion mewnol, gan symud oddi wrth meincnod chwartel isaf y DU i chwartel uchaf ar gyfer hyd yr arhosiad mewn llai na 12 mis; hynny yw ar draws y DU. Mae tua 95% o gleifion yn dweud eu bod yn hapus gyda'u meddyg teulu. Mae canslo derbyniadau am nad oedd gwely ar ward wedi gostwng o 258 ym mis Gorffennaf 2012 i 53 ym mis Gorffennaf eleni, sy'n welliant o 80%. Dechreuwyd cynnal llawdriniaeth ar y galon ar benwythnosau ym mis Chwefror eleni ac mae'n dal ar y gweill er mwyn lleihau rhestrau aros. O ran e-ryddhau, mae cyfarwyddwyr cymunedol gofal sylfaenol, sy'n feddygon teulu arweiniol yn cynnal adolygiadau llwybr o gyflyrau meddygol cyffredin, a gwelwyd y bu cynnydd wrth ryddhau a gostyngiad yn hyd yr arhosiad.

So, I would expect the opposition to have a slightly more measured approach to the improvements that we are making in the NHS in Wales. Yes, things occasionally go wrong, but really, Darren, you ought to be paying more attention to what is going on in your constituency. If you can beat what Cardiff and the Vale is doing, I want to hear about it.

Felly, byddwn yn disgwyl i'r gwrthbleidiau gael agwedd ychydig yn fwy pwyllog at y gwelliannau rydym yn eu gwneud yn y GIG yng Nghymru. Oes, mae pethau'n mynd o chwith o bryd i'w gilydd, ond mewn gwirionedd, Darren, dylech roi mwy o sylw i'r hyn sy'n digwydd yn eich etholaeth. Os gallwch chi guro beth mae Caerdydd a'r Fro yn ei wneud, rwy'n awyddus i glywed am y peth.

15:50

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n falch o gael y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon y prynhawn yma ac i dynnu sylw at rai o'r materion sy'n wynebu cleifion yn y gorllewin. Ar y cyfan, mae cleifion yn derbyn gofal eithriadol o dda gan staff gweithgar, proffesiynol ac ymroddedig sy'n gwneud gwaith ardderchog weithiau mewn amgylchiadau anodd iawn. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod rhai pryderon enfawr yn cael eu mynegi gan staff meddygol a chan etholwyr ynghylch rhywfaint o'r gofal sy'n cael ei dderbyn gan gleifion. Yn ddiweddar, derbyniais lythyr gan etholwr a oedd wedi derbyn ymgynghoriad gan ddoctor; nid oedd y doctor yn gwybod pwy oedd y claf na pham ei fod yno. Yn ogystal, dywedodd y doctor wrth yr etholwr nad oedd y sgan yn dangos unrhyw broblemau. Nid oedd hyn yn syndod gan nad oedd wedi derbyn sgan yn y lle cyntaf. Hefyd, i ychwanegu at y bennod bryderus hon, roedd angen endosgopi ar fy etholwr, ond roedd y doctor a roddodd driniaeth iddo yn meddwl ei fod yn cael colonosgopi. Felly, gyda chefndir o faterion fel hyn, fel llawer o Aelodau eraill, rwy'n croesawu'n llwyr alwadau'r BMA am ymchwiliad annibynnol llawn i wasanaethau iechyd yng Nghymru.

I am pleased to contribute to this debate and to highlight some of the issues facing patients in west Wales. Now, of course, generally speaking, patients do receive excellent care from professional and committed staff who do excellent work often in very difficult circumstances. However, it is clear that there are some major concerns expressed by medical staff and constituents about some of the care provided to patients. Only recently, I received a letter from a constituent who had received a consultation from a doctor and the doctor did not know who that individual was or why he was there. In addition to that, the doctor told my constituent that the scan did not highlight any problems, but this is no surprise as he had not received a scan in the first place. To add to this worrying list of difficulties, my constituent needed an endoscopy but the doctor providing the treatment thought that he was having a colonoscopy. Given these problems, I, along with many other Members, warmly welcome the BMA's calls for an independent inquiry into healthcare in Wales.

Mae safonau gofal o fewn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru wedi bod yn destun gofid a phryder i gleifion ar draws Cymru sydd wedi dioddef amserodd ymateb gwael gan ambiwlansys, llawdriniaethau sydd wedi'u canslo neu'u gohirio, a chyflogi dulliau anghynaliadwy i gyflawni targedau arbedion ariannol—pob un wedi peryglu gofal cleifion. Mae'r Aelod dros Ganol Caerdydd yn sôn am ffigurau. Yn fy etholaeth i, yn anffodus, mae ystadegau amseroedd ymateb ambiwlansys heddiw ar gyfer galwadau categori A yn dal i osod sir Benfro yn is na tharged Cymru o 65%. Yn wir, mae'r ffigurau yn dangos 272 o bobl yn aros mwy nag wyth munud am ambiwlans mewn amgylchiadau a allai fygwth bywyd. Hyd yn oed yn waeth na hynny, mae'r ffigurau'n dangos 107 o bobl yn aros dros 15 munud am ambiwlans mewn argyfwng categori A. Mae'n hanfodol bod gan gleifion a'u teuluoedd hyder y gallant, mewn argyfwng, ffonio 999 a chael ymateb cyflym iawn. Ond, yn anffodus, fel y clywn dro ar ôl tro, nid yw hynny'n wir.

Care standards in Wales have been the cause of concern to patients the length and breadth of Wales who have suffered poor response times from ambulances, cancelled or deferred operations, and unsustainable methods of attaining financial targets—each and every one of which have put patient care at risk. The Member for Cardiff Central mentions figures. In my constituency, unfortunately, statistics for ambulance response times for category A calls still demonstrate Pembrokeshire being below the Wales target of 65%. Indeed, the figures show 272 people waiting longer than eight minutes for an ambulance in circumstances that could be life-threatening. Even worse is the fact that 107 people waited longer than 15 minutes in a category A emergency. It is crucial that patients and their families can have confidence in a crisis that they can ring 999 and get a swift response. However, unfortunately, as we hear time and again, that is not the case.

Mae pryder go iawn yn sir Benfro bod ad-drefnu gwasanaethau erbyn hyn yn cael ei gynnal cyn bod gwelliant mewn gofal brys. Yn wir, mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn nodi yn ei ddogfen 'Eich Iechyd, Eich Dyfodol' y bydd ad-drefnu ei wasanaethau yn golygu 20% o ostyngiad mewn gwelyau ysbyty acíwt. Yn anffodus, mae gan gynlluniau ad-drefnu'r Llywodraeth y potensial i gymhlethu'r sefyllfa ymhellach o ran gofal brys. Fel mae Aelodau wedi nodi eisoes, mae angen enfawr i recriwtio a chadw staff o fewn y gwasanaeth iechyd—ac mae hyn hyd yn oed yn fwy mewn ardaloedd gwledig fel sir Benfro. Mae recriwtio staff yn broblem arbennig ac nid yw'n syndod nad yw pobl yn barod i wneud cais am swyddi mewn gwasanaeth iechyd sy'n wynebu heriau enfawr a lle ceir ansicrwydd a fydd y swyddi'n bodoli yn y dyfodol. Mae ffigurau 2012 gan Ddeoniaeth Cymru yn dweud wrthym, o ran recriwtio hyfforddiant meddygon pediatrig, er enghraifft, bod 99% o swyddi wedi'u llenwi yn Lloegr o gymharu â dim on 87% yng Nghymru. Mewn hyfforddiant meddygol craidd, mae'r gyfradd llenwi swyddi yn Lloegr yn 99%, ond yn ddim ond 72% yma yng Nghymru.

There is serious concern in Pembrokeshire that the reconfiguration of services is being done before there are improvements in emergency care. Hywel Dda Local Health Board notes in its document, 'Your Health, Your Future', that reconfiguration of services will result in a 20% reduction in acute bed numbers. Unfortunately, the Government's reconfiguration schemes have the potential to make the situation even more complex in terms of emergency care. As Members have already noted, there is a huge need to recruit and retain staff within the health service—this is an even greater concern in rural areas such as Pembrokeshire. The recruitment of staff is a particular problem and it is no surprise that people are not willing to apply for posts in a health service that is facing huge challenges and where there is uncertainty as to whether those jobs will still exist in future. The figures for 2012 from the Wales Deanery demonstrate that, in terms of medical recruitment training in paediatrics, 99% of jobs were filled in England as compared to only 87% in Wales. In terms of core medical training, the rate in England is 99% and only 72% in Wales.

Yn sir Benfro y mis nesaf byddwn yn gweld gwasanaethau pediatrig dros nos yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg yn diflannu. Mae'n debyg bod hyn mewn ymateb i heriau recriwtio, cynnal a chadw rotas meddygol a gofynion hyfforddiant clinigol. Yn dilyn blynyddoedd o ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, nid oes ryfedd nad yw sir Benfro yn cael ei weld yn lle deniadol i weithio ynddo. Dan amgylchiadau fel hyn, mae gwasanaethau yn dod yn anghynaliadwy, gan orfodi cleifion i deithio ymhellach ar gyfer gwasanaethau meddygol hanfodol. Yn ogystal, mae colli gwasanaethau fel hyn yn creu ofnau ymhlith y staff a'r gymuned leol ac yn creu llawer o ansicrwydd ynghylch dyfodol ysbytai. Mae ansicrwydd fel hyn yn rhoi pwysau enfawr ar staff, sy'n gallu arwain at bwysau aruthrol ar wasanaethau sy'n gallu arwain at effaith negyddol ar ofal cleifion. Felly, o gofio bod nifer o bobl a sefydliadau uchel eu parch, fel y BMA, yn awr yn galw am ymchwiliad annibynnol i'r gwasanaeth iechyd, yn sicr mae angen i'r Gweinidog ystyried o ddifrif yr angen am ymchwiliad i Gymru gyfan. Nid wyf yn deall pam fod y Llywodraeth yn gwrthsefyll ymchwiliad o'r fath; siawns y byddai ymchwiliad o'r fath yn gwneud yr hyn rydym i gyd am ei weld, sef sicrhau bod cleifion ledled Cymru yn derbyn y gofal o safon uchel y maent yn ei haeddu.

In Pembrokeshire next month, we will see the paediatric services that are available overnight in Withybush General Hospital disappearing. This seems to be a response to recruitment problems, problems with rotas and clinical training problems. Following years of uncertainty on the future of services in Withybush General Hospital, it is no surprise that Pembrokeshire is not seen as an attractive place to work. Under these circumstances, services become unsustainable, forcing patients to travel further for their crucial medical services. Also, losing such services creates fears among the staff and local communities and generates a great deal of uncertainty about the future of our hospitals. This uncertainty places huge pressure, which can lead to huge pressures on services, which can then lead to negative effects on services. Therefore, bearing in mind that many people and highly respected organisations such as the BMA are now calling for an independent investigation into the Welsh NHS, the Minister certainly needs to seriously consider the need for such an investigation for the whole of Wales. I do not understand why the Government would oppose such an investigation; surely, it would do what we all want to see, which is to ensure that patients across Wales get the high-quality care that they deserve.

15:55 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer, for calling me in this debate. I am very surprised that the opposition is asking for a full-scale independent review of services in response to the BMA report, which also asks for the reform of Healthcare Inspectorate Wales. It seems to me that to have this full-scale, vague inquiry that it is talking about is the last thing that we need, particularly in view of the fact that the Minister for Health and Social Services has already set up an independent review of Healthcare Inspectorate Wales under Ruth Marks, which Lynne Neagle mentioned earlier. As Elin Jones said—

Diolch yn fawr iawn, Lywydd, am alw arnaf yn y ddadl hon. Rwy'n synnu'n fawr fod yr wrthblaid yn gofyn am adolygiad annibynnol ar raddfa lawn o wasanaethau mewn ymateb i adroddiad Cymdeithas Feddygol Prydain, sydd hefyd yn gofyn am ddiwygio Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'n ymddangos i mi mai ymchwiliad amwys ar raddfa lawn o'r fath hwnnw yw'r peth olaf y mae angen inni ei gael, yn enwedig o ystyried y ffaith bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes wedi sefydlu adolygiad annibynnol o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o dan Ruth Marks, y soniodd Lynne Neagle yn gynharach amdano. Fel y dywedodd Elin Jones-

15:56 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:56 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

In a minute. It is entirely unclear what this independent investigation means. We have no idea how much it costs or what it would actually look at. I just think that this is a very political response and a very irresponsible response.

Mewn munud. Nid yw'n glir o gwbl beth y mae ymchwiliad annibynnol yn ei olygu. Nid oes gennym unrhyw syniad faint mae'n ei gostio neu beth fyddai mewn gwirionedd yn ei archwilio. Credaf mai ymateb gwleidyddol iawn yw hyn ac ymateb anghyfrifol iawn hefyd.

Darren Millar highlighted what the First Minister said about the BMA yesterday and I think that it is worthwhile saying that it did say, 'Don't bring in a Keogh style inquiry'. I think that the words that the BMA used were very irresponsible when it used the word, 'meltdown'. What is that supposed to mean?

Pwysleisiodd Darren Millar yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog am y BMA ddoe a chredaf ei bod yn werth chweil dweud iddo ddweud, 'Peidiwch â dod ag ymchwiliad yn null Keogh'. Credaf i'r geiriau a ddefnyddia'r BMA fod yn anghyfrifol iawn wrth ddefnyddio'r gair, 'meltdown'. Beth y mae hyn i fod i olygu?

*Darren Millar a gododd—*

*Darren Millar a gododd—*

**Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

What does the BMA and the opposition party think about patients who are waiting to go into hospital and about the confidence of nurses, doctors and healthcare workers when they read words such as 'meltdown'? I will take the intervention.

Beth mae'r BMA a'r wrthblaid yn ei feddwl am gleifion sy'n aros i fynd i'r ysbyty ac am hyder nyrsys, meddygon a gweithwyr gofal iechyd pan fyddant yn darllen geiriau fel 'meltdown'? Cymeraf yr ymyriad.

15:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Are you taking an intervention from Darren Millar or from the leader of the opposition?

A ydych yn derbyn ymyriad gan Darren Millar neu gan arweinydd yr wrthblaid?

15:57 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I am sorry. Andrew R.T. Davies was first.

Mae'n ddrwg gennyf. Andrew RT Davies oedd gyntaf.

15:57 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Member for Cardiff North for taking an intervention. I am surprised that she says that she is surprised at the opposition's calls. This has been an 18-month long call from these benches. It was in July 2013 that we put our first call in and, as the Member for Aberconwy listed, there is a whole pile of professional organisations that now support that call. Therefore, to say that it is opportunist, I think is being somewhat disingenuous.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd am dderbyn ymyriad. Rwy'n synnu ei bod yn dweud ei bod yn synnu at alwadau'r gwrthwynebwyr. Mae'r alwad hon wedi para 18 mis o'r meinciau hyn. Rhoesom ein galwad gyntaf ym mis Gorffennaf 2013 ac, fel y nododd yr Aelod dros Aberconwy, mae tomen gyfan o sefydliadau proffesiynol sydd bellach yn cefnogi'r alwad honno. Felly, mae dweud bod hyn yn fanteisgar, mi gredaf, braidd yn annidwyll.

15:57 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Well, I certainly feel that it is opportunist. It is also important to remember some of the climate in which this is done. To refer again to the national survey of Wales 2013-14, to which I know we have referred before in this Chamber, 92% of people said that they were happy with their care in the NHS and 95% of hospital patients said that they were treated with dignity and respect. You cannot get away from those figures. To be asking for an independent inquiry in that situation, I think, is totally irresponsible.

Wel, rwy'n sicr yn teimlo bod hyn yn fanteisgar. Mae hefyd yn bwysig cofio'r hinsawdd pan gafodd hyn ei wneud. I gyfeirio unwaith eto at arolwg cenedlaethol Cymru 2013-14, er y gwn i ni gyfeirio ato o'r blaen yn y Siambr hon, dywedodd 92% o bobl eu bod yn fodlon ar eu gofal yn y GIG a dywedodd 95% o gleifion mewn ysbytai eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Ni allwch anwybyddu'r ffigurau hynny. Mae gofyn am ymchwiliad annibynnol yn y sefyllfa honno, mi gredaf, yn gwbl anghyfrifol.

I think that the BMA does a good job in many respects and I know that the Minister for health will read the report very seriously, but I do think that the opposition is being entirely opportunist. I think that it is causing a great deal of anxiety with these calls and I think that it should rethink it.

Credaf fod y BMA yn gwneud gwaith da ar lawer cyfrif a gwn y bydd y Gweinidog iechyd yn darllen yr adroddiad yn ddifrifol iawn, ond rwy'n credu bod yr wrthblaid yn bod yn gwbl fanteisgar. Credaf eu bod yn achosi llawer iawn o bryder wrth wneud y galwadau hyn a chredaf y dylent ailystyried ei.

Senedd.tv
Fideo Video

15:58 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

I am not surprised that this motion has been brought before us, because it has been a consistent part of the Tory agenda to effectively act as political mercenaries for David Cameron in Westminster. You see the consistent political ideology. There is not an interest in the NHS in Wales; there is not an interest in health. This is so that you can go back to Westminster, David Cameron can stand up there and you can play your political games. Let us be honest about it. Half of the Tories here do not actually want to be in the Assembly; they want to be in Westminster so that they can be down there privatising and selling off the NHS. [Interruption.]

Nid wyf yn synnu bod y cynnig hwn wedi ei ddwyn ger ein bron, oherwydd mae wedi bod yn rhan gyson o agenda'r Torïaid i weithredu'n effeithiol fel milwyr cyflog gwleidyddol i David Cameron yn San Steffan. Byddwch yn gweld yr ideoleg wleidyddol gyson. Nid oes diddordeb yn y GIG yng Nghymru; nid oes diddordeb mewn iechyd. Y cyfan yw hyn yw y gallwch fynd yn ôl i San Steffan, gall David Cameron sefyll i fyny yno a gallwch chi chwarae eich gemau gwleidyddol. Gadewch inni fod yn onest am y peth. Byddai'n llawer gwell gan hanner y Torïaid sydd yn bresennol yma fod yn San Steffan, nid yn y Cynulliad er mwyn gallu bod yno'n preifateiddio'r GIG a'i werthu i fusnesau preifat. [Torri ar draws.]

Senedd.tv
Fideo Video

15:59 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order, order. Can you stick to the point and move on without referring to where people wish to be?

Trefn, trefn. Allwch chi gadw at y pwynt a symud ymlaen heb gyfeirio at ble mae pobl yn dymuno bod?

*Antoinette Sandbach a gododd—*

*Antoinette Sandbach rose—*

Senedd.tv
Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I do not think that he is taking an intervention, Antoinette Sandbach.

Nid wyf yn credu ei fod yn cymryd ymyriad, Antoinette Sandbach.

15:59 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

That calmed me down a little bit. [Laughter.]

Mae hynny wedi fy nhawelu rhyw ychydig. [Chwerthin.]

Senedd.tv
Fideo Video

15:59 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Antoinette Sandbach, will you sit down?

Antoinette Sandbach, a wnewch chi eistedd?

Senedd.tv
Fideo Video

15:59 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I read the two sides of A4 that talk about a whole series of things and very little of it actually justifies any form of inquiry. I have to say that when you go back to the BMA's original positions, and you look at where it talked about a 'wicked slander' and 'a Keogh inquiry', you do wonder why there has suddenly come from the council a change in position. You wonder whose influence or sticky fingers have been working their way around at this particular moment to bring this forward. I have to say this: the Tories can have no credibility whatsoever on the health service, and I think that there are very serious concerns about the terminology, the timing and the way in which the BMA council has brought this forward to get involved in what has been, basically, not only an attempted call for an inquiry from the Tories, but, quite frankly, it could be for an inquiry on just about anything, because once this is out of the way, there will be a call for another inquiry, because, at the end of the day, all you are doing is, on behalf of David Cameron, playing politics with the Welsh NHS, and we are concerned about the actual progress and improvement of the NHS.

Darllenais y ddwy ochr A4 sy'n sôn am lawer iawn o bethau ond prin fod unrhyw beth mewn gwirionedd yn cyfiawnhau ymholiad. Mae'n rhaid i mi ddweud pan fyddwch yn mynd yn ôl i safleoedd gwreiddiol y BMA, ac yn edrych ar y cyfeiriad at 'athrod drwg' ac 'ymchwiliad Keogh', mae'r cwestiwn yn codi tybed pam mae'r cyngor yn sydyn wedi newid safbwynt. Mae rhywun yn holi pwy a ddylanwadodd neu a fu â'u bysedd yn y briwes yn manteisio ar yr adeg arbennig hon i gyflwyno hyn. Rhaid i mi ddweud hyn: ni all y Torïaid gael unrhyw hygrededd o gwbl ynghylch y gwasanaeth iechyd, a chredaf fod yna bryderon difrifol iawn am y derminoleg, yr amseru a'r ffordd y mae'r cyngor BMA wedi cyflwyno hyn i gymryd rhan yn yr hyn sydd wedi bod, yn y bôn, nid yn unig yn ymgais i alw am ymchwiliad gan y Torïaid, ond, a dweud y gwir, gallai fod am ymchwiliad ar unrhyw beth, oherwydd unwaith y bydd hyn allan o'r ffordd, bydd galwad am ymchwiliad arall , oherwydd, ar ddiwedd y dydd, y cyfan rydych yn ei wneud ar ran David Cameron yw chwarae gwleidyddiaeth â'r GIG yng Nghymru, ac rydym ni'n pryderu am gynnydd a gwelliant gwirioneddol y GIG.

16:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Health and Social Services to reply to the debate, Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb i'r ddadl, Mark Drakeford.

16:01 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

We are debating a report this afternoon that, on its cover, says that it is about how concerns are raised in the Welsh NHS. It makes one direct recommendation in this area. It is a recommendation worth reading and considering carefully. It does not contain a great deal that is surprising, because the Welsh partnership forum, where employers and employee organisations meet, has recently been reviewing the all-Wales policy on raising concerns. Consultation on the revised document closed on Friday last week. The BMA has responded positively in that consultation to the intention to establish a common principles project and has offered to participate in it. The ideas in the pamphlet that are about raising concerns can, I hope, be taken forward in that way. I will also ensure that my officials consider some of the suggestions that are being made by the BMA in this regard as part of the response that we are currently developing from our work on the Keith Evans review into the handling of concerns in NHS Wales. Keith Evans was rightly critical of some aspects of the way in which the NHS does respond to concerns. I agree with the BMA that there are improvements that need to be made, and where it has provided suggestions about that, we will take them seriously.

Rydym yn trafod adroddiad y prynhawn yma, sydd, yn ôl ei glawr yn dweud ei fod ynghylch sut mae pryderon yn cael eu codi yn y GIG yng Nghymru. Mae'n gwneud un argymhelliad uniongyrchol yn y maes hwn. Mae'r argymhelliad yn werth ei ddarllen a'i ystyried yn ofalus. Nid yw'n cynnwys llawer iawn sydd yn syndod, gan fod y fforwm partneriaeth Cymru, lle mae cyflogwyr a sefydliadau gweithwyr yn cyfarfod, wedi bod yn adolygu'r polisi Cymru gyfan ar godi pryderon yn ddiweddar. Bu i'r ymgynghoriad ar y ddogfen ddiwygiedig gau ddydd Gwener yr wythnos diwethaf. Mae Cymdeithas Feddygol Prydain wedi ymateb yn gadarnhaol yn yr ymgynghoriad i'r bwriad i sefydlu prosiect egwyddorion cyffredin ac wedi cynnig cymryd rhan ynddo. Gall y syniadau yn y pamffled ynghylch codi pryderon, rwy'n gobeithio, gael eu cynnwys yn y ffordd honno. Byddaf hefyd yn sicrhau bod fy swyddogion yn ystyried rhai o'r awgrymiadau sy'n cael eu gwneud gan Gymdeithas Feddygol Prydain yn hyn o beth fel rhan o'r ymateb rydym wrthi'n ei datblygu o'n gwaith ar adolygiad Keith Evans i ddull GIG Cymru o ymdrin â phryderon. Roedd Keith Evans yn haeddiannol feirniadol o rai agweddau ar y ffordd y mae'r GIG yn ymateb i bryderon. Rwy'n cytuno â Chymdeithas Feddygol Prydain bod gwelliannau y dylid eu gwneud, a lle y mae wedi darparu awgrymiadau am hynny, byddwn yn eu cymryd o ddifrif.

There is a second set of recommendations in the report that deal with the future of Healthcare Inspectorate Wales. I share the surprise of some other Members that the author of the report had apparently not heard of the work of the Health and Social Care Committee; it makes no reference to its report in this regard. It makes no reference to the announcements that the Government has made about an inquiry into the future of Healthcare Inspectorate Wales and, apparently, did not know that Ruth Marks had already been commissioned to undertake an independent review. That work, as Members will know, is well under way. I am quite sure that Ruth will be interested to hear the views of the BMA, and what it has to say about Healthcare Inspectorate Wales is worth reading too. Indeed, I know that the BMA has already been approached by Ruth and that a representative of the BMA attended a workshop that she held on the topic just yesterday. I will ask Ruth Marks directly to consider the suggestions that the report makes.

Mae ail gyfres o argymhellion yn yr adroddiad sy'n ymdrin â dyfodol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Fel rhai Aelodau eraill, synnaf nad oedd awdur yr adroddiad yn ôl pob golwg wedi clywed am waith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol; nid yw'n gwneud unrhyw gyfeiriad at ei adroddiad yn y cyswllt hwn. Nid yw'n gwneud unrhyw gyfeiriad at y cyhoeddiadau y mae'r Llywodraeth wedi'u gwneud am ymchwiliad i ddyfodol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac, yn ôl pob golwg, nid oedd yn gwybod bod Ruth Marks eisoes wedi ei chomisiynu i gynnal adolygiad annibynnol. Mae'r gwaith hwnnw, fel y gŵyr yr Aelodau, ar y gweill. Rwy’n eithaf siŵr y bydd gan Ruth ddiddordeb mewn clywed barn y BMA, ac mae’r hyn sydd ganddo i'w ddweud am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn werth ei ddarllen hefyd. Yn wir, gwn fod Ruth eisoes wedi cysylltu â’r BMA a bod cynrychiolydd o'r BMA wedi bod mewn gweithdy a gynhaliwyd ar y pwnc ddoe ddiwethaf. Byddaf yn gofyn yn uniongyrchol i Ruth Marks ystyried yr awgrymiadau y mae'r adroddiad yn eu gwneud.

So much, Llywydd, for two of the three recommendations that the report contains. Both of those are constructive; the Government will engage with them directly. It is in the first recommendation of the document, unfortunately, that it all goes badly astray. As we have heard, in fewer than two sides of A4, the document extracts some phrases from reports that, in many cases, were not written about Wales at all and had nothing to say about the services that are provided here. It then rehearses the work of different reviews that have been commissioned and published in full by this Government.

Dyna ni felly, Lywydd, o ran dau o'r tri argymhelliad y mae’r adroddiad yn eu cynnwys. Mae'r ddau fel ei gilydd yn adeiladol; bydd y Llywodraeth yn ymwneud yn uniongyrchol â nhw. Yn argymhelliad cyntaf y ddogfen, yn anffodus, yr â’r cyfan ar gyfeiliorn. Fel y clywsom, mewn llai na dwy ochr o bapur A4, mae'r ddogfen yn dyfynnu rhai ymadroddion o adroddiadau nad oedd, ar lawer cyfri, wedi’u hysgrifennu am Gymru o gwbl ac nid oedd yn dweud unrhyw beth am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yma. Yna, mae'n rhestru gwaith adolygiadau gwahanol a gomisiynwyd ac a gyhoeddwyd yn llawn gan y Llywodraeth hon.

In a single sentence, occupying two lines, it asserts—it certainly cannot be said that it argues—that what the NHS in Wales needs, most of all, is to repeat all that work in a single, expensive, unfocused, ill-defined, undifferentiated, open-ended review.

Mewn un frawddeg, a gymer ddwy linell, mae'n honni—yn sicr ni ellir dweud ei bod yn dadlau—mai’r hyn y mae'r GIG yng Nghymru ei angen, yn bennaf oll, yw ailadrodd yr holl waith mewn un adolygiad drud, di-ffocws, anniffiniedig, diwahaniaeth, penagored.

Sensible contributions—and there have been many to the debate this afternoon—have pointed to the inadequacy of such a recommendation. Elin Jones asked what exactly it would mean. Was it to be a quick and rapid review, with some key issues coming to conclusions? As she knows, if there were quick and easy answers to the problems that health services face in every part of the United Kingdom, they would already have been found. The answer must be that what is proposed is for some lengthy, drawn-out, delaying type of investigation that would hold up much of what we are determined to do in Wales. I hope that, very soon, Marcus Longley will publish his report into health services in rural parts of Wales. If we were to accept the recommendation that we have here, everything that that report might say, everything that we may be able to do with it to improve services in that part of Wales would be held up while we go in for this utterly unprofitable exercise.

Mae cyfraniadau synhwyrol—a chafwyd llawer ohonynt i’r ddadl y prynhawn yma—wedi tynnu sylw at natur annigonol argymhelliad o'r fath. Gofynnodd Elin Jones beth yn union fyddai'r adolygiad yn ei olygu. A fyddai’n adolygiad cyflym a chwim, gyda rhai materion allweddol yn dod i gasgliadau? Fel y gŵyr, pe bai atebion cyflym a hawdd i'r problemau y mae’r gwasanaethau iechyd yn eu hwynebu ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, byddent eisoes wedi cael eu darganfod. Mae'n rhaid mai'r ateb yw mai’r hyn a gynigir yw ymchwiliad maith, hirwyntog, arafol a fyddai’n dal i fyny lawer o'r hyn rydym yn benderfynol o’i wneud yng Nghymru. Rwy’n gobeithio y bydd Marcus Longley yn fuan iawn yn cyhoeddi ei adroddiad ar wasanaethau iechyd mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru. Pe baem yn derbyn yr argymhelliad sydd gennym yma, mae perygl i bopeth y gallai’r adroddiad fod yn ei ddweud, popeth y gallem o bosibl ei wneud yn ei sgîl i wella gwasanaethau yn y rhan honno o Gymru gael ei ddal yn ôl tra ein bod yn ymgymryd â’r ymarfer cwbl amhroffidiol hwn.

Kirsty Williams, I thought, made a very interesting contribution. She pointed out that much of what is being called for has already been done in Wales, and where there are other aspects, which continue to need attention, we continue to provide them. Inquiries are not the only way in which policy problems can be pursued here in Wales. The idea that she put on the table today was certainly not the idea that we find in the BMA document, and certainly not the highly partisan set of proposals that we have heard pursued by the opposition here. I will think very carefully about what she says. I am very interested to meet her to talk further about her idea, which was a very different sort of idea than that in the attention-seeking, politically driven, absolutely partisan contributions that, one after another after another, we heard Members on the opposition benches continue to make today.

Cyflwynodd Kirsty Williams, mi gredaf, bwynt diddorol iawn. Nododd fod llawer o'r hyn y gelwir amdano eisoes wedi'i wneud yng Nghymru, ac o ran agweddau eraill sy'n parhau i fod angen sylw, rydym ni'n parhau i'w darparu. Nid ymchwiliadau yw'r unig ffordd o ddatrys problemau polisi yma yng Nghymru. Nid syniad a welir yn nogfen y BMA oedd y syniad a roddodd ar y bwrdd heddiw yn sicr, ac yn sicr nid y set hynod bleidiol o gynigion a glywsom gan yr wrthblaid hon. Byddaf yn meddwl yn ofalus iawn am yr hyn y mae hi'n ei ddweud. Rwy'n awyddus iawn i gwrdd â hi i siarad ymhellach am ei syniad, a oedd yn fath gwahanol iawn o syniad i'r cyfraniadau cwbl bleidiol, gwleidyddol eu cymhelliant sy'n chwilio am sylw a glywsom y naill ar ôl y llall ar ôl y llall gan Aelodau meinciau'r wrthblaid yn barhaus heddiw.

We have heard this afternoon that if the BMA says it, it must be true. I look forward to Darren Millar telling us in his response of the Conservative Party's conversion to free prescriptions in Wales, because if the BMA believes in anything, it believes in that. Let us hear you say that if the BMA is right on this, it is right on that. Let me give you a list of all of those things that the BMA believes in that you entirely reject. What this is all about—[Interruption.] What this is all about, Llywydd, is—[Interruption.]

Clywsom y prynhawn yma, os mai dyna ddywed y BMA, yna rhaid ei fod yn wir. Edrychaf ymlaen at Darren Millar yn dweud wrthym yn ei ymateb am dröedigaeth y Blaid Geidwadol i bresgripsiynau am ddim yng Nghymru, oherwydd os yw'r BMA yn credu mewn unrhyw beth, mae'n credu yn hynny. Gadewch i ni glywed eich barn, a yw'r BMA yn iawn am hyn, mae'n iawn ynglŷn â hynny. Gadewch i mi roi rhestr o'r holl bethau hynny y mae'r BMA yn credu ynddynt ond eich bod chi yn eu gwrthod yn llwyr. Mae hyn i gyd ynglŷn ag- [Torri ar draws.] Lywydd, mae hyn i gyd ynglŷn ag- [Torri ar draws.]

16:08

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Order.

Trefn.

16:08

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

What this is all about is a partisan selection of a particular point of view. The opposition party, in its corrosive, wolf-crying way, has done so much damage to the morale and the capacity of the NHS, as the leader of the opposition said here, for fully 18 months. I think that the NHS in Wales is much better than they do. I think that the BMA members are much better than its own council appears to think. These are the BMA members that provide 19 million appointments in primary care, that see 1 million people in our accident and emergency departments, and that carried out 3,300 surgical and other procedures in the NHS in Wales last year. These are the BMA members that have helped us to reduce the death rate from heart attacks, and have helped us to reduce re-admissions of patients with chronic conditions. In the revalidation exercise, the results of which I have seen just this week, of the 50,000 patients who were asked their views of doctors here in Wales, 98% of them said that their doctor was polite and considerate, and 95% said that the doctor explained things in a way that they could understand. Patients in Wales do not believe that the NHS is in crisis; patients in Wales do not think that this prescription will put things right, and neither do we.

Mae hyn i gyd ynglŷn â detholiad pleidiol o safbwynt arbennig. Mae'r wrthblaid, yn ei ffordd chwerw, argoelus, wedi gwneud cymaint o ddifrod i forâl a chapasiti'r GIG, fel y dywedodd arweinydd yr wrthblaid yma, yn ddi-baid am 18 mis. Credaf fi fod y GIG yng Nghymru yn llawer gwell nag y credant hwy. Credaf fod aelodau'r BMA yn llawer gwell nag yr ymddengys y mae ei gyngor ei hun yn ei gredu. Y rhain yw'r aelodau hynny o'r BMA sy'n darparu 19 miliwn o apwyntiadau ym maes gofal sylfaenol ac sy'n gweld 1 miliwn o bobl yn ein hadrannau damweiniau ac achosion brys, a nhw roes 3,300 o lawdriniaethau a thriniaethau eraill i gleifion y GIG yng Nghymru y llynedd. Y rhain yw'r aelodau hynny o'r BMA sydd wedi ein helpu i leihau'r gyfradd farwolaeth yn sgîl trawiad ar y galon, ac sydd wedi ein helpu i leihau nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn eilwaith i ysbyty yn sgîl cyflyrau cronig. Yn yr ymarfer ail-ddilysu, y daeth ei ganlyniadau i law yr wythnos ddiwethaf hon, o'r 50,000 o gleifion y gofynnwyd eu barn am feddygon yma yng Nghymru, dywedodd 98% ohonynt fod eu meddyg yn gwrtais ac yn ystyriol, a dywedodd 95% fod y meddyg wedi egluro pethau mewn ffordd ddealladwy. Nid yw cleifion yng Nghymru yn credu bod y GIG mewn argyfwng; nid yw cleifion yng Nghymru yn credu y bydd y presgripsiwn hwn yn unioni pethau, ac nid ydym ni chwaith.

16:09

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on Antoinette Sandbach to reply to the debate.

Galwaf ar Antoinette Sandbach i ymateb i'r ddadl.

16:09 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Why the BMA has changed its mind on this, Mick Antoniw, is because it has said this: if the people who do not know what is going on are raising concerns—. I am sorry, it said:

Pam y bu i'r BMA newid ei feddwl ynglŷn â hyn, Mick Antoniw, yw oherwydd y dywedodd hyn: os yw'r bobl nad ydynt yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen yn codi pryderon —. Mae'n ddrwg gennyf, dywedodd:

'If the people who do know what's going on are raising concerns and they're not being listened to, then our thinking is that maybe the only way in which the Welsh government is going to take notice of the things that are going wrong is by having an independent inquiry.'

'Os yw'r bobl sy'n gwybod beth sy'n mynd ymlaen yn codi pryderon a bod neb yn gwrando arnynt, yna credwn mai'r yw'r unig ffordd, o bosibl, y mae llywodraeth Cymru'n mynd i gymryd sylw o'r pethau sy'n mynd o'i le yw drwy gael ymchwiliad annibynnol.'

I am delighted that Jenny Rathbone has such a wonderful hospital in her constituency. We had 363 complaints outstanding—some of them found under the stairs. I had a constituent who waited over a year for Betsi Cadwaladr to conduct an inquiry into why he was tube-fed lying down, which his mother, a former staff nurse, had advised them would lead to him dying, which he duly did. That is the NHS that my constituents—

Rwy'n falch iawn bod gan Jenny Rathbone ysbyty mor wych yn ei hetholaeth. Roedd gennym 363 o gwynion heb eu datrys—daethpwyd o hyd i rai ohonynt yn cuddio'n llechwraidd. Arhosodd un o'm hetholwyr dros flwyddyn i Betsi Cadwaladr gynnal ymchwiliad i'r rheswm dros ei fwydo trwy diwb ac yntau'n orweddiog, arfer yr oedd ei fam a arferai fod yn nyrs staff, wedi dweud wrthyn nhw fyddai'n arwain at ei farwolaeth, a dyna a fu'r achos. Dyna'r GIG y mae fy etholwyr—

*Jenny Rathbone a gododd—*

*Jenny Rathbone rose—*

**Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

No, you would not take an intervention from me.

Na, ni fyddech yn derbyn ymyriad oddi wrthyf.

That is the NHS that my constituents are experiencing up in north Wales. So, if it is about reducing avoidable deaths, as you said, then you need to listen to the experience of Janet Finch-Saunders's constituents, which is that they waited so long on the waiting list that they died, or to the experiences of Byron Davies's constituents in ABMU. Your refusal to hold that inquiry—. I am sure that the Welsh Government would have no difficulty in framing the terms of an inquiry, given the amount of inquiries, task and finish groups and the 393 quangos that you have here in Wales. You would have no difficulty framing the terms of an inquiry. It is about patient safety and putting patient safety first. What the Welsh Government might learn from that inquiry is where it is failing to put patient safety first and how it might remediate that.

Dyna yw profiad fy etholwyr o'r GIG i fyny yn y gogledd. Felly, os yw ynglŷn â lleihau marwolaethau y gellir eu hosgoi, fel y dywedasoch, mae angen i chi wrando ar brofiad etholwyr Janet Finch-Saunders, sef eu bod yn aros mor hir ar y rhestr aros nes eu bod yn marw, neu brofiadau etholwyr Byron Davies yn PABM. Rydych yn gwrthod cynnal yr ymchwiliad-. Rwy'n siŵr yna fyddai un broblem i Lywodraeth Cymru lunio telerau'r ymchwiliad, o ystyried faint o ymholiadau, grwpiau gorchwyl a gorffen a'r 393 cwango sydd gennych yma yng Nghymru. Ni fyddai'r un anhawster i chi fframio telerau'r ymchwiliad. Mae'n ymwneud â diogelwch cleifion ac yn rhoi diogelwch cleifion yn gyntaf. Yr hyn y gallai Llywodraeth Cymru ei ddysgu oddi wrth yr ymchwiliad hwnnw yw beth yw'r achlysuron pan nad ydynt yn rhoi diogelwch cleifion yn gyntaf a sut y gallai adfer hynny.

Your constant refusal to do that is because you are frightened of what you might find. If you really believe that all is well, and yet you hear of a patient dying outside the hospital with 15 ambulances—. On 17 December, somebody died outside the hospital with 15 ambulances in front of them. They cannot get into the hospital to be treated and the issues are that your statistics—. The BMA is the latest of a number of organisations to call for this inquiry. You can persist in sticking your head in the sand and you can seek to argue, like Lynne Neagle does, that it is political. We are elected here to scrutinise the Welsh Government, to hold it to account and to look at where the policies are failing. When a constituent of mine is told in March 2014 that he might be lucky if his operation is scheduled by March 2015, which was in the letter that I got from the health board this week, then I think it is worth scrutinising, it is worth looking at what lessons can be learnt and it is worth looking at the RAMI statistics.

Rydych yn parhau i wrthod gwneud hynny am eich bod yn ofni'r hyn y gallech ei ganfod. Os ydych yn credu o ddifri bod popeth yn iawn, ac eto rydych yn clywed am glaf yn marw y tu allan i'r ysbyty gyda 15 ambiwlans—. Ar 17 Rhagfyr, bu farw rhywun y tu allan i'r ysbyty gyda rhes o 15 ambiwlans o'u blaen. Ni allant fynd i mewn i'r ysbyty i gael eu trin a'r broblem yw bod eich ystadegau—. Y BMA yw'r diweddaraf o nifer o sefydliadau i alw am yr ymchwiliad hwn. Gallwch barhau i roi eich pen yn y tywod a gallwch geisio dadlau, fel Lynne Neagle, fod hyn yn wleidyddol. Cawn ein hethol yma i graffu ar Lywodraeth Cymru, i'w dal i gyfrif ac edrych ar fethiant polisïau. Pan ddywedir wrth un o'm hetholwyr ym mis Mawrth 2014 y gallai fod yn ffodus os trefnir ei lawdriniaeth erbyn mis Mawrth 2015, a oedd yn y llythyr a gefais oddi wrth y bwrdd iechyd yr wythnos hon, yna rwy'n credu ei bod yn werth craffu, mae'n werth edrych ar y gwersi hyn y gellir eu dysgu ac mae'n werth edrych ar ystadegau Mynegai Marwolaethau wedi'i Addasu yn ôl Risg RAMI.

Minister, the BMA is saying that you are not listening, and this is what the doctors are telling us: 'I feel very saddened and deeply frustrated by the current quality or lack of healthcare services in Wales and the lack of recognition by the Welsh Government of any of the issues.' Look at the media: every day there is some news about NHS failure. These are quotes from a doctor: 'Senior clinicians take roles for Welsh Assembly Government—an unpaid role that takes a lot of time and commitment. It's very difficult to see this continuing'; 'Our recent record of posts advertised that did not attract a single applicant is too embarrassing to recount'; and, 'There is a dire state of recruitment actively denied by Mark Drakeford. We cannot get any interest in our posts from anyone. In July, we will be four posts short, with another two on maternity, i.e. six down before anyone takes annual leave. Our department is on the point of collapse'. What a Keogh-style inquiry would do, Minister, is highlight which department that was and make sure that no further patient's safety is put at risk.

Weinidog, mae'r BMA yn dweud nad ydych yn gwrando, a dyna ddywed y meddygon wrthym: 'Rwy'n teimlo'n drist iawn ac yn rhwystredig iawn gan yr ansawdd presennol neu'r diffyg gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru a chyndynrwydd Llywodraeth Cymru i gydnabod yr un o'r materion hyn.' Edrychwch ar y cyfryngau: bob dydd mae rhywfaint o newyddion am fethiant y GIG. Dyfyniadau yw'r rhain gan feddyg: 'Mae uwch-glinigwyr yn cymryd rolau dros Lywodraeth Cynulliad Cymru—rôl ddi-dâl sy'n cymryd llawer o amser ac ymrwymiad. Mae'n anodd iawn gweld hyn yn parhau'. 'Mae ein record ddiweddar o swyddi a hysbysebir nad oedd wedi denu'r un ymgeisydd yn peri gormod o embaras i'w adrodd'; ac, 'Mae'r sefyllfa recriwtio'n enbyd ac yn cael ei gwadu'n barhaus gan Mark Drakeford. Ni allwn ddenu unrhyw ddiddordeb yn ein swyddi oddi wrth unrhyw un. Ym mis Gorffennaf, byddwn bedair swydd yn brin, gyda dwy arall ar absenoldeb mamolaeth, h.y. chwech yn brin cyn i neb gymryd gwyliau blynyddol. Mae ein hadran ar fin methu'n llwyr'. Yr hyn y byddai ymchwiliad ar ffurf Keogh yn ei wneud, Weinidog, yw tynnu sylw at yr union adran honno gan sicrhau nad oedd diogelwch unrhyw glaf arall yn cael ei roi mewn perygl.

16:14

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. I defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 16:14.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 16:14.*

# Dadl Plaid Cymru: Y Berthynas Rhwng Cenhedloedd y DU

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies, and amendment 2 in the names of Jane Hutt and Aled Roberts. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be de-selected.*

# Plaid Cymru Debate: UK Relations

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies, a gwelliant 2 yn enwau Jane Hutt ac Aled Roberts. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol.*

16:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Galwaf ar Leanne Wood i wneud y cynnig.

I call on Leanne Wood to move the motion.

Cynnig NDM5571 Elin Jones

Motion NDM5571 Elin Jones

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

1. Yn credu y dylai'r berthynas rhwng cenhedloedd yr ynysoedd hyn newid yn dilyn y refferendwm ar annibyniaeth yn yr Alban;

1. Believes that, following Scotland's independence referendum, relations between the nations of these islands must change;

2. Yn credu bod pobl Cymru yn sofran ac mai nhw ddylai benderfynu ar natur a chyflymder datblygiadau cyfansoddiadol yn y wlad hon; a

2. Believes that the people of Wales are sovereign and it is they who should decide the nature and pace of constitutional development in this country; and

3. Yn galw ar y Prif Weinidog i ddechrau trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar unwaith i hwyluso'r broses o drosglwyddo cyfrifoldeb dros swyddogaethau i Gymru, er mwyn ail-gydbwyso pwerau rhwng y cenhedloedd.

3. Calls on the First Minister to immediately begin discussions with the UK Government to facilitate a transfer of responsibility over functions to Wales, in order to rebalance powers between the nations.

16:15 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Diolch yn fawr iawn. The importance of the Scottish referendum last week was not lost on this National Assembly. It was a topic of conversation for our constituents in their households, in their workplaces, and on the streets the length and breadth of this country. Across our parties, we no doubt shared different reactions and different emotions when the result came through, but I think most of us in this Chamber would welcome the democratic engagement that took place and the level of interest sparked among young people and, in particular, those in Scotland's most deprived communities.

Diolch yn fawr iawn. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn ymwybodol o bwysigrwydd refferendwm yr Alban yr wythnos diwethaf. Roedd yn destun trafod ar gyfer ein hetholwyr yn eu cartrefi, yn eu gweithleoedd, ac ar y strydoedd ar hyd a lled y wlad hon. Ar draws ein pleidiau, nid oes amheuaeth i ni rannu ymatebion gwahanol ac emosiynau gwahanol pan gyhoeddwyd y canlyniad, ond credaf y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn y Siambr hon yn croesawu'r ymgysylltiad democrataidd a gafwyd a lefel y diddordeb a sbardunwyd ymysg pobl ifanc ac, yn arbennig, y rhai yng nghymunedau mwyaf difreintiedig yr Alban.

Last week's referendum has provided a new opportunity to further the interests of Wales. Plaid Cymru is clear that this opportunity should not be scuppered. Our constitutional journey over the past 15 years has been characterised by piecemeal process, the results of which have always been unsatisfactory. That is not to make light of the important steps that have been taken and the coming of age that we have experienced as a nation. I accept, of course, that it is better to walk before you can run, but it is the case that every constitutional settlement that we have had to date has had to be revised and changed. So, let us make a fresh start now.

Mae refferendwm yr wythnos diwethaf wedi rhoi cyfle newydd i hyrwyddo buddiannau Cymru. Mae Plaid Cymru yn glir na ddylai'r cyfle hwn fynd i'r gwellt. Mae ein taith gyfansoddiadol dros y 15 mlynedd diwethaf wedi'i nodweddu gan broses dameidiog, ac mae'r canlyniadau wedi bod yn anfoddhaol bob amser. Nid yw hynny'n dibrisio'r camau pwysig a gymerwyd a'r ffaith fod y genedl wedi dod i oed. Rwy'n derbyn, wrth gwrs, ei bod yn well cerdded cyn y gallwch redeg, ond mae'n wir fod pob setliad cyfansoddiadol a gawsom hyd yma wedi gorfod cael ei adolygu a'i newid. Felly, gadewch i ni ddechrau o'r newydd yn awr.

Plaid Cymru is clear that the arrangements for devolution to this Assembly should result in equity of treatment between Wales and the other nations of the UK, and, crucially, will give Wales the tools to deliver for the people here. Plaid Cymru is of the view that the recommendations of the Silk commission—both reports—are a starting point, but by no means an end point. Plaid Cymru maintains that the inclusion of a referendum for the part-devolution of income tax is unnecessary, and it is not consistent with the principle of equity across the nations of the UK. The idea that income tax devolution can be chosen or rejected has significant implications for financial accountability, which my colleagues will explore further during this debate.

Mae Plaid Cymru yn glir y dylai'r trefniadau ar gyfer datganoli i'r Cynulliad hwn arwain at driniaeth deg rhwng Cymru a gwledydd eraill y DU, ac, yn hollbwysig, galluogi Cymru i gyflawni dros bobl Cymru yma. Mae Plaid Cymru o'r farn bod argymhellion comisiwn Silk—y ddau adroddiad—yn fan cychwyn, ond nid diwedd y broses o bell ffordd. Mae Plaid Cymru yn credu bod cynnwys refferendwm ar gyfer datganoli treth incwm yn rhannol yn ddiangen, ac nid yw'n gyson â'r egwyddor o degwch ar draws cenhedloedd y DU. Mae gan y syniad bod modd dewis neu wrthod datganoli treth incwm oblygiadau sylweddol ar gyfer atebolrwydd ariannol, a bydd fy nghydweithwyr yn ystyried hynny ymhellach yn ystod y ddadl hon.

Neither do we believe in a limit being placed upon Wales's powers in relation to energy. All energy policy should be devolved, and, in a nation with such potential in terms of natural resources, it makes no sense to put a cap on our ability to maximise that potential. However, in addition to moving forward, we must recognise too that we need to simultaneously catch up. An agenda that incorporates the entirety of the Silk package, and a positive approach towards a reflection of what is happening in Scotland, could see Wales advance considerably from our current position. Significant new policy tools would be available to future Welsh governments, which really could make a practical difference to the way in which we deliver our policies here.

Nid ydym yn credu chwaith mewn cyfyngu ar bwerau Cymru mewn perthynas ag ynni. Dylai'r holl bolisïau ynni gael eu datganoli, ac, mewn cenedl gyda chymaint o botensial o safbwynt adnoddau naturiol, nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i gyfyngu ar ein gallu i fanteisio i'r eithaf ar y potensial hwnnw. Fodd bynnag, yn ogystal â symud ymlaen, rhaid inni gydnabod hefyd bod angen i ni ddal i fyny ar yr un pryd. Gallai agenda sy'n cynnwys pecyn Silk yn ei gyfanrwydd, ac agwedd bositif tuag at fyfyrio ar yr hyn sy'n digwydd yn yr Alban, arwain at Gymru yn symud ymlaen yn sylweddol o'n sefyllfa bresennol. Byddai offer polisi newydd sylweddol ar gael i lywodraethau Cymru yn y dyfodol, a allai wneud gwahaniaeth ymarferol gwirioneddol i sut rydym yn cyflwyno ein polisïau yma.

The differences between Scotland and Wales are well known, but they are not always differences that we should be proud of. Scotland has been much better at articulating its interests and securing commitments and pledges. The amendments to our motion today reflect the fact that the unionist parties wish to welcome the 'no' vote in the referendum, whereas Plaid Cymru remains proud of our solidarity with the 'yes' campaign. I respect those views and the intentions of the amendments, but I hope that we will be able to find areas of agreement on ways in which we can create a Wales that is more democratic, that is more accountable, and is more able to meet the diverse needs of people in all parts of this country. I move the motion in the name of Elin Jones, and I look forward to a useful discussion this afternoon. Diolch yn fawr.

Mae'r gwahaniaethau rhwng Cymru a'r Alban yn hysbys, ond nid ydynt yn wahaniaethau y dylem fod yn falch ohonynt bob amser. Mae'r Alban wedi bod yn llawer gwell wrth fynegi ei buddiannau a sicrhau ymrwymiadau ac addewidion. Mae'r diwygiadau i'n cynnig heddiw yn adlewyrchu'r ffaith bod y pleidiau unoliaethol yn dymuno croesawu'r bleidlais 'na' yn y refferendwm, tra bod Plaid Cymru yn parhau i fod yn falch o'n hundod gyda'r ymgyrch 'ie'. Rwy'n parchu'r safbwyntiau hynny a bwriadau'r gwelliannau, ond gobeithiaf y byddwn yn gallu cytuno ar rai ffyrdd o greu Cymru sy'n fwy democrataidd, yn fwy atebol, ac sy'n fwy abl i allu diwallu anghenion amrywiol pobl ym mhob rhan o'r wlad hon. Cynigiaf y cynnig yn enw Elin Jones, ac edrychaf ymlaen at drafodaeth ddefnyddiol y prynhawn yma. Diolch fawr yn fawr.

16:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol. Galwaf ar Andrew R.T. Davies i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

I have selected the two amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be de-selected. I call on Andrew R.T. Davies to move amendment 1, tabled in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Dileu popeth a rhoi yn ei le:*

*Delete all and replace with:*

*yn croesawu'n fawr benderfyniad diamwys yr Alban i bleidleisio yn erbyn annibyniaeth ac yn edrych ymlaen at weithio gyda phob rhan o'r Deyrnas Unedig i greu undeb cryfach at y dyfodol.*

*Warmly welcomes Scotland's unequivocal decision to vote against independence and looks forward to working with all parts of the United Kingdom in forging a stronger union for the future.*

16:20

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 1 in the name of Paul Davies.

Cynigiaf welliant 1 yn enw Paul Davies.

It seeks to delete the motion and reflects on the unequivocal decision of the people of Scotland to vote against independence and stay within the union. I am looking at some of the faces across the Chamber, but I think that a margin of 400,000 votes is an unequivocal decision by the people of Scotland. Ultimately, what we need to be reflecting on is what we can do to strengthen this union of ours that will add to prosperity and stability within these islands.

Mae'n ceisio dileu'r cynnig ac yn myfyrio ar benderfyniad diamwys pobl yr Alban i bleidleisio yn erbyn annibyniaeth ac aros yn yr undeb. Rwy'n edrych ar rai o'r wynebau ar draws y Siambr, ond credaf fod mwyafrif o 400,000 o bleidleisiau yn benderfyniad diamwys gan bobl yr Alban. Yn y pen draw, yr hyn y mae angen i ni fyfyrio arno yw'r hyn y gallwn ei wneud i gryfhau'r undeb hwn a fydd yn ychwanegu at ffyniant a sefydlogrwydd o fewn yr ynysoedd hyn.

The one thing that I think needs commending here is the way the Prime Minister, in fairness to him, engaged with Alex Salmond some years ago, after the 2011 election in Scotland that brought a majority SNP Government into being north of the border, and engaged in allowing the referendum to come forward and for it to be formally be recognised that if it was a 'yes' vote then discussions would be undertaken for an independent Scotland. That really did show respect for devolution. I give way to Simon.

Un peth rwy'n teimlo sydd angen ei ganmol yma yw sut y gwnaeth Prif Weinidog y DU, er tegwch iddo, ymgysylltu ag Alex Salmond rai blynyddoedd yn ôl, ar ôl etholiad 2011 yn yr Alban a arweiniodd at Lywodraeth SNP fwyafrifol i'r gogledd o'r ffin, gan gyfrannu at ganiatáu cynnal y refferendwm a chydnabod yn ffurfiol, os oedd pleidlais 'ie', yna byddai trafodaethau'n cael eu cynnal ar gyfer Alban annibynnol. Roedd hynny'n dangos parch gwirioneddol at ddatganoli. Ildiaf i Simon.

16:21 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am grateful to the Member for giving way. I agree; I think it is an important sign of respect from both Governments that that Edinburgh agreement was made. That is why I am disappointed that his amendment to this motion today takes away the statement that the people of Wales are sovereign in this regard. Surely it is right that the people of Wales, at one stage, could also make a similar decision? You are not going to deny them that, are you?

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am ildio. Rwy'n cytuno; rwy'n credu ei bod yn arwydd pwysig o barch gan y ddwy Lywodraeth bod cytundeb Caeredin wedi'i wneud. Dyna pam rwy'n siomedig bod ei welliant i'r cynnig hwn heddiw yn dileu'r datganiad bod pobl Cymru yn sofran yn hyn o beth. Siawns ei bod yn iawn y gallai pobl Cymru, rywbryd, wneud penderfyniad tebyg hefyd? Nid ydych yn mynd i wrthod y cyfle hwnnw iddynt, ydych chi?

16:21 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I would not deny them that for a moment: if you want to bring a referendum forward on independence, I am more than happy to have that referendum any day of the week.

Ni fyddwn yn gwrthod y cyfle hwnnw iddynt o gwbl: os ydych chi am gynnal refferendwm ar annibyniaeth, rwy'n fwy na hapus i gael y refferendwm hwnnw unrhyw ddiwrnod o'r wythnos.

16:21 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It will not be today. [Laughter.]

Ni fydd yn digwydd heddiw. [Chwerthin.]

16:21 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It is quite ironic that, in the poll that is out today, you are polling 3%, I think, for independence in Wales. I appreciate that it is only one poll and you do not take just one poll to mean everything, but 3% really does show where the political ground lies here. Ultimately, the amendment seeks to bring balance, which is reflective of the decision taken last Thursday.

Mae'n eithaf eironig bod yr arolwg barn sydd allan heddiw yn dangos cefnogaeth o 3%, credaf, ar gyfer annibyniaeth yng Nghymru. Rwy'n sylweddoli mai dim ond un arolwg barn yw hwn ac nad yw un arolwg barn yn unig yn dangos popeth, ond mae 3% wir yn dangos y sefyllfa wleidyddol yma. Yn y pen draw, mae'r gwelliant yn ceisio dod â chydbwysedd, sy'n adlewyrchu'r penderfyniad a wnaed ddydd Iau diwethaf.

Yesterday, the First Minister questioned me in his statement and wanted some answers. I did find it rather bizarre that he was seeking answers, because all the answers are on the record and have been on the record for some time. He asked me whether I support a convention. Well, some two years ago, I went before the Political and Constitutional Reform Committee of the House of Commons when it sat in this building and put on record that I do believe a convention would be a good idea. However, what I did caveat that with was that what is required is that England understands what it wants to bring to the negotiating table and that we do not get a convention that ultimately just turns into a talking shop that gives comfort to the nationalists, who, half way through, might walk away and say, 'We are gaining nothing here' and demand another referendum.

Ddoe, roedd y Prif Weinidog yn fy nghwestiynu yn ei ddatganiad ac yn gofyn am rai atebion. Rwy'n ei chael yn rhyfedd braidd ei fod yn chwilio am atebion, gan fod yr holl atebion wedi cael eu cofnodi, a hynny ers peth amser. Gofynnodd i mi a wyf yn cefnogi confensiwn. Wel, tua dwy flynedd yn ôl, ymddangosais gerbron Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin pan oedd yn cyfarfod yn yr adeilad hwn gan gofnodi fy mod yn credu y byddai confensiwn yn syniad da. Fodd bynnag, ychwanegais hefyd fod yr hyn sydd ei angen yw bod Lloegr yn deall yr hyn y mae am roi gerbron y bwrdd trafod ac nad ydym yn cael confensiwn sydd, yn y pen draw, yn troi'n siop siarad yn unig sy'n rhoi cysur i'r cenedlaetholwyr, sydd, hanner ffordd drwy'r confensiwn, yn cerdded i ffwrdd o bosibl ac yn dweud, 'Nid ydym yn ennill dim byd yma' ac yn mynnu refferendwm arall.

I did find it quite interesting listening to what the First Minister said on Monday. He said that his aspirations for the convention were to set up a standing executive or committee to move it forward—very Labour like, I think that is, to say the least—and then take that to the public. Well, over the next 18 months, the public is going to be in a huge conversation in these islands. In the first instance, there is a general election next May and then, 12 months later, all the administrations and Governments across these islands face elections as well. There will be party manifestos that will be put before every person in this country, and I would suggest that the time for such a convention, when Governments will come with fresh mandates and be able to make clear decisions that really do shape the future of these islands, would be in the summer of 2016 or autumn of 2016.

Roedd yn eithaf diddorol gwrando ar yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog ddydd Llun. Dywedodd mai ei ddyheadau ar gyfer y confensiwn yw sefydlu pwyllgor gwaith neu bwyllgor sefydlog i'w symud ymlaen—sy'n nodweddiadol o'r Blaid Lafur, a dweud y lleiaf—ac yna cyflwyno hynny i'r cyhoedd. Wel, dros y 18 mis nesaf, mae'r cyhoedd yn mynd i fod yn rhan o sgwrs enfawr yn yr ynysoedd hyn. Yn y lle cyntaf, mae etholiad cyffredinol fis Mai nesaf ac wedyn, 12 mis yn ddiweddarach, mae holl weinyddiaethau a Llywodraethau ledled yr ynysoedd hyn yn wynebu etholiadau hefyd. Bydd maniffestos y pleidiau yn cael eu rhoi gerbron pob person yn y wlad hon, a byddwn yn awgrymu mai'r amser ar gyfer confensiwn o'r fath, pan fydd gan Lywodraethau mandadau newydd ac yn gallu gwneud penderfyniadau clir sydd wir yn llunio dyfodol yr ynysoedd hyn, yw naill ai haf 2016 neu hydref 2016.

The First Minister also asked whether I would work with other parties. Well, I made that point to him a week last Tuesday in First Minister's questions, as I pointed out yesterday, and just he threw the notion back in my face. I am always happy to work with all parties in this Chamber, as I have done since I was elected leader of the Conservatives here in the Assembly. It is the First Minister who seems to be averse to working across party political lines. I expect that; he still thinks he is in Bridgend County Borough Council, I presume. Ultimately, if he wants to rise above local politics and be more statesmanlike, he should reach out to work with more parties.

Gofynnodd y Prif Weinidog hefyd a fyddwn yn gweithio gyda phleidiau eraill. Wel, gwnes y pwynt hwnnw iddo wythnos i ddydd Mawrth diwethaf yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, fel y dywedais ddoe, a'r cwbl a wnaeth oedd taflu'r syniad yn ôl yn fy wyneb. Rwyf bob amser yn hapus i weithio gyda phob plaid yn y Siambr hon, fel rwyf wedi ei wneud ers i mi gael fy ethol yn arweinydd y Ceidwadwyr yma yn y Cynulliad. Y Prif Weinidog sy'n ymddangos fel pe bai'n gyndyn o weithio ar draws ffiniau pleidiau gwleidyddol. Rwy'n disgwyl hynny; mae'n parhau i feddwl ei fod yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, rwy'n cymryd. Yn y pen draw, os yw'n dymuno codi uwchlaw gwleidyddiaeth leol a bod yn fwy o wladweinydd, dylai ymestyn allan i weithio gyda mwy o bleidiau.

He also asked, 'What is his view on the Cabinet sub-committee that is being set up?' I assume that he was referring to the point about the William Hague committee. Of course, that is the sensible way to resolve the issues that Westminster faces and, ultimately, to come up with a coherent line for the rest of the United Kingdom, in tandem with the promises that were made to the Scottish electorate before the referendum. That is a sensible line to come up with and a sensible way to take this argument forward. What has your leader done? Ultimately, what we need to be doing is addressing the big financial questions that will provide for our ageing population and provide the health and social care services we require in these islands. It requires statesmanship and it requires bold ideas. We can do that here in Wales; we have the ambition to do it. I reach out to the other parties to seek common ground within this institution and, above all, reach for the aspirations of people across this country of ours to stay within the union and develop a prosperous and confident nation of Wales.

Gofynnodd hefyd, 'Beth yw ei farn ar is-bwyllgor y Cabinet sy'n cael ei sefydlu?' Rwy'n cymryd ei fod yn cyfeirio at y pwynt yn ymwneud â phwyllgor William Hague. Wrth gwrs, dyna'r ffordd synhwyrol o ddatrys y materion y mae San Steffan yn eu hwynebu ac, yn y pen draw, o ddod o hyd i bolisi cydlynol ar gyfer gweddill y Deyrnas Unedig, ar y cyd â'r addewidion a wnaed i etholwyr yr Alban cyn y refferendwm. Mae honno'n agwedd synhwyrol ac yn ffordd synhwyrol o symud y ddadl hon yn ei blaen. Beth mae'ch arweinydd chi wedi'i wneud? Yn y pen draw, yr hyn y mae angen i ni ei wneud yw mynd i'r afael â'r cwestiynau ariannol mawr a fydd yn darparu ar gyfer ein poblogaeth sy'n heneiddio ac yn darparu'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnom yn yr ynysoedd hyn. Mae'n gofyn am wladweiniaeth ac mae'n gofyn am syniadau beiddgar. Gallwn wneud hynny yma yng Nghymru; mae gennym yr uchelgais i wneud hynny. Rwy'n estyn allan at y pleidiau eraill i chwilio am dir cyffredin yn y sefydliad hwn ac, yn anad dim, rwy'n estyn allan at ddyheadau pobl ledled y wlad hon i aros o fewn yr undeb a datblygu cenedl yng Nghymru sy'n ffyniannus ac yn hyderus.

16:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enwau Jane Hutt ac Aled Roberts.

I call on Kirsty Williams to move amendment 2, tabled in the names of Jane Hutt and Aled Roberts.

*Gwelliant 2—Jane Hutt, Aled Roberts*

*Amendment 2—Jane Hutt, Aled Roberts*

*Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:*

*Delete all and replace with:*

*1. Yn croesawu'r ffaith fod pobl yr Alban wedi dewis aros yn aelod o deulu cenhedloedd y Deyrnas Unedig;*

*1. Welcomes that the Scottish people have chosen to remain a member of the family of nations that is the United Kingdom;*

*2. Yn credu bod yn rhaid inni hyrwyddo undeb newydd ar gyfer holl bobl y DU, gan gynnwys Cymru; a*

*2. Believes that we must promote a new union for all the people of the UK, including Wales; and*

*3. Yn galw am weithredu ar fyrder Rannau 1 a 2 o'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru a sefydlu confensiwn cyfansoddiadol ar draws y DU i ddrafftio cynllun ar gyfer undeb newydd.*

*3. Calls for the swift implementation of Parts 1 and 2 of the Commission on Devolution in Wales and the establishment of a UK-wide constitutional convention to draft a plan for a new union.*

16:25

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 2.

Cynigiaf welliant 2.

I begin by saying that I welcome very much that the people of Scotland were given the opportunity to have their say on the future of their nation; it is only right that, following the election of the SNP Government, they had the opportunity to do so. I am pleased that the result was a 'no' vote, and that Scotland has decided to remain in the union.

Dechreuaf drwy ddweud fy mod yn croesawu'n fawr fod pobl yr Alban wedi cael y cyfle i ddweud eu dweud am ddyfodol eu cenedl; mae'n gwbl briodol, ar ôl ethol Llywodraeth SNP, iddynt gael y cyfle i wneud hynny. Rwy'n falch mai 'na' oedd canlyniad y bleidlais, a bod yr Alban wedi penderfynu aros yn yr undeb.

I think that Leanne Wood is right to say that the levels of engagement during the referendum campaign were indeed remarkable and something that we should aspire to achieve here in Wales. The sight of 16 and 17-year-olds casting their vote on the way to school that morning was fantastic to see, and I hope that we can use that as a platform to ensure that 16 and 17-year-olds across the United Kingdom are able to exercise their democratic rights in future.

Credaf fod Leanne Wood yn gywir i ddweud bod y lefelau o ymgysylltu yn ystod ymgyrch y refferendwm yn wir yn rhyfeddol ac yn rhywbeth y dylem anelu at gyflawni yma yng Nghymru. Roedd yn wych gweld pobl ifanc 16 a 17 oed yn bwrw eu pleidlais ar y ffordd i'r ysgol y bore hwnnw, ac rwy'n gobeithio y gallwn ddefnyddio hynny fel sylfaen i sicrhau bod pobl ifanc 16 a 17 oed ledled y Deyrnas Unedig yn gallu arfer eu hawliau democrataidd yn y dyfodol.

Whatever the result—yes or no—it was clear that things were never going to be the same for anyone in the United Kingdom. What I am also clear on is that something that the 'no' campaign almost failed to do at times, it seems, in Scotland is something that we cannot afford to do here. Those of us who believe in the union have to make a positive case for that union—a reformed union and a new union. If we fail to do so, it will simply pass the initiative to those in Wales, and those outside Wales, who would seek to promote the cause of separation. If we let this opportunity that is in front of us now pass, I believe that that is what will, inevitably, happen.

Beth bynnag y canlyniad—ie neu na—roedd yn amlwg na fyddai pethau byth yr un fath i unrhyw un yn y Deyrnas Unedig. Mae hefyd yn glir i mi fod yr hyn y bu bron i'r ymgyrch 'na' fethu â'i gwneud ar adegau, mae'n ymddangos, yn yr Alban yn rhywbeth na allwn fforddio ei wneud yma. Mae'n rhaid i'r rhai ohonom sy'n credu yn yr undeb gyflwyno achos cadarnhaol ar gyfer yr undeb hwnnw—undeb diwygiedig ac undeb newydd. Os byddwn yn methu â gwneud hynny, ni fyddwn ond yn rhoi'r fantais i'r rhai yng Nghymru, a'r rhai y tu allan i Gymru, a fyddai'n ceisio hyrwyddo achos gwahanu. Os nad ydym yn cymryd y cyfle hwn sydd ger ein bron yn awr, rwy'n credu mai dyna fydd yn digwydd yn anochel.

This new union must ensure that Wales is not treated as second best or as an afterthought after Scotland has been dealt with. We deserve better than that, as I am sure that we would all agree.

Mae'n rhaid i'r undeb newydd hwn sicrhau nad yw Cymru yn cael ei thrin yn eilradd neu fel rhyw fath o ôl-nodyn ar ôl ymdrin â'r Alban. Rydym yn haeddu gwell na hynny, fel rwy'n siŵr y byddem i gyd yn cytuno.

What we also need is a settlement that does what the settlement has not done over the last 14 or so years. We need a settlement here in Wales that delivers certainty, clarity and accountability, and lays to rest these questions for at least a generation, so that we can get on with what the people of Wales truly want us to get on with, which is doing what they need us to do for their families: giving them an opportunity to go to a decent hospital, allowing their children to go and get a decent education in a properly equipped school, and giving those children the opportunity to earn their living to keep a roof over their heads and provide for their families. That is why we need the additional powers—not because it is some vanity project for people here in this room, but because, without those powers, we will not be able to deliver on the aspirations for our constituents and the people of Wales.

Yr hyn sydd ei angen arnom hefyd yw setliad sy'n gwneud yr hyn y mae'r setliad wedi methu â'i gwneud dros y 14 mlynedd diwethaf. Mae angen setliad yma yng Nghymru sy'n darparu sicrwydd, eglurder ac atebolrwydd, gan roi terfyn ar y cwestiynau hyn am o leiaf genhedlaeth, fel y gallwn fwrw ymlaen â'r hyn y mae pobl Cymru yn wir am i ni fynd ymlaen ag ef, sef gwneud yr hyn y maent angen i ni ei wneud ar gyfer eu teuluoedd: rhoi cyfle iddynt fynd i ysbyty da, galluogi eu plant i gael addysg dda mewn ysgol sydd â'r offer priodol, a rhoi'r cyfle i'r plant hynny ennill eu bywoliaeth a chadw to uwch eu pennau a darparu ar gyfer eu teuluoedd. Dyna pam y mae angen y pwerau ychwanegol arnom—nid am ei fod yn rhyw fath o brosiect balchder i bobl yn yr ystafell hon, ond oherwydd, heb y pwerau hynny, ni fyddwn yn gallu cyflawni'r dyheadau ar gyfer ein hetholwyr a phobl Cymru.

I believe that Silk parts 1 and 2 are indeed the basis of how we can act now. I also believe that we can go beyond that. However, let us be clear: we need to establish that, first, there is consensus here in Wales that that is what we want, and, sometimes, I wonder whether it is. I think that we do need to come together, as political leaders and people outside this Chamber, to send a very clear message to Westminster and Whitehall about what we want. If we think that they are sitting there in London just waiting to hand it all over to us, then we are delusional. Whitehall and Westminster have never worked like that; regardless of who is in charge of the Government, they simply do not get it. It goes against every natural instinct that those places have, which is to hoard power for themselves.

Rwy'n credu bod rhannau 1 a 2 Silk yn wir yn sylfaen i sut y gallwn weithredu nawr. Rwyf hefyd yn credu y gallwn fynd ymhellach na hynny. Fodd bynnag, gadewch inni fod yn glir: mae angen i ni benderfynu, yn gyntaf, a oes consensws yma yng Nghymru mai dyna rydym ei eisiau, ac, weithiau, rwy'n amau ai dyna sy'n wir. Credaf fod angen inni ddod at ein gilydd, fel arweinwyr gwleidyddol a phobl y tu allan i'r Siambr hon, er mwyn anfon neges glir iawn i San Steffan a Whitehall ynglŷn â'r hyn rydym ei eisiau. Os ydym yn meddwl eu bod yn eistedd yno yn Llundain yn aros i drosglwyddo'r cyfan i ni, rydym yn twyllo ein hunain. Nid yw Whitehall na San Steffan erioed wedi gwneud hynny; waeth pwy sy'n gyfrifol am y Llywodraeth, yn syml iawn, nid ydynt yn deall. Mae'n mynd yn erbyn holl reddfau naturiol y lleoedd hynny, sef cadw pŵer iddynt hwy eu hunain.

The best chance that we have—the only chance, I would argue—of being able to give those powers that we need to this Government and Assembly is to speak with one voice and to be clear about what we want. It is incumbent on all of us to put aside the political differences, to focus, for once, on what unites us rather than divides us, and to take the Welsh fight to Whitehall, because, if we do not, that opportunity will be lost for a generation, and I suspect that it will begin to be the death knell for the union.

Y cyfle gorau sydd gennym—yr unig gyfle, byddwn yn dadlau—o allu rhoi'r pwerau sydd eu hangen arnom i'r Llywodraeth hon ac i'r Cynulliad hwn yw siarad ag un llais a bod yn glir am yr hyn rydym ei eisiau. Mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom roi'r gwahaniaethau gwleidyddol o'r neilltu, canolbwyntio, am unwaith, ar yr hyn sy'n ein huno yn hytrach na'r hyn sy'n ein gwahanu, a mynd â brwydr Cymru i Whitehall, oherwydd, os nad ydym yn gwneud hynny, bydd y cyfle yn cael ei golli am genhedlaeth, ac rwy'n amau y bydd yn dechrau golygu diwedd yr undeb.

16:30 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Roedd hi'n bleser bod yn bresennol yn y Siambr ddoe, ac roedd yn brofiad ychydig bach yn swreal ond digon pleserus clywed siarad rhwydd am hunanlywodraeth, Keir Hardie a phedair cenedl y wladwriaeth Brydeinig. Yn wir, mae'r tir wedi symud, ac mae cyfle, fel yr oedd Kirsty Williams yn ei ddweud, i Gymru siarad ag un llais. Rwy'n credu bod hynny yn bwysig os ydym eisiau symud pethau yn eu blaen, a hynny yn gyflym. Fodd bynnag, dylem gofio mai un rheswm, ac un rheswm yn unig, sydd am hyn, sef Llywodraeth yr SNP yn yr Alban ac arweinyddiaeth gadarn Alex Salmond a daniodd ddychymyg unigolion a grwpiau ar lawr gwlad drwy'r wlad gan ysgwyd y pleidiau unoliaethol i'w seiliau.

It was a pleasure to be present in the Chamber yesterday, and it was a slightly surreal but enjoyable enough experience to hear people speaking freely about self-government, Keir Hardie and the four nations of the British state. Indeed, the ground has shifted, and there is an opportunity, as Kirsty Williams said, for Wales to speak with one voice. I think that that is important if we want to move things forward, and to do so quickly. However, we should remember that there is one reason, and one reason alone, for this, namely the SNP Government in Scotland and the strong leadership of Alex Salmond, who fired the imagination of individuals and groups on the ground throughout the country, and who shook the unionist parties to their very foundations.

Yma, yng Nghymru, rydym mewn proses o ddiwygio cyllidol a datganoli treth, o ganlyniad i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol gytuno â rhai o argymhellion y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru. Fodd bynnag, yr hyn y mae'n rhaid i ni ei dderbyn yw nad yw'r trethi bychain sy'n cael eu datganoli yn creu unrhyw atebolrwydd ariannol sylweddol i'r sefydliad hwn. Yr unig dreth y gellir ei datganoli yn bragmatig, ac sy'n rhoi atebolrwydd ystyrlon, ydy treth incwm. Bu Plaid Cymru yn ymgyrchu yn erbyn y mecanwaith cloi cyfraddau, sef y 'lockstep' y mynnodd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ei gynnwys yn ei chynigion gwreiddiol am dreth incwm—er, mae'n weddol sicr bellach y bydd hynny'n cael ei ddileu, gobeithio. Mae hynny i'w groesawu'n fawr, ond mae'n gadael problem y refferendwm y mae'r Prif Weinidog yn dal i gredu ei fod yn angenrheidiol.

Here in Wales, we are undergoing a process of financial reform and tax devolution, as a result of the UK Government's agreeing to some of the recommendations of the Commission on Devolution in Wales. However, what has to be accepted is that the small taxes that are being devolved do not create any significant financial accountability for this institution. The only tax that can be devolved pragmatically and functionally, and which delivers meaningful accountability, is income tax. Plaid Cymru has been campaigning against the so-called 'lockstep' mechanism that the UK Government insisted on including in its original proposals for income tax—although it now looks fairly certain that the 'lockstep' will be removed, hopefully. That is to be welcomed, but it leaves the problem of the referendum, which the First Minister still believes is necessary.

Roedd Plaid Cymru yn anghytuno â'r angen am refferendwm. Yn nes ymlaen, bu i ni dderbyn yr argymhelliad yn amodol fel rhan o becyn ehangach Silk, ond mae'r angen i edrych ar y Deyrnas Gyfunol gyfan yn golygu bod yn rhaid symud ymlaen a gwneud hynny'n gyflym. Mae'r Alban yn derbyn system newydd o ddatganoli treth incwm dan Ddeddf yr Alban 2012 heb fod angen refferendwm ar y cwestiwn hwnnw. Mae refferendwm ei hun yn llawn ansicrwydd ynghylch faint o bobl fyddai'n pleidleisio ar fater technegol cyfyng ei apêl. Os ydym wedi dysgu rhywbeth o refferendwm yr Alban, y wers honno yw bod yn rhaid cynnal refferendwm ar faterion pwysfawr a sylfaenol yn unig. Dyna beth sy'n tanio pobl a dychymyg pobl.

Plaid Cymru disagreed with the need for a referendum on income tax devolution. We later accepted the recommendation conditionally, as part of the wider Silk package. However, the need to look at the UK as a whole surely means that we need to move on and do so fairly quickly. Scotland is receiving a new system of income tax devolution under the Scotland Act 2012, without a referendum on that question being required. A referendum itself is also a prospect filled with uncertainty aout the kind of turnout that could be expected on a technical issue of such limited appeal. If we have learned anything from the Scottish referendum, that lesson is that referenda should be confined to major and fundamental issues. That is what fires people and their imagination.

Gan droi at gyllido teg, safbwynt Plaid Cymru erioed oedd bod cyllid teg a chyfrifoldeb am dreth yn mynd gyda'i gilydd ac y dylid eu gweithredu ar yr un pryd. Dyna a argymhellodd comisiwn Holtham yn ei ail adroddiad. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio'r naill i atal y llall.

Turning to fair funding, Plaid Cymru's position has always been that fair funding and tax responsibility go together and should be implemented at the same time. This is what the Holtham commission recommended in its second report. However, one should not be used to prevent the other.

Mae Plaid Cymru yn glir o ran ei gweledigaeth gyfansoddiadol. Os cynigir treth gorfforaeth i'r Alban, rhaid i Gymru dderbyn triniaeth gyfartal. Ni wnaeth y Prif Weinidog, a bod yn deg, troi ei gefn ar hynny ddoe, er bod ganddo ambell amheuaeth, ond rhaid i ni archwilio unrhyw gynnig cyllidol sy'n cael ei wneud i'r Alban gan nodi pa elfennau y byddai'n bosibl neu'n ddichonadwy i'w gwneud yma yng Nghymru.

Plaid Cymru is clear in its constitutional vision. If corporation tax is offered to Scotland, Wales must receive equal treatment. The First Minister, to be fair, did not rule this out yesterday, albeit with certain caveats, but we need to examine any fiscal offer that is made to Scotland and identify which elements would be possible or feasible to be undertaken here in Wales.

I gloi, wrth i ni drafod taith ddemocrataidd Cymru fel cenedl, mae'n rhaid i ni fod yn llai ofnus ynghylch y math o gyfrifoldebau ariannol y mae angen i ni eu hysgwyddo. Mae'n rhaid i ni symud y cloi cyfraddau y cyfeiriais ato er mwyn cael Cynulliad Cenedlaethol sy'n ariannol atebol. Nid oes cywilydd mewn mynnu cyfran deg o adnoddau'r Deyrnas Gyfunol, ond dylem fod yn barod hefyd i dderbyn y cyfrifoldeb sy'n mynd gyda hynny. Gallu derbyn y cyfrifoldeb hwnnw sy'n rhoi'r cyfle i ni wedyn i newid Cymru a newid sefyllfa pobl ar lawr gwlad er gwell.

To conclude, as we debate Wales's democratic journey as a nation, we need to be less cautious about the kind of financial responsibilities we need to undertake. We need to remove the lockstep that I referred to in order to have a National Assembly that is financially accountable. There is no shame in demanding a fair share of UK resources, but we should also be prepared to accept the responsibility that goes along with it. The ability to accept that responsibility is what will give us the opportunity to change Wales and to change the situation of people on the ground for the better.

16:34 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is not natural territory for me, not least because, important though these constitutional debates may be, in the end, they are not the reason I entered politics. When it comes to my overriding concern, which is getting the best possible deal for my constituents, experience tells me that it is delivery far more than process that interests them, and understandably so, in my view.

Nid yw hyn yn diriogaeth naturiol i mi, yn anad dim oherwydd, er bod y dadleuon cyfansoddiadol hyn yn bwysig, yn y pen draw, nid dyma'r rheswm y deuthum i wleidyddiaeth. O safbwynt fy mhrif bryder, sef sicrhau'r fargen orau bosibl i fy etholwyr, mae profiad yn dweud wrthyf mai darpariaeth yn hytrach na'r broses sydd o ddiddordeb iddynt, ac yn ddealladwy felly, yn fy marn i.

However, I was moved to speak today, as to me it feels as though we have seen both the very best and the very worst of British politics in the last few weeks. On the one hand, we saw, in the run-up to the Scottish vote, politicians diametrically divided by party and ideology, putting their differences to one side and uniting when there was something fundamental at stake. We saw, too, David Cameron playing the statesman, delivering powerful and emotional speeches on the importance of the union, which, even to me, seemed genuinely heartfelt. I, too, was enormously relieved at the 'no' vote last week, and yet with the ink barely dry on those referendum ballot papers, with people across the country still breathing a collective sigh of relief, it was seemingly back to politics as normal for the Tory leadership—once again playing political games and once again running scared from Nigel Farage and their own right-wing backbenchers. Let us face it: this is exactly the sort of manoeuvring that saw David Cameron move perilously close to overseeing the break-up of Britain and forever going down as the Prime Minister who lost Scotland.

Fodd bynnag, roedd yn rhaid i mi siarad heddiw, oherwydd i mi mae'n teimlo fel pe baem wedi gweld y gorau a'r gwaethaf o wleidyddiaeth Prydain dros yr wythnosau diwethaf. Ar y naill law, gwelsom, yn y cyfnod yn arwain at y bleidlais yn yr Alban, gwleidyddion a oedd wedi'u rhannu'n gyfan gwbl ar sail plaid ac ideoleg, yn rhoi eu gwahaniaethau o'r neilltu ac yn uno pan oedd rhywbeth sylfaenol yn y fantol. Gwelsom, hefyd, David Cameron yn chwarae'r gwladweinydd, yn traddodi areithiau pwerus ac emosiynol ar bwysigrwydd yr undeb, a oedd, hyd yn oed i mi, yn ymddangos yn wirioneddol ddiffuant. Roeddwn i, hefyd, yn hynod falch o glywed am y bleidlais 'na' yr wythnos diwethaf, ac eto gyda'r inc prin wedi sychu ar bapurau pleidleisio'r refferendwm, gyda phobl ledled y wlad yn dal i anadlu ochenaid o ryddhad ar y cyd, roedd fel pe bai arweinyddiaeth y Torïaid wedi dychwelyd at wleidyddiaeth arferol—unwaith eto yn chwarae gemau gwleidyddol ac unwaith eto yn ofni Nigel Farage ac aelodau adain dde eu meinciau cefn eu hunain. Gadewch inni fod yn blwmp ac yn blaen: dyma'n union y math o wleidydda a olygodd bod David Cameron wedi mynd yn beryglus o agos at wylio Prydain yn chwalu a chael ei gofio am byth fel y Prif Weinidog a gollodd yr Alban.

Refreshing as it was to see an engaged electorate in Scotland, how can we ever hope to convince the cynical if solemn promises on devolving more power are hijacked and derailed by Tories who increasingly act more like the English Democrats on steroids than a political party for the whole of Britain? That is even before you get on to the substantive issues thrown up by the West Lothian question itself, a question that has remained unanswered for the best part of 40 years, precisely because it is inherently so much more complex than simple slogans such as 'English votes for English laws' could ever convey. Indeed, the issues at stake here—the prospect of having two tiers of MPs, ensuring that Wales, Scotland and Northern Ireland have a proper say on overall spending levels, and ultimately avoiding the Balkanisation of Britain—are all issues that are far too important to be decided at a hastily convened party summit at Chequers, with the likes of John Redwood on the guest list.

Er ei bod mor galonogol gweld etholwyr yn cymryd rhan yn yr Alban, sut y gallwn byth obeithio argyhoeddi'r sinigiaid os yw addewidion difrifol ynglŷn â datganoli mwy o rym yn cael eu herwgipio a'u difetha gan Dorïaid sy'n gweithredu fwyfwy fel y Democratiaid Seisnig ar steroidau na phlaid wleidyddol ar gyfer Prydain gyfan? Mae hynny hyd yn oed cyn i chi ystyried y materion sylweddol sy'n deillio o'r cwestiwn West Lothian ei hun, cwestiwn nad oes ateb wedi bod iddo ers bron i 40 mlynedd, a hynny'n union am ei fod yn ei hanfod yn llawer mwy cymhleth nag y gallai sloganau syml megis 'Pleidleisiau Lloegr ar gyfer Cyfreithiau Lloegr' byth ei gyfleu. Yn wir, mae'r materion sydd yn y fantol yma—y posibilrwydd o gael dwy haen o Aelodau Seneddol, sicrhau bod gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon lais priodol ar lefelau gwariant cyffredinol, ac yn y pen draw osgoi Balcaneiddio Prydain—i gyd yn faterion sy'n llawer rhy bwysig i'w penderfynu mewn cynhadledd plaid a gynullwyd ar frys yn Chequers, gyda phobl fel John Redwood ar y rhestr gwahoddedigion.

It is worth remembering, too, that the McKay commission, charged by David Cameron himself with looking at these issues, made it crystal clear that creating second-class MPs was to be avoided at all costs and that, whatever changes take place to deliver more fairness for England, ultimately, all MPs must vote on all issues. Quite frankly, the idea that William Hague and a few Tory party grandees should be allowed to get together in a smoke-filled room and stitch up fundamental constitutional change would be laughable if it were not exactly what the Tories seem to have in mind.

Mae'n werth cofio, hefyd, fod comisiwn McKay, a benodwyd gan David Cameron ei hun i edrych ar y materion hyn, wedi'i gwneud yn gwbl glir bod rhaid osgoi creu ASau eilradd ar bob cyfrif, a bod rhaid i'r holl ASau bleidleisio ar bob mater yn y pen draw, pa bynnag newidiadau a gyflwynir i roi mwy o degwch i Loegr. A bod yn onest, byddai'r syniad y dylai William Hague ac ychydig o fawrion y blaid Dorïaid gael cyfle i ddod at ei gilydd mewn ystafell llawn mwg a threfnu newid cyfansoddiadol sylfaenol yn chwerthinllyd pe na bai yn union yr hyn y mae'r Torïaid fel pe baent yn ystyried ei wneud.

*Andrew R.T. Davies a gododd—*

*Andrew R.T. Davies rose—*

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

I am fearful, too, of what this new paradigm of constitutional uncertainty could mean for Wales and for the Assembly as an institution. This is not because I have a closed mind when it comes to devolving more power to Wales—provided, of course, that we are not again left to cope with the sting in the tail that we have previously seen with the unfunded devolution of council tax benefit and the social fund. I agree that Wales should be an equal partner in any future UK-wide discussions on the future of the constitution, as the First Minister has already set out. However, I have been here since the beginning, and I have sat through the corporate body days, the Richard commission, the Government of Wales Act 2006, the legislative competence Order system, the All-Wales Convention, the referendum, then Silk part 1 and now Silk part 2. I know that it is often said that devolution is a process and not an event, but there is a very real danger that the focus on powers will once again become the only show in town.

Rwy’n pryderu, hefyd, ynglŷn â’r hyn y gallai’r patrwm newydd hwn o ansicrwydd cyfansoddiadol ei olygu i Gymru ac i'r Cynulliad fel sefydliad. Nid yw hyn oherwydd bod gen i feddwl caeëdig ar fater datganoli mwy o rym i Gymru—ar yr amod, wrth gwrs, nad oes rhaid i ni orfod ymdopi unwaith eto â'r tro yn y gynffon rydym wedi'i weld eisoes gyda datganoli budd-dal y dreth gyngor a'r gronfa gymdeithasol heb gyllid. Rwy’n cytuno y dylai Cymru fod yn bartner cyfartal mewn unrhyw drafodaethau ledled y DU ar ddyfodol y cyfansoddiad yn y dyfodol, fel y mae’r Prif Weinidog eisoes wedi’i amlinellu. Fodd bynnag, rwyf wedi bod yma ers y dechrau, ac rwyf wedi eistedd drwy ddyddiau’r corff corfforaethol, comisiwn Richard, Deddf Llywodraeth Cymru 2006, y system Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, y Confensiwn Cymru Gyfan, y refferendwm, yna Silk rhan 1 ac yn awr Silk rhan 2. Gwn y dywedir yn aml mai proses yw datganoli ac nid digwyddiad, ond mae perygl gwirioneddol y bydd y ffocws yn gyfan gwbl ar bwerau unwaith eto.

To me, that is a hugely worrying prospect when we face such massive challenges in our education system, at a time when the health service is under tremendous pressure, and at a time when the biggest shake-up of local government seen for a generation is on the horizon. Whatever the future holds in terms of the balance of power within the UK, the people of Wales will not forgive us if we lose sight of those key challenges, and instead return to the perpetual navel gazing that has sometimes appeared to be the main preoccupation of the Assembly.

I mi, mae hynny'n peri pryder aruthrol a ninnau’n wynebu heriau enfawr yn ein system addysg, ar adeg pan fo’r gwasanaeth iechyd o dan bwysau aruthrol, ac ar adeg pan fo’r ad-drefnu mwyaf ym maes llywodraeth leol ers cenhedlaeth ar y gorwel. Beth bynnag sy’n digwydd yn y dyfodol o ran cydbwysedd grym yn y DU, ni fydd pobl Cymru yn maddau i ni os ydym yn anghofio’r heriau allweddol hynny, ac yn lle hynny yn dychwelyd at yr hunanddadansoddi parhaol sydd weithiau wedi ymddangos i fod yn brif bwyslais y Cynulliad.

16:39

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae’n rhaid imi anghytuno â Lynne Neagle, oherwydd credaf fod ei dadl yn cyflwyno deuoliaeth ffals. Wrth inni drafod y cyfansoddiad, rydym yn trafod ein dyfodol. Wrth inni drafod ein dyfodol, rydym yn trafod sut yr ydym yn llywodraethu ein hunain, ac wrth inni drafod sut yr ydym yn llywodraethu’n hunain, rydym yn trafod, a dweud y gwir, sut yr ydym yn delifro ar gyfer ein pobl ni. Dyna sydd wrth wraidd y ddadl hon.

I must disagree with Lynne Neagle, because I believe that her argument introduced a false dichotomy. As we discuss the constitution, we are discussing our future. As we discuss our future, we are discussing how we govern ourselves, and as we discuss how we govern ourselves, we are discussing, in truth, how we deliver for our people. That is at the heart of this debate.

Hoffwn ganolbwyntio, yn ystod y munudau nesaf, ar yr hyn a wnaed cyn, ond yn sgil, penderfyniad yr Alban. Gwnaed addewid pendant, a arwyddwyd gan arweinwyr y tair plaid, sy’n rhywbeth cwbl newydd mewn gwleidyddiaeth Brydeinig; nid ydym wedi gweld hyn o’r blaen. Rwy’n meddwl y byddai’n braf a gwerthfawr i graffu ar yr addewid honno i weld beth sydd yno hefyd i Gymru, achos rydym i gyd wedi cytuno, yn yr ymateb i’r Alban, fod yr hyn sy’n cael ei gynnig i’r Alban yn mynd i gael ei gynnig i Gymru hefyd. Dyna’r hyn yr ydym yn ei geisio.

I would like to concentrate, during the next few minutes, on what was done before, but as a result of, the Scottish decision. A definite vow was made, signed up to by the leaders of the three parties, which was something entirely new in British politics; we have not seen this before. I do think that it would be good and valuable to scrutinise that vow to see what is there for Wales, because we have all agreed, in the response to Scotland, that what is being proposed for Scotland should be offered to Wales as well. That is all that we are seeking.

Roedd yr addewid wedi ei lleisio mewn termau tair gwarant, fel petai. Roedd y cyntaf yn troi o gwmpas grymoedd ar gyfer Senedd yr Alban, sef, yn gyntaf oll, y dylai fod grymoedd newydd ac yn ail y dylent gael eu delifro cyn yr etholiad cyffredinol nesaf. Yn y cyd-destun hwnnw, mae gennym gyfle yng Nghymru i wneud rhywbeth tebyg. Mae Bil Cymru yn barod gerbron y Senedd yn San Steffan, ac mae modd efallai i wella rhywfaint ar hwnnw i gyflawni argymhellion Silk, o leiaf. Fodd bynnag, fel y dywedodd Kirsty Williams a nifer o bobl eraill, nid yw Silk ynddo'i hun yn ddigon. Nid yw'n ateb i'r hyn sydd wedi digwydd yn sgîl penderfyniad yr Alban, ac felly mae'n rhaid inni adeiladu ar hynny. Rwy'n meddwl bod angen rhoi amserlen cyn etholiadau nesaf y Cynulliad ar gyfer hynny i wneud yn siŵr bod y Cynulliad nesaf yn meddu ar y math o rymoedd â'r sefyllfa sydd yn debyg o ddigwydd yn yr Alban.

The vow was worded in terms of three guarantees, as it were. The first revolved around powers for the Scottish Parliament, namely, first of all, that there should be new powers and secondly that they should be delivered before the next general election. In that context, we in Wales have an opportunity to do something similar. The Wales Bill is already before Parliament at Westminster, and it might be possible to amend that somewhat to deliver the recommendations of Silk, at least. However, as stated by Kirsty Williams and many others, Silk is not in itself enough. It is not a solution to what has happened in the wake of the Scottish decision, and therefore we must build on that. I think that we need to put a timetable for that in place prior to the next Assembly elections, to make sure that the next Assembly will have the same kind of powers as are likely to go to Scotland.

Roedd yr ail ran o'r gwarant yn dweud y bydd Senedd yr Alban, yn ôl y geiriad gwreiddiol, yn 'permanent and irreversible part of the British constitution'. Mae hyn yn gwbl newydd, a dyna pam rwyf eisiau gofyn sut y gallwch chi wneud rhywbeth yn 'permanent and irreversible' mewn termau'r cyfansoddiad Prydeinig, sydd heb ei ysgrifennu? Roeddem yn meddwl bod Bil Hawliau 1689 yn rhywbeth parhaol, ond newidiwyd hwnnw ddwy flynedd yn ôl i ganiatáu i berson Catholig ddod yn frenhines neu'n frenin ar y wlad. Felly, nid oes y fath beth yn bod â rhywbeth sy'n hollol barhaol, oni bai eich bod yn creu Deddf uno newydd, ac oni bai eich bod yn sôn am rywbeth cwbl newydd sy'n cydnabod bod pedair gwlad a chenedl yn y fan hon gyda phedwar syniad o sofraniaeth, a bod, yng nghyd-destun yr hyn a ddigwyddodd yng nghytundeb Caeredin, gan y rhannau hynny yr hawl i ymuno mewn undeb—achos dyna benderfyniad yr Alban, ac nid oes argoel y bydd penderfyniad gwahanol gan Gymru ar hyn o bryd—ond hefyd yr hawl i dynnu allan o'r undeb hwnnw. Dyna'r math o ffederaliaeth yr ydych yn sôn amdano os ydych am greu rhywbeth sy'n barhaol.

The second part of the guarantee was that the Scottish Parliament, to use the original wording, would become a 'permanent and irreversible part of the British constitution'. This is totally new, and that is why I want to ask how you can make something 'permanent and irreversible' in terms of the British constitution, which is not written? We thought that the Bill of Rights 1689 was permanent, but that was changed two years ago to allow a Catholic to become the country's monarch. Therefore, there is no such thing as something that is entirely permanent, unless you create a new Act of union, and unless you are talking about something completely new, which acknowledges that there are four countries and nations here with four concepts of sovereignty, and that, in the context of what happened with the Edinburgh accord, those parts have the right to join together in union—because that is the decision of Scotland, and there is no indication that there will be a different decision in Wales at the current time—but they also have the right to withdraw from that union. That is the kind of federalism that you are talking about if you want to create something that is truly permanent.

O ran yr ail ran o'r gwarant neu'r addewid a wnaed, roeddwn yn meddwl ei bod yn gwbl ddiddorol gweld David Cameron yn arbennig yn arwyddo i hyn, achos dywedwyd yn glir mai pwrpas yr undeb oedd rhannu ein hadnoddau yn gyfiawn—'sharing our resources equitably'. Mae ystyr i 'equitably' sy'n llawer mwy nag 'yr un peth i bawb'. Nid £1 y pen i bawb yn Lerpwl, Caerdydd neu Gaeredin yw 'equitably'; cyfiawn a theg yw 'equitably', sy'n golygu bod yn rhaid cydnabod bod anghysondebau economaidd y tu fewn i'r Deyrnas Gyfunol, a bod yn rhaid cywiro'r rheini y tu fewn i unrhyw gyfundrefn sy'n dilyn hynny.

As regards the second part of the guarantee given or the vow made, I thought that it was extremely interesting to see David Cameron in particular had signed up to this, because it was clearly stated that the purpose of the union was to share our resources equitably. There is a meaning to 'equitably' that is much more than 'everyone getting the same'. 'Equitably' does not mean giving £1 per head to everyone in Liverpool, Cardiff or Edinburgh; just and fair is the meaning of 'equitably', which means that economic disparities within the United Kingdom must be recognised, and must be corrected within any regime that follows.

Mae hynny'n gwneud i mi deimlo bod o leiaf bum egwyddor y dylem eu rhoi gerbron wrth drafod y ffordd ymlaen. Yn gyntaf oll, rhaid i unrhyw bwerau sy'n dod i'r Cynulliad fod yn rhai sy'n adeiladu cenedl ac sy'n adeiladu'r economi. Yn ail, yn sgîl y datganiad o gyfiawnder hwn, rhaid i unrhyw bwerau newydd fod yn rhai sy'n unioni'r sefyllfa gyllidol bresennol lle mae Cymru yn cael ei thanariannu. Yn drydydd, rhaid parchu Cymru fel cenedl a phartner cydradd â'r Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn bedwerydd, rhaid inni weld bod atebolrwydd cyllidol, atebolrwydd o ran penderfyniadau, ac eglurder o ran pwy sy'n gyfrifol am y penderfyniadau yn y cyd-destun hwn. Yn bumed, rhaid inni chwilio am bwerau sy'n adeiladu cymdeithas fwy cyfiawn. Dyna'r egwyddorion y byddwn yn hoffi iddynt gael eu defnyddio wrth benderfynu ar ba bwerau sy'n ddyledus ac sy'n briodol yn awr i Gymru.

That makes me feel that there are at least five principles that we should take forward in discussing how we progress from here. First of all, any powers coming to the Assembly must be ones that build a nation and build the economy. Secondly, in the light of this statement about justice, any new powers must be ones that rectify the current fiscal position in which Wales is underfunded. Thirdly, Wales as a nation must be respected and seen as a partner equal to Scotland, England and Northern Ireland. Fourthly, we must see fiscal accountability, accountability for decisions, and clarity about who is responsible for making decisions in this new context. Fifthly, we must seek new powers that build a more just society. Those are the principles that I would like to see adopted in determining which powers are now due and would appropriately come to Wales.

16:44 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I also welcome the decision made in Scotland by the Scottish people, by an overhelming majority of over 400,000 people. If 'Yes' had succeeded, Scotland would have needed to create a new currency, perhaps called the Scottish pound. New Scottish passports would have needed to be created. Scotland would have had to reapply to the European Union for membership with the near certainty of rejection. A 'Yes' vote in Scotland could have led to the Balkanisation of the whole of western Europe. Market reaction would have been the opposite of a rise in the pound and share prices. Last year, I led a backbench debate on the reserved powers model. I do not want to repeat the long list I gave of the countries in Europe that have embraced the reserved powers model, so, suffice it to say, it is the preferred model across Europe. Britain, when it set up devolution, embraced the asymmetric devolution model, based on what had been done in Spain. Catalonia had far greater powers than almost anywhere else in Spain, the Basque country had greater powers and some of the other regions had substantially fewer. Spain is now moving towards symmetry. In recent times, the difference between the powers devolved has become reduced as further responsibility has been devolved to all regions.

Croesawaf hefyd y penderfyniad a wnaed yn yr Alban gan bobl yr Alban, gan fwyafrif helaeth o dros 400,000 o bobl. Pe bai'r ymgyrch 'Ie' wedi llwyddo, byddai'r Alban wedi gorfod creu arian newydd, efallai o'r enw punt yr Alban. Byddai pasbortau newydd yr Alban wedi gorfod cael eu creu. Byddai'r Alban wedi gorfod gwneud cais newydd i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, a fyddai bron yn sicr o gael ei wrthod. Gallai pleidlais 'Ie' yn yr Alban fod wedi arwain at Falcaneiddio gorllewin Ewrop i gyd. Byddai adwaith y farchnad wedi bod yn gwbl groes i gynnydd yn y bunt a phrisiau cyfranddaliadau. Flwyddyn ddiwethaf, arweiniais ddadl meinciau cefn ar y model cadw pwerau. Nid wyf am ailadrodd y rhestr hir a gyflwynais o'r gwledydd yn Ewrop sydd wedi mabwysiadu'r model cadw pwerau, felly, digon yw dweud, hwn yw'r model a ddewisir ledled Ewrop. Pan sefydlwyd datganoli ym Mhrydain, mabwysiadwyd y model datganoli anghymesur, yn seiliedig ar yr hyn a oedd wedi ei wneud yn Sbaen. Roedd gan Gatalonia lawer mwy o bwerau na bron unman arall yn Sbaen, roedd gan wlad y Basg fwy o bwerau ac roedd gan rai o'r rhanbarthau eraill gryn dipyn yn llai o bwerau. Mae Sbaen yn symud tuag at gymesuredd erbyn hyn. Yn ddiweddar, mae'r gwahaniaeth rhwng y pwerau datganoledig wedi'i leihau wrth i ragor o gyfrifoldeb gael ei ddatganoli i'r holl ranbarthau.

If we look at the United States of America, as we often do on many things, we see that state size varies from California with 38 million people and Texas with more than 26 million people to Vermont with just over 600,000 people and Wyoming with less than 600,000 people. The last two, as I always point out, are smaller than the Swansea city region. What do not vary are state powers. The number of senators they have also does not vary. I recently outlined my support for the Northern Ireland model, under which section 4 of the Northern Ireland Act 1998 allows the Secretary of State to devolve areas listed as reserved matters in the Act provided that a resolution has been passed by the Northern Ireland Assembly. This has stopped the big bang method of everything being devolved in one go. When two thirds of the Members of the Northern Ireland Assembly wish to have items devolved to them, a vote by that body moves those powers to being devolved. Has it worked? Yes. Additional legislative power relating to policing and justice matters were devolved to the Northern Ireland Assembly last year following a resolution of that body.

Os edrychwn ni ar Unol Daleithiau America, fel rydym yn ei wneud yn aml wrth ystyried sawl peth, rydym yn gweld bod maint y taleithiau'n amrywio o Galifornia sydd â 38 miliwn o bobl a Texas sydd â thros 26 miliwn o bobl i Vermont sydd ag ychydig dros 600,000 o bobl a Wyoming sydd â llai na 600,000 o bobl. Mae'r ddwy olaf, fel y nodaf bob tro, yn llai na rhanbarth dinas Abertawe. Yr hyn nad yw'n amrywio yw bwerau'r taleithiau. Nid yw nifer y Seneddwyr sydd ganddynt yn amrywio chwaith. Yn ddiweddar, amlinellais fy nghefnogaeth i fodel Gogledd Iwerddon. Mae adran 4 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddatganoli meysydd sy'n cael eu rhestru yn y Ddeddf yn faterion a gadwyd yn ôl ar yr amod bod penderfyniad wedi'i basio gan Gynulliad Gogledd Iwerddon. Mae hyn wedi atal y dull o ddatganoli popeth ar unwaith. Pan fydd dwy ran o dair o Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon yn dymuno cael eitemau wedi'u datganoli iddynt, mae pleidlais gan y corff hwnnw yn pasio datganoli'r pwerau hynny. A yw wedi gweithio? Ydy. Cafodd pwerau deddfwriaethol ychwanegol yn ymwneud â materion plismona a chyfiawnder eu datganoli i Gynulliad Gogledd Iwerddon y llynedd yn dilyn penderfyniad gan y corff hwnnw.

The English question will not go away and cannot be answered by creating first and second-class members of the Westminster Parliament. It will have to be addressed, which is one of the reasons why we need a constitutional convention to end asymmetric devolution and deal with the problems in England. It needs to be made up not just of the usual suspects. It needs to involve interested individuals as well as politicians and academics. We also need to decide what should be provided in each sphere of government. May I take you back to a word that, in 1990s and the early 2000s, was very popular: 'subsidiarity'? The subsidiarity principle is based on the idea that decisions must be taken as closely as possible to citizens. The European Union brought it in. The principle says that the European Union should not undertake action, except on matters for which it alone is responsible, unless EU action is more effective than action taken at national, regional or local level. We need to decide what should be provided where. Devolution cannot stop at Cardiff bay. It cannot just be a case of moving powers from Westminster to Cardiff bay and then stopping. I am going to suggest a novel approach: we decide in which sphere of government a decision is best made and then allow that sphere of government to deal with it. It may be Westminster, it may be here and, dare I say it, it may actually be local government. We need a showing of mutual respect, not just by Westminster to the Assembly but also by the Assembly to principal councils and by principal councils to community councils. In 10 years' time, we need to look back and be able to say that we have most, if not all, decisions made at the appropriate level. Would anyone say that we are there today?

Ni fydd cwestiwn Lloegr yn diflannu ac ni ellir ei ateb drwy greu aelodau Senedd San Steffan sylfaenol ac eilradd. Bydd yn rhaid mynd i'r afael â'r mater hwn, a dyna un o'r rhesymau pam y mae angen confensiwn cyfansoddiadol arnom i roi terfyn ar ddatganoli anghymesur ac ymdrin â'r problemau yn Lloegr. Mae angen iddo gynnwys mwy na'r bobl arferol. Mae angen iddo gynnwys unigolion sydd â diddordeb yn ogystal â gwleidyddion ac academyddion. Mae angen i ni benderfynu hefyd beth sydd angen ei ddarparu ar bob lefel o lywodraeth. A gaf fi fynd â chi yn ôl at air a oedd yn boblogaidd iawn yn y 1990au a'r 2000au cynnar: 'sybsidiaredd'? Mae egwyddor sybsidiaredd yn seiliedig ar y syniad bod rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud mor agos â phosibl at y dinasyddion. Fe'i cyflwynwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r egwyddor yn datgan na ddylai'r Undeb Ewropeaidd weithredu, ac eithrio ar faterion y mae'n gyfrifol amdanynt ar ei ben ei hun, oni bai bod camau'r UE yn fwy effeithiol na chamau a gymerir ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol. Mae angen i ni benderfynu beth a ddylai gael ei ddarparu yma. Ni all datganoli orffen ym mae Caerdydd. Ni ellir ei gyfyngu i symud pwerau o San Steffan i Fae Caerdydd ac wedyn stopio. Rwy'n mynd i awgrymu dull newydd: rydym yn penderfynu pa lefel o lywodraeth sydd fwyaf priodol i wneud penderfyniad ac yna'n gadael i'r lefel honno o lywodraeth ymdrin ag ef. Gall fod yn San Steffan, gall fod yn fan hyn a, mentraf ddweud, efallai mai llywodraeth leol fydd y lle priodol mewn gwirionedd. Mae angen parch gan y naill at y llall, nid yn unig gan San Steffan at y Cynulliad, ond hefyd gan y Cynulliad at y prif gynghorau a chan y prif gynghorau at y cynghorau cymuned. Ymhen 10 mlynedd, mae angen i ni edrych yn ôl a gallu dweud bod y rhan fwyaf, os nad pob un, o'r penderfyniadau yn cael eu gwneud ar y lefel briodol. A fyddai unrhyw un yn dweud mai dyna'r sefyllfa heddiw?

16:48

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Last week's referendum may have been lost, but it has certainly delivered a fatal blow to the stagnated political order in the UK. While negotiations about greater powers are under way, it is vital that we also consider the relationship between the nations of the UK. If, as the First Minister said, we are to understand the UK not as a single nation but rather a multi-nation state, we need to reconsider how the individual national Governments work together on the issues at UK level. Greater co-operation between the national Governments is vital to ensure that each nation is given a voice. Following the Scottish referendum, a number of issues have been put back on the agenda. The West Lothian question is causing considerable consternation among English politicians of all parties, and it remains unclear how it is to be resolved despite the many valiant attempts over the years. A federal solution is often mooted, presumably with the aspiration of creating a stable and enduring system, with proponents pointing to the many examples of federal systems working around the world, but none of those have the imbalance of just one member being so enormous compared with the others. With England having 80% of the population of the UK, I wonder whether the federal system could ever be stable.

Efallai i'r refferendwm gael ei golli'r wythnos diwethaf, ond mae wedi rhoi ergyd farwol yn ddi-os i'r drefn wleidyddol sydd wedi aros yn ei hunfan yn y DU. Tra bod trafodaethau ynghylch mwy o bwerau ar y gweill, mae'n hanfodol ein bod hefyd yn ystyried y berthynas rhwng cenhedloedd y DU. Os, fel y dywedodd y Prif Weinidog, y dylem ystyried y DU nid yn genedl unigol ond yn hytrach yn wladwriaeth aml-genedl, mae angen i ni ailystyried sut mae'r Llywodraethau cenedlaethol unigol yn cydweithio ar faterion ar lefel y DU. Mae rhagor o gydweithredu rhwng y Llywodraethau cenedlaethol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob cenedl yn cael llais. Yn dilyn refferendwm yr Alban, mae nifer o faterion wedi cael eu rhoi yn ôl ar yr agenda. Mae'r cwestiwn West Lothian yn achosi cryn benbleth i wleidyddion o Loegr o bob plaid, ac nid yw'n glir o hyd sut y caiff ei ddatrys er gwaethaf y nifer o ymdrechion glew dros y blynyddoedd. Mae ateb ffederal yn cael ei grybwyll yn aml, mae'n debyg gyda'r dyhead o greu system sefydlog a pharhaus, ac mae'r rhai sydd o'i blaid yn cyfeirio at yr enghreifftiau niferus o systemau ffederal llwyddiannus ledled y byd, ond nid oes gan unrhyw un o'r rheini'r anghydbwysedd o gael un aelod enfawr o gymharu â'r lleill. O ystyried bod 80% o boblogaeth y DU yn byw yn Lloegr, tybed a allai'r system ffederal fyth fod yn sefydlog?

There is the prospect of a Parliament for England, even that the UK Parliament becomes an English Parliament for part of the week. This, of course, would serve the political class interests only. How does that enfranchise the English nation? If it wants its own Parliament, I am sure that it would want separate elections that would allow it to vote differently if it wanted to do so, to its UK Parliament votes. The voter who always votes for the same party at all elections at all times is getting rarer.

Ceir y posibilrwydd o Senedd i Loegr, a hyd yn oed y posibilrwydd bod Senedd y DU yn dod yn Senedd i Loegr am ran o'r wythnos. Byddai hyn, wrth gwrs, o fudd i'r dosbarth gwleidyddol yn unig. Sut mae hynny'n rhyddfreinio cenedl Lloegr? Os yw am gael ei Senedd ei hun, rwy'n siŵr y byddai am gael etholiadau ar wahân a fyddai'n caniatáu iddi bleidleisio yn wahanol i'w phleidleisiau yn Senedd y DU, pe bai am wneud hynny. Mae'r pleidleisiwr sydd bob tro'n pleidleisio i'r un blaid ym mhob etholiad bob amser yn mynd yn brinnach.

When we created this institution, how ridiculous would it have been to have Welsh MPs doing this job for half of the week and doing their other jobs for the other half of the week? Would that have satisfied the Welsh call for devolution? No, because it is silly. Yes, UKIP, I think, has suggested it, but I do not think that even that party really believed that it was a credible option. It would actually create more questions than it answers. In my experience, simple solutions to complex problems rarely work and usually create more problems.

Pan aethom ati i greu'r sefydliad hwn, pa mor chwerthinllyd fyddai hi wedi bod i gael ASau o Gymru yn gwneud y swydd hon am hanner yr wythnos ac yn gwneud eu swyddi eraill am hanner arall yr wythnos? A fyddai hynny wedi bodloni'r galw am ddatganoli yng Nghymru? Na fyddai, gan ei fod yn wirion. Ie, mae UKIP, rwy'n credu, wedi awgrymu hynny, ond nid wyf yn credu bod hyd yn oed y blaid honno'n credu ei fod yn opsiwn credadwy. Byddai mewn gwirionedd yn codi mwy o gwestiynau nag atebion. Yn fy mhrofiad i, anaml iawn y mae atebion syml i broblemau cymhleth yn llwyddo, ac fel arfer maent yn creu mwy o broblemau.

It is likely that a satisfactory answer will not be found immediately, and the enfranchisement of English voters is essential. That is a matter for the English, I know. Although, it is vital that increased powers for Scotland and Wales are not delayed by a failure to reach consensus on the future of England's democracy, I think that that is important.

Mae'n debygol na fydd modd dod o hyd i ateb boddhaol ar unwaith, ac mae rhyddfreinio pleidleiswyr o Loegr yn hanfodol. Mater i'r Saeson yw hynny, rwy'n gwybod. Er, mae'n hanfodol nad yw pwerau ychwanegol ar gyfer Cymru a'r Alban yn cael eu gohirio gan fethiant i gyrraedd consensws ar ddyfodol democratiaeth Lloegr, credaf fod hynny'n bwysig.

Whatever the West Lothian solution arrived at, it must accommodate the national Governments inside a wider partnership. The current set-up, in which the Governments of Wales, Scotland and Northern Ireland have very little say in the policy areas that are the primary responsibility of the UK Government, is unstable and it leaves the smaller nations without an adequate say on the issues that affect them.

Beth bynnag fydd yr ateb i'r cwestiwn West Lothian, mae'n rhaid iddo ddarparu ar gyfer y Llywodraethau cenedlaethol oddi mewn i bartneriaeth ehangach. Mae'r sefyllfa bresennol, lle mai ychydig iawn o ddylanwad sydd gan Lywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar y meysydd polisi sydd yn brif gyfrifoldeb Llywodraeth y DU, yn ansefydlog ac mae'n gadael y cenhedloedd llai heb lais digonol ar y materion sy'n effeithio arnynt.

Perhaps the joint ministerial committee could be reformed so that agreement can be sought between the national Governments on UK matters that are the primary responsibility of the UK Government, and perhaps more opportunity for communication and co-operation will also mean that, in policy areas where agreements cannot be reached, arrangements can be made to accommodate that disagreement. A new JMC should meet at least quarterly and act as a forum for Ministers to meet to discuss their specific policy areas. Formalising and structuring the relationship between the nations will mean that politicians can be held to account for representing the interests of the citizens of their individual nations.

Efallai y gellid diwygio'r cydbwyllgor gweinidogion er mwyn ceisio sicrhau cytundeb rhwng y Llywodraethau cenedlaethol ar faterion y DU sy'n brif gyfrifoldeb Llywodraeth y DU, ac efallai y bydd mwy o gyfle ar gyfer cyfathrebu a chydweithio hefyd yn golygu, mewn meysydd polisi lle na ellir dod i gytundeb, bod modd gwneud trefniadau i ddarparu ar gyfer yr anghytundeb. Dylai cydbwyllgor gweinidogion newydd gyfarfod o leiaf bob chwarter a gweithredu fel fforwm i Weinidogion gyfarfod i drafod eu meysydd polisi penodol. Bydd ffurfioli a strwythuro'r berthynas rhwng y cenhedloedd yn golygu y gall gwleidyddion fod yn atebol am gynrychioli buddiannau dinasyddion eu gwledydd unigol.

It is very difficult to predict the final result of the negotiations following the Scottish referendum, but it is vital that we do not let this opportunity for Wales's place within the UK to be redefined slip by without seizing that opportunity. I want to see Wales taking its place as an equal partner in a system where every nation has its voice.

Mae'n anodd iawn rhagweld canlyniad terfynol y trafodaethau yn dilyn refferendwm yr Alban, ond mae'n hanfodol nad ydym yn methu'r cyfle hwn i ailddiffinio lle Cymru yn y DU. Rwyf am weld Cymru yn cymryd ei lle fel partner cyfartal mewn system lle mae gan bob cenedl ei llais.

16:53

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Prif Weinidog.

Galwaf ar y Prif Weinidog.

16:53

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I thank Members for their contributions and I speak, in part, to the second amendment on the order paper.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau ac rwy'n siarad, yn rhannol, am yr ail welliant ar bapur y drefn.

I did not think that the time would come when even I would become slightly jaded with another debate on the constitution. I am trying to find something original to say, given what was said yesterday and last week and, indeed, the week before that.

Nid oeddwn yn meddwl y byddai'r amser yn dod pan fyddwn i hyd yn oed yn blino ychydig ar ddadl arall ar y cyfansoddiad. Rwy'n ceisio dod o hyd i rywbeth gwreiddiol i'w ddweud, o ystyried yr hyn a ddywedwyd ddoe a'r wythnos diwethaf ac, yn wir, yr wythnos cyn hynny.

I note, of course, having listened to the leader of Plaid Cymru, that the independence referendum that she was so strongly advocating last week appears not to be on the agenda this week. Although, I take note of what is said in the Plaid motion about the issue of sovereignty. This is a very muddled concept, of course, in British constitutional law. Sovereignty, it is said, rests with Parliament, yet, there is a clear right of secession, which was exercised by the Irish free state in 1920. It was almost exercised by Scotland last week and it is there to be exercised as part of the Good Friday agreement by the people of Northern Ireland, should they so wish. That much is true, but it is clear from the opinion polls that the people of Wales would exercise any such sovereignty in wanting to stay within the UK.

Nodaf, wrth gwrs, ar ôl gwrando ar arweinydd Plaid Cymru, nad yw'n ymddangos bod y refferendwm ar annibyniaeth yr oedd hi'n dadlau mor gryf o'i blaid yr wythnos diwethaf ar yr agenda'r wythnos hon. Er, rwy'n nodi'r hyn a ddywedir yng nghynnig Plaid Cymru ynglŷn â mater sofraniaeth. Mae hwn yn gysyniad dryslyd iawn, wrth gwrs, yng nghyfraith gyfansoddiadol Prydain. Mae sofraniaeth, dywedir, yn perthyn i'r Senedd, ac eto, mae hawl ymwahaniad clir, a gafodd ei harfer gan wladwriaeth rydd Iwerddon ym 1920. Bu bron iddi gael ei harfer gan yr Alban yr wythnos diwethaf ac mae yno i gael ei harfer fel rhan o gytundeb Gwener y Groglith gan bobl Gogledd Iwerddon, os ydynt yn dymuno. Mae hynny'n wir, ond mae'n glir o'r polau piniwn y byddai pobl Cymru yn arfer unrhyw sofraniaeth o'r fath wrth ddymuno aros yn y DU.

May I turn to the contribution of the leader of the opposition? I have to say that I am still none the wiser as to where he stands. He seemed to be saying that there can be no constitutional convention unless England decides what it wants beforehand. The whole point of a constitutional convention is to allow that issue to be resolved as part of an entire UK constitutional convention, not to say that, unless England gets its act together, nobody else is able to put forward ideas. That much is wrong. May I also say that he said to me, when yesterday I made the suggestion that there should be a convention, that it was little more than a committee, and his suggestion is not a committee, in fairness, it is a sub-committee: a Cabinet sub-committee? That, apparently, is the answer to all the ills of the UK constitution. It is not good enough to say that a Westminster Cabinet sub-committee is the only means of resolving the major constitutional questions that affect the whole of the UK and four Governments.

A gaf fi droi at gyfraniad arweinydd yr wrthblaid? Mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf yn gwybod o hyd beth yw ei safbwynt. Roedd yn ymddangos ei fod yn dweud na ellir cynnal unrhyw gonfensiwn cyfansoddiadol oni bai bod Lloegr yn penderfynu beth y mae'n dymuno ei gael ymlaen llaw. Holl ddiben confensiwn cyfansoddiadol yw caniatáu i'r mater gael ei ddatrys fel rhan o gonfensiwn cyfansoddiadol y DU gyfan, nid i ddweud, oni bai bod Lloegr yn penderfynu beth yw ei safbwynt, na all neb arall gyflwyno syniadau. Mae hynny'n anghywir. A gaf fi ddweud hefyd ei fod wedi dweud wrthyf, pan awgrymais ddoe y dylid cael confensiwn, na fyddai hynny'n fwy na phwyllgor, ac nad pwyllgor yw ei awgrym ef, mewn gwirionedd, ond is-bwyllgor: is-bwyllgor y Cabinet? Dyna, mae'n debyg, yw'r ateb i holl broblemau cyfansoddiad y DU. Nid yw'n ddigon da i ddweud mai is-bwyllgor y Cabinet yn San Steffan yw'r unig ffordd o ddatrys y prif gwestiynau cyfansoddiadol sy'n effeithio ar y DU gyfan a'r pedair Llywodraeth.

16:55

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As per usual, the First Minister is mixing my words. The point that I was making was specific—[Interruption.] That is a bit rich on a day when only 3% support independence. The point that I was making was quite clear: the route that the Prime Minister set out last Friday is, of course, the right and proper way to deal with this issue before the general election. The issue that you have talked about—a constitutional convention—is a completely separate issue and you are mixing the two up just to confuse people.

Fel arfer, mae'r Prif Weinidog yn cymysgu fy ngeiriau. Roeddwn yn gwneud pwynt penodol—[Torri ar draws.] Mae hynny braidd yn chwerthinllyd ar ddiwrnod pan mai dim ond 3% sy'n cefnogi annibyniaeth. Mae'r pwynt roeddwn yn ei wneud yn eithaf clir: y llwybr a gyflwynodd Brif Weinidog y DU ddydd Gwener ddiwethaf yw, wrth gwrs, y ffordd gywir a phriodol o ymdrin â'r mater hwn cyn yr etholiad cyffredinol. Mae'r mater rydych chi wedi sôn amdano—confensiwn cyfansoddiadol—yn fater hollol ar wahân ac rydych yn cymysgu'r ddau i ddrysu pobl yn unig.

16:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I have no idea what the sub-committee is meant to do, because it has never been stated. Apparently, it is meant to talk about English votes on English laws. This has had no engagement with devolved Governments at all, and that is not the way to move these things forward. It smacks of the complacency that exists in his party and almost lost the union in the first place. That is the point: the establishment almost losing the union and the people now need to rebuild it. That is what we need. A sub-committee of the Westminster Cabinet will not do it. It is a sticking plaster that is being applied to a serious injury.

Nid oes gennyf unrhyw syniad beth mae’r is-bwyllgor i fod i'w wneud, gan nad yw hynny wedi’i nodi erioed. Yn ôl pob sôn, dylai drafod pleidleisiau Lloegr ar gyfer cyfreithiau Lloegr. Nid yw hwn wedi cael unrhyw ymgysylltiad â’r Llywodraethau datganoledig o gwbl, ac nid dyna'r ffordd i symud y pethau hyn ymlaen. Mae'n arwydd o'r hunanfodlonrwydd sy'n bodoli yn ei blaid ac a oedd bron â cholli’r undeb yn y lle cyntaf. Dyna'r pwynt: bu bron i’r sefydliad golli’r undeb ac mae’n rhaid i’r bobl ei ailadeiladu yn awr. Dyna sydd ei angen arnom. Ni fydd is-bwyllgor y Cabinet yn San Steffan yn ei wneud. Mae'n ateb dros dro i broblem ddifrifol.

May I also say that, as far as the other issue that he mentioned is concerned, in terms of when this should happen, he seemed to be saying that, in an act of urgency and dynamism, nothing should happen for two years? That is what he said. Until after the elections here in 2016, nothing whatsoever should happen in terms of looking at a UK constitutional convention. That is, I have to say, one of the most complacent things that I have heard from any politician anywhere in the UK in the aftermath of the Scottish referendum. I have said many times what I believe and what many people believe should be the way forward. It is for others to agree or not with that view, but, nevertheless, I have put that detailed view forward and it is encapsulated in the amendment that we have put before the National Assembly.

A gaf fi ddweud hefyd, o ran y mater arall a grybwyllodd, o safbwynt pryd y dylai hyn ddigwydd, roedd yn ymddangos fel pe bai’n dweud, mewn gweithred o frys a brwdfrydedd, na ddylai unrhyw beth ddigwydd am ddwy flynedd? Dyna'r hyn a ddywedodd. Na ddylai unrhyw beth o gwbl ddigwydd o ran edrych ar gonfensiwn cyfansoddiadol y DU tan ar ôl yr etholiadau yma yn 2016. Dyna, mae’n rhaid i mi ddweud, yw un o'r pethau mwyaf hunanfodlon rwyf wedi’i glywed gan unrhyw wleidydd yn unrhyw le yn y DU yn dilyn refferendwm yr Alban. Rwyf wedi dweud sawl gwaith beth y dylai’r ffordd ymlaen fod yn fy marn i a llawer o bobl eraill. Mater i bobl eraill yw cytuno neu anghytuno â'r farn honno, ond, serch hynny, rwyf wedi rhoi’r safbwynt manwl hwnnw gerbron ac mae'n cael ei grynhoi yn y gwelliant rydym wedi'i roi gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

I listened to what the leader of the Liberal Democrats said. There was nothing that she said that I could disagree with. She has, of course, resurrected her party’s former call for home rule. She will notice that I have shamelessly adopted that as well, and I think that it is something that we can explain to the people of Wales as meaning entrenched devolution without independence.

Gwrandewais ar yr hyn a ddywedodd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol. Nid oedd unrhyw beth a ddywedodd y gallwn anghytuno ag e. Mae hi, wrth gwrs, wedi atgyfodi hen alwad ei phlaid am hunanlywodraeth. Bydd hi’n sylwi fy mod wedi mabwysiadu hynny’n ddigywilydd hefyd, a chredaf y gallwn egluro i bobl Cymru mai ystyr hynny yw datganoli sydd wedi ymwreiddio heb annibyniaeth.

May I turn to what my colleague Lynne Neagle said? She is absolutely right to say that much time has been taken over the past 15 years in looking at the issues of powers and devolution. It is why we need a convention, so that these issues can be resolved, rather than spending many months and years looking at incremental devolution. It is much better that this should be dealt with in a way that engages all the people and the Governments of the UK. One thing that I would disagree with her about, respectfully, is her suggestion that David Cameron was statesmanlike. I do not know whether ‘effing Tories’ is now registered with the Electoral Commission as a party, but I do know that if I asked my colleagues in the 2016 election to stand for election and have my name and photograph on their leaflets while I had called their party ‘effing Welsh Labour’ I am not sure that I would have got much support. However, it shows how bad things have become in Scotland that the Prime Minister, in his last visit to Scotland, had to say to the people of Scotland, effectively, ‘We know you hate us, but don’t kick us now, kick us in May.’ That is how bad things have become for the Conservatives in Scotland.

A gaf fi droi at yr hyn a ddywedodd fy nghyd-Aelod, Lynne Neagle? Mae hi’n gwbl gywir i ddweud bod llawer o amser wedi’i dreulio dros y 15 mlynedd diwethaf yn edrych ar faterion yn ymwneud â phwerau a datganoli. Dyna pam mae angen confensiwn arnom, fel bod modd datrys y materion hyn, yn hytrach na threulio misoedd a blynyddoedd lawer yn edrych ar ddatganoli cynyddol. Mae'n llawer gwell ymdrin â hyn mewn ffordd sy'n ymgysylltu â holl bobl a Llywodraethau'r DU. Un peth y byddwn yn anghytuno â hi yn ei gylch, gyda phob parch, yw ei hawgrym bod David Cameron yn wladweinydd. Nid wyf yn gwybod a yw 'effing Torïaid' wedi ei chofrestru fel plaid gyda'r Comisiwn Etholiadol bellach, ond rwy’n gwybod, pe bawn yn gofyn i’m cyd-Aelodau yn etholiad 2016 sefyll ar gyfer yr etholiad gyda fy enw a’m llun ar eu taflenni a minnau wedi rhoi’r enw 'Effing Llafur Cymru' ar eu plaid, nid wyf yn meddwl y byddwn wedi cael llawer o gefnogaeth. Fodd bynnag, mae'n dangos pa mor ddrwg yw’r sefyllfa yn yr Alban pan oedd yn rhaid i Brif Weinidog y DU, yn ystod ei ymweliad olaf â'r Alban, ddweud wrth bobl yr Alban, i bob diben, "Rydym yn gwybod eich bod yn ein casáu ni, ond peidiwch â’n cicio yn awr, ciciwch ni ym mis Mai.' Dyna pa mor ddrwg y mae pethau i'r Ceidwadwyr yn yr Alban.

A gaf i droi at yr hyn a ddywedodd Simon Thomas? Mae’n iawn i ddweud nad oes gwarant yn y cyfansoddiad. Nid yw’n bosibl ar hyn o bryd. Mae’n rhaid cael rhywbeth ysgrifenedig er mwyn dweud hynny, ac mae hynny’n rhywbeth pwysig. Ar hyn o bryd, mae Senedd San Steffan yn gallu gwneud beth bynnag y mae Senedd San Steffan am ei wneud, ac mae hynny’n gorfod newid. Mae’r hyn a ddywedodd am adnoddau yn hollol wir. Mae’r ffordd mae adnoddau’n cael eu rhoi ar draws y Deyrnas Unedig yn dibynnu ar le mae’r angen, ac mae hynny’n bwysig dros ben. Mae hynny’n rhan, wrth gwrs, o’r addewid a gafodd ei wneud gan arweinwyr y pleidiau.

May be turn to what Simon Thomas said? It is right to say that there is no guarantee in the constitution. It is not possible at present. We need to have something written in order to say that, and that is important. At present, the Westminster Parliament can do what it wants, and that has to change. What he said about resources is completely true. The way in which resources are distributed across the UK depends on where the need is, and that is very important. That is part, of course, of the vow that was made by the party leaders.

To turn to what my colleague Mike Hedges said, he referred to the Northern Ireland model. The only thing that I will say is that there are two points to make here. First of all, I would be very wary of any model where the Secretary of State, whoever that might be, is basically giving the go-ahead to further devolution. It gives the impression that, somehow, we have to behave in a certain way before we get it. He is right to say of Northern Ireland that the reason why the model is different there is because of the issues particularly with regard to policing and justice, where you had 40% and more of the population who did not believe that the police and justice systems were objective. The need to build confidence, cross-community, in justice and policing meant that that devolution could only happen when the time was right. That is what happened in Northern Ireland; the Police Service of Northern Ireland was set up, and that got much greater community buy-in than the previous policing set-ups in Northern Ireland. Justice was then devolved.

I droi at yr hyn a ddywedodd fy nghyd-Aelod, Mike Hedges, cyfeiriodd at fodel Gogledd Iwerddon. Yr unig beth y byddaf yn ei ddweud yw bod angen gwneud dau bwynt yn y cyswllt hwn. Yn gyntaf, byddwn yn amheus iawn o unrhyw fodel lle mai'r Ysgrifennydd Gwladol, pwy bynnag yw’r unigolyn hwnnw, sy’n rhoi'r golau gwyrdd i ddatganoli pellach yn y bôn. Mae'n rhoi'r argraff, rywsut, bod rhaid i ni ymddwyn mewn ffordd arbennig cyn i ni ei gael. Mae'n gywir i ddweud mai'r rheswm pam y mae'r model yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon yw oherwydd y problemau penodol yn ymwneud â phlismona a chyfiawnder, lle'r oedd gennych 40% a mwy o'r boblogaeth nad oedd yn credu bod yr heddlu na’r systemau cyfiawnder yn wrthrychol. Oherwydd yr angen i ddatblygu hyder, ar draws y cymunedau, mewn cyfiawnder a phlismona, bu’n rhaid aros am yr amser cywir cyn cael y datganoli hwnnw. Dyna a ddigwyddodd yng Ngogledd Iwerddon; sefydlwyd Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon, a gafodd lawer mwy o gefnogaeth gymunedol na’r systemau plismona blaenorol yng Ngogledd Iwerddon. Cafodd cyfiawnder ei ddatganoli wedyn.

I come back to the point that I made yesterday, last week and, indeed, the week before: times have changed so fundamentally within the UK that suggesting that things can bump along the floor, as they have been in years gone by, just will not do. We must have a constitution that is fit for the twenty-first century. If the message of last week is not heeded, the UK is in danger in future of breaking up. That is my view. It was a very close vote in Scotland; it was a clear vote in Scotland—I accept what the Conservative leader has said—but to call it ‘unequivocal’ is taking it a bit far. It only needed 200,000 people to change their minds and it would have gone the other way. We must heed that. He is smug in a way that he should not be, and in a way that the Prime Minister has not been. It is important to understand that we came within an ace of the UK that has existed for 90 years breaking apart. To suggest that we can just ignore what happened in Scotland is complacency of the highest order.

Deuaf yn ôl at y pwynt a wneuthum ddoe, yr wythnos diwethaf ac, yn wir, yr wythnos cynt: mae’r oes wedi newid mor sylfaenol yn y DU fel nad yw awgrymu y gall pethau rygnu ymlaen, fel y maent wedi’u gwneud yn y gorffennol, yn gwneud y tro o gwbl. Mae’n rhaid inni gael cyfansoddiad sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Os nad ydym yn gwrando ar neges yr wythnos diwethaf, mae perygl y bydd y DU yn chwalu yn y dyfodol. Dyna fy marn i. Roedd hi'n bleidlais agos iawn yn yr Alban; roedd hi’n bleidlais glir yn yr Alban—rwy’n derbyn yr hyn y mae arweinydd y Ceidwadwyr wedi’i ddweud—ond mae dweud ei bod yn 'ddiamwys' yn mynd yn rhy bell braidd. Pe bai 200,000 o bobl yn unig wedi newid eu meddyliau, byddai wedi mynd y ffordd arall. Mae'n rhaid i ni wrando ar hynny. Mae'n hunanfodlon mewn ffordd na ddylai fod, ac mewn ffordd nad yw Prif Weinidog y DU wedi bod. Mae'n bwysig deall inni ddod o fewn trwch blewyn i weld y DU sydd wedi bodoli ers 90 mlynedd yn chwalu. Mae awgrymu y gallwn anwybyddu'r hyn a ddigwyddodd yn yr Alban yn ddifaterwch o'r radd flaenaf.

I look forward now to discussions with other parties, although given what the leader of the Conservatives has said, I do not think that he will go anywhere in terms of taking his party anywhere. However, I have greater hopes for the Secretary of State than I have for the leader of the opposition in terms of that. To discuss with other parties how we now move forward in making sure that Wales's voice is heard means, of course, an inter-governmental discussion as soon as possible with other administrations. It means talking to those parties that want to move forward with further devolution for Wales and, ultimately, to see a strong identity for our nation within the state of the United Kingdom.

Edrychaf ymlaen yn awr at drafod â phleidiau eraill, ond o ystyried yr hyn y mae arweinydd y Ceidwadwyr wedi'i ddweud, nid wyf yn meddwl y bydd yn mynd i unman o safbwynt mynd â'i blaid i unrhyw le. Fodd bynnag, mae gennyf fwy o obeithion ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol nag ar gyfer arweinydd yr wrthblaid yn y cyswllt hwnnw. Er mwyn trafod â phleidiau eraill sut rydym yn symud ymlaen yn awr i sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed, mae angen, wrth gwrs, trafodaeth rynglywodraethol cyn gynted ag y bo modd â gweinyddiaethau eraill. Mae'n golygu siarad â'r pleidiau sydd am symud ymlaen gyda datganoli pellach i Gymru ac, yn y pen draw, i weld hunaniaeth gref i'n cenedl o fewn gwladwriaeth y Deyrnas Unedig.

17:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Leanne Wood i ymateb i'r ddadl.

I call on Leanne Wood to respond to the debate.

17:01 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Plaid Cymru fully expects the debate around the national future of Wales to develop further. While I accept that there are disagreements between our parties, I will reiterate the point that I made yesterday during the First Minister's statement: it is not always possible for us to speak with one single Welsh voice. We do have differences on how far we want Wales to go on its constitutional journey. Of course, those differences are valid. I remain hopeful that there are areas of agreement on what the particular and specific next steps could be. I have indicated that Plaid Cymru would co-operate on a cross-party basis if there is an opportunity to do that. We have made it clear where we stand. Plaid Cymru has published its own views in a document this week, and the document does not state that an independent Wales is the next step for our country. Instead, it looks at the existing Silk recommendations, but also looks beyond that, to a package of a number of areas that we think could be better decided in this National Assembly.

Mae Plaid Cymru yn disgwyl yn bendant i'r drafodaeth ar ddyfodol cenedlaethol Cymru ddatblygu ymhellach. Er fy mod yn derbyn bod anghytundebau rhwng ein pleidiau, byddaf yn ailadrodd y pwynt a wneuthum ddoe yn ystod datganiad y Prif Weinidog: nid yw'n bosibl bob amser i ni siarad ag un llais i Gymru. Mae gwahaniaethau rhyngom ynglŷn â pha mor bell rydym am i Gymru fynd ar ei thaith gyfansoddiadol. Wrth gwrs, mae'r gwahaniaethau hynny yn ddilys. Rwy'n parhau'n obeithiol bod meysydd o gytundeb ynglŷn â'r hyn y gallai'r camau nesaf arbennig a phenodol fod. Rwyf wedi nodi y byddai Plaid Cymru yn cydweithredu ar sail drawsbleidiol os oes cyfle i wneud hynny. Rydym wedi ei gwneud yn glir lle'r ydym yn sefyll. Mae Plaid Cymru wedi cyhoeddi ei safbwyntiau mewn dogfen yr wythnos hon, ac nid yw'r ddogfen yn datgan mai Cymru annibynnol yw'r cam nesaf ar gyfer ein gwlad. Yn lle hynny, mae'n edrych ar argymhellion presennol Silk, ond hefyd yn edrych y tu hwnt i hynny, i becyn o nifer o feysydd y credwn y gellid ei benderfynu yn well yn y Cynulliad Cenedlaethol hwn.

I look forward to viewing the proposals from other parties as they emerge, and I believe that having sight of such proposals will allow us to outline the practical political uses that we might wish to make of any new powers. Plaid Cymru has been keen to suggest practical uses for some of the new tax powers, for example, but I accept that there are further areas where we need to capture the imagination of the wider public.

Rwy'n edrych ymlaen at weld y cynigion gan bleidiau eraill wrth iddynt ddod i'r amlwg, ac rwy'n credu y bydd gweld cynigion o'r fath yn ein galluogi i amlinellu'r defnydd gwleidyddol ymarferol y gallem ddymuno ei wneud o unrhyw bwerau newydd. Mae Plaid Cymru wedi bod yn awyddus i awgrymu defnyddiau ymarferol ar gyfer rhai o'r pwerau treth newydd, er enghraifft, ond rwy'n derbyn bod meysydd pellach lle mae angen i ni ddal dychymyg y cyhoedd yn gyffredinol.

Speakers today alluded to the state of public opinion in Wales. It has been mentioned that we have, of course, had another opinion poll today. That opinion poll locates most of this Chamber in the correct place, in that 49% of people in that poll want this Assembly to have more powers, or, you could say, want to have more self-government. I am keen that we focus on the practical steps that can be taken now. The poll that has come out today, I believe, demonstrates support for that.

Mae siaradwyr heddiw wedi cyfeirio at gyflwr y farn gyhoeddus yng Nghymru. Cyfeiriwyd at y ffaith, wrth gwrs, ein bod wedi cael arolwg barn arall heddiw. Mae'r arolwg barn hwnnw yn gosod y rhan fwyaf o'r Siambr hon yn y lle cywir, gan fod 49% o bobl yn yr arolwg am i'r Cynulliad hwn gael mwy o bwerau, neu, gallech ddweud, am gael mwy o hunanlywodraeth. Rwy'n awyddus ein bod yn canolbwyntio ar y camau ymarferol y gellir eu cymryd yn awr. Mae'r arolwg a ddaeth allan heddiw, rwy'n credu, yn dangos cefnogaeth ar gyfer hynny.

It has often been the case that people in Wales have been ahead of the politicians in the Welsh constitutional debate. I hope that, from today's debate, we can now press for those powers that we need, that we can go on to raise the stakes in this Assembly, and that we can ensure that Wales is not treated any less favourably than the other nations in the United Kingdom.

Mae wedi bod yn wir yn aml fod pobl yng Nghymru wedi bod ar y blaen i'r gwleidyddion yn y ddadl gyfansoddiadol yng Nghymru. Gobeithio, ar ôl y ddadl heddiw, y gallwn yn awr bwyso am y pwerau hynny sydd eu hangen arnom, y gallwn fynd ymlaen i fentro mwy yn y Cynulliad hwn, ac y gallwn sicrhau nad yw Cymru yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig.

17:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that the motion without amendment be agreed. Does any Member object? There is objection, therefore I will defer voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Cyfranogiad Pobl Ifanc mewn Gwleidyddiaeth

# Welsh Liberal Democrats Debate: Participation of Young People in Politics

*Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies.*

*The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies.*

17:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Aled Roberts i gynnig y cynnig.

I call on Aled Roberts to move the motion.

Cynnig NDM5574 Aled Roberts

Motion NDM5574 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn croesawu'r ffaith yr oedd pobl 16 a 17 oed yn gallu pleidleisio yn y refferendwm diweddar ar annibyniaeth yr Alban, sef y tro cyntaf iddynt gael gwneud hynny mewn etholiad arwyddocaol yn y Deyrnas Unedig;

2. Yn cydnabod pwysigrwydd grymuso pobl ifanc yng Nghymru i ymgysylltu â gwleidyddiaeth a chyfrannu eu safbwyntiau a'u syniadau i helpu i lunio'r cymunedau lle y maent yn byw;

3. Yn nodi adroddiad y Comisiwn Etholiadol yn 2014 a ganfu nad yw 49% o bobl rhwng 16 a 17 oed yn y DU wedi cofrestru i bleidleisio ac yn credu bod angen gwneud mwy i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn democratiaeth; a

4. Yn croesawu'r camau sy'n cael eu cynnig drwy Fil Cofrestru Pleidleiswyr y DU i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth drwy rymuso swyddogion cofrestru etholiadol yng Nghymru i wella prosesau rhannu data a chynyddu nifer y bobl sydd wedi cofrestru o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

1. Welcomes that 16 and 17 year olds were able to vote in the recent Scottish independence referendum, which was the first time they have had the right to do so in a major ballot in the United Kingdom;

2. Recognises the importance of empowering young people in Wales to engage in politics and contribute their views and ideas to help shape the communities in which they live;

3. Notes the Electoral Commission 2014 report which found that 49% of 16-17 year olds in the UK are not registered to vote and believes that more needs to be done to encourage the participation of young people in democracy; and

4. Welcomes the steps proposed in the Voter Registration Bill, which aims to increase the participation of young people in politics by empowering electoral registration officers in Wales to improve data sharing and increase the number of people registered from underrepresented groups.

17:05

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Rwy’n falch o’r cyfle i gyflwyno, ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, y ddadl hon, sy’n edrych ar elfen arall o’r hyn a oedd yn rhan o’r ddadl flaenorol, sef y ffaith bod cymaint o bobl ifanc wedi ymateb i’r bleidlais ar y refferendwm yn yr Alban yr wythnos diwethaf—y tro cyntaf i bobl ifanc 16 ac 17 oed gael yr hawl i bleidleisio. Wrth gwrs, tra’n bod i gyd yn ymfalchïo yn y ffaith bod 84.5% wedi pleidleisio, braf hefyd oedd deall bod 100,000 o’r rheini yn bobl ifanc rhwng 16 ac 17 oed a oedd wedi cofrestru i bleidleisio.

I am pleased to have the opportunity to introduce this debate, on behalf of the Welsh Liberal Democrats, which looks at another facet of what was part of the previous debate, namely the fact that so many young people responded to the referendum in Scotland last week—the first time that 16 and 17-year-olds were given the right to vote. Of course, while we are all proud of the fact that 84.5% voted, it was also good to learn that 100,000 of those were young people between the ages of 16 and 17 who had registered to vote.

Yma yn y Cynulliad mae Aelodau o bob plaid wedi cefnogi estyn y bleidlais i’r rhai sy’n 16 oed. Mae’n werth edrych ar y sefyllfa dros yr 20 mlynedd diwethaf: yn 2010, dim ond 44% o’r rhai rhwng 18 a 24 oed a bleidleisiodd yn yr etholiad Prydeinig, o gymharu â 63% yn 1992. Yma yng Nghymru, tra’r oedd ffigurau 2011 tipyn gwell, sef 35% o’r rhai hynny’n pleidleisio, mae’n werth cofio mai’r grŵp oedran hwnnw oedd y grŵp lleiaf o’r grwpiau oedran i bleidleisio. Yn ôl yn 2002, dywedodd y Comisiwn Etholiadol bod nifer y bobl ifanc a oedd heb eu cofrestru yn un o nifer o rwystrau allweddol. Prif argymhelliad ei adroddiad oedd y dylid gwella’r gweithdrefnau cofrestru, a dyna pam rydym yn galw am hynny yn y ddadl hon heddiw. Mae’n amser gweithredu achos, erbyn hyn, dim ond 49% o’r rheini yn y grŵp oedran 16 i 17 oed sydd wedi cofrestru ar gyfer pleidleisio ar ôl 18.

Here in the Assembly, Members from all parties have supported extending the vote to 16-year-olds. It is worth looking at the situation over the last 20 years: in 2010, only 44% of those between the ages of 18 and 24 voted in the UK election, compared with 63% in 1992. Here in Wales, while the figures for 2011 were a bit better, at 35% of those people voting, it is worth remembering that that age group had the lowest figure of all age groups turning out to vote. Back in 2002, the Electoral Commission said that the number of young people who were not registered was one of the key barriers. The main recommendation of its report was that we should improve registration procedures, which is why we are calling for that in this debate today. It is time to act, because now only 49% of 16 to 17-year-olds have registered to vote when they reach the age of 18.

Yn sgîl hynny, rydym yn gobeithio y bydd y Cynulliad yn cefnogi rhai o’r gwelliannau i Fil Cymru, sydd wedi eu cyflwyno gan yr Arglwydd Roger Roberts o Landudno yn Nhŷ’r Arglwyddi, gyda chefnogaeth ‘Bite the Ballot’—gwelliannau sy’n anelu at gael newidiadau yn y system gofrestru ar gyfer rhai 16 i 17 oed a gwelliannau sy’n annog staff cofrestru i weithio o fewn ysgolion i hyrwyddo cofrestru. Mae’r gwelliannau hefyd yn annog cyrff cyhoeddus i rannu data ar gyfer y rhai sydd o fewn y grŵp oedran hwnnw. Byddai’r camau hyn yn debyg i’r rhai a welwyd yng Ngogledd Iwerddon, lle gwelwyd 57,000 o bleidleiswyr ifanc yn cofrestru rhwng 2008 a 2012.

As a result, we hope that the Assembly will support some of the amendments to the Wales Bill that have been tabled by Lord Roger Roberts of Llandudno in the House of Lords, with the support of Bite the Ballot—amendments that aim to secure changes in the registration system for 16 to 17-year-olds and encourage registration staff to work in schools to promote registration. The amendments also encourage public bodies to share data for those within that age group. These actions would be similar to those seen in Northern Ireland, where 57,000 young voters registered between 2008 and 2012.

Mae angen inni fwrw ymlaen ac adeiladu ar y momentwm a roddwyd gan refferendwm yr Alban. Fodd bynnag, beth sy’n digwydd yma yng Nghymru? Yn 2009, roedd adroddiad gan Nacro Cymru yn nodi nifer o rwystrau a oedd yn atal pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn etholiadau: diffyg hyder, neu broblemau o ran cyfathrebu cyn iddynt gofrestru; teimlad nad oedd ganddynt hawl oherwydd nad oedd eu safbwyntiau yn y gorffennol wedi eu hystyried; yn waeth byth, y ffaith bod pobl ifanc yn teimlo nad yw’r wybodaeth yn defnyddio iaith y maent yn ei deall; cyfarfodydd a drefnwyd gan swyddogion etholiadol yn cael eu trefnu ar adegau anghyfleus; a’r ffaith na fu iddynt dderbyn adborth ar ôl iddynt gymryd rhan yn y gorffennol.

We need to press ahead and build on the momentum of the Scottish referendum. However, what is happening here in Wales? In 2009, a report by Nacro Wales noted a number of barriers that prevented young people from taking part in elections: a lack of confidence, or problems in communication prior to registration; a feeling that they had no right because their views were not considered in the past; and, even worse, the fact that young people felt that the information was expressed in language that they did not understand; meetings organised by electoral officials at inconvenient times; and the fact that they did not receive feedback after taking part in the past.

Mae angen, felly, inni ddefnyddio ffyrdd mwy arloesol i oresgyn y rhwystrau hyn. Un dull o wneud hynny yw defnyddio'r safonau cyfranogi cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc yma yng Nghymru. Cymeradwywyd y safonau hyn gan is-bwyllgor Cabinet plant a phobl ifanc Llywodraeth Cymru yn 2007. Mae fforwm ieuenctid Powys wedi bod yn gweithio, drwy broses y Pwyllgor Deisebau, i godi proffil y safonau hyn. Fodd bynnag, un esiampl yw hyn ac rydym yn gobeithio y bydd y ddadl heddiw yn ysgogi mwy o syniadau ac yn harneisio'r momentwm yn dilyn pleidlais yr wythnos diwethaf, er mwyn sicrhau bod gan ein pobl ifanc yng Nghymru wir gyfle i gyfrannu at lunio'r gymdeithas a'r gwasanaeth rydym i gyd yn gobeithio'u gweld ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

There is a need, therefore, for us to use more innovative ways to overcome these barriers. One method of doing this is to use the national participation standards for children and young people in Wales. These standards were approved by the Welsh Government Cabinet sub-committee on children and young in 2007. Powys youth forum has been working, through the Petitions Committee process, to raise the profile of these standards. However, this is but one example, and we hope that today's debate will stimulate more ideas and harness the momentum following last week's vote, in order to ensure that our young people in Wales have a real opportunity to contribute to shaping the society and services that we all hope to see for the next generation.

17:10

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Andrew R.T. Davies i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

I have selected the amendment to the motion. I call on Andrew R.T. Davies to move amendment 1, tabled in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod y gwaith y mae'r Ddraig Ffynci wedi'i wneud dros nifer o flynyddoedd i gynyddu cyfranogiad pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru adfer y cyllid hwn.*

*Recognises the work Funky Dragon has done over many years to increase young person participation in politics and believes the Welsh Government should reinstate this funding.*

17:10

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 1.

Cynigiaf welliant 1.

I welcome the opportunity to speak in the debate today. It is slightly ironic that we are here today—I do not criticise the Liberals for moving this today—discussing young people's participation in politics, particularly engagement in youth parliament-type concepts. Funky Dragon was here only last week championing the cause, as it has done over many years, of trying to stimulate young people to get involved in public life and in politics, particularly, and the Welsh Government has only just recently withdrawn its funding. Next Tuesday, all that good work will come undone, especially the statutory role that it fulfils in supporting local authorities to undertake that participation, and the dialogue with young people will be left in the gutter. As I understand it, the Welsh Government has not come up with an alternative formula and has not come up with new channels to stimulate that type of engagement.

Rwy'n croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl heddiw. Mae ychydig yn eironig ein bod yma heddiw—nid wyf yn beirniadu'r Rhyddfrydwyr am gyflwyno hyn heddiw—yn trafod cyfranogiad pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth, yn enwedig ennyn eu diddordeb mewn cysyniadau sy'n ymwneud â seneddau ieuenctid. Dim ond yr wythnos diwethaf roedd y Ddraig Ffynci yma yn hyrwyddo'r achos, fel y mae wedi ei wneud dros flynyddoedd lawer, o geisio ysgogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus ac mewn gwleidyddiaeth yn benodol, a dim ond yn ddiweddar y mae Llywodraeth Cymru wedi diddymu cyllid y prosiect. Ddydd Mawrth nesaf, bydd holl waith da yn cael ei ddadwneud, yn enwedig y rôl statudol y mae'n ei chyflawni wrth gefnogi awdurdodau lleol i ymgymryd â'r cyfranogiad hwnnw, a bydd y deialog â phobl ifanc yn dod i ben. Yn ôl a ddeallaf, nid yw Llywodraeth Cymru wedi sefydlu fformiwla amgen ac nid yw wedi dod o hyd i sianelau newydd i ysgogi'r math hwn o ymgysylltu.

If the Minister—I appreciate that she is new to the position—has some new angles to bring to this subject that her predecessor, Jeff Cuthbert, could not bring to the table, I think that this would be a good opportunity to hear from her today. It would be better still if she was able to bring forward a funding line that gave Funky Dragon the ability to continue the work that it has done so admirably over the years. From the United Nations—which has recognised the work that it has done, with young ambassadors from the organisation going out to give presentations in New York—to the European Union, it has been a beacon of international excellence in the role that it has undertaken in youth participation.

Os oes gan y Gweinidog—rwy'n sylweddoli ei bod yn newydd i'r swydd—rai syniadau newydd mewn perthynas â'r pwnc hwn na allai ei rhagflaenydd, Jeff Cuthbert, ddod â hwy at y bwrdd, credaf y byddai hyn yn gyfle da i glywed oddi wrthi heddiw. Byddai'n well byth pe bai'n gallu cyflwyno llinell ariannu sy'n galluogi'r Ddraig Ffynci i barhau â'r gwaith y mae wedi'i wneud mor dda dros y blynyddoedd. O'r Cenhedloedd Unedig— sydd wedi cydnabod y gwaith y mae wedi'i wneud, gyda llysgenhadon ifanc y sefydliad yn mynd allan i roi cyflwyniadau yn Efrog Newydd—i'r Undeb Ewropeaidd, mae wedi bod yn esiampl o ragoriaeth ryngwladol yn y rôl y mae wedi'i chyflawni ym maes cyfranogiad ieuenctid.

17:12 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

You are right that there is a great deal of unease about the ending of Funky Dragon funding. The young people from the Powys youth forum I have met are not so interested in the name of the organisation, but in establishing some kind of a route to give children across Wales, regardless of their background and where they live, an opportunity to scrutinise the work of this Assembly and to pass ideas up. Would you agree that it is the principle of allowing that to happen that is important, rather than one particular organisation?

Rydych yn iawn fod llawer o anesmwythyd ynglŷn â'r ffaith fod cyllid y Ddraig Ffynci yn dod i ben. Nid oedd gan y bobl ifanc o fforwm ieuenctid Powys y cyfarfûm â hwy ddiddordeb mawr yn enw'r sefydliad, ond maent am weld sefydlu rhyw fath o lwybr i roi cyfle i blant ar draws Cymru, waeth beth yw eu cefndir a lle maent yn byw, graffu ar waith y Cynulliad hwn a throsglwyddo syniadau. A fyddech yn cytuno mai'r egwyddor o ganiatáu i hynny ddigwydd sy'n bwysig, yn hytrach nag un sefydliad arbennig?

17:12 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I agree entirely, but as of yet, in terms of Funky Dragon or any successor to it, we are unaware of any initiatives or funding lines that will fill this void. I use Funky Dragon as an example, because that is what people will be able to understand. If there is a change of name or a change of organisation in some shape or form, that is fine, but the Government should tell us what it is putting in place. It will be all well and good if the Government votes with your motion today, but it would be slightly hypocritical, given the action that it has undertaken. So, I look to the Minister to give a detailed explanation of the funding and what type of organisation might succeed the Funky Dragon project.

Cytunaf yn llwyr, ond hyd yn hyn, o safbwynt y Ddraig Ffynci neu unrhyw olynydd i'r prosiect, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw fentrau neu linellau ariannu a fydd yn llenwi'r gwagle hwn. Rwy'n defnyddio'r Ddraig Ffynci fel enghraifft, oherwydd bydd pobl yn gallu deall hynny. Os oes newid enw neu newid sefydliad mewn rhyw ffurf neu'i gilydd, mae hynny'n iawn, ond dylai'r Llywodraeth ddweud wrthym beth y mae'n ei roi yn ei le. Bydd yn ddigon hawdd i'r Llywodraeth bleidleisio o blaid eich cynnig heddiw, ond byddai hynny ychydig yn rhagrithiol, o ystyried y camau y mae wedi'u rhoi ar waith. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog roi esboniad manwl o'r arian a pha fath o sefydliad a allai olynu prosiect y Ddraig Ffynci.

I have to say, when I go around schools in my own area of South Wales Central, and I know that other Members attend Welsh Baccalaureate engagement sessions, it is quite surprising that, when the question of votes for 16 and 17-year-olds is put to sixth formers, by and large—I think that the last time we did this was at Hawthorn High School in Rhydyfelin—over two thirds of the students present voted that they would not want the change; they were happy with the age of 18. I have not, to date, been in a secondary school where a majority view has existed for the change in legislation to bring it down to 16 and 17. I have been lobbied extensively by various organisations—Funky Dragon being one of them—and I have been lobbied by individuals, but every time I have put it to the test, with other politicians present who have advocated for the change, we have never seen a majority in those meetings.

Rhaid i mi ddweud, pan fyddaf yn ymweld ag ysgolion yn fy ardal i, sef Canol De Cymru, a gwn fod Aelodau eraill yn mynychu sesiynau ymgysylltu Bagloriaeth Cymru, mae'n peri tipyn o syndod, pan holir disgyblion chweched dosbarth am bobl ifanc 16 a 17 oed yn pleidleisio, ar y cyfan—-credaf fod y tro diwethaf i ni wneud hyn oedd yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen yn Rhydyfelin—pleidleisiodd dros ddwy ran o dair o'r myfyrwyr a oedd yn bresennol yn erbyn y newid; roeddynt yn fodlon ag 18 oed. Nid wyf wedi bod, hyd yma, mewn ysgol uwchradd lle mae barn y mwyafrif wedi bod o blaid y newid yn y ddeddfwriaeth i ostwng yr oedran i 16 a 17. Mae sefydliadau amrywiol wedi fy lobïo'n helaeth—a'r Ddraig Ffynci yn un ohonynt—ac mae unigolion wedi fy lobïo, ond bob tro rwyf wedi rhoi hyn ar brawf, gyda gwleidyddion eraill yn bresennol a oedd o blaid y newid, nid ydym erioed wedi gweld mwyafrif yn y cyfarfodydd hynny.

So, while we can draw on some of the experience in Scotland—the numbers across the electorate there registering to vote were startling to say the least, in particular among young people—there does not seem to be that desire here in Wales to change the parameters. What I believe is vitally important is that there is that engagement and that understanding with young people, because, ultimately, the young people will be the ones who will be going into the workplace in the future and they will be shaping our society for the future. The sooner they can engage with politics and politicians, hopefully, the greater and louder their voice will be in the policy and decision-making process that affects their lives.

Felly, er y gallwn ni ddysgu o rywfaint o'r profiad yn yr Alban—roedd y niferoedd ar draws yr etholwyr yno a gofrestrodd i bleidleisio yn syfrdanol a dweud y lleiaf, yn enwedig ymysg pobl ifanc—nid yw'n ymddangos bod yr un awydd yma yng Nghymru i newid y paramedrau. Yr hyn sy'n hanfodol bwysig yn fy marn i yw ymgysylltu â phobl ifanc, a'u deall, oherwydd, yn y pen draw, y bobl ifanc fydd yn mynd i mewn i'r gweithle yn y dyfodol, a byddant yn llunio ein cymdeithas ar gyfer y dyfodol. Po gyntaf y gallant ymgysylltu â gwleidyddiaeth a gwleidyddion, gobeithio, po fwyaf ac uwch fydd eu llais yn y broses bolisi a'r broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

So, I welcome the opportunity to contribute to the debate. My group has a free vote on this particular issue, because there is no party line on whether there should be votes for 16 and 17-year-olds. When debates have been held before, particularly backbench debates, it has always been the principle that we have allowed Members to express their personal views. However, I think that Members need to be cautious, because I do not detect a groundswell of opinion in Wales that is seeking to change the voting age from 18 to 16.

Felly, rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl. Mae gan fy ngrŵp bleidlais rydd ar y mater penodol hwn, gan nad oes polisi plaid ynglŷn ag a ddylai'r rhai 16 a 17 oed gael pleidleisio. Yn ystod trafodaethau sydd wedi'u cynnal yn y gorffennol, yn enwedig dadleuon meinciau cefn, yr egwyddor bob amser oedd caniatáu i Aelodau fynegi eu barn bersonol. Fodd bynnag, credaf fod angen i'r Aelodau fod yn ofalus, oherwydd nid wyf yn credu bod ymchwydd barn yng Nghymru sy'n ceisio newid yr oedran pleidleisio o 18 i 16.

17:15 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very pleased to be taking part in this important debate, and I agree strongly with the sentiments of Andrew R.T. Davies and Kirsty Williams that it would be highly improper for us not to consider the present threat to our Welsh youth parliament, Funky Dragon. In that context, just last week, it was my privilege to accept a petition from Funky Dragon representatives from the length and breadth of Wales on this very matter. The announcement that Funky Dragon funding will cease next week is hugely disappointing and is a hammer blow for the young people who are involved, and have been involved in previous years, in its valuable work.

Mae'n dda iawn gennyf gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon, ac rwy'n cytuno'n gryf â theimladau Andrew RT Davies a Kirsty Williams y byddai'n amhriodol iawn i ni beidio ag ystyried y bygythiad presennol i'n senedd ieuenctid yng Nghymru, y Ddraig Ffynci. Yn y cyswllt hwn, dim ond yr wythnos diwethaf, roedd yn fraint i mi dderbyn deiseb gan gynrychiolwyr y Ddraig Ffynci o bob cwr o Gymru ar yr union fater hwn. Mae'r cyhoeddiad y bydd cyllid prosiect y Ddraig Ffynci yn dod i ben yr wythnos nesaf yn hynod siomedig ac yn ergyd enfawr i'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan, ac sydd wedi cymryd rhan mewn blynyddoedd blaenorol, yn ei waith gwerthfawr.

As colleagues have already mentioned, the Scottish referendum has signified a major step forward for democracy in the UK, with a landmark decision to allow 16 and 17-year-olds to vote. Scotland's youth parliament played a key role in this campaign, helping to make this a reality. It has an active presence across Scotland and, earlier this year, it launched a young voter-engagement project, 'Aye, Naw, Mibbe: a little about politics, a lot about you', to increase the level of interest and motivation among young people in the field of politics. Similarly, Northern Ireland has its own youth parliament, set up by the Department of Education. Youth engagement of this kind is crucial to encourage more young people to get involved in politics and to increase the likelihood that they will participate in local, national and European elections.

Fel y nododd fy nghyd-Aelodau, mae refferendwm yr Alban wedi dynodi cam mawr ymlaen i ddemocratiaeth yn y DU, gyda phenderfyniad pwysig i ganiatáu i'r rhai 16 a 17 oed bleidleisio. Gwnaeth senedd ieuenctid yr Alban gyfraniad allweddol at yr ymgyrch hon, gan helpu i wireddu hyn. Mae ganddi bresenoldeb gweithredol ar draws yr Alban ac, yn gynharach eleni, lansiodd brosiect i ymgysylltu â phleidleiswyr ifanc, 'Aye, Naw, Mibbe: a little about politics, a lot about you', i gynyddu lefel y diddordeb a'r brwdfrydedd ymysg ifanc bobl ym maes gwleidyddiaeth. Yn yr un modd, mae gan Ogledd Iwerddon ei senedd ieuenctid ei hun, a sefydlwyd gan yr Adran Addysg. Mae ymgysylltu â phobl ifanc yn y modd hwn yn hanfodol er mwyn annog mwy o bobl ifanc i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth a chynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn cymryd rhan mewn etholiadau lleol, cenedlaethol ac Ewropeaidd.

Until now, Wales has had a proud record in the area of children's rights and of meeting the requirements of article 12 of the United Nations Convention on the Rights of the Child, which gives young people the right to have a say when adults are making decisions that affect them. We have led the way with policy and legislation, such as the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. Since 2002, Funky Dragon has created a strong relationship with the Welsh Government, forging a direct opportunity for dialogue, information sharing and advocacy on behalf of children and young people at the national political level. As Kirsty Williams pointed out, this is inclusive of people from every background—that is vital. This will no longer be the case with the deletion of that funding. The recent decision by the Welsh Government to end Funky Dragon funding is a real hammer blow, and we will be the only country in Europe not to have an independent youth forum. I think that that would be a matter of considerable regret.

Hyd yn hyn, mae Cymru wedi cael traddodiad balch ym maes hawliau plant ac o safbwynt bodloni gofynion erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n rhoi'r hawl i bobl ifanc gael dweud eu dweud pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Rydym wedi arwain y ffordd gyda pholisi a deddfwriaeth, fel Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Ers 2002, mae'r Ddraig Ffynci wedi creu perthynas gref â Llywodraeth Cymru, gan greu cyfle uniongyrchol ar gyfer deialog, rhannu gwybodaeth ac eiriolaeth ar ran plant a phobl ifanc ar y lefel wleidyddol genedlaethol. Fel y dywedodd Kirsty Williams, mae hyn yn cynnwys pobl o bob cefndir—sy'n hanfodol. Ni fydd hyn yn digwydd bellach pan gaiff y cyllid hwn ei ddileu. Mae penderfyniad diweddar Llywodraeth Cymru i ddod â chyllid y Ddraig Ffynci i ben yn ergyd enfawr wirioneddol, a Chymru fydd yr unig wlad yn Ewrop heb fforwm ieuenctid annibynnol. Credaf y byddai hynny'n fater o gryn ofid.

Members of the Powys youth forum have been in touch with Kirsty and me to express their disappointment at this decision. They have highlighted the important role that Funky Dragon plays across Wales in giving a voice to children and young people, with influence at the national level. Some quotes from the correspondence might be apt:

Mae aelodau fforwm ieuenctid Powys wedi cysylltu â Kirsty a mi i fynegi eu siom ynglŷn â'r penderfyniad hwn. Maent wedi tynnu sylw at waith pwysig y Ddraig Ffynci ledled Cymru wrth roi llais i blant a phobl ifanc, sydd â dylanwad ar y lefel genedlaethol. Efallai y byddai'n briodol nodi rhai dyfyniadau o'r ohebiaeth:

'As members of Powys Youth Forum we have been able to ensure that our voice, and the voice of those we represent, have been fed through to the National arena by our elected Funky Dragon representatives.'

'Fel aelodau o Fforwm Ieuenctid Powys rydym wedi gallu sicrhau bod ein llais, a llais y rhai rydym yn eu cynrychioli, wedi'i drosglwyddo i'r arena Genedlaethol gan ein cynrychiolwyr Draig Ffynci etholedig.'

Another commented:

Dywedodd un arall:

'Funky Dragon has given us a mechanism for getting our voices heard on a number of National campaigns, and more importantly allowed us to affect change.'

'Mae'r Ddraig Ffynci wedi sicrhau bod ein lleisiau'n cael eu clywed ar nifer o ymgyrchoedd Cenedlaethol, ac yn bwysicach, mae wedi ein galluogi i roi newid ar waith.'

Thirdly, and finally:

Yn drydydd, ac yn olaf:

'The loss of Wales' only youth led, democratically elected, platform for the voice of young people isn't just a step backwards for the democratic process in Wales but a massive step back in terms of Wales' commitment to the UNCRC.'

'Nid yn unig y mae colli'r unig blatfform ar gyfer llais pobl ifanc sydd o dan arweiniad ieuenctid ac sydd wedi'i ethol yn ddemocrataidd yn gam yn ôl i'r broses ddemocrataidd yng Nghymru, mae hefyd yn gam enfawr yn ôl o safbwynt ymrwymiad Cymru i CCUHP.'

We can all agree that decisions that affect young people should be made in consultation with young people, in order to ensure that those decisions are made in the best interests of current and future generations. To disband Funky Dragon without alternative provision being in place goes directly against this principle. For this reason, we will be supporting the Conservatives' amendment to our motion.

Gallwn ni i gyd gytuno y dylai penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl ifanc gael eu gwneud mewn ymgynghoriad â phobl ifanc, er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud er budd pennaf cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae diddymu'r Ddraig Ffynci heb wneud darpariaeth amgen yn mynd yn gwbl groes i'r egwyddor hon. Am y rheswm hwn, byddwn yn cefnogi gwelliant y Ceidwadwyr i'n cynnig.

The loss of Funky Dragon represents a serious democratic deficit here in Wales, further disengaging young people from politics and democracy in Wales and across the UK; this is a retrograde step. We should be riding the wave of momentum following the Scottish referendum, which has generated such a high level of interest and participation in the field of politics. By dispensing with Funky Dragon, without options for an alternative mechanism in place, we would be missing a fantastic opportunity to maintain the political energy that we have seen unleashed in recent months to increase youth participation in politics. I urge the Welsh Government at this late stage to reconsider its decision on this important matter.

Mae colli'r Ddraig Ffynci yn arwain at ddiffyg democrataidd difrifol yma yng Nghymru, gan ymddieithrio pobl ifanc ymhellach o wleidyddiaeth a democratiaeth yng Nghymru a ledled y DU; mae hwn yn gam yn ôl. Dylem fod yn manteisio ar y don o fomentwm yn dilyn refferendwm yr Alban, sydd wedi ennyn lefel mor uchel o ddiddordeb a chyfranogiad ym maes gwleidyddiaeth. Wrth ddiddymu prosiect y Ddraig Ffynci, heb roi opsiynau ar waith ar gyfer mecanwaith amgen, byddem yn colli cyfle gwych i gynnal yr egni gwleidyddol a welsom ar waith dros y misoedd diwethaf i gynyddu cyfranogiad pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth. Rwy'n annog Llywodraeth Cymru, yn hwyr fel hyn, i ailystyried ei phenderfyniad ar y mater pwysig hwn.

17:20 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased to speak in support of the Welsh Liberal Democrats' motion, and I was pleased to be a joint signatory to the statement of opinion on the same subject. It was encouraging and quite inspiring to see 16 and 17-year-olds involved in the Scottish referendum, and I hope that this will lead to 16 and 17-year-olds having the vote in future local government, Assembly and general elections and in future referenda here in Wales. I think that there has to be a concerted effort to ensure that young people register. I think that we need something like the Bite The Ballot campaign in Wales, where people go into the schools and colleges to ensure that young people register.

Mae'n bleser gennyf siarad o blaid cynnig Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, ac roeddwn yn falch o fod yn un o'r rhai a lofnododd y datganiad barn ar yr un pwnc. Roedd yn calonogi ac yn ysbrydoli rhywun i weld pobl ifanc 16 a 17 oed yn cymryd rhan yn refferendwm yr Alban, ac rwy'n gobeithio y bydd hyn yn arwain at y rhai 16 a 17 oed yn cael pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol, etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau cyffredinol ac mewn refferenda yma yng Nghymru yn y dyfodol. Credaf fod rhaid cael ymdrech ar y cyd i sicrhau bod pobl ifanc yn cofrestru. Credaf fod angen rhywbeth fel ymgyrch Bite The Ballot yng Nghymru, lle mae pobl yn mynd i mewn i ysgolion a cholegau i sicrhau bod pobl ifanc yn cofrestru.

On the issue of votes at 16, when I was in the House of Commons, I was lucky enough to present a private Member's Bill in 2007-08 that called for a reduction in the voting age. That did not become law, but the Labour Party has since adopted votes at 16 as its policy, and Ed Miliband said at the conference in Manchester that it would be part of the general election manifesto, and, if elected, the Labour Party will introduce votes at 16.

Ar fater pleidleisio yn 16 oed, pan oeddwn yn Nhŷ'r Cyffredin, roeddwn yn ddigon ffodus i gyflwyno Bil Aelod Preifat yn 2007-08 a oedd yn galw am leihau'r oedran pleidleisio. Ni chafodd ei basio'n ddeddf, ond ers hynny mae'r Blaid Lafur wedi mabwysiadu polisi o roi'r hawl i'r rhai 16 oed bleidleisio, a dywedodd Ed Miliband yn y gynhadledd ym Manceinion y byddai'n rhan o faniffesto'r etholiad cyffredinol, ac, os caiff ei hethol, bydd y Blaid Lafur yn cyflwyno'r hawl i bleidleisio yn 16 oed.

In 2012, this Chamber voted in principle in favour of votes at 16. I know that it is the Liberal Democrats' policy and I believe that it is Plaid Cymru's policy as well. Alex Salmond has called for votes at 16. Therefore, I think that a general consensus is emerging, but I am aware that Andrew R.T. Davies said that his party has no policy and that they will have a free vote on this issue. However, it is obviously the Conservative Party that is the one party now that is not moving towards 16 and 17-year-olds voting.

Yn 2012, pleidleisiodd y Siambr hon mewn egwyddor o blaid rhoi'r bleidlais i'r rhai 16 oed. Gwn mai dyna bolisi'r Democratiaid Rhyddfrydol ac rwy'n credu mai dyna bolisi Plaid Cymru hefyd. Mae Alex Salmond wedi galw am yr hawl i bleidleisio yn 16 oed. Felly, credaf fod consensws cyffredinol yn dod i'r amlwg, ond rwy'n ymwybodol bod Andrew RT Davies wedi dweud nad oes gan ei blaid unrhyw bolisi ac y byddant yn cael pleidlais rydd ar y mater hwn. Fodd bynnag, mae'n amlwg mai'r Blaid Geidwadol yw'r un blaid erbyn hyn nad yw'n symud tuag at gefnogi'r bleidlais ar gyfer y rhai 16 a 17 oed.

In terms of turnout, since the excitement and the interest created by the Scottish referendum, I think that we can see that the public will vote if they feel that there is a lot at stake. Also, although we do not have any numbers yet about the percentage of young people who did vote—because I do not think that that data is yet available—we know that 109,533 of 16 and 17-year-olds registered. However, the opinion polls that took place before the referendum, interestingly enough, showed that the concerns of those young people were very much the same as the concerns of older people. There was not a big gap in concerns, and I thought that was an interesting argument. The argument for votes at 16 comes down to fairness, making life better for young people, being inclusive, bringing people into the political process and getting them into the habit of voting at a young age.

O ran y nifer sy'n pleidleisio, ers y cyffro a'r diddordeb a grëwyd gan refferendwm yr Alban, credaf y gallwn weld y bydd y cyhoedd yn pleidleisio os ydynt yn teimlo bod llawer yn y fantol. Hefyd, er nad oes gennym unrhyw rifau hyd yma am ganran y bobl ifanc a bleidleisiodd—oherwydd nid wyf yn credu bod y data hwnnw ar gael eto—gwyddom fod 109,533 o'r rhai 16 a 17 oed wedi cofrestru. Fodd bynnag, mae'r arolygon barn a gynhaliwyd cyn y refferendwm, yn ddiddorol iawn, yn dangos bod pryderon y bobl ifanc hynny'r un fath i raddau helaeth â phryderon pobl hŷn. Nid oedd bwlch mawr o safbwynt pryderon, ac roeddwn yn credu bod honno'n ddadl ddiddorol. Mae'r ddadl o blaid pleidlais yn 16 oed yn ymwneud â thegwch, gwneud bywyd yn well i bobl ifanc, bod yn gynhwysol, dod â phobl i mewn i'r broses wleidyddol a sicrhau eu bod yn arfer pleidleisio o oedran ifanc.

On the Conservative amendment about Funky Dragon, I want to use the opportunity to pay tribute to Funky Dragon. I have worked closely with it for many years, both here and in Westminster, and I think that we all know that it has an international reputation. It has done groundbreaking work with the UNCRC; its ambassadors have been outstanding and many of them have gone into politics as a result of being involved in Funky Dragon. Therefore, I ask the Minister to say, when she responds, what she plans to do about the gap that will leave Wales as maybe the only country in Europe without a democratically elected body of young people. If we want our politics to be relevant to young people, it is important that we have a mechanism by which young people can make their voices heard.

O safbwynt gwelliant y Ceidwadwyr yn ymwneud â'r Ddraig Ffynci, rwyf am fanteisio ar y cyfle i dalu teyrnged i'r Ddraig Ffynci. Rwyf wedi gweithio'n agos â'r prosiect am flynyddoedd lawer, yma ac yn San Steffan, a chredaf ein bod i gyd yn gwybod bod ganddo enw da yn rhyngwladol. Mae wedi gwneud gwaith arloesol â CCUHP; mae cenhadon y prosiect wedi bod yn rhagorol ac mae llawer ohonynt wedi mynd i'r maes gwleidyddol o ganlyniad i gymryd rhan yn y Ddraig Ffynci. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog ddweud wrthym, pan fydd yn ymateb, beth y mae'n bwriadu ei wneud ynglŷn â'r bwlch a fydd yn gadael Cymru fel yr unig wlad yn Ewrop, o bosibl, sydd heb gorff a etholwyd yn ddemocrataidd gan bobl ifanc. Os ydym am i'n gwleidyddiaeth fod yn berthnasol i bobl ifanc, mae'n bwysig bod gennym fecanwaith sy'n galluogi pobl ifanc i leisio'u barn.

17:24 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would you agree that it is not just an impact on their ability to work here in Wales? If we do not have an elected body here in Wales, how can we possibly participate in UK-wide or, indeed, international initiatives? If we do not have young people elected from among themselves to create that representation, not only to work here, but in other arenas too, it will be a source of embarrassment.

A fyddech yn cytuno ei bod yn effeithio ar fwy na'u gallu i weithio yma yng Nghymru? Os nad oes gennym gorff etholedig yma yng Nghymru, sut y gallwn gymryd rhan mewn mentrau ar lefel y DU neu, yn wir, mentrau rhyngwladol? Os nad oes gennym bobl ifanc sydd wedi'u hethol o blith ei gilydd i greu'r gynrychiolaeth honno, nid yn unig i weithio yma, ond mewn meysydd eraill hefyd, bydd yn destun embaras.

17:25 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I agree with that point of view, because obviously Funky Dragon did participate in the UK Youth Parliament and did go up and take part in the debates in Westminster. This is the sort of activity that we want to encourage, so I do hope that the Minister, when she responds, will be able to tell us what is going to take the place of Funky Dragon, and where we are going in youth involvement in Wales.

Ydw, rwy'n cytuno â'r safbwynt hwnnw, oherwydd mae'n amlwg bod y Ddraig Ffynci wedi cymryd rhan yn Senedd Ieuenctid y DU, gan fynd i San Steffan i gymryd rhan yn y trafodaethau. Dyma'r math o weithgaredd rydym am ei hyrwyddo, felly rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog, pan fydd yn ymateb, yn gallu dweud wrthym beth sy'n mynd i ddisodli'r Ddraig Ffynci, a ble'r ydym yn mynd o safbwynt cyfranogiad pobl ifanc yng Nghymru.

17:25 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One of the key barriers to youth participation in politics is confidence in the democratic process. Often, young people feel that there are not enough opportunities to influence political parties and that they have little influence over the political process. The political system can seem closed off to young people, which leaves them feeling powerless—actually, that does not just apply to young people, I think that applies across the board, but we are talking about young people here.

Un o'r rhwystrau allweddol i gyfranogiad pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth yw hyder yn y broses ddemocrataidd. Yn aml, mae pobl ifanc yn teimlo nad oes digon o gyfleoedd i ddylanwadu ar bleidiau gwleidyddol ac nad oes ganddynt lawer o ddylanwad ar y broses wleidyddol. Gall y system wleidyddol ymddangos ar gau i bobl ifanc, sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddi-rym—mewn gwirionedd, nid yw hynny'n berthnasol i bobl ifanc yn unig, credaf ei bod yn berthnasol i bawb, ond rydym yn sôn am bobl ifanc yma.

One key way to open up the democratic process and encourage an early awareness of politics so that young people are encouraged to vote is to lower the voting age to 16, and I absolutely agree with Julie Morgan, and other speakers, on that particular issue. The Welsh Affairs Select Committee supported the reduction of the voting age in its first report in 2003-04, stating that,

Un ffordd allweddol o agor y broses ddemocrataidd a hyrwyddo ymwybyddiaeth gynnar o wleidyddiaeth fel bod pobl ifanc yn cael eu hannog i bleidleisio yw gostwng yr oedran pleidleisio i 16, ac rwy'n cytuno'n llwyr â Julie Morgan, a siaradwyr eraill, ar y mater penodol hwnnw. Cefnogodd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig y syniad o ostwng yr oedran pleidleisio yn ei adroddiad cyntaf yn 2003-04, gan nodi,

'Lowering the voting age would involve young people whose voices should be heard in our democracy and could be a positive step towards reengaging young people in democratic politics.'

'Byddai gostwng yr oedran pleidleisio yn cynnwys pobl ifanc y mae angen clywed eu lleisiau yn ein democratiaeth a gallai fod yn gam cadarnhaol tuag at ail-ymgysylltu pobl ifanc â gwleidyddiaeth ddemocrataidd.'

This is echoed by the Power commission in 2006, which recommends that the voting age should be lowered as part of a raft of measures to reinvigorate participation, as by sowing the seeds of democracy and engagement early, we can encourage engagement later in life. It is absurd that eligible 16 and 17-year-olds can currently pay into a tax system that is set by a Government that they have no say in choosing. They can join the armed forces, drive a car, change their name by deed-poll, join a union or co-operative, give full consent for medical treatment, get married or have a civil partnership, and these responsibilities should not be divorced from the right to vote.

Ategir hyn gan gomisiwn Power yn 2006, sy'n argymell y dylai'r oedran pleidleisio gael ei ostwng fel rhan o amrywiaeth o fesurau i adfywio cyfranogiad, oherwydd trwy hau hadau democratiaeth ac ymgysylltiad yn gynnar, gallwn annog ymgysylltu yn nes ymlaen mewn bywyd. Mae'n hurt y gall pobl ifanc 16 a 17 oed cymwys dalu i mewn ar hyn o bryd i system dreth sy'n cael ei gosod gan Lywodraeth nad oes ganddynt unrhyw hawl i'w dewis. Gallant ymuno â'r lluoedd arfog, gyrru car, newid eu henw drwy weithred newid enw, ymuno ag undeb neu gwmni cydweithredol, rhoi caniatâd llawn ar gyfer triniaeth feddygol, priodi neu gael partneriaeth sifil, ac ni ddylai'r cyfrifoldebau hyn gael eu gwahanu oddi wrth yr hawl i bleidleisio.

Denying young people the opportunity to express their views through the ballot box reinforces the impression that their views are not valid. The longer young people are left unable to participate, the less chance there is of ever engaging them. Young people nowadays are far more engaged in the world than previous generations, because of the culture of mass media and social networking. They are arguably more engaged than many other people of older generations. By opening up the voting franchise to the 1.5 million 16 and 17-year-olds, we get them engaged in the political process earlier, and make it clear to them that their voice matters. This is healthy for democracy now and in the future, and could help to overcome the decline in voter turnout that we have seen over the past decades. I think that Scotland illustrated that more than anything else.

Mae gwrthod cyfle i bobl ifanc fynegi eu barn drwy'r blwch pleidleisio yn atgyfnerthu'r argraff nad yw eu safbwyntiau'n ddilys. Po hiraf yr ydym yn gwrthod cyfle i bobl ifanc gymryd rhan, po leiaf yw'r gobaith o ymgysylltu â hwy byth. Mae pobl ifanc y dyddiau hyn yn cymryd llawer mwy o ddiddordeb yn y byd na chenedlaethau blaenorol, oherwydd diwylliant y cyfryngau torfol a rhwydweithio cymdeithasol. Gellir dadlau eu bod yn cymryd mwy o ddiddordeb na llawer o bobl eraill o genedlaethau hŷn. Drwy agor yr hawl i bleidleisio i'r 1.5 miliwn o bobl ifanc 16 a 17 oed, rydym yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu â'r broses wleidyddol yn gynharach, gan ei gwneud yn glir iddynt fod eu llais yn bwysig. Mae hyn yn iach i ddemocratiaeth nawr ac yn y dyfodol, a gallai helpu i oresgyn y gostyngiad yn nifer y pleidleiswyr a welsom dros y degawdau diwethaf. Credaf fod yr Alban wedi dangos hynny yn fwy na dim byd arall.

In the Assembly, there has been cross-party support for votes at 16 when this issue has been debated in the past, but if we are to secure progress on this, then our parties in Westminster must all be on board as well. The Liberal Democrats have long advocated lowering the voting age, since manifestos as far back as 2001, and we welcome that this has been Plaid Cymru policy in both general and Assembly election manifestos as well. Sadly, the message from both Labour and the Conservatives is less clear. The Conservatives made no mention of this in the last general or Assembly election manifestos, and have vocally opposed extending the franchise to 16; in fact, I think that the free vote that the leader Andrew R. T. Davies has just announced is actually a step forward in that regard. Labour skirted the issue by promising a free vote in parliament. In 2005, Bristol—. I give way to Andrew.

Yn y Cynulliad, cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer yr hawl i bleidleisio yn 16 oed wrth drafod y mater hwn yn y gorffennol, ond os ydym am sicrhau cynnydd ar y mater hwn, yna mae'n rhaid sicrhau bod ein pleidiau yn San Steffan i gyd yn cytuno hefyd. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi bod o blaid gostwng yr oedran pleidleisio ers amser, ers maniffestos mor bell yn ôl â 2001, ac rydym yn croesawu'r ffaith fod Plaid Cymru wedi mabwysiadu'r un polisi ar gyfer maniffestos yr etholiad cyffredinol ac etholiad y Cynulliad hefyd. Yn anffodus, mae'r neges gan y Blaid Lafur a'r Ceidwadwyr yn llai eglur. Ni chyfeiriodd y Ceidwadwyr at hyn o gwbl ym maniffesto'r etholiad cyffredinol diwethaf neu ym maniffesto etholiad y Cynulliad diwethaf, ac maent wedi gwrthwynebu ymestyn yr etholfraint i'r rhai 16 oed; yn wir, credaf fod y bleidlais rydd y mae'r arweinydd Andrew RT Davies newydd ei chyhoeddi yn gam ymlaen yn y cyswllt hwn mewn gwirionedd. Llwyddodd y Blaid Lafur i osgoi'r mater drwy addo pleidlais rydd yn y senedd. Yn 2005, Bryste—. Ildiaf i Andrew.

17:28 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I always like to be classed as a progressive. [Laughter.] If you look back at any vote that the Conservatives have had on this issue, you will see that it has always been a free vote. We have never whipped this vote.

Rwyf bob amser yn hoffi cael fy nisgrifio fel unigolyn blaengar. [Chwerthin.] Os edrychwch yn ôl ar unrhyw bleidlais y mae'r Ceidwadwyr wedi'i chynnal ar y mater hwn, gwelwch ei bod wedi bod yn bleidlais rydd bob amser. Nid ydym erioed wedi cael pleidlais chwip ar y mater hwn.

17:28 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that the problem, Andrew, is that you get into so much trouble with free votes. [Laughter.]

Credaf mai'r broblem, Andrew, yw eich bod yn mynd i gymaint o drafferth gyda phleidleisiau rhydd. [Chwerthin.]

In 2005, Bristol West MP Stephen Williams introduced a private Member's Bill that sought to lower the voting age to 16. This Bill was defeated by just eight votes: 107 Conservatives voted against and 26 Labour members voted against.

Yn 2005, cyflwynodd AS Gorllewin Bryste Stephen Williams Fil Aelod Preifat a oedd yn ceisio gostwng yr oedran pleidleisio i 16. Cafodd y Bil hwn ei drechu o wyth pleidlais yn unig: pleidleisiodd 107 o Geidwadwyr yn erbyn a phleidleisiodd 26 o aelodau Llafur yn erbyn.

Evidence from elections in North Rhine-Westphalia, Germany, where the voting age is 16, demonstrates that not only is lowering the voting age a powerful means of combatting disillusionment about politics among those aged 16 to 18, but it will also encourage citizens to continue participating throughout their lives. Lowering the voting age to 16 would also allow a seamless transition from learning about voting, elections and democracy to putting such knowledge into practice. How many of us have gone into schools and talked to 16-year-olds about the electoral process and then seen them lose interest by the time they reach the voting age? Citizenship education is part of the curriculum in Wales, and we have a generation of voters studying democracy and the importance of voting, yet they are denied the right to use this knowledge and to cast their vote for at least a further two years, or up to seven, depending on the electoral cycle, which is longer than the entire time spent in compulsory secondary education. This gap creates dissonance between the message of citizenship education and the experience of reality, which risks leading to cynicism. It means that the message on the importance of citizen engagement can be easily forgotten before young people even have the chance to vote.

Mae tystiolaeth o etholiadau yng Ngogledd Rhine-Westphalia, yr Almaen, lle mae gan bobl yr hawl i bleidleisio yn 16 oed, yn dangos nid yn unig bod gostwng yr oedran pleidleisio yn fodd grymus o frwydro yn erbyn dadrithiad ynglŷn â gwleidyddiaeth ymysg y rhai rhwng 16 a 18 oed, ond y bydd hefyd yn annog dinasyddion i barhau i gymryd rhan drwy gydol eu bywydau. Byddai gostwng yr oedran pleidleisio i 16 hefyd yn caniatáu cyfnod pontio di-dor o ddysgu am bleidleisio, etholiadau a democratiaeth i roi gwybodaeth o'r fath ar waith. Faint ohonom sydd wedi mynd i mewn i ysgolion i siarad â phobl ifanc 16 oed am y broses etholiadol ac yna eu gweld yn colli diddordeb erbyn iddynt gyrraedd oedran pleidleisio? Mae addysg ar ddinasyddiaeth yn rhan o'r cwricwlwm yng Nghymru, ac mae gennym genhedlaeth o bleidleiswyr sy'n astudio democratiaeth a phwysigrwydd pleidleisio, ac eto nid oes ganddynt yr hawl i ddefnyddio'r wybodaeth hon na bwrw eu pleidlais am o leiaf ddwy flynedd arall, neu hyd at saith mlynedd, gan ddibynnu ar y cylch etholiadol, sy'n gyfnod hirach na'r amser cyfan a dreulir mewn addysg uwchradd orfodol. Mae'r bwlch hwn yn creu anghysondeb rhwng neges addysg ar ddinasyddiaeth a phrofiad ymarferol, a all arwain at sinigiaeth. Mae'n golygu y gall y neges am bwysigrwydd ymgysylltu â dinasyddion gael ei hanghofio'n hawdd cyn bod pobl ifanc yn cael y cyfle i bleidleisio hyn yn oed.

The proposals being put forward by Lord Roberts's amendments to the Wales Bill will help to address this, empowering registration officers to ensure that all 16 and 17-year-olds are at least on the register and are able to vote as early as possible. The next step is to lower the voting age to 16. Youth organisations across the UK have campaigned on this issue, and it is time that political parties united with one voice on both sides of the M4, so that we can see this much needed change.

Bydd y cynigion a gyflwynir gan ddiwygiadau'r Arglwydd Roberts i Fil Cymru yn helpu i ymdrin â hyn, gan rymuso swyddogion cofrestru i sicrhau bod pob person ifanc 16 a 17 oed ar y gofrestr o leiaf, a'u bod yn gallu pleidleisio mor gynnar â phosibl. Y cam nesaf yw gostwng yr oedran pleidleisio i 16. Mae sefydliadau ieuenctid ledled y DU wedi ymgyrchu ar y mater hwn, ac mae'n bryd i'r pleidiau gwleidyddol uno ag un llais ar ddwy ochr yr M4, fel bod y newid hwn, sydd ei angen yn fawr, yn cael ei roi ar waith.

17:30

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased to be able to take part in this debate. Lynne Neagle, the Assembly Member, said earlier—she is not here now—that she did not get involved in politics for constitutional reasons, but I did not get involved in politics to see young people be ignored. While things have progressed, we still have far to go. For example, in 1997, I was active in campaigning for this place to exist. Even though I was not a member of any political party, I wanted to see a space for democracy in Wales, as opposed to having to go to London all the time. However, I could not then exercise my right to vote. I think that is frustrating for any young people who are engaged to any extent. They may take part in many campaigns, but they cannot then vote in the ballot box. Yes, we have talked about Scotland recently, but this could have been done before the referendum in Scotland. Westminster could have put forward voting at age 16 at an earlier stage. Andrew R.T. Davies said earlier that there was a vote at a certain school and the children themselves said that they did not want to have the vote. That is because they do not know any different. [Interruption.] In Scotland, they were given that decency and the respect of having a vote at 16, and I think that we need to give young people that respect and give them the vote at 16.

Rwy'n falch fy mod yn gallu cymryd rhan yn y ddadl hon. Yn gynharach, dywedodd Lynne Neagle, yr Aelod Cynulliad —nid yw hi yma nawr—nad materion cyfansoddiadol oedd y cymhelliant iddi fentro i'r maes gwleidyddol, ond ni wnes i fynd i'r byd gwleidyddol i weld pobl ifanc yn cael eu hanwybyddu. Er bod pethau wedi symud ymlaen, mae llawer i'w wneud eto. Er enghraifft, ym 1997, roeddwn yn weithgar yn yr ymgyrch i sefydlu'r lle hwn. Er nad oeddwn yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol, roeddwn am weld lle i ddemocratiaeth yng Nghymru, yn hytrach na gorfod mynd i Lundain drwy'r amser. Fodd bynnag, ni allwn arfer fy hawl i bleidleisio ar y pryd. Credaf fod hynny'n rhwystredig i unrhyw berson ifanc sy'n cymryd unrhyw fath o ddiddordeb. Efallai y byddant yn cymryd rhan mewn llawer o ymgyrchoedd, ond ni allant fwrw eu pleidlais yn y blwch pleidleisio wedyn. Rydym wedi siarad am yr Alban yn ddiweddar, ond gallai hyn fod wedi cael ei wneud cyn y refferendwm yn yr Alban. Gallai San Steffan fod wedi cyflwyno'r hawl i bleidleisio yn 16 oed yn gynharach. Dywedodd Andrew RT Davies yn gynharach fod pleidlais mewn ysgol benodol a dywedodd y plant eu hunain nad oeddent am gael y bleidlais. Mae hynny oherwydd nad ydynt yn gwybod yn wahanol. [Torri ar draws.] Yn yr Alban, dangoswyd cwrteisi a pharch at bobl ifanc drwy roi'r hawl iddynt bleidleisio yn 16 oed, a chredaf fod angen inni ddangos yr un parch at bobl ifanc a rhoi'r bleidlais iddynt yn 16 oed.

17:32 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am grateful to the Member for taking an intervention, but to say that 16 and 17-year-olds do not know any better is a bit harsh, to say the least. This vote is held on an annual basis at Hawthorn, and at various schools across South Wales Central that I have attended with other Members, and I have yet to go to one school where a majority has endorsed having the vote at age 16.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am dderbyn ymyriad, ond mae dweud nad yw pobl ifanc 16 a 17 oed yn gwybod yn well braidd yn llym, a dweud y lleiaf. Cynhelir y bleidlais hon yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen bob blwyddyn, ac mewn gwahanol ysgolion rwyf wedi'u mynychu gydag Aelodau eraill ledled Canol De Cymru, ac nid wyf wedi mynd i unrhyw ysgol eto lle mae mwyafrif wedi cymeradwyo cael y bleidlais yn 16 oed.

17:32 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

'They do not know any better' are not the words I used; I said that they do not know any different. At the moment, the education system that we have—and Peter Black mentioned going in and talking about electoral processes—means that we cannot go in and be political. They need to hear what we are saying on a political basis for them to be engaged and for them to decide on these things. I am not trying to patronise the young people, as you seem to be suggesting; all I am saying is that they have not being given the chance, in contrast to Scotland, where we have seen 16 and 17-year-olds have debates with their parents as to why they are voting differently in the 'yes' campaign. Also, they were given a very stark choice, were they not? People say, 'Naughty Wales; why can't you engage more young people?' It is because we do not have that very stark campaign difference. If we had the answer to empowering young people, we would be doing it already. Yes, all of us here want to get more people involved, but, in various campaigns, we have to give young people the tools to be able to do that, as opposed to the sort of top-down thing, saying 'We'll do the work for you'. We have to say, 'Well, you set up a campaign group; you do this for yourself', and then that might change the way in which things work for them.

Ni ddefnyddiais y geiriau 'Nid ydynt yn gwybod yn well'; yr hyn a ddywedais oedd nad ydynt yn gwybod yn wahanol. Ar hyn o bryd, oherwydd y system addysg sydd gennym—a soniodd Peter Black am fynd i mewn a siarad am brosesau etholiadol—ni allwn fynd i mewn a bod yn wleidyddol. Mae angen iddynt glywed yr hyn rydym yn ei ddweud ar sail wleidyddol iddynt gael eu cynnwys ac iddynt benderfynu ar y pethau hyn. Nid wyf yn ceisio bod yn nawddoglyd tuag at y bobl ifanc, fel yr ymddengys eich bod yn awgrymu; y cwbl rwy'n ei ddweud yw nad ydynt wedi cael y cyfle, yn wahanol i'r Alban, lle rydym wedi gweld pobl ifanc 16 a 17 oed yn cael trafodaethau gyda'u rhieni ynglŷn â pham eu bod yn pleidleisio yn wahanol yn yr ymgyrch 'ie'. Hefyd, cawsant ddewis clir iawn, yn do? Mae pobl yn dweud, 'Cymru ddrwg; pam na allwch ennyn diddordeb mwy o bobl ifanc?' Y rheswm yw nad oes gennym y gwahaniaeth clir iawn hwnnw o safbwynt yr ymgyrch. Pe bai gennym yr ateb i rymuso pobl ifanc, byddem yn ei wneud eisoes. Wrth gwrs, mae pob un ohonom yma yn awyddus i weld mwy o bobl yn cymryd rhan, ond, mewn gwahanol ymgyrchoedd, mae'n rhaid i ni roi'r adnoddau i bobl ifanc allu gwneud hynny, yn wahanol i'r agwedd o'r brig i lawr, sy'n dweud 'Byddwn ni'n gwneud y gwaith ar eich rhan'. Mae'n rhaid i ni ddweud, 'Wel, ewch chi ati i sefydlu grŵp ymgyrchu; gwnewch hyn eich hunain', a gallai hynny newid y ffordd y mae pethau'n gweithio ar eu cyfer.

With regard to the issue of Funky Dragon, I do not agree with the way that the Welsh Government took the funding away from Funky Dragon; I think that that needs to be explained. However, neither do I think that Funky Dragon sits within the Government's realm. As I have been saying since I was elected here, we need to see a youth parliament via the Assembly Commission. I know that the Commission is doing much more work in this area, but it has not taken the full step of creating a youth parliament. I do not think that it is proper for it to have funding from the Government, because all parties need to feel equal with regard to what happens, and I think we need to have a proper set-up here, where we provide time for them to sit in the Chamber and to have debates in a proper fashion. They could even inform the debates that we have here, because we are all talking about young people now, and I am sure that they have things to say that could inform this debate better for the future.

O safbwynt y Ddraig Ffynci, nid wyf yn cytuno â'r ffordd yr aeth Llywodraeth Cymru ati i ddiddymu cyllid y Ddraig Ffynci; credaf fod angen egluro hynny. Fodd bynnag, nid wyf yn credu chwaith bod y Ddraig Ffynci yn perthyn i gylch gwaith y Llywodraeth. Fel rwyf wedi'i ddweud ers cael fy ethol i'r lle hwn, mae angen inni weld senedd ieuenctid drwy Gomisiwn y Cynulliad. Gwn fod y Comisiwn yn gwneud llawer mwy o waith yn y maes hwn, ond nid yw wedi cymryd y cam llawn o sefydlu senedd ieuenctid. Nid wyf yn credu ei bod yn briodol iddo gael cyllid gan y Llywodraeth, oherwydd mae angen i bob plaid deimlo'n gyfartal o ran yr hyn sy'n digwydd, ac rwy'n credu bod angen inni gael trefniant priodol yma, lle rydym yn rhoi amser iddynt eistedd yn y Siambr a chael trafodaethau mewn modd priodol. Gallent hyd yn oed lywio'r dadleuon sy'n cael eu cynnal yma, oherwydd rydym i gyd yn sôn am bobl ifanc yn awr, ac rwy'n siŵr bod ganddynt bethau i'w dweud a allai lywio'r ddadl hon yn well ar gyfer y dyfodol.

So, I am not happy with the way that it did it, but I do not think that it sits with the Government. Obviously, we will be able to pursue the Commission further as to the voting for young people.

Felly, nid wyf yn fodlon â sut yr aeth ati i'w wneud, ond nid wyf yn meddwl mai'r Llywodraeth sy'n gyfrifol. Yn amlwg, byddwn yn gallu pwyso ar y Comisiwn ymhellach ynglŷn â phobl ifanc yn pleidleisio.

With regards to campaigning and engaging young people, it is not true to say that it is all on social media; they do actually want to have face-to-face discussions, so let us acknowledge that too. I also think that there are new ways of doing things. Look at voting online. We can get mortgages out online, we can seek financial advice online, but somehow it is not safe enough still for us to vote online. I think, not only for young people, but for adults too, if we were to adapt the electoral system to be more engaging in that manner, then we may see more young people who can currently vote at the age of 18 taking part in the political process.

O safbwynt ymgyrchu ac ennyn diddordeb pobl ifanc, nid yw'n wir dweud bod y cyfan ar y cyfryngau cymdeithasol; maent yn awyddus i gael trafodaethau wyneb-yn-wyneb mewn gwirionedd, felly gadewch inni gydnabod hynny hefyd. Rwyf hefyd yn credu bod ffyrdd newydd o wneud pethau. Edrychwch ar bleidleisio ar-lein. Gallwn gael morgeisi ar-lein, gallwn ofyn am gyngor ariannol ar-lein, ond rywsut nid yw'n ddigon diogel o hyd i ni bleidleisio ar-lein. Rwy'n credu, nid yn unig o safbwynt pobl ifanc, ond o safbwynt oedolion hefyd, pe baem yn addasu'r system etholiadol i fod yn fwy deniadol yn y modd hwnnw, mae'n bosibl y byddwn yn gweld mwy o bobl ifanc sy'n gallu pleidleisio ar hyn o bryd yn 18 oed yn cymryd rhan yn y broses wleidyddol.

However, yet again, just to end, it is all about us and how we engage with young people and inspire them. If we can do that, then we will go a long way to getting more people engaged in Wales.

Fodd bynnag, unwaith eto, wrth gloi, mae'n ymwneud â ni a sut rydym yn ennyn diddordeb pobl ifanc a'u hysbrydoli. Os gallwn wneud hynny, yna byddwn yn mynd yn bell i sicrhau bod mwy o bobl yn cymryd rhan yng Nghymru.

17:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

17:36

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I would like to thank Aled Roberts for tabling this motion. Lowering the voting age to 16, as Members know, has been the subject of several debates in this Chamber and today we have another opportunity to debate such an important matter. I have been very pleased and proud on more than one occasion to respond to these debates in support of a motion to lower the voting age to 16.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i Aled Roberts am gyflwyno'r cynnig hwn. Mae gostwng yr oedran pleidleisio i 16, fel y gŵyr yr Aelodau, wedi bod yn destun sawl dadl yn y Siambr hon a heddiw mae gennym gyfle arall i drafod mater mor bwysig. Rwyf wedi bod yn falch iawn ar fwy nag un achlysur o ymateb i'r dadleuon hyn i gefnogi cynnig i ostwng yr oedran pleidleisio i 16.

The Welsh Government supports and values strong and effective democracy, and that means that we must recognise that the involvement of young people in the democratic process is essential to achieving this. That is why we support the lowering of the voting age to 16. The political engagement of young people and the electorate in general during the Scottish referendum was very inspiring, as Julie Morgan and other Members have said today. It also demonstrated that it is possible to engage people, especially young people, in the democratic process. Over 90% of Scotland's 16 and 17-year-olds registered to vote in the referendum. The overall turnout was 84.59%, the highest on record and a figure that we would all like to see at every poll. It is right that Scottish 16 and 17-year-olds were able to vote in the referendum, on an important decision that affects their future.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn gwerthfawrogi democratiaeth gref ac effeithiol, ac mae hynny'n golygu bod rhaid inni gydnabod bod cyfranogiad pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn. Dyna pam rydym yn cefnogi gostwng yr oedran pleidleisio i 16. Roedd ymgysylltiad gwleidyddol pobl ifanc a'r etholwyr yn gyffredinol yn ystod refferendwm yr Alban yn ysbrydoliaeth fawr, fel y mae Julie Morgan ac Aelodau eraill wedi'i ddweud heddiw. Dangosodd hefyd ei bod yn bosibl cynnwys pobl, yn enwedig pobl ifanc, yn y broses ddemocrataidd. Cofrestrodd dros 90% o bobl ifanc 16 a 17 oed yn yr Alban i bleidleisio yn y refferendwm. Roedd y ganran a bleidleisiodd yn 84.59%, yr uchaf a gofnodwyd erioed ac yn ffigur y byddem i gyd yn hoffi ei weld ym mhob etholiad. Roedd yn briodol bod pobl ifanc 16 a 17 oed yn gallu pleidleisio yn y refferendwm yn yr Alban, ar benderfyniad pwysig sy'n effeithio ar eu dyfodol.

As politicians, we make decisions every day that affect the lives of young people. At 16, a young person can choose to leave full-time education, take up employment and pay income tax. They may marry without parental consent and have a family. These attributes of citizenship are recognised by law, yet these young people are not deemed old enough to vote by the people who make the laws affecting them.

Fel gwleidyddion, rydym yn gwneud penderfyniadau bob dydd sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc. Yn 16 oed, gall pobl ifanc ddewis gadael addysg lawn-amser, dechrau gweithio a thalu treth incwm. Gallent briodi heb ganiatâd eu rhieni a chael teulu. Mae'r nodweddion hyn o ddinasyddiaeth yn cael eu cydnabod gan y gyfraith, ond nid yw'r bobl ifanc hyn yn cael eu hystyried yn ddigon hen i bleidleisio gan y bobl sy'n gwneud y cyfreithiau sy'n effeithio arnynt.

From the debate we have had today, there is agreement, I believe, that 16 and 17-year-olds should be able to vote in all elections. Their having a say in who represents them is widely supported and firmly backed by the Welsh Labour Government. The Welsh Government has always encouraged—particularly through the school curriculum for Wales, and Peter Black acknowledged this—opportunities for schools to encourage young people to participate in the political process and become active citizens. Young people are introduced to this process through participation in school councils, which means getting involved in the decision-making process, mock elections, and having an ongoing influence in those schools, including appointing headteachers. That is happening at primary school level as well as secondary school level. These activities provide an understanding of the democratic process and how the political system works.

O'r ddadl rydym wedi'i chael heddiw, mae cytundeb, rwy’n credu, y dylai’r rhai 16 a 17 oed allu pleidleisio ym mhob etholiad. Mae’r cyfle iddynt gael dweud eu dweud am bwy sy'n eu cynrychioli yn cael ei gefnogi yn eang a’i gefnogi’n gadarn gan Lywodraeth Lafur Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wastad wedi hyrwyddo—yn enwedig drwy'r cwricwlwm ysgol ar gyfer Cymru, ac roedd Peter Black wedi cydnabod hyn—cyfleoedd i ysgolion annog pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses wleidyddol a dod yn ddinasyddion gweithgar. Mae pobl ifanc yn cael eu cyflwyno i'r broses hon trwy gymryd rhan mewn cynghorau ysgol, sy'n golygu cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, etholiadau ffug, a chael dylanwad parhaus yn yr ysgolion hynny, gan gynnwys penodi penaethiaid. Mae hynny'n digwydd ar lefel ysgol gynradd yn ogystal â lefel ysgol uwchradd. Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu dealltwriaeth o'r broses ddemocrataidd a sut mae'r system wleidyddol yn gweithio.

However, I think those developments can be lost if a lengthy period of time elapses between leaving school and being able to vote for the first time. We interest and engage young people at a very early stage, particularly through the school curriculum and through school councils. So, lowering the voting age could establish the habit of voting when still at school, and could lead to increased turnouts. As Kirsty Williams said, the school pupils and students going to vote before going to school was an impressive picture that we saw at the Scottish referendum. It is wholly contradictory that young people in Scotland will not be able to vote in the general election next year when they could vote in the referendum. That momentum of engagement achieved for the Scottish referendum will be interrupted for those people.

Fodd bynnag, credaf ei bod yn bosibl colli’r datblygiadau hynny os yw cyfnod hir yn mynd heibio rhwng gadael yr ysgol a bod â’r gallu i bleidleisio am y tro cyntaf. Rydym yn ennyn diddordeb pobl ifanc yn gynnar iawn, yn enwedig drwy'r cwricwlwm ysgol a thrwy gynghorau ysgol. Felly, gallai gostwng yr oedran pleidleisio sefydlu’r arfer o bleidleisio pan fo disgyblion yn parhau i fod yn yr ysgol, a gallai arwain at fwy o bobl yn pleidleisio. Fel y dywedodd Kirsty Williams, roedd gweld disgyblion ysgol a myfyrwyr yn mynd i bleidleisio cyn mynd i'r ysgol yn ddarlun trawiadol yn refferendwm yr Alban. Mae'n gwbl anghyson na fydd pobl ifanc yn yr Alban yn gallu pleidleisio yn yr etholiad cyffredinol y flwyddyn nesaf pan allent bleidleisio yn y refferendwm. Bydd y momentwm hwnnw o ymgysylltu a gafodd ei sicrhau ar gyfer refferendwm yr Alban yn cael ei dorri i'r bobl hynny.

I want also to comment on the work that Lesley Griffiths did, when she was Minister for local government, looking at diversity in local government. Her report, ‘On Balance: Diversifying Democracy in Local Government’ recommended that councils and secondary schools should encourage councillors to speak to students about their role and the creation of shadow youth cabinets to promote their work through county councils. I am very fortunate in my constituency. The Vale of Glamorgan has a good example of this. It has appointed a youth cabinet. It is a formidable group of young people. Some town and community councils, such as Solva and Welshpool, have appointed youth representatives. I know that there are more examples and many of you, as Assembly Members, will be engaging with them in your constituencies. However, getting more young people engaged as the first step requires action at all levels to increase awareness, registration and turnout.

Rwyf am roi sylwadau hefyd ar y gwaith a wnaeth Lesley Griffiths, pan oedd yn Weinidog dros lywodraeth leol, yn edrych ar amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Roedd ei hadroddiad, ‘Ar ôl Pwyso a Mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol' yn argymell y dylai cynghorau ac ysgolion uwchradd annog cynghorwyr i siarad â myfyrwyr am eu rôl a chreu cabinet ieuenctid cysgodol i hyrwyddo eu gwaith drwy gynghorau sir. Rwy’n ffodus iawn yn fy etholaeth. Mae gan Fro Morgannwg enghraifft dda o hyn. Mae wedi penodi cabinet ieuenctid. Mae'n grŵp heb ei ail o bobl ifanc. Mae rhai cynghorau tref a chymuned, megis Solfach a'r Trallwng, wedi penodi cynrychiolwyr ieuenctid. Gwn fod mwy o enghreifftiau a bydd llawer ohonoch chi, fel Aelodau'r Cynulliad, yn ymgysylltu â hwy yn eich etholaethau. Fodd bynnag, mae sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan fel y cam cyntaf yn gofyn am gamau gweithredu ar bob lefel i godi ymwybyddiaeth, cofrestru a nifer y pleidleiswyr.

Modernising the electoral system by moving from the system of household registration to individual electoral registration could provide an opportunity to improve levels of electoral registration, particularly among young people. One example of a campaign recently by electoral registration staff in Ceredigion improved levels of registration, which resulted in 2,655 new student registrations. I am sure that Elin Jones was very pleased to hear that; where they are going to vote is for them to decide. The new online registration facilities are another positive step.

Gallai moderneiddio'r system etholiadol drwy symud oddi wrth y system o gofrestru cartrefi i gofrestru etholiadol unigol roi cyfle i wella lefelau o gofrestru etholiadol, yn enwedig ymysg pobl ifanc. O ganlyniad i un enghraifft ddiweddar o ymgyrch gan staff cofrestru etholiadol yng Ngheredigion, cynyddodd y lefelau cofrestru, a chofrestrwyd 2,655 o fyfyrwyr newydd. Rwy’n siŵr bod Elin Jones yn falch iawn o glywed hynny; mater iddynt hwy yw penderfynu ble maent yn mynd i bleidleisio. Mae'r cyfleusterau cofrestru ar-lein newydd yn gam cadarnhaol arall.

Just focusing on our responsibilities in the Welsh Government in terms of promoting the rights of children and young people, that, of course, was embodied in the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. It placed children's rights at the heart of the Government's work. The Children and Families (Wales) Measure 2010 places a duty on local authorities to have structures in place to enable children and young people to participate, have a voice, and influence decisions at local level.

Wrth ganolbwyntio ar ein cyfrifoldebau yn Llywodraeth Cymru o ran hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc, cafodd y gwaith hwnnw, wrth gwrs, ei ymgorffori ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Roedd yn rhoi hawliau plant wrth wraidd gwaith y Llywodraeth. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sefydlu strwythurau sy'n galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan, cael llais, a dylanwadu ar benderfyniadau ar lefel leol.

17:40

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

So, if it is good enough for us to ensure that children have a voice at local level, and if we have insisted that schools give young people a voice, why then have we not got a national organisation to replicate that at a national level, given that you are taking the money away from Funky Dragon? Surely, if it is good enough for county councils, it is good enough for Welsh Government.

Felly, os yw'n ddigon da i ni sicrhau bod plant yn cael llais ar lefel leol, ac os ydym wedi mynnu bod ysgolion yn rhoi llais i bobl ifanc, pam felly nad oes gennym sefydliad cenedlaethol i ailadrodd hynny ar lefel genedlaethol, o gofio eich bod yn cymryd yr arian oddi wrth y Ddraig Ffynci? Does bosibl, os yw'n ddigon da i gynghorau sir, mae'n ddigon da i Lywodraeth Cymru.

17:42

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I am just moving on to this very point, Kirsty Williams. I think it is very important that we put on the record that ensuring that children have an active voice and can participate in the working of government is a key theme in the new children and families delivery grant. There has been a recent tender process and Members have commented today on the fact that the grant to meet that theme and that objective was awarded to Children in Wales. I will say again that, in terms of what the expectations will be, it was awarded a grant to deliver the project in partnership with Tros Gynnal Plant and Voices From Care Cymru. The project will inform and enable children and young people to participate effectively with Ministers and policy makers. I will go on to this in a minute. Also, that project is going to ensure that the Children and Young People's Workforce is informed of children's right to participate and that structures are in place to support a better informed, engaged workforce to deliver Welsh Government policy and effectively influence and contribute to policy development. So, that is what Children in Wales has been tasked to do in partnership with Tros Gynnal Plant and Voices From Care Cymru. I would like to pay tribute, as others have, to the young people who have led the way in youth participation initiatives over the past 15 years and influenced government at all levels, including those people who have played a part as Funky Dragon representatives, and including those young people who have played a part in youth forums. Kirsty Williams, of course, mentioned Powys youth forum. Also, I think we need to recognise that the Presiding Officer made an important statement on youth engagement in July. That is where I feel that Bethan Jenkins has an important point—

Wel, rwyf ar fin symud ymlaen at pwynt hwn, Kirsty Williams. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cofnodi bod sicrhau bod gan blant lais gweithgar ac yn gallu cymryd rhan yn y gwaith o lywodraeth yn thema allweddol yn y grant cyflawni plant a theuluoedd newydd. Mae proses dendro wedi'i chynnal yn ddiweddar ac mae Aelodau wedi sôn heddiw am y ffaith fod y grant i ateb y thema honno a bodloni'r amcan hwnnw wedi'i ddyfarnu i Plant yng Nghymru. Fe'i dywedaf eto, o safbwynt y disgwyliadau, dyfarnwyd grant i Plant yng Nghymru i gyflwyno'r prosiect mewn partneriaeth â Tros Gynnal Plant a Voices From Care Cymru. Bydd y prosiect yn llywio ac yn galluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi yn effeithiol gyda Gweinidogion a llunwyr polisi. Af ymlaen at hyn mewn munud. Hefyd, bydd y prosiect hwnnw yn sicrhau bod y Gweithlu Plant a Phobl Ifanc yn cael ei hysbysu am hawl plant i gyfranogi a bod strwythurau ar waith i gefnogi gweithlu sy'n gwybod mwy ac yn cymryd mwy o ran er mwyn cyflawni polisi Llywodraeth Cymru a dylanwadu ar ddatblygu polisïau a chyfrannu atynt yn effeithiol. Felly, dyna dasg Plant yng Nghymru mewn partneriaeth â Tros Gynnal Plant a Voices From Care Cymru. Hoffwn dalu teyrnged, fel y gwnaeth eraill, i'r bobl ifanc sydd wedi arwain y ffordd mewn mentrau cyfranogiad ieuenctid dros y 15 mlynedd diwethaf, gan ddylanwadu ar y llywodraeth ar bob lefel, gan gynnwys y bobl hynny sydd wedi chwarae rhan fel cynrychiolwyr y Ddraig Ffynci, ac yn cynnwys y bobl ifanc hynny sydd wedi chwarae rhan mewn fforymau ieuenctid. Cyfeiriodd Kirsty Williams, wrth gwrs, at fforwm ieuenctid Powys. Hefyd, rwy'n credu bod angen cydnabod bod y Llywydd wedi gwneud datganiad pwysig ar ymgysylltu â phobl ifanc ym mis Gorffennaf. Dyna le rwy'n teimlo bod gan Bethan Jenkins bwynt pwysig.

17:44

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

May I just clarify how long that funding will stay in for? Obviously, the situation with Funky Dragon was that the funding came to an end. So, we need to understand how long that programme will run for.

A gaf fi gadarnhau am faint o amser y bydd y cyllid hwnnw yn para? Yn amlwg, y sefyllfa gyda'r Ddraig Ffynci oedd bod y cyllid wedi dod i ben. Felly, mae angen i ni ddeall am faint o amser y bydd y rhaglen honno yn para.

17:44 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, this is something that the Minister will report back on. I want to finally say that the Minister for Communities and Tackling Poverty is meeting with the Presiding Officer shortly to discuss how different approaches to children's and young people's participation can complement each other in terms of addressing these wider issues following those statements that all leaders made in the summer. So, finally, Deputy Presiding Officer, we have committed ourselves, as the Labour Party, as did Ed Miliband and the First Minister yesterday, to lowering the voting age to include 16-year-olds and 17-year-olds. I hope that Members will support the motion. We are opposing the amendment, but we welcome the fact that there is a debate on this issue, and I hope that I have clarified a way forward to address the very issue of how we engage children and young people strategically at national and local levels.

Wel, dyma rywbeth y bydd y Gweinidog yn adrodd yn ôl arno. Rwyf am ddweud yn olaf bod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn cyfarfod â'r Llywydd cyn bo hir i drafod sut mae gwahanol ddulliau o gyfranogiad plant a phobl ifanc yn gallu ategu ei gilydd o ran ymdrin â'r materion ehangach hyn yn dilyn y datganiadau hynny a wnaeth yr holl arweinwyr yn yr haf. Felly, yn olaf, Ddirprwy Lywydd, rydym wedi ymrwymo ein hunain, fel y Blaid Lafur, fel y gwnaeth Ed Miliband a'r Prif Weinidog ddoe, i ostwng yr oed pleidleisio i gynnwys pobl ifanc 16 oed a 17 oed. Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n cefnogi'r cynnig. Rydym yn gwrthwynebu'r gwelliant, ond rydym yn croesawu'r ffaith fod dadl ar y mater hwn, ac rwy'n gobeithio fy mod wedi egluro ffordd ymlaen i fynd i'r afael â'r mater o sut rydym yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn strategol ar lefelau cenedlaethol a lleol.

17:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Eluned Parrott i ymateb i'r ddadl.

I call on Eluned Parrott to respond to the debate.

17:45 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Last week's referendum in Scotland was momentous. It is clear, not only from our debates today, but from conversations that continue across all of the UK's nations that the implications of that debate will reverberate for many years to come. However, as the establishment, including us, turns to the practicalities of renewing and rebuilding our union, we must not forget that this debate was as powerful and as lively as it was because of the active and informed participation of the people of Scotland and the crucial role of the young people of Scotland.

Diolch. Roedd y refferendwm yn yr Alban yr wythnos diwethaf yn bwysig iawn. Mae'n amlwg, nid yn unig ar sail ein trafodaethau heddiw, ond hefyd ar sail y sgyrsiau sy'n parhau ledled pob un o wledydd y DU, y bydd goblygiadau'r ddadl honno yn parhau am flynyddoedd lawer i ddod. Fodd bynnag, wrth i'r sefydliad, gan ein cynnwys ni, droi at ymarferoldeb adnewyddu ac ailadeiladu ein hundeb, rhaid i ni beidio ag anghofio bod y ddadl hon mor bwerus ac mor fywiog ag yr oedd oherwydd cyfranogiad gweithredol a gwybodus pobl yr Alban a chyfraniad hanfodol pobl ifanc yr Alban.

Of course, this was a debate about the future of a nation and the young people of that nation have the most intimate possible interest in shaping that future—of course they do—for their own generation and the generations that follow. We have seen that, when they were enfranchised, engaged and involved in that debate, those young people grabbed that opportunity with both hands and they ran with it.

Wrth gwrs, dadl oedd hon am ddyfodol cenedl ac mae gan bobl ifanc y genedl honno'r diddordeb mwyaf personol posibl mewn llunio'r dyfodol hwnnw—wrth reswm—ar gyfer eu cenhedlaeth eu hunain a'r cenedlaethau sy'n dilyn. Rydym wedi gweld, pan gawsant gyfle i bleidleisio, cymryd rhan a chyfrannu at y ddadl honno, aeth y bobl ifanc hynny ati i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle hwnnw.

Our debate today does not call for votes at age 16 specifically, but does welcome the role that young people played in the democratic process when given the opportunity to engage. I had hoped that this example would demonstrate to Members on the benches opposite that 16 to 18-year-olds are not only willing, but are more than able, to engage in the political process fully. Sadly, that does not seem to be the case for all Members and I am very sorry to hear it. I think that it is way beyond high time we stopped patronising our young people by suggesting that they are not capable of entering into reasoned, informed debate. Self-evidently, they absolutely are.

Nid yw ein dadl heddiw yn galw am y bleidlais yn 16 oed yn benodol, ond mae'n croesawu'r rôl a chwaraeodd pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd pan gawsant y cyfle i gymryd rhan. Roeddwn wedi gobeithio y byddai'r enghraifft hon yn dangos i Aelodau ar y meinciau gyferbyn bod pobl ifanc 16 i 18 oed nid yn unig yn barod, ond yn fwy na galluog, i gymryd rhan yn llawn yn y broses wleidyddol. Yn anffodus, nid yw'n ymddangos bod hynny'n wir am yr holl Aelodau ac mae'n ddrwg gennyf glywed hynny. Credaf ei bod yn hen bryd i ni roi'r gorau i ymddwyn yn nawddoglyd tuag at ein pobl ifanc drwy awgrymu nad ydynt yn gallu cymryd rhan mewn trafodaeth resymegol, wybodus. Mae'n amlwg eu bod yn gallu gwneud hynny.

When they are patronised and marginalised and disenfranchised at 17, is it any wonder that many of them then turn their backs on party politics at 18? We must continue this conversation on enfranchisement now that this precedent has been set. Even within the current rules, it is absolutely vital that we work more effectively to engage and enthuse young people in the decisions that affect them as much as they affect any of the rest of us.

Pan fyddant yn wynebu agweddau nawddoglyd ac yn cael eu hymyleiddio a'u difreinio yn 17, a oes unrhyw syndod bod llawer ohonynt wedyn yn troi eu cefnau ar wleidyddiaeth plaid yn 18? Mae'n rhaid i ni barhau'r sgwrs hon ar hawliau pleidleisio nawr bod y cynsail hwn wedi ei osod. Hyd yn oed o fewn y rheolau presennol, mae'n gwbl hanfodol ein bod yn gweithio'n fwy effeithiol i ennyn diddordeb a brwdfrydedd pobl ifanc yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt gymaint ag y maent yn effeithio ar y gweddill ohonom.

I would like to thank all the Members who have contributed today and those organisations in our third sector that have worked so hard to ensure that the voices of young people continue to be heard. That includes organisations such as Bite the Ballot and Funky Dragon, which have played an important role.

Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu heddiw, a'r sefydliadau hynny yn ein trydydd sector sydd wedi gweithio mor galed i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn parhau i gael eu clywed. Mae hynny'n cynnwys sefydliadau fel Bite the Ballot a'r Ddraig Ffynci, sydd wedi chwarae rhan bwysig.

Turning to individual Members' contributions, in opening the debate today, Aled Roberts highlighted the vital role of voter registration in improving engagement in elections, and he spoke of Lord Roberts's proposed amendment to the Wales Bill currently going through the House of Lords to make voter registration easier and more accessible. Bluntly put, if you are not on the register, you are not enfranchised, and if you are not on the register at 17, you may not be on the register at 18 when it is your turn to vote. We need to make sure that that process is as easy and as accessible as possible. So, I welcome very much Lord Roberts's proposed amendments to the Wales Bill as well as, should they fail, his private Member's Bill on the same subject.

Gan droi at gyfraniadau Aelodau unigol, wrth agor y ddadl heddiw, tynnodd Aled Roberts sylw at waith hanfodol cofrestru etholwyr wrth wella ymgysylltiad mewn etholiadau, a siaradodd am ddiwygiad arfaethedig yr Arglwydd Roberts i Fil Cymru sy'n mynd drwy Dŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd i'w gwneud yn haws ac yn fwy hwylus i bleidleiswyr gofrestru. A bod yn gwbl blaen, os nad ydych ar y gofrestr, nid oes gennych bleidlais, ac os nad ydych ar y gofrestr yn 17, efallai na fyddwch ar y gofrestr yn 18 pan ddaw eich tro chi i bleidleisio. Mae angen i ni sicrhau bod y broses honno mor hawdd ac mor hygyrch â phosibl. Felly, croesawaf yn fawr iawn diwygiadau arfaethedig yr Arglwydd Roberts i Fil Cymru yn ogystal â, petaent yn methu, ei Fil Aelod preifat ar yr un pwnc.

Andrew R.T. Davies reflected on the irony of the contrast between some of the rhetoric about youth engagement and the reality of the funding cuts to a body that has been delivering on this agenda very effectively. I attended Funky Dragon's conference this year, here in the Assembly, and I was incredibly impressed by the quality of the work that it was doing. I was dismayed, as other Members have been, by the cut in funding to a project that has clearly been a real trailblazer in terms of youth engagement, that is well respected internationally, and that has an excellent reputation. That is not to say that there can be no other means of delivering youth engagement, and there should be more and a broader range of those means, but notwithstanding that, there needs to be a better understanding of what the decision-making process was in terms of Funky Dragon and, specifically, what is the strategy to deliver youth engagement? What is the strategy to bring that youth engagement to the Assembly and provide a national forum if that is being removed by the removal of funding from Funky Dragon?

Myfyriodd Andrew RT Davies ar eironi'r cyferbyniad rhwng rhywfaint o'r rhethreg ynghylch ymgysylltu â phobl ifanc a realiti'r toriadau i gyllid y corff sydd wedi llwyddo i roi'r agenda hon ar waith yn effeithiol iawn. Mynychais gynhadledd y Ddraig Ffynci eleni, yma yn y Cynulliad, a chreodd ansawdd y gwaith roedd yn ei wneud argraff fawr arnaf. Roeddwn yn siomedig iawn, fel y mae Aelodau eraill wedi bod, gan y toriad mewn cyllid i brosiect sydd, mae'n amlwg, wedi arwain y ffordd go iawn wrth ymgysylltu â phobl ifanc, sy'n cael ei barchu'n dda yn rhyngwladol, ac sydd ag enw rhagorol. Nid yw hynny'n golygu nad oes unrhyw ddull arall o ymgysylltu â phobl ifanc, a dylid sicrhau bod mwy o ddulliau ac ystod ehangach o'r dulliau hynny, ond er hynny, mae angen gwell dealltwriaeth o natur y broses o wneud penderfyniadau o safbwynt y Ddraig Ffynci ac, yn benodol, beth yw'r strategaeth i sicrhau ymgysylltiad â phobl ifanc? Beth yw'r strategaeth i ddod â'r ymgysylltiad hwnnw â phobl ifanc i'r Cynulliad ac i ddarparu fforwm cenedlaethol os yw hynny'n cael ei ddileu drwy ddiddymu cyllid y Ddraig Ffynci?

We will, of course, support the Conservatives' amendment today and we thank them for it. I also thank them for the free vote on the motion, but I would point out that, in terms of the debate today, this motion does not actually call for votes at 16, which seems to be the problem that they have with it. We want to recognise the importance of early engagement, ensure that we hear the voices of young people in our decision-making process and, most importantly, ensure that young people are registered to vote at the ages of 16 and 17, so that they are on the register for their first election at the age of 18. I had imagined that the Conservatives might be able to support a motion that was not specifically touching that contentious issue for them.

Byddwn, wrth gwrs, yn cefnogi gwelliant y Ceidwadwyr heddiw, a diolchwn iddynt amdano. Rwyf hefyd yn diolch iddynt am y bleidlais rydd ar y cynnig, ond byddwn yn nodi, o ran y ddadl heddiw, nad yw'r cynnig hwn mewn gwirionedd yn galw am yr hawl i bleidleisio yn 16 oed, sef yr hyn sy'n achosi problem iddynt mae'n ymddangos. Rydym am gydnabod pwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar, sicrhau ein bod yn clywed lleisiau pobl ifanc yn ein proses o wneud penderfyniadau ac, yn bwysicaf oll, sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cofrestru i bleidleisio yn 16 a 17 oed, fel eu bod ar y gofrestr ar gyfer eu hetholiad cyntaf yn 18 oed. Roeddwn wedi meddwl y gallai'r Ceidwadwyr gefnogi cynnig nad oedd yn cyfeirio'n benodol at y mater sy'n ddadleuol yn eu tyb hwy.

Bill Powell spoke very eloquently about the importance of Funky Dragon's work. Yes, I will certainly give way.

Siaradodd Bill Powell yn huawdl iawn am bwysigrwydd gwaith y Ddraig Ffynci. Ydw, rwy'n gwbl fodlon ildio.

17:50

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You do, of course, recognise that we have to vote against the motion in order for you to be able to vote for the amendment.

Rydych, wrth gwrs, yn sylweddoli bod yn rhaid inni bleidleisio yn erbyn y cynnig er mwyn i chi allu pleidleisio o blaid y gwelliant.

17:50

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am sure that, after voting for the amendment, you will then want to vote for the motion as amended, should we get that far. [Laughter.]

Rwy'n siŵr, ar ôl pleidleisio dros y gwelliant, y byddwch wedyn yn dymuno pleidleisio dros y cynnig fel y'i diwygiwyd, pe baem yn cyrraedd mor bell â hynny. [Chwerthin.]

I would also like to thank Julie Morgan for her kind support for our motion today and also for her long-term commitment to this idea, not only here, but also in Parliament. Julie talked about the ideas of fairness and inclusion, and about getting into the habit of voting and how important that is for young people. She also talked about the important role of youth parliaments, and how they fit into a structure that provides an engagement opportunity for young people.

Hoffwn ddiolch hefyd i Julie Morgan am ei chefnogaeth garedig i'n cynnig heddiw, a hefyd am ei hymrwymiad hirdymor i'r syniad hwn, nid yn unig yma, ond hefyd yn Senedd y DU. Siaradodd Julie am syniadau tegwch a chynhwysiant, ac am fynd i'r arfer o bleidleisio a pha mor bwysig yw hynny i bobl ifanc. Siaradodd hefyd am rôl bwysig y seneddau ieuenctid, a sut y maent yn perthyn i strwythur sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc ymgysylltu.

What I think that Members on all sides of the Chamber wanted to hear in your contribution, Minister, was where the strategy is here. Where is the decision-making process leading us, in terms of delivering youth engagement, if funding is to be delivered on a grant-by-grant basis? That is not a long-term basis for delivering a long-term strategy, and that is what, unfortunately, having listened very carefully, I was not able to hear in your response today.

Yr hyn y credaf fod Aelodau ar bob ochr o'r Siambr yn awyddus i'w glywed yn eich cyfraniad, Weinidog, oedd ble mae'r strategaeth yma. Ble mae'r broses o wneud penderfyniadau sy'n ein harwain ni, o ran rhoi ymgysylltiad â phobl ifanc ar waith, os bydd cyllid yn cael ei ddarparu ar sail grantiau unigol? Nid yw hynny'n sylfaen hirdymor ar gyfer darparu strategaeth hirdymor, a dyna, yn anffodus, ar ôl gwrando yn ofalus iawn, nad oeddwn yn gallu ei glywed yn eich ymateb heddiw.

Peter Black was absolutely right to say, I think, that it is healthy for our democracy to open the vote to 16 and 17-year-olds, and he is absolutely right to point out that it is illogical, illiberal and unfair that, at 16, you can pay taxes, but are not considered responsible enough to decide on how your own money is spent.

Roedd Peter Black yn gwbl gywir i ddweud, rwy'n meddwl, ei bod yn iach ar gyfer ein democratiaeth i agor y bleidlais i bobl ifanc 16 a 17 oed, ac mae'n gwbl gywir i ddweud ei bod yn afresymegol, yn gul ac yn annheg bod pobl ifanc 16 oed yn gallu talu trethi, ond nid ydynt yn cael eu hystyried yn ddigon cyfrifol i benderfynu sut mae eu harian eu hunain yn cael ei wario.

I would like to thank Bethan Jenkins as well for her contribution. She talked about getting involved in politics at a young age on an issue that she felt very strongly about. I sympathise. I have been in politics so long that I was actually a member of the Liberal Party once. However, many, many young people, like you—

Hoffwn ddiolch i Bethan Jenkins hefyd am ei chyfraniad. Siaradodd am gael ei denu i wleidyddiaeth yn ifanc oherwydd pwnc ei bod yn teimlo'n gryf iawn amdano. Rwy'n cydymdeimlo. Rwyf wedi ymwneud â gwleidyddiaeth am gymaint o amser, roeddwn mewn gwirionedd yn aelod o'r Blaid Ryddfrydol unwaith. Fodd bynnag, mae llawer, llawer o bobl ifanc, fel chi—

17:52 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Those were the days.

Dyddiau da.

17:52 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know. Those were the days. [Laughter.]

Rwy'n gwybod. Dyddiau da. [Chwerthin.]

Many young people, however, have been turned off by party politics—[Interruption.] I know. They were happy days.

Mae llawer o bobl ifanc, fodd bynnag, wedi'u dadrithio gan wleidyddiaeth blaid—[Torri ar draws.] Rwy'n gwybod. Roeddynt yn ddyddiau hapus.

Many young people who have been turned off by a kind of politics that has, far too often, turned its back on them, are actively involved in cause-led campaigns: on the environment, international affairs and a huge range of other issues. So, it is wrong to suggest that 16 and 17-year-olds are not interested in politics. It should actually tell us everything that we need to know about the enthusiasm that is there. It should tell us everything that we need to know about the potential that there is to bring new ideas into our politics, if we offer those young people a chance.

Mae llawer o bobl ifanc sydd wedi'u dadrithio gan fath o wleidyddiaeth sydd, yn llawer rhy aml, wedi troi ei chefn arnynt, yn cymryd rhan weithredol mewn ymgyrchoedd a arweinir gan achos: ar yr amgylchedd, materion rhyngwladol ac amrywiaeth eang o faterion eraill. Felly, mae'n anghywir awgrymu nad oes gan bobl ifanc 16 a 17 oed ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth. Dylai ddweud popeth wrthym y mae angen i ni ei wybod mewn gwirionedd am y brwdfrydedd sydd yno. Dylai ddweud popeth wrthym y mae angen i ni wybod am y potensial sy'n bodoli i ddod â syniadau newydd i'n gwleidyddiaeth, os rydym yn cynnig cyfle i'r bobl ifanc hynny.

I thank the Welsh Government, and I thank the Minister for her support for the aims of this debate today and for her continued support for votes at the age of 16. I listened very carefully to your contribution, but as I understand it, you have given a tender now to Children in Wales to deliver a programme, but there is no plan in that to give Wales a representative assembly for young people. I fear that, with all of the grass-roots work done at a local level, the opportunity for those young people to feed into the National Assembly and the national Parliament may be lost if we do not have a structure that leads from the grass roots to the decision-making bodies here as well. So, I would like you to think on that and to see whether you can reconsider how we are going to deliver the voices of young people into the Assembly.

Rwy'n diolch i Lywodraeth Cymru, ac rwy'n diolch i'r Gweinidog am ei chefnogaeth i amcanion y ddadl hon heddiw ac am ei chefnogaeth barhaus i'r hawl i bleidleisio yn 16 oed. Gwrandewais yn astud iawn ar eich cyfraniad, ond yn ôl a ddeallaf, rydych wedi rhoi tendr nawr fel bod Plant yng Nghymru yn gallu cyflwyno rhaglen, ond nid yw'n cynnwys unrhyw gynllun i sefydlu cynulliad cynrychioladol ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru. Ofnaf, gyda'r holl waith ar lawr gwlad a wneir ar lefel leol, y gall y cyfle i'r bobl ifanc hynny lywio gwaith y Cynulliad Cenedlaethol a'r Senedd genedlaethol gael ei golli os nad oes gennym strwythur sy'n arwain o lawr gwlad i'r cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yma hefyd. Felly, hoffwn i chi feddwl am hynny a gweld a allwch ailystyried sut rydym yn mynd i ddod â lleisiau pobl ifanc i mewn i'r Cynulliad.

A lot has changed in politics since just last week, and a lot will change in the weeks, months and years to come as a result of last Thursday. I dearly hope that one of those changes will be that we open up our democracy to the young people who care so much about it and we bring some of those ideas into our Chamber.

Mae llawer wedi newid mewn gwleidyddiaeth ers yr wythnos diwethaf, a bydd llawer yn newid dros yr wythnosau, y misoedd a'r blynyddoedd i ddod o ganlyniad i ddydd Iau diwethaf. Rwy'n mawr obeithio mai un o'r newidiadau hynny yw y byddwn yn agor ein democratiaeth i'r bobl ifanc sy'n poeni cymaint amdani ac y byddwn yn dod â rhai o'r syniadau hynny i'n Siambr.

17:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A yw unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that the motion be agreed without amendment. Does any Member object? There is objection, therefore I will defer voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Voting time now follows. Before I start the votes, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Mae amser pleidleisio yn awr yn dilyn. Cyn i mi ddechrau ar y pleidleisiau, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5570

Result of the vote on motion NDM5570

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 21, Yn erbyn 31, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 21, Against 31, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5570

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5570

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5570

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5570

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 36, Yn erbyn 16, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 36, Against 16, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5570

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5570

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Cynnig NDM5570 fel y'i diwygiwyd.

Motion NDM5570 as amended.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

1) Yn nodi galwadau gan Gymdeithas Feddygol Prydain am ymchwiliad annibynnol llawn i wasanaethau'r GIG yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu ymchwiliad o'r fath cyn gynted â phosibl, ac

1) Notes calls from the British Medical Association for a full-scale independent investigation into Welsh NHS services and calls upon the Welsh Government to commission such an investigation as soon as possible, and

2) Yn gresynu at doriadau parhaus Llywodraeth y DU i wariant cyhoeddus a'r effaith ar fuddsoddi yn ein GIG.

2) Regrets the UK Government's continuing cuts to public spending and the impact on investment in our NHS.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5570 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5570 as amended

*Gwrthodwyd cynnig NDM5570 fel y'i diwygiwyd: O blaid 10, Yn erbyn 42, Ymatal 0.*

*Motion NDM5570 as amended not agreed: For 10, Against 42, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5571

Result of the vote on motion NDM5571

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 42, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 10, Against 42, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5571

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5571

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 11, Yn erbyn 41, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 11, Against 41, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5571

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5571

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 31, Yn erbyn 10, Ymatal 11.*

*Amendment agreed: For 31, Against 10, Abstain 11.*

Cynnig NDM5571 fel y’i diwygiwyd.

Motion NDM5571 as amended.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

1. Yn croesawu’r ffaith fod pobl yr Alban wedi dewis aros yn aelod o deulu cenhedloedd y Deyrnas Unedig;

1. Welcomes that the Scottish people have chosen to remain a member of the family of nations that is the United Kingdom;

2. Yn credu bod yn rhaid inni hyrwyddo undeb newydd ar gyfer holl bobl y DU, gan gynnwys Cymru; a

2. Believes that we must promote a new union for all the people of the UK, including Wales; and

3. Yn galw am weithredu ar fyrder Rannau 1 a 2 o’r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru a sefydlu confensiwn cyfansoddiadol ar draws y DU i ddrafftio cynllun ar gyfer undeb newydd.

3. Calls for the swift implementation of Parts 1 and 2 of the Commission on Devolution in Wales and the establishment of a UK-wide constitutional convention to draft a plan for a new union.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5571 fel y’i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5571 as amended

*Derbyniwyd cynnig NDM5571 fel y’i diwygiwyd: O blaid 31, Yn erbyn 10, Ymatal 11.*

*Motion NDM5571 as amended agreed: For 31, Against 10, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5574

Result of the vote on motion NDM5574

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 41, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 41, Against 11, Abstain 0.*

17:58

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

A all yr Aelodau hynny sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

17:59

# Dadl Fer: Ansawdd Mynediad—Pwysigrwydd Gofal Plant o ran Sicrhau bod Teuluoedd Incwm Isel neu Deuluoedd Un Rhiant yn Gallu Cael Mynediad i'r Gweithle

# Short Debate: Quality of Access—the Importance of Childcare in Allowing Low Income or Lone Parent Families to Access the Workplace

Senedd.tv Fideo Video

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

I am pleased to have secured today’s debate. I had agreed to give Aled Roberts a minute of my time, but he has been called away. I know that I am not the only Assembly Member who has had constituents attending surgeries and raising the issue of affordable childcare.

Rwy’n falch o fod wedi sicrhau’r ddadl heddiw. Roeddwn wedi cytuno i roi munud o’m hamser i Aled Roberts, ond mae wedi cael ei alw i ffwrdd. Gwn nad fi yw'r unig Aelod Cynulliad sydd wedi cael etholwyr yn mynychu cymorthfeydd ac yn codi’r mater o ofal plant fforddiadwy.

As we see our economy recover from the recession, we are seeing jobs created and opportunities develop. Unemployment is falling but we are in danger of leaving behind a whole section of society in Wales, and that section is lone parents with children. While the economy has grown, we have still failed to adequately address the need to provide and supply affordable childcare to make it economically viable for parents and to help them return to the workplace.

Wrth i ni weld ein heconomi yn gwella ar ôl y dirwasgiad, rydym yn gweld swyddi yn cael eu creu a chyfleoedd yn datblygu. Mae diweithdra yn gostwng ond rydym mewn perygl o adael rhan gyfan o gymdeithas yng Nghymru o’r neilltu, sef rhieni unigol sydd â phlant. Er bod yr economi wedi tyfu, rydym wedi methu o hyd â mynd i'r afael yn ddigonol â'r angen i ddarparu a chyflenwi gofal plant fforddiadwy i'w gwneud yn economaidd hyfyw i rieni ac i'w helpu i ddychwelyd i'r gweithle.

In single-parent families, the need for affordable childcare is even more pronounced. Mothers—and it remains mainly women who are lone parents—are not only the main care givers, but many also need and want to bring in an income to support their family. The background to this is stark in terms of the statistics. In a UK-wide survey, conducted for the Westminster Government by Netmums, 80% of parents said that childcare fees are too high, 10% are unable to find a childcarer they trust and over a quarter stated that they cannot find care to cover their hours. Most worryingly, the study revealed that more than two thirds of parents have been stopped from doing their job due to problems in finding suitable childcare. What is worth noting is that this survey also found that over half of the respondents felt that parents should bear the majority of the cost of childcare and only 6% felt that the cost should be passed on to the employer.

Mewn teuluoedd un rhiant, mae’r angen am ofal plant fforddiadwy hyd yn oed yn fwy amlwg. Mae mamau—a menywod yn bennaf sy'n rhieni unigol o hyd—nid yn unig yn bennaf gyfrifol am ddarparu gofal, ond mae llawer ohonynt hefyd yn gorfod ac yn awyddus i ennill incwm i gefnogi eu teulu. Mae’r cefndir i hyn yn amlwg o ran yr ystadegau. Mewn arolwg ledled y DU, a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth San Steffan gan Netmums, dywedodd 80% o rieni fod ffioedd gofal plant yn rhy uchel, nid yw 10% yn gallu dod o hyd i ofalwr plant y maent yn ymddiried ynddo a dywedodd dros chwarter na allant ddod o hyd i ofal sy’n cyd-fynd â’u horiau. Er mawr bryder, dangosodd yr astudiaeth fod mwy na dwy ran o dair o rieni wedi’u hatal rhag gwneud eu gwaith oherwydd problemau’n dod o hyd i ofal plant addas. Yr hyn sy'n werth ei nodi yw bod yr arolwg hwn wedi canfod hefyd bod dros hanner yr ymatebwyr yn teimlo mai rhieni a ddylai dalu’r rhan fwyaf o’r gost gofal plant a dim ond 6% a oedd yn teimlo y dylai'r gost gael ei throsglwyddo i'r cyflogwr.

The annual Family and Childcare Trust survey for 2014 earlier this year highlighted the rising cost of childcare across the UK, including Wales. In Wales, you can expect to pay on average £103 per week for a nursery place, which totals £5,356 per annum. It is only slightly cheaper for a childminder—£92.40 per week, which equates to £4,900 a year. Obviously, these figures are the figures for the cost of one child in childcare; they would double for two. Childcare costs have risen by 27% across the UK in the five years since 2009, and this is of huge concern. In 2012, only Swiss parents contributed a higher proportion of their salary than British parents to pay for childcare. Here in the UK, it has been estimated that over a quarter of a parent’s salary will go on childcare, compared with the Organisation for Economic Co-operation and Development average of 11.8%.

Yn gynharach eleni, dangosodd arolwg blynyddol 2014 yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant gost gynyddol gofal plant ledled y DU, gan gynnwys Cymru. Yng Nghymru, gallwch ddisgwyl talu £103 yr wythnos ar gyfartaledd am le mewn meithrinfa, sy'n gyfanswm o £5,356 y flwyddyn. Nid yw’n llawer rhatach i gael gwarchodwr plant—£92.40 yr wythnos, sy'n cyfateb i £4,900 y flwyddyn. Yn amlwg, ffigurau ar gyfer costau gofal un plentyn yw’r rhain; byddent yn dyblu ar gyfer dau. Mae costau gofal plant wedi codi 27% ledled y DU yn ystod y pum mlynedd ers 2009, ac mae hyn yn peri pryder mawr. Yn 2012, dim ond rhieni yn y Swistir a gyfrannodd gyfran fwy o'u cyflog na rhieni Prydain i dalu am ofal plant. Yma yn y DU, amcangyfrifir y bydd dros chwarter cyflog rhiant yn cael ei wario ar ofal plant, o'i gymharu â chyfartaledd 11.8% y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

Looking at the support that parents get from local authorities does not create a rosier picture. Local councils have a legal duty to make appropriate childcare provision, yet they are failing to do this, and this is something that I have raised in the Assembly Chamber before. Only 49% of councils in Wales have enough childcare for working parents and just 11% of Welsh local authorities have sufficient childcare for children aged between five and 11. When you look at all local authority provision in rural areas, you will see that it is nearly stated to be 0% in terms of adequacy.

O edrych ar y cymorth y mae rhieni yn ei gael gan awdurdodau lleol, nid yw’r darlun yn fwy gobeithiol. Mae gan gynghorau lleol ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu gofal plant priodol, ac eto maent yn methu â gwneud hyn, ac mae hyn yn rhywbeth rwyf wedi'i godi yn Siambr y Cynulliad o'r blaen. Dim ond 49% o gynghorau yng Nghymru sydd â digon o ofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio a dim ond 11% o awdurdodau lleol Cymru sydd â gofal plant digonol ar gyfer plant rhwng pump ac 11 oed. Wrth edrych ar holl ddarpariaeth yr awdurdodau lleol mewn ardaloedd gwledig, nodir ei bod bron yn 0% yn nhermau digonolrwydd.

The Family and Childcare Trust found that only 5% of Welsh councils have sufficient out-of-school activities for 12 to 14-year-olds and it states that, for many families, whether they find affordable and quality childcare is down to luck. With funding for out-of-school groups at just over £2 million for Welsh councils for the last three years, it appears that the Welsh Government is failing to adequately address the needs of working parents with children at either end of the age spectrum, and costs for after-school clubs have risen by 15%, but there has been no additional funding.

Nododd yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant mai dim ond 5% o gynghorau Cymru sydd â digon o weithgareddau y tu allan i oriau ysgol ar gyfer plant 12 i 14 oed ac mae'n datgan, i lawer o deuluoedd, mai mater o lwc yw hi a ydynt yn dod o hyd i ofal plant fforddiadwy o safon. Roedd y cyllid ar gyfer grwpiau y tu allan i oriau ysgol ychydig dros £2 filiwn ar gyfer cynghorau Cymru dros y tair blynedd diwethaf, ac mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn methu mynd i'r afael yn ddigonol ag anghenion rhieni sy'n gweithio sydd â phlant ar ddeupen y sbectrwm oedran, ac mae costau ar gyfer clybiau ar ôl ysgol wedi codi 15%, ond ni chafwyd unrhyw arian ychwanegol.

Minister, with the statistics in relation to gender inequality—and I know that this forms part of your brief as well—and with the stark figures that I have just outlined, it is no wonder that women are going into part-time, low-paid jobs. The reality is that they cannot access or find childcare that would allow them to take up more highly skilled and higher-paid jobs. When I was a lone parent working in north Wales, I knew that, for example, there was no appropriate childcare provision in the area where I lived that could allow me to work during the school holidays. There was an after-school club and there was a breakfast club at the school, which helped during term time, but it was not present in the school holidays. The provision that was there from the local authority required me to go and pick my child up at lunchtime and give them lunch, which meant that I could not go to work, effectively. I did go to work, but I had to find another way around it.

Weinidog, gyda'r ystadegau mewn perthynas ag anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod—a gwn fod hyn yn rhan o'ch briff hefyd—a chyda'r ffigurau moel rwyf newydd eu hamlinellu, nid yw'n syndod bod menywod yn mynd i mewn i swyddi rhan-amser, cyflog isel. Y realiti yw na allant gael mynediad at neu ddod o hyd i ofal plant a fyddai'n eu galluogi i ymgymryd â swyddi mwy medrus sy'n talu cyflog uwch. Pan oeddwn yn unig riant yn gweithio yn y Gogledd, rwy'n gwybod, er enghraifft, nad oedd unrhyw ddarpariaeth gofal plant addas yn yr ardal lle rwy'n byw a oedd yn fy ngalluogi i weithio yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd clwb ar ôl ysgol ac roedd clwb brecwast yn yr ysgol, a oedd yn helpu yn ystod y tymor, ond nid oeddent ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol. O ran darpariaeth yr awdurdod lleol, roedd yn ofynnol i mi gasglu fy mhlentyn amser cinio a rhoi cinio iddo, a oedd yn golygu na allwn fynd i'r gwaith, i bob diben. Llwyddais i fynd i'r gwaith, ond bu'n rhaid i mi ddod o hyd i ffordd arall o'i amgylch.

In Iceland, 90% of children aged between one and five attend day care and most of the local municipalities contribute up to 85% of the operating cost of kindergartens. The scenario that I have detailed in my earlier submissions is difficult enough in a two-parent family earning the average wage or above, but, as we know, there are large numbers of parents who are not in this position. They may be lone parents or on the minimum wage or only working part time. The high cost of childcare clearly creates a barrier to women entering the workplace once they have had a child and it makes them potentially more reliant on Government support.

Yng Ngwlad yr Iâ, mae 90% o blant rhwng un a phump oed yn mynychu gofal dydd ac mae'r rhan fwyaf o'r bwrdeistrefi lleol yn cyfrannu hyd at 85% tuag at gostau gweithredu ysgolion meithrin. Mae'r sefyllfa a ddisgrifiais yn fy nghyflwyniadau cynharach yn ddigon anodd mewn teulu dau riant sy'n ennill y cyflog cyfartalog neu uwch, ond, fel y gwyddom, mae llawer iawn o rieni nad ydynt yn y sefyllfa hon. Efallai eu bod yn rhieni unigol neu eu bod yn ennill yr isafswm cyflog neu eu bod yn gweithio'n rhan-amser. Mae'n amlwg bod cost uchel gofal plant yn creu rhwystr i fenywod sy'n dychwelyd i'r gweithle ar ôl cael plentyn ac mae'n golygu eu bod yn fwy dibynnol ar gymorth y Llywodraeth o bosibl.

I have followed the campaigns that Chwarae Teg has run, highlighting this issue closely. It has called for affordable and accessible childcare to be available to all parents in Wales and for new and innovative methods of delivering this service to be explored. Its manifesto states that the need to make childcare more flexible and affordable as well as ensuring that childcare meets both the economic needs of the parents and the educational needs of the child. I would also like to praise the work undertaken by Gingerbread, a UK-based charity that offers expert advice and support to single parents across the UK. Charities like this help signpost parents, particularly lone parents, to where help and assistance is available. Chwarae Teg, as an employer, provides childcare vouchers, which can help meet some of the childcare costs and make it more feasible for women to re-enter the workforce. I know that other companies do similar things and there are tax incentives for the employer in doing so. It is a scheme that I would like to see being made more use of and promoted better so that as many parents as possible can have the opportunity to take advantage of it.

Rwyf wedi dilyn ymgyrchoedd Chwarae Teg sy'n tynnu sylw at y mater hwn yn fanwl. Mae wedi galw am sicrhau bod gofal plant fforddiadwy a hygyrch ar gael i bob rhiant yng Nghymru ac am archwilio i ddulliau newydd ac arloesol o ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae maniffesto Chwarae Teg yn datgan bod angen sicrhau bod gofal plant yn fwy hyblyg a fforddiadwy yn ogystal â sicrhau bod gofal plant yn diwallu anghenion economaidd y rhieni ac anghenion addysgol y plentyn. Hefyd, hoffwn ganmol y gwaith sydd wedi'i wneud gan Gingerbread, elusen yn y DU sy'n cynnig cyngor a chymorth arbenigol i rieni unigol ledled y DU. Mae elusennau fel hyn yn helpu i gyfeirio rhieni, yn enwedig rhieni sengl, i'r help a'r cymorth sydd ar gael. Mae Chwarae Teg, fel cyflogwr, yn darparu talebau gofal plant, sy'n gallu helpu i dalu am rai costau gofal plant a'i gwneud yn fwy ymarferol i fenywod ddychwelyd i'r gweithlu. Gwn fod cwmnïau eraill yn gwneud pethau tebyg a bod cymhellion treth i gyflogwyr wneud hyn. Byddwn yn hoffi gweld y cynllun hwn yn cael ei ddefnyddio mwy a'i hyrwyddo'n well fel bod cynifer o rieni â phosibl yn cael y cyfle i fanteisio arno.

I am aware that there are issues with the child tax credit system. It was a very good idea but, unfortunately, the maladministration in child tax credits, which over the last decade has seen £5.6 billion of overpaid child credits by HMRC to individuals, and the fact that much of this money has been written off, has had a severe impact on the wider perception of those who need to claim these credits. In times of financial struggle for the UK Government, the Welsh Government and households, to see so much money wasted and at times written off will obviously leave that negative perception, and it has hugely damaged what was otherwise potentially a very good idea.

Rwy’n ymwybodol bod problemau gyda'r system credyd treth plant. Roedd yn syniad da iawn, ond, yn anffodus, mae'r camweinyddu mewn credydau treth plant, a olygodd fod gwerth £5.6 biliwn o gredydau treth wedi’i ordalu gan CThEM i unigolion dros y degawd diwethaf, a'r ffaith fod llawer o'r arian hwn wedi’i ddileu, wedi cael effaith ddifrifol ar ganfyddiad ehangach y rhai sydd angen hawlio’r credydau hyn. Mewn cyfnodau o frwydr ariannol i Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a chartrefi, mae’n amlwg y bydd gweld cymaint o arian yn cael ei wastraffu ac ar adegau yn cael ei ddileu yn arwain at ganfyddiad negyddol, ac mae wedi gwneud niwed mawr i’r hyn a oedd fel arall yn syniad da iawn o bosibl.

The Westminster Government has had to take some tough decisions in trying to get this money paid back in its efforts to rebalance the books. Chwarae Teg also mentioned the important issue of changing perceptions that women are carers first and earners second. I have no doubt that you will be aware, Minister, of the HeForShe campaign that is gathering pace and was launched at the United Nations just two days ago. Here in Wales, we have seen the gender pay gap rise to, in some cases, a 35% difference between the median earnings of men and women, particularly in relation to part-time work. Earlier ONS figures on the gender pay gap showed a 16% difference, with average male pay at £11.70 per hour and women’s average pay at £9.77. This is not acceptable. You could do something through Investors in People and make sure that companies that do not adhere to the legislation or do not pay women equally with men do not get Welsh Government contracts.

Mae Llywodraeth San Steffan wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd wrth geisio sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei dalu yn ôl mewn ymdrech i ail-fantoli’r cyfrifon. Cyfeiriodd Chwarae Teg hefyd at y mater pwysig o newid canfyddiadau bod menywod yn ofalwyr yn gyntaf ac yn enillwyr cyflog yn ail. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y byddwch yn ymwybodol, Weinidog, o’r ymgyrch HeForShe sy’n mynd o nerth i nerth ar ôl cael ei lansio yn y Cenhedloedd Unedig dim ond deuddydd yn ôl. Yma yng Nghymru, rydym wedi gweld y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn codi, mewn rhai achosion, nes bod 35% o wahaniaeth rhwng enillion canolrif dynion a menywod, yn enwedig mewn swyddi rhan-amser. Dangosodd ffigurau blaenorol y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wahaniaeth o 16%, gyda chyflog cyfartalog dynion yn £11.70 yr awr a chyflog cyfartalog menywod yn £9.77. Nid yw hyn yn dderbyniol. Gallech wneud rhywbeth drwy Buddsoddwyr mewn Pobl a sicrhau bod cwmnïau nad ydynt yn cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth neu nad ydynt yn talu cyflog cyfartal i fenywod a dynion yn cael contractau gan Lywodraeth Cymru.

It is argued that this is as a result of more women working part-time hours to fit around childcare arrangements. While this is not a deliberate effort by employers to pay women less, the nature of the jobs that they can undertake can lead to lower scales of pay. If we can change the perceptions as to who the main carer is, then, over time, we can narrow or even eradicate this pay gap. Drawing comparisons with Iceland again, it has the highest percentage of women in the labour force of all the OECD countries. If a small country like Iceland can do it, why can we not?

Y ddadl yw bod hyn wedi deillio o’r ffaith fod mwy o fenywod yn gweithio oriau rhan-amser i gyd-fynd â threfniadau gofal plant. Er nad yw hyn yn ymdrech fwriadol gan gyflogwyr i dalu llai i fenywod, gall natur y swyddi y gallant ymgymryd â hwy arwain at raddfeydd cyflog is. Os gallwn newid y canfyddiadau o safbwynt pwy yw'r prif ofalwr, yna, dros amser, gallwn leihau neu hyd yn oed ddileu'r bwlch cyflog hwn. Gan dynnu cymariaethau â Gwlad yr Iâ eto, mae gan y wlad honno’r ganran uchaf o fenywod yn y gweithlu yn holl wledydd yr OECD. Os yw gwlad fach fel Gwlad yr Iâ yn gallu gwneud hyn, pam na allwn ni?

I also want to touch on the challenges surrounding childcare in rural areas. Last year, the Wales Rural Observatory’s rural services survey found that, in rural Wales, 49% of communities did not have access to out-of-school groups and that the majority of communities in rural Wales with populations of below 1,000 people had no nursery provision at all. This highlights the problem that families living outside towns and cities face in funding childcare, and it also highlights the gaps in your provision—if you look at your programmes, such as Communities First and others, they tend to be concentrated in urban areas and not rural areas. There is poverty, deprivation and lone parenthood in rural areas, and you need to be looking at this issue and addressing it.

Rwyf am gyfeirio hefyd at yr heriau yn ymwneud â gofal plant mewn ardaloedd gwledig. Y llynedd, canfu arolwg gwasanaethau gwledig Arsyllfa Wledig Cymru nad oedd gan 49% o gymunedau cefn gwlad Cymru fynediad at grwpiau y tu allan i oriau ysgol ac nad oedd gan y rhan fwyaf o gymunedau yng nghefn gwlad Cymru â phoblogaeth o lai na 1,000 o bobl unrhyw ddarpariaeth meithrinfa o gwbl. Mae hyn yn dangos y broblem o dalu am ofal plant sy’n wynebu teuluoedd sy'n byw y tu allan i drefi a dinasoedd, ac mae hefyd yn tynnu sylw at y bylchau yn eich darpariaeth—os ydych yn edrych ar eich rhaglenni, fel Cymunedau yn Gyntaf ac eraill, maent yn tueddu i gael eu crynhoi mewn ardaloedd trefol ac nid ardaloedd gwledig. Mae tlodi, amddifadedd a rhieni unigol mewn ardaloedd gwledig, ac mae angen i chi edrych ar y mater hwn a rhoi sylw iddo.

I accept that there are closer-knit communities in rural Wales and that there is the potential to have a local family network. Sixty per cent of the respondents stated that they lived within 5 miles of their families. However, you cannot assume that grandparents, or other members of the family, will play a role in childcare arrangements.

Rwy’n derbyn bod cymunedau mwy clòs yng nghefn gwlad Cymru a bod potensial ar gyfer rhwydwaith teulu lleol. Dywedodd chwe deg y cant o'r rhai a ymatebodd eu bod yn byw o fewn 5 milltir i'w teuluoedd. Fodd bynnag, ni allwch gymryd yn ganiataol y bydd neiniau a theidiau, neu aelodau eraill o'r teulu, yn cymryd rhan mewn trefniadau gofal plant.

I do not pretend to have the answers to this issue. Governments of all political hues have failed to deal with it and ensure that there is a correct balance in helping to create the conditions for affordable childcare and removing some of the barriers facing women who are re-entering the workplace after having children.

Nid wyf yn honni bod gennyf yr atebion i'r mater hwn. Mae Llywodraethau o bob lliw gwleidyddol wedi methu â mynd i’r afael ag ef a sicrhau bod cydbwysedd cywir wrth helpu i greu'r amodau ar gyfer gofal plant fforddiadwy a dileu rhai o'r rhwystrau sy'n wynebu menywod sy'n dychwelyd i'r gweithle ar ôl cael plant.

Progress has been made across the UK in recent years, with laws surrounding flexible working, greater paternity leave and other child-friendly policies. However, we still have a long way to go. Here in Wales, the free breakfast scheme and the Flying Start scheme have made some impact in addressing the problems that I have highlighted, but clearly not in rural areas and the other areas that I highlighted earlier.

Mae cynnydd wedi'i wneud ledled y DU dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chyfreithiau yn ymwneud â gweithio hyblyg, mwy o absenoldeb tadolaeth a pholisïau eraill sy’n ystyriol o blant. Fodd bynnag, mae gennym ffordd bell i fynd. Yma yng Nghymru, mae'r cynllun brecwast am ddim a chynllun Dechrau'n Deg wedi cael rhywfaint o effaith ar fynd i'r afael â'r problemau rwyf wedi tynnu sylw atynt, ond yn amlwg nid mewn ardaloedd gwledig nac yn yr ardaloedd eraill y cyfeiriais atynt yn gynharach.

The Westminster Government has, obviously, taken the step recently of trying to address the issue of affordable childcare. However, often, single parents or the low paid slip through the net. In last year’s budget, a £2,000-a-year payment through the tax system to help pay for childcare was announced for those earning under a certain amount. However, it is only open to families where two parents work; that is wrong. I am sorry—I appreciate that it is my party, and I appreciate that it is my Government, as it were, but it is wrong. If you are a lone parent, you should qualify for that support. In England, an additional two and a half hours a week of free early years schooling has been introduced, with pledges from other parties to extend this further should they be in Government. All of these things, no doubt, will help, but there is still much further to go.

Mae Llywodraeth San Steffan, yn amlwg, wedi cymryd y cam yn ddiweddar o geisio mynd i'r afael â mater gofal plant fforddiadwy. Fodd bynnag, yn aml, mae rhieni unigol neu rieni ar gyflog isel yn dianc drwy'r rhwyd. Yng nghyllideb y llynedd, cyhoeddwyd taliad o £2,000 y flwyddyn drwy'r system dreth i helpu i dalu am ofal plant ar gyfer y rhai sy'n ennill llai na swm penodol. Fodd bynnag, dim ond darpariaeth i deuluoedd lle mae dau riant yn gweithio ydyw; mae hynny'n anghywir. Rwy’n flin—rwy’n deall mai fy mhlaid i sy’n gyfrifol ac rwy’n sylweddoli mai fy Llywodraeth i sy’n gyfrifol, mae’n debyg, ond mae hyn yn anghywir. Os ydych yn rhiant unigol, dylech fod yn gymwys am y cymorth hwnnw. Yn Lloegr, mae dwy awr a hanner yr wythnos ychwanegol o addysg blynyddoedd cynnar am ddim wedi cael ei gyflwyno, gydag addewidion o bleidiau eraill i estyn hyn ymhellach os byddant mewn grym. Bydd pob un o'r pethau hyn, yn siŵr o helpu, ond mae ffordd llawer pellach i fynd.

I am certain that affordable childcare will play a central role in upcoming election manifestos, but we need action from the Welsh Government, Minister, to meet the needs of those struggling to access affordable childcare. There is the legal obligation on local authorities, and I would urge the Welsh Government to ensure that we support local authorities in delivering on their legal obligations to provide appropriate childcare. We need to do that from an equality standpoint and a sustainability standpoint, and, in particular, to support those who are lone parents and on the lowest incomes back into the workplace. Thank you.

Rwy’n sicr y bydd gofal plant fforddiadwy yn chwarae rhan ganolog yn y maniffestos etholiadol sydd ar ddod, ond mae arnom angen i Lywodraeth Cymru weithredu, Weinidog, i ddiwallu anghenion y rhai sy'n ei chael yn anodd cael gafael ar ofal plant fforddiadwy. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau lleol, a byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn cefnogi awdurdodau lleol o ran cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol i ddarparu gofal plant priodol. Mae angen inni wneud hynny o safbwynt cydraddoldeb a chynaliadwyedd, ac, yn benodol, i gefnogi'r rhai sy’n rhieni unigol ac ar yr incwm isaf yn ôl i'r gweithle. Diolch.

18:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to reply to the debate—Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ymateb i'r ddadl—Lesley Griffiths.

18:14 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I thank Antoinette Sandbach for highlighting the importance of childcare as an enabler for parents to access work. Ensuring the availability of affordable and high-quality childcare is a key priority for the Welsh Government and is fundamental to the tackling poverty agenda here in Wales. A great deal of work has been undertaken, and I will outline the variety of schemes and programmes that we have during my response on behalf of the Welsh Government.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Diolchaf i Antoinette Sandbach am dynnu sylw at bwysigrwydd gofal plant fel galluogwr ar gyfer mynediad rhieni at waith. Mae sicrhau argaeledd gofal plant o ansawdd uchel sy’n fforddiadwy yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru ac mae'n sylfaenol i'r agenda trechu tlodi yma yng Nghymru. Mae llawer iawn o waith wedi ei wneud, a byddaf yn amlinellu amrywiaeth o gynlluniau a rhaglenni sydd gennym yn ystod fy ymateb ar ran Llywodraeth Cymru.

Evidence tells us that employment provides the most sustainable route out of living in poverty, and, for families with children, childcare is essential to enabling and supporting parents into not just work but to encourage them to go into education and training. By making childcare more accessible, affordable and flexible, we make it easier for parents to access jobs and opportunities. Our tackling poverty action plan, ‘Building Resilient Communities’, recognises the role childcare can play, in terms of reducing the number of families living in low income households and improving the outcomes of young children.

Mae tystiolaeth yn dweud wrthym mai cyflogaeth yw’r llwybr mwyaf cynaliadwy ar gyfer dianc rhag tlodi, ac, i deuluoedd â phlant, mae gofal plant yn hanfodol er mwyn galluogi a chynorthwyo rhieni i mewn i fyd gwaith yn ogystal â’u hannog i lwybrau addysg a hyfforddiant. Trwy wneud gofal plant yn fwy hygyrch, fforddiadwy a hyblyg, rydym yn ei gwneud yn haws i rieni gael mynediad at swyddi a chyfleoedd. Mae ein cynllun gweithredu i drechu tlodi, 'Creu Cymunedau Cryf', yn cydnabod y rôl y gall gofal plant ei chwarae, o ran lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel a gwella canlyniadau plant ifanc.

‘Building a Brighter Future’, our early years and childcare plan, which we published in 2013, sets out a number of actions to improve the affordability, accessibility and quality of childcare. We published our first annual update on progress in the summer, and we have already made a great deal of progress against a number of actions and are continuing to drive forward progress on others. For example, we have published rapid research into the needs of parents working atypical hours and who have disabled children. The review of early years registration, regulation and inspection is now complete, and we are consulting on proposed changes to childcare sufficiency assessments and the draft 10-year early years workforce plan.

Mae 'Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair', ein cynllun blynyddoedd cynnar a gofal plant, a gyhoeddwyd gennym yn 2013, yn nodi nifer o gamau gweithredu i wella fforddiadwyedd, hygyrchedd ac ansawdd gofal plant. Cyhoeddwyd ein diweddariad blynyddol cyntaf ar gynnydd yn yr haf, ac rydym eisoes wedi gwneud llawer iawn o gynnydd yn erbyn nifer o gamau gweithredu ac yn parhau i hyrwyddo cynnydd ar eraill. Er enghraifft, rydym wedi cyhoeddi ymchwil sydyn i anghenion rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol ac sydd â phlant anabl. Mae'r adolygiad o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu’r blynyddoedd cynnar wedi'i gwblhau erbyn hyn, ac rydym yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i asesiadau digonolrwydd gofal plant a'r cynllun 10 mlynedd drafft ar gyfer gweithlu’r blynyddoedd cynnar.

Affordable and high-quality childcare provision in Wales is a key element of our strategic equality plan, which recognises the role childcare plays in enabling and supporting women to enter and progress in the workplace. Antoinette Sandbach mentioned a couple of times that local authorities have a duty to provide childcare, and I mentioned in my question session this afternoon that they have undertaken their own assessments, and they have identified where the gaps are. It is up to them to correct that and provide the childcare that is needed in their local area, and, as a Government, we support and help local authorities to do that.

Mae darpariaeth gofal plant fforddiadwy ac o ansawdd uchel yng Nghymru yn elfen allweddol yn ein cynllun cydraddoldeb strategol, sy'n cydnabod y rôl y mae gofal plant yn ei chwarae i alluogi a chefnogi menywod i fynd i mewn i’r gweithle a gwneud cynnydd. Bu i Antoinette Sandbach grybwyll sawl gwaith ei bod yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gofal plant, ac rwy’n crybwyll yn fy sesiwn gwestiynau y prynhawn yma eu bod wedi cynnal eu hasesiadau eu hunain, ac maent wedi nodi ble mae'r bylchau. Nhw sydd i gywiro hynny a darparu'r gofal plant sydd ei angen yn eu hardal leol, ac, fel Llywodraeth, rydym yn cefnogi ac yn helpu awdurdodau lleol i wneud hynny.

In-work poverty is a growing issue in Wales, and evidence suggests that this issue tends to be concentrated in families working part time. Supporting second earners into work is essential to reduce in-work poverty, and I have always believed that childcare is a key policy lever that we have as a Government. There are some levers that we do not have in this area, but childcare is one that we have to enable this to happen.

Mae tlodi mewn gwaith yn broblem sy'n tyfu yng Nghymru, ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod hyn yn fater sy’n dueddol o fod yn amlwg mewn teuluoedd sy'n gweithio’n rhan-amser. Mae cefnogi ail enillwyr i mewn i waith yn hanfodol er mwyn lleihau tlodi mewn gwaith, ac rwyf bob amser wedi credu bod gofal plant yn ddull allweddol o gyflawni polisi sydd gennym fel Llywodraeth. Mae rhai dulliau nad oes gennym yn y maes hwn, ond mae gofal plant yn un sydd ar gael i ni alluogi i hyn ddigwydd.

We recognise that more needs to be done to ensure that childcare provision supports those with non-traditional working patterns, such as evening and weekend work. In June, we published research into the childcare needs of parents working non-traditional hours, which found that problems facing parents in general in accessing childcare are exacerbated for those who have to work different hours.

Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth gofal plant yn cefnogi'r rhai sydd â phatrymau gwaith anhraddodiadol, fel gwaith gyda'r nos ac ar benwythnosau. Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd ymchwil i anghenion gofal plant rhieni sy'n gweithio oriau anhraddodiadol, a gwelodd fod y problemau y mae rhieni'n eu cael yn gyffredinol wrth gael gafael ar ofal plant yn llawer gwaeth i'r rhai sy'n gorfod gweithio oriau gwahanol.

The research also found that those working atypical hours tended to be working in low-income jobs and that problems facing families in accessing childcare were worse for lone parents, and it was good to hear you criticise your own UK Government on that policy.

Canfu'r ymchwil hefyd fod pobl sy'n gweithio oriau annodweddiadol yn tueddu i fod yn gweithio mewn swyddi incwm isel a bod y problemau y mae teuluoedd yn eu hwynebu wrth gael gafael ar ofal plant yn waeth ar gyfer rhieni unigol, ac roedd yn dda eich clywed yn beirniadu eich Llywodraeth eich hun yn San Steffan ynglŷn â'r polisi hwnnw.

In these challenging financial times, the Welsh Government has to prioritise resources. You said yourself, Antoinette, that the UK Government has to take some difficult decisions around working tax credits. My constituents are very unhappy with those decisions taken. You will also know that our budget has been cut by £1.7 billion over this term, and I only have the money that I have, and I can only give that money out. We recognise, if we had more money, childcare would be an area that we would put more funding into. However, clearly, I want to make the absolute best of our schemes; think about our free breakfast club initiative, which is providing very welcome childcare for many of our constituents.

Yn y cyfnod ariannol heriol hwn, mae Llywodraeth Cymru yn gorfod blaenoriaethu adnoddau. Dywedasoch eich hun, Antoinette, fod Llywodraeth y DU wedi cymryd rhai penderfyniadau anodd ynghylch credydau treth gwaith. Mae fy etholwyr yn anhapus iawn gyda'r penderfyniadau hynny. Byddwch hefyd yn gwybod bod ein cyllideb wedi cael ei dorri gan £1.7 biliwn yn ystod y tymor hwn, a dim ond yr arian hynny sydd gennyf, a dim ond yr arian hwnnw y gallaf ei ddosbarthu. Rydym yn cydnabod, pe bai gennym fwy o arian, y byddai gofal plant yn faes y byddem yn rhoi mwy o arian iddo. Fodd bynnag, yn amlwg, rwyf am wneud y gorau posibl o'n cynlluniau; meddyliwch am ein menter clwb brecwast am ddim, sy'n darparu gofal plant mawr ei angen i lawer o'n hetholwyr.

We are clear about the need to focus developments on households in, or at risk of, poverty, and that means that we are looking hard at what more we can do to support parents in accessing work and working additional hours when they want to. Taking households out of poverty involves not only access to work but, often, an increase in the number and financial value of the hours worked by adults in those households. Childcare provision, particularly wraparound childcare provision, is, therefore, important, particularly for low-income families.

Rydym yn glir ynghylch yr angen i ganolbwyntio datblygiadau ar gartrefi mewn tlodi, neu mewn perygl o dlodi, ac mae hynny'n golygu ein bod yn edrych yn fanwl ar beth arall y gallwn ei wneud i gefnogi rhieni i gael mynediad at waith a gweithio oriau ychwanegol pan fyddant yn dymuno gwneud hynny. Mae dwyn aelwydydd allan o dlodi yn golygu cael mynediad at waith a hefyd yn aml, cynnydd yn y nifer a gwerth ariannol yr oriau a weithir gan oedolion yr aelwydydd hynny. Felly, mae'r ddarpariaeth gofal plant, yn enwedig darpariaeth gofal plant wedi'i theilwra yn bwysig, yn enwedig ar gyfer teuluoedd incwm isel.

Given the links between childcare and a number of other ministerial portfolios, and taking account of the very serious financial position that we face in Wales, the Minister for Finance and Government Business is also looking across Government, at all portfolios, at how the issues of affordability and accountability can best be addressed, using, where possible, our existing resources.

O ystyried y cysylltiadau rhwng gofal plant a nifer o bortffolios gweinidogol eraill, a chan ystyried y sefyllfa ariannol ddifrifol iawn sy'n ein hwynebu yng Nghymru, mae Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth hefyd yn edrych ar draws y Llywodraeth, ym mhob portffolio, ar y modd y gellir orau fynd i'r afael â materion fforddiadwyedd ac atebolrwydd, gan ddefnyddio, lle bo modd, ein hadnoddau presennol.

We are also committed to our 'Building a Brighter Future' commission, which is an independent review of childcare and early education registration regulation and inspection. You will be aware that that was led by Professor Karen Graham from Glyndŵr University in Wrexham, and the report was published last month.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i'n comisiwn 'Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair', sef adolygiad annibynnol o reoleiddio ac arolygu cofrestru gofal plant ac addysg gynnar. Byddwch yn ymwybodol bod hynny'n cael ei arwain gan yr Athro Karen Graham o Brifysgol Glyndŵr yn Wrecsam, a chyhoeddwyd yr adroddiad y mis diwethaf.

We recognise the importance of having effective regulatory and inspection arrangements in place that drive improvements in childcare, learning and wellbeing outcomes for children. The report made several recommendations, which we are now considering. These recommendations related to the workforce and are being considered as part of our ambitious, long-term vision for the early years workforce in Wales. Members will be aware that, this week, we launched a consultation on a draft 10-year plan for early years childcare and play workforce, because we know that high-quality early education and childcare leads to much better outcomes for children, particularly those from disadvantaged backgrounds. We want our early years, childcare and play practitioners to be equipped to provide the best possible support for children so that they can encourage them to fulfil their full potential.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cael trefniadau rheoleiddio ac arolygu effeithiol ar waith sy'n gyrru gwelliannau mewn gofal plant, dysgu a chanlyniadau lles i blant. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion, rydym yn awr yn eu hystyried. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â'r gweithlu ac yn cael eu hystyried fel rhan o'n gweledigaeth uchelgeisiol, hirdymor ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol ein bod, yr wythnos hon, yn lansio ymgynghoriad ar gynllun 10 mlynedd drafft ar gyfer gweithlu gofal plant a chwarae'r blynyddoedd cynnar, oherwydd gwyddom fod addysg gynnar a gofal plant o ansawdd uchel yn arwain at lawer gwell canlyniadau i blant, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Rydym am i'n hymarferwyr blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae fod yn barod i roi'r cymorth gorau posibl i blant er mwyn iddynt eu hannog i gyflawni eu llawn botensial.

Antoinette Sandbach mentioned that a proportion—I think that 10% was the figure you mentioned—of people cannot find childcare practitioners whom they can trust. Certainly, as a mother myself, I always felt that to leave your most treasured possession with childcare providers, you needed to have that trust in them. That plan is one way in which we can help our practitioners to gain those skills and also to build the workforce capacity that we need as we go forward. We have many dedicated practitioners in Wales already, but it is important that we encourage and help them to hone those skills and undertake that professional development as they go into their careers and beyond.

Bu i Antoinette Sandbach grybwyll bod cyfran o bobl—10% oedd y ffigur a nodwyd mi gredaf—na all ddod o hyd i ymarferwyr gofal plant y gallant ymddiried ynddynt. Yn sicr, fel mam fy hun, rwyf bob amser yn teimlo wrth adael eich eiddo mwyaf gwerthfawr gyda darparwyr gofal plant, angen i chi gael ymddiriedaeth lwyr ynddynt. Mae’r cynllun hwnnw’n un ffordd y gallwn ni helpu ein hymarferwyr i ennill y sgiliau hynny a hefyd i adeiladu gweithlu digonol wrth inni symud ymlaen. Mae gennym nifer o ymarferwyr ymroddedig yng Nghymru eisoes, ond mae'n bwysig ein bod yn eu hannog a’u helpu i hogi’r sgiliau hynny ac ymgymryd â datblygiad proffesiynol wrth iddynt ddilyn eu gyrfaoedd a thu hwnt.

Officials in the Department for Economy, Science and Transport are taking forward a range of actions contained in ‘Building a Brighter Future’ to develop the childcare market in Wales. This includes the delivery of a number of childcare pilot projects, working with local authorities, once again, and private sector childcare providers, to assess need and capacity in their areas. Since January this year, Carmarthenshire, Denbighshire, Newport and Neath Port Talbot have been undertaking pilot projects to look at how they can improve flexibility in their foundation phase offer. Each authority has been allocated £100,000 to undertake the pilot projects, which will end next August. They will be evaluated and will help to shape future decisions in relation to the greater flexibility of the foundation phase.

Mae swyddogion yn Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn bwrw ymlaen ag ystod o gamau gweithredu a gynhwysir yn 'Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair' i ddatblygu'r farchnad gofal plant yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno nifer o brosiectau peilot gofal plant, gan weithio gydag awdurdodau lleol, unwaith eto, a darparwyr gofal plant yn y sector preifat, i asesu angen a gallu yn eu hardaloedd. Ers mis Ionawr eleni, mae Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Casnewydd a Chastell-nedd Port Talbot wedi bod yn cynnal prosiectau peilot i edrych ar sut y gallant wella hyblygrwydd yn eu cynnig cyfnod sylfaen. Mae pob awdurdod wedi cael £100,000 i ymgymryd â'r prosiectau peilot, a fydd yn dod i ben fis Awst nesaf. Byddant yn cael eu gwerthuso a byddant yn helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol mewn perthynas â chynnydd yn hyblygrwydd y cyfnod sylfaen.

We are also looking at the uptake of Flying Start childcare sessions and trying to overcome issues relating to uptake and unauthorised absences in this area. Once again, there will be some pilot projects commencing in the autumn, with a number of local authorities trying to bring forward different approaches.

Rydym hefyd yn edrych ar y nifer sy'n manteisio ar sesiynau gofal plant Dechrau'n Deg ac yn ceisio goresgyn materion yn ymwneud â niferoedd defnyddwyr ac absenoldeb anawdurdodedig yn y maes hwn. Unwaith eto, bydd rhai prosiectau peilot yn dechrau yn yr hydref, gyda nifer o awdurdodau lleol yn ceisio cyflwyno dulliau gwahanol.

An out-of-school childcare grant, totalling £2.3 million per year, has been made available to local authorities since 2012, and that helps them to provide wraparound childcare outside school hours and during holiday periods. In line with Welsh Government priorities, local authorities have focused on offering out-of-school childcare, including holiday play schemes for children from low-income families and children with specific needs.

Mae grant gofal plant y tu allan i'r ysgol, sef cyfanswm o £2.3 miliwn y flwyddyn, wedi’i ddarparu i awdurdodau lleol ers 2012, ac mae'n eu helpu i ddarparu gofal plant wedi’i deilwra y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod cyfnodau gwyliau. Yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, mae awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar gynnig gofal plant y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys cynlluniau chwarae yn y gwyliau i blant o deuluoedd incwm isel a phlant ag anghenion penodol.

We are also in the process of developing a bid for European funding to help to move parents into work where childcare is a significant barrier. The proposed target audience is parents living in workless households, lone parents and also potential second earners. Targeting these parents would support families to find a route out of poverty by helping them into sustainable employment.

Rydym hefyd yn y broses o ddatblygu cais am arian Ewropeaidd i helpu i symud rhieni i mewn i waith lle mae gofal plant yn rhwystr sylweddol. Y gynulleidfa darged arfaethedig yw rhieni sy'n byw mewn cartrefi di-waith, rhieni unigol a hefyd darpar ail enillwyr. Byddai targedu'r rhieni hyn yn cefnogi teuluoedd i ddod o hyd i ffordd allan o dlodi drwy eu helpu i mewn i gyflogaeth gynaliadwy.

There is also a range of childcare subsidies available at a UK level, which can support parents with the costs of childcare, which you referred to. While that additional support is welcome—we have universal credit, and the Department for Work and Pensions is expecting more parents to become eligible for support with childcare costs—we have to set it in the context of the wider welfare reforms that the UK Government is bringing forward, because, once again, they are hitting families that are already struggling to make ends meet.

Mae yna hefyd amrywiaeth o gymorthdaliadau gofal plant sydd ar gael ar lefel y DU, sy'n gallu cefnogi rhieni gyda chostau gofal plant, y cyfeiriasoch atynt. Er bod cymorth ychwanegol i'w groesawu—mae gennym gredyd cynhwysol, ac mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn disgwyl mwy o rieni i fod yn gymwys i gael cymorth gyda chostau gofal plant—mae'n rhaid i ni osod hyn yng nghyd-destun y diwygiadau lles ehangach y mae Llywodraeth y DU yn eu cyflwyno, oherwydd, unwaith eto, maent yn taro teuluoedd sydd eisoes yn cael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd.

You mentioned pay inequality and, once again, in my question session earlier, you will have heard me refer to my commitment to look at this to try to encourage females in particular. You will have heard me talk about the Girls Make a Difference conference that we held on Monday, at which we heard from some fantastic and inspirational role models, who tried to encourage women to think differently. I should have mentioned that our own chief executive of the National Assembly for Wales, Claire Clancy, was there. She told me that she had had conversations with the young girls, some of whom had a very traditional way of thinking about careers. Hopefully, we will have given them some insight into the different ways of approaching that.

Soniasoch am anghydraddoldeb cyflog ac, unwaith eto, yn fy sesiwn gwestiynau yn gynharach, byddwch wedi fy nghlywed yn cyfeirio at fy ymrwymiad i edrych ar hyn i geisio annog menywod yn arbennig. Byddwch wedi fy nghlywed yn siarad am gynhadledd Mae Merched yn Gwneud Gwahaniaeth a gynhaliwyd gennym ddydd Llun, lle clywsom gan rai modelau rôl arbennig ac ysbrydoledig a oedd yn ceisio annog merched i feddwl yn wahanol. Dylwn fod wedi crybwyll bod ein prif weithredwr ein hunain o'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Claire Clancy, yn bresennol. Dywedodd wrthyf ei bod wedi cael sgyrsiau gyda'r merched ifanc, a bod gan rai ohonynt ffordd draddodiadol iawn o feddwl am yrfaoedd. Gobeithio y byddwn wedi rhoi rhywfaint o ddarlun o'r gwahanol ffyrdd o fynd i'r afael a hynny.

I also acknowledge the vital role that the third sector plays in the support for and the provision of childcare. We are delighted to have awarded the childcare element of the new children and families delivery grant to a new childcare consortium, comprised of the main voluntary sector childcare organisations in Wales.

Rwyf hefyd yn cydnabod y rôl hollbwysig y mae'r trydydd sector yn ei chwarae yn y cymorth ar gyfer gofal plant a darparu gofal plant. Rydym wrth ein bodd ein bod wedi dyfarnu elfen gofal plant y grant plant a theuluoedd newydd i gonsortiwm gofal plant newydd, sy'n cynnwys y prif sefydliadau gofal plant yn y sector gwirfoddol yng Nghymru.

So, I hope that I have described the great deal of work that the Welsh Government has already done. We have many schemes, programmes and support in relation to childcare that we not only support but fund as well. However, it is an issue, as you say, that we will all, I am sure, be looking at in our manifestos as we go forward to the 2016 election.

Felly, rwy'n gobeithio fy mod wedi disgrifio llawer iawn o'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'i wneud. Mae gennym nifer o gynlluniau, rhaglenni a chefnogaeth mewn perthynas â gofal plant yr ydym nid yn unig yn eu cefnogi ond hefyd yn eu hariannu. Fodd bynnag, mae'n fater, fel y dywedwch, y byddwn i gyd, rwy'n siŵr, yn edrych arnynt yn ein maniffestos wrth inni symud ymlaen at etholiad 2016.

18:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. That concludes today's proceedings.

Diolch. Dyna ddiwedd trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:25.*

*The meeting ended at 18:25.*